**Adran y Prif Weithredwr**
**Chief Executive's Department**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**Y CYNGOR**

**THE COUNCIL**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**1.00pm, DYDD IAU, 17 GORFFENNAF 2014**

**1.00pm, THURSDAY, 17 JULY 2014**

Lleoliad / Location

**Siambr Dafydd Orwig**
**Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Eirian Roberts**

**(01286) 679018**

**maireirianroberts@gwynedd.gov.uk**

(DOSBARTHWYD / DISTRIBUTED 11/07/14)

**Harry Thomas**
**Prif Weithredwr / Chief Executive**

www.gwynedd.gov.uk

11 Gorffennaf/July 2014

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – 17 GORFFENNAF 2014**

**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00PM, DYDD IAU** nesaf, **17 GORFFENNAF 2014 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Dear Councillor,

**MEETING OF GWYNEDD COUNCIL – 17 JULY 2014**

**YOU ARE HEREBY SUMMONED** to attend a meeting of **GWYNEDD COUNCIL** which will be held at **1.00PM** on **THURSDAY** next, **17 JULY 2014 in SIAMBR DAFYDD ORWIG, COUNCIL OFFICES, CAERNARFON** to consider the matters mentioned in the following agenda.

Yr eiddoch yn gywir/Yours faithfully,

<u>Prif Weithredwr/Chief Executive</u>

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-
The following rooms will be available for the political groups during the morning:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol/Independent – Siambr Hywel Dda
Llais Gwynedd – Ystafell Gwyrfai
Democratiaid Rhyddfrydol/Liberal Democrats - Ystafell Llyfni
Llafur/Labour – Cefn Siambr Dafydd Orwig/Rear of Siambr Dafydd Orwig

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 1 Mai, 2014 fel rhai cywir (ynghlwm).

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**5. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL**

Derbyn unrhyw ohebiaeth, gyfathrebiadau neu fusnes arall a ddygir gerbron yn arbennig dan gyfarwyddyd y Cadeirydd.

**6. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**7. CYFLWYNO DEISEBAU**

(a) Nodi bod cais i gyflwyno deiseb wedi'i dderbyn gan y Cynghorydd Louise Hughes yn unol â Rheol Gweithdrefn 13.
(b) Nodi bod cais i gyflwyno deiseb wedi'i dderbyn gan y Cynghorydd Stephen Churchman yn unol â Rheol Gweithdrefn 13.

**8. CWESTIYNAU**

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Reol Gweithdrefn 15.

**9. CYFLWYNIAD GAN YR AELOD CABINET CYNLLUNIO**

Derbyn cyflwyniad llafar gan yr Aelod Cabinet Cynllunio.

**10. ADDASU'R POLISI TÂL**

Cyflwyno adroddiad y Darpar Brif Weithredwr (ynghlwm).

**11. Y CYFANSODDIAD NEWYDD**

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

**12. SWYDDOG COFRESTRU ETHOLIADOL / SWYDDOG CANLYNIADAU**

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

**13. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2013/14 (YN YMGORFFORI ADRODDIADAU BLYNYDDOL Y PANEL RHIANT CORFFORAETHOL A'R PANEL STRATEGOL DIOGELU)**

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Statudol a Chyfarwyddwr Corfforaethol yn amgau:-

(a) Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd (ynghlwm).
(b) Adroddiad Blynyddol a Rhaglen Waith 2014-17 y Panel Rhiant Corfforaethol (ynghlwm).
(c) Adroddiad Blynyddol y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion (ynghlwm).

**14. ADRODDIAD BLYNYDDOL GAN Y PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD AR RAN Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD YNG NGHYSWLLT CEFNOGAETH I AELODAU**

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, y Cynghorydd Lesley Day (ynghlwm)

**15. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR**

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Democratiaeth (ynghlwm).

**16. MATER A GYFEIRIWYD O'R PWYLLGOR IAITH - YMGYRCH MYNYDDOEDD PAWB**

(a) Cyflwyno adroddiad y Swyddog Datblygu Iaith a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Iaith ar 26 Mehefin, 2014 (ynghlwm)
(b) Adrodd bod y Pwyllgor Iaith wedi penderfynu fel a ganlyn:-

**PENDERFYNWYD**

**(a) Cyfeirio'r mater i'r Cyngor llawn er mwyn rhoi cryfder gwleidyddol i'r ymgyrch.**
**(b) Cysylltu a'r Cynghorau Cymuned i'w hatgoffa ei bod yn bwysig iddynt hwythau roi eu cefnogaeth i'r ymgyrch.**
**(c) Enwebu Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Iaith i fod yn bresennol yng Nghynhadledd nesaf Mynyddoedd Pawb.**

## 17. CYNLLUN STRATEGOL Y CYNGOR

Cyflwyno adroddiad Arweinydd y Cyngor a'r Pennaeth Strategol a Gwella (ynghlwm).

## 18. RHYBUDD O GYNNIG

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho dan Reol Gweithdrefn 17, bydd y Cynghorydd Alwyn Gruffydd yn cynnig fel a ganlyn:-

**"Bod y Cyngor hwn yn estyn ei ddymuniadau gorau i lywodraeth a phobl yr Alban yn y refferendwm ar annibyniaeth i'w gwlad ym mis Medi, ac mai gobaith y Cyngor hwn yw y bydd canlyniad y refferendwm yn rhoi buddugoliaeth ddi-gwestiwn i'r ymgyrch o blaid rhoi'r hawl i'r Alban sicrhau ei lle ymysg cenhedloedd y byd fel gwlad rydd a dilyffethair."**

Derbyniwyd rhybudd trefniadaethol gan yr aelod hefyd yn unol â Rheol Gweithdrefn 17(12) yn gofyn am gael trafod y mater ar y diwrnod yn hytrach na'i gyfeirio i'r pwyllgor perthnasol.

# AGENDA

## 1. APOLOGIES

To receive any apologies for absence.

## 2. MINUTES

The Chairman shall propose that the minutes of the Annual Meeting of the Council held on 1 May, 2014 be signed as true record (attached).

## 3. DECLARATION OF PERSONAL INTEREST

To receive any declaration of personal interest.

## 4. THE CHAIRMAN'S ANNOUNCEMENTS

To receive any Chairman's announcements.

## 5. CORRESPONDENCE, COMMUNICATIONS OR OTHER BUSINESS

To receive any correspondence, communications or other business brought forward at the request of the Chairman.

## 6. URGENT BUSINESS

To note any items which are urgent business in the opinion of the Chairman so they may be considered.

## 7. PRESENTATION OF PETITIONS

(a) To note that a request to submit a petition has been received from Councillor Louise Hughes in accordance with Procedural Rule 13.

(b) To note that a request to submit a petition has been received from Councillor Stephen Churchman in accordance with Procedural Rule 13.

## 8. QUESTIONS

To consider any questions the appropriate notice for which have been given under Procedural Rule 15.

## 9. PRESENTATION BY THE CABINET MEMBER PLANNING

To receive a verbal presentation by the Cabinet Member Planning.

## 10. ADJUSTMENT TO PAY POLICY

To submit the report of the Chief Executive Designate (attached).

## 11. THE NEW CONSTITUTION

To submit the report of the Monitoring Officer (attached).

## 12. ELECTORAL REGISTRATION OFFICER / RETURNING OFFICER

To submit the report of the Monitoring Officer (attached).

## 13. THE ANNUAL REPORT OF THE STATUTORY DIRECTOR OF SOCIAL SERVICES 2013-14 (INCORPORATING THE ANNUAL REPORTS OF THE CORPORATE PARENT PANEL AND THE SAFEGUARDING STRATEGIC PANEL

To submit the report of the Statutory Director and Corporate Director enclosing:-

(a) The Annual Report of the Gwynedd Statutory Director of Social Services (attached)
(b) The Annual Report and 2014-17 Work Programme of the Corporate Parent Panel (attached)
(c) The Annual Report of the Safeguarding Children and Adults Strategic Panel (attached).

## 14. ANNUAL REPORT FROM THE HEAD OF DEMOCRATIC SERVICES ON BEHALF OF THE DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE WITH REGARDS TO SUPPORT FOR MEMBERS

To submit the report of the Chairman of the Democratic Services Committee, Councillor Lesley Day (attached).

## 15. THE COUNCIL'S POLITICAL BALANCE

To consider the report of the Democracy Manager (attached).

## 16. MATTER REFERRED FROM THE LANGUAGE COMMITTEE – MYNYDDOEDD PAWB CAMPAIGN

(a) To submit the report of the Language Development Officer which was submitted to the Language Committee on 26 June, 2014 (attached).
(b) To report that the Language Committee resolved as follows:-

**RESOLVED**
**(a) To refer the matter to full Council in order to give political strength to the campaign.**
**(b) To contact the Community Councils to remind them that it is important for them also to lend their support to the campaign.**

**(c) To nominate the Chairman and Vice-chairman of the Language Committee to attend the next Mynyddoedd Pawb Conference.**

**17. THE COUNCIL'S STRATEGIC PLAN**

To submit the report of the Council Leader and the Head of Strategic and Improvement (attached).

**18. NOTICE OF MOTION**

In accordance with the notice of motion received under Procedural Rule 17, Councillor Alwyn Gruffydd will propose as follows:

**"That this Council extends its best wishes to the government and people of Scotland in the referendum on independence for their country in September, and that this Council hopes that the result of the referendum will bring unequivocal victory to the campaign to enable Scotland to ensure its place amongst the world's nations as a free and unfettered country."**

The procedural motion was received from the member in accordance with Procedural Rule 17(12) requesting that the matter be discussed on the day instead of being referred to the relevant committee.

# Y CYNGOR, 1.05.14

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Dewi Owen (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Stephen Churchman, Anwen Davies, Lesley Day, Eddie Dogan, Gwynfor Edwards, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, Trevor Edwards, Thomas Ellis, Alan Jones Evans, Jean Forsyth, Gweno Glyn, Simon Glyn, Gwen Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Sian Gwenllian, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Jason Humphreys, Peredur Jenkins, Anne Lloyd Jones, Charles W.Jones, Dyfrig Jones, Elin Walker Jones, Eric Merfyn Jones, John Wynn Jones, Llywarch Bowen Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, Dafydd Meurig, Linda Morgan, Michael Sol Owen, W.Roy Owen, William Tudor Owen, Nigel Pickavance, Peter Read, Caerwyn Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, W.Gareth Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Paul Thomas, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gethin Glyn Williams, Hefin Williams, John Wyn Williams, Owain Williams, R.H.Wyn Williams, Mandy Williams-Davies, Robert J.Wright ac Eurig Wyn.

**Hefyd yn bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Morwena Edwards, Iwan Trefor Jones a Dilwyn Williams (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dilys Phillips (Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol / Swyddog Monitro), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella), Dewi Jones (Pennaeth Addysg), Aled Davies (Pennaeth Rheoleiddio), Alwyn Evans Jones (Pennaeth Adnoddau Dynol), Arwel E.Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Geraint Owen (Uwch Reolwr Adnoddau Dynol), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Darren Griffiths (Rheolwr Cynllunio Strategol) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Endaf Cooke, Aled Evans, Aeron Jones, Brian Jones, Linda Wyn Jones, June Marshall, Chris O’Neal a Gruffydd Williams.

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Selwyn Griffiths.

Nodwyd bod Cyngerdd Elusennol y Cadeirydd, a gynhaliwyd yn Galeri yn ystod mis Mawrth, wedi codi £2,000 tuag at Gymdeithas Alzheimer’s a chyflwynodd y Cynghorydd Huw Edwards, Cadeirydd 2013/14, siec i Carol Anne Jones a Sian Evans o’r Gymdeithas.

Dilynwyd hyn gan anerchiad gan y Cynghorydd Huw Edwards.

## 1. CADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Dewi Owen yn gadeirydd am 2014/15.

Llofnododd y Cynghorydd Dewi Owen ddatganiad yn derbyn y swydd o Gadeirydd Cyngor Gwynedd am 2014/15.

## 2. IS-GADEIRYDD

Cynigiwyd ac eiliwyd dau enw am yr is-gadeiryddiaeth, sef y Cynghorydd Dilwyn Morgan a’r Cynghorydd Dilwyn Lloyd.

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 22(6), cofnodwyd y bleidlais ganlynol.

**O blaid y Cynghorydd Dilwyn Morgan: (44)** Y Cynghorwyr Lesley Day, Eddie Dogan, Gwynfor Edwards, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, Alan Jones Evans, Jean Forsyth, Gwen Griffith, Selwyn Griffiths, Sian Gwenllian, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Peredur Jenkins, Anne Lloyd Jones, Charles W.Jones, Dyfrig Jones, Elin Walker Jones, John Wynn Jones, Beth Lawton, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dewi Owen, Michael Sol Owen, William Tudor Owen, Caerwyn Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, W.Gareth Roberts, Mair Rowlands, Dyfrig Siencyn, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Paul Thomas, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gethin Glyn Williams, Hefin Williams, John Wyn Williams, R.H.Wyn Williams, Mandy Williams-Davies ac Eurig Wyn.

**O blaid y Cynghorydd Dilwyn Lloyd: (16)** Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Anwen Davies, Thomas Ellis, Gweno Glyn, Alwyn Gruffydd, Louise Hughes, Jason Humphreys, Llywarch Bowen Jones, Sion Wyn Jones, Dilwyn Lloyd, Nigel Pickavance, Peter Read, Angela Russell, Mike Stevens, Owain Williams a Robert J.Wright.

**Atal Pleidlais: (3)** Y Cynghorwyr Eric Merfyn Jones, Eryl Jones-Williams a W.Roy Owen.

Etholwyd y Cynghorydd Dilwyn Morgan yn is-gadeirydd am 2014/15.

Llofnododd y Cynghorydd Dilwyn Morgan ddatganiad yn derbyn y swydd o Is-gadeirydd Cyngor Gwynedd am 2014/15.

**3. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 6 Mawrth, 2014 fel rhai cywir.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

Datganodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol fuddiant personol yn eitem 14 ar y rhaglen – Penodi Swyddog Monitro – oherwydd bod yr adroddiad yn cyfeirio ato, a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**5. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

(a) Cydymdeimlad

Cydymdeimlwyd â'r canlynol:-

Y Cynghorydd Nigel Pickavance ar golli ei dad.

Y Cynghorydd Dilwyn Lloyd ar golli ei dad-yng-nghyfraith.

Teulu Mr Ceredig Davies, cyn Brif Swyddog Personél gyda'r cyn Gyngor Sir Gwynedd.

Teulu'r cyn-gynghorydd David Francis Jones.

Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am eraill o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Safodd y Cyngor fel arwydd o barch.

(b) Dymuniadau Gorau

Dymunwyd yn dda i:-

Eisteddfod yr Urdd Meirionnydd ac i ieuenctid y sir ar y cystadlu.

Plant o Wynedd sydd ar ymweliad côr *'Only Kids Aloud'* â Cape Town, De Affrica.

Mari Davies o Gaernarfon, sy'n aelod o Sgwad Nofio Gwynedd, ar gael ei dewis i gystadlu yn y dull rhydd yn y Pencampwriaethau Ieuenctid Ewropeaidd yn yr Iseldiroedd ym mis Gorffennaf, sef yr unig nofiwr o Gymru a ddewiswyd ar gyfer y garfan hon.

(c) Llongyfarchiadau

Llongyfarchwyd:-

Y Cynghorydd Jean Forsyth ar gael ei henwebu'n Faer Bangor.

Y Cynghorydd Selwyn Griffiths ar ddod yn daid eto yn ddiweddar.

Disgyblion Ysgol Pont-y-Gof, Botwnnog oedd wedi bod i lawr i'r Cynulliad ac wedi bod yn llwyddiannus ar eu cyflwyniad yn dilyn mentergarwch yn yr ysgol i greu cynnyrch i werthu.

## 6. CWESTIYNAU

**Cwestiwn gan y Cynghorydd Sion Jones**

"Faint o ddifri' mae'r Aelod Cabinet dros Gynllunio yn cymryd y twf o dai gydol y Cynllun Datblygu Lleol newydd, yn ogystal â gweithio gyda'r Llywodraeth i gael gostyngiad yn y niferoedd o dai ychwanegol?"

**Ateb gan y Cynghorydd John Wyn Williams, Aelod Cabinet Cynllunio**

*(Dosbarthwyd ateb ysgrifenedig yr Aelod Cabinet i'r aelodau yn eu cyfarfodydd grwpiau ar fore'r Cyngor.)*

"'Rwyf o ddifri' a gobeithio bod pob aelod arall o'r Cyngor o ddifri' hefyd oherwydd mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn perthyn i bawb ac mae'n bwysig bod pawb yn cyfrannu tuag at y broses o'r cychwyn i'r diwedd. Mae'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd â Chyngor Môn yn gorff trawsbleidiol gydag aelodau Llafur o Wynedd yn gwasanaethu arno a'r Cadeirydd yn Arweinydd Grŵp Llafur Môn. Nid yw penderfyniadau terfynol ar ffigurau tai yn cael eu gwneud yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol, ond yn hytrach, tua'r diwedd Mae rhagamcanion ynglŷn â dyraniad tai dechreuol yn cael eu gwneud gyda'r dystiolaeth orau sydd ar gael ar y pryd. Wrth i ni dystiolaethu pethau a gwneud ymchwil pellach, mae'r cynllun yn mynd yn ei flaen ac os yw'r dystiolaeth yn newid, gall y ffigurau tai newid. Mae Llywodraeth Cymru yn trafod gyda ni ac yn ein herio drwy'r amser. Os ydynt o'r farn bod y ffigurau yn rhy uchel maent yn ein herio a byddwn yn gobeithio y byddent yn ein herio petai'r ffigurau yn rhy isel hefyd. Maent wedi herio mewn ambell le ar draws y Gogledd, ond hyd y gwn i, nid ydynt wedi herio eu bod yn rhy uchel yn unrhyw le. Os yw'r dystiolaeth sydd gennym yn profi bod angen llai o dai, yna byddwn yn annog hynny. Nid yw aelodau wedi bod yn dda iawn am ddod i'r seminarau a drefnwyd ar baratoi y Cynllun

Datblygu Lleol yn cynnwys materion tai yn y gorffennol a gobeithio y daw pawb i'r gyfres nesaf. Dyma'r cyfle i gael mewnbwn a dylanwad ar y Cynllun Datblygu Lleol a hoffwn i bawb ddod yno a dadlau eu hachos. Ond dylid cofio bod rhaid i'r dystiolaeth i gefnogi y dadleuon fod yn gwbl gadarn."

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Sion Jones**

"Mae llythyr gan gynghorydd Plaid Cymru at aelodau Plaid Cymru yn dweud "mae'n hollol amlwg be sy'n digwydd yn fan hyn yn tydi. Os awn ni rhagddo gyda'r cynllun i godi'r miloedd ychwanegol o dai heb wybod yn union beth yw'r galw lleol mi fyddwn yn peryglu'r ddwy sedd yn yr etholiadau nesaf". Ydi hyn yn gêm wleidyddol gan Blaid Cymru?"

**Ateb gan y Cynghorydd John Wyn Williams, Aelod Cabinet Cynllunio**

"Mae'r unig gêm wleidyddol yn cael ei chwarae gan y Cynghorydd Sion Jones. Nid wyf yn ymwybodol o'r llythyr y cyfeiria ato ac nid wyf yn mynd i ymateb i'w gwestiwn atodol y tu hwnt i ddweud, os yw'r aelod o ddifri' ynglŷn â'r iaith Gymraeg, dylai siarad gyda'r Prif Weinidog, Carwyn Jones, ynglŷn â'r TAN 20 newydd, sy'n wannach na'r un gwreiddiol a ddim yn rhoi unrhyw hawliau i'r iaith Gymraeg. Mae'r Llywodraeth yn ceisio gwneud gêm wleidyddol o'r iaith a'r unig golledwr fydd yr iaith Gymraeg."

**7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma'n berthnasol oherwydd bod yr eitem yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unigolyn penodol a bod gan yr unigolyn hwnnw hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolyn nac yn gofyn am ei adnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig ac yn gorbwyso unrhyw fudd cyhoeddus o'i ddatgelu.**

**8. PENODI PRIF WEITHREDWR**

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion argymhelliad y pwyllgor yn eu cyfarfod ar 29 Ebrill i'r Cyngor benodi ymgeisydd yn Brif Weithredwr.

Nododd hefyd fod y pwyllgor o'r farn y dylid gwahodd yr ymgeisydd i roi'r un cyflwyniad i'r Cyngor llawn ag a wnaeth i'r pwyllgor ac y dylid caniatáu 10 munud o gwestiynau ar y diwedd.

Cynigiodd Cadeirydd y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion y dylid gwahodd yr ymgeisydd i roi cyflwyniad ac fe'i eiliwyd.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i roi cyflwyniad ac ymatebodd i gyfres o gwestiynau gan yr aelodau.

**PENDERFYNWYD penodi Mr Dilwyn Williams yn Brif Weithredwr, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion.**

**9. AIL-AGOR Y CYFARFOD I'R WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD ail-agor y cyfarfod i'r wasg a'r cyhoedd.**

## 10. CYFLWYNIAD GAN ARWEINYDD Y CYNGOR

Derbyniwyd cyflwyniad gan y Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor yn manylu ar ei gyfrifoldebau yn fewnol o fewn y Cyngor, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gan hefyd gyfarch beth mae hynny'n olygu yn nhermau'r cyfleoedd a'r bygythiadau sy'n wynebu'r Cyngor.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau neu gynnig sylwadau.

Heriwyd yr Arweinydd y dylai ef a'i blaid fod wedi wynebu'r her ariannol yn llawer cynt pan oedd yr adnoddau ar gael a'r heriau'n llai. Mewn ymateb, nododd yr Arweinydd, o edrych yn wrthrychol dros y blynyddoedd, bod yna lwyddiannau wedi bod ymhob maes. 'Roedd y ffaith bod y Cyngor yma o hyd yn llwyddiant ynddo'i hun. 'Roedd yn syndod ein bod fel cymunedau'n bodoli, bod y Gymraeg yn dal yn fyw a bod y Gymraeg yn parhau i fod yn brif iaith y sir yma ac yn iaith y Cyngor hwn. 'Roedd hynny'n groes i'r patrwm ac yn groes i'r llif naturiol. 'Roedd yna well dealltwriaeth bellach o beth sydd ei angen. 'Roedd yr argyfwng ariannol wedi gorfodi'r Cyngor i edrych arno'i hun a'i weithgareddau, ac i ofyn ydi hynny'n arwain at greu gwahaniaeth. Er yn derbyn peth o sylw'r aelod, 'roedd hefyd yn optimistaidd ynglŷn â'r hyn y gellir ei wneud i greu gwahaniaeth i'r dyfodol.

Diolchwyd i'r Arweinydd am ei gyflwyniad.

## 11. PENODI SWYDDOG MONITRO

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Gofal Cwsmer adroddiad y Prif Weithredwr yn argymell i'r Cyngor benodi Iwan Evans fel ei Swyddog Monitro nesaf yn sgil ymddeoliad deilydd presennol y rôl.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan yr Aelod Cabinet ac fe'i eiliwyd.

Cafwyd peth trafodaeth ar yr egwyddor mai'r aelodau sydd yn penderfynu ac awgrym y dylai hyn fod wedi bod yn fater i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion. Mewn ymateb, nododd y Prif Weithredwr nad swydd prif swyddog oedd mewn golwg, eithr swyddogaeth swyddog monitro. Nid oedd hynny'n disgyn i mewn i gylch gorchwyl y Pwyllgor Penodi a'r Cyngor yn unig allai ddynodi swyddogaeth y swyddog monitro. Cyfeiriodd hefyd at yr ymgysylltu fu gyda'r aelodau ynglŷn â'r mater hwn dros y misoedd diwethaf.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant bod y mater yn cael ei gyfeirio i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion.

Pleidleisiwyd ar y gwelliant ac fe ddisgynnodd.

**PENDERFYNWYD penodi Iwan Evans fel Swyddog Monitro nesaf y Cyngor yn effeithiol o'r 1af o Fedi 2014.**

## 12. CYNLLUN STRATEGOL Y CYNGOR

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor ei adroddiad ar y cyd â'r Pennaeth Strategol a Gwella yn argymell i'r Cyngor fabwysiadu Cynllun Strategol penodol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Nododd yr Arweinydd ymhellach fod rhai bylchau data yn y Cynllun yn ymwneud â pherfformiad terfynol 2013/14, gan nad oedd y wybodaeth ar gael eto. Nododd y gellid cyflwyno'r ffeithiau ychwanegol hynny i gyfarfod nesaf y Cyngor.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan yr Arweinydd ac fe'i eiliwyd.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Cynllun Strategol gan gyflwyno'r ffeithiau ychwanegol i gyfarfod nesaf y Cyngor.**

## 13. DYFODOL Y FFORYMAU ARDAL

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Gofal Cwsmer ei adroddiad yn argymell i'r Cyngor barhau gyda gweithrediad y fforymau ardal.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan yr Aelod Cabinet ac fe'i eiliwyd.

Mynegwyd cefnogaeth gyffredinol i barhad y fforymau ardal, ond ar fater bod yn agored i'r cyhoedd neu beidio, nododd yr Aelod Cabinet mai mater i bob fforwm oedd penderfynu ar ei drefniadau ei hun.

Gofynnodd y Cynghorydd Louise Hughes am gael cofnodi ei hanfodlonrwydd nad oedd Fforwm Ardal Meirionnydd yn agored i'r wasg a'r cyhoedd.

**PENDERFYNWYD parhau gyda gweithrediad y fforymau ardal.**

## 14. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn adolygu cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan yr Arweinydd ac fe'i eiliwyd.

Mewn ymateb i sylw, eglurodd y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol / Swyddog Monitro mai'r unig reolau cyfreithiol statudol ynglŷn â dyrannu cadeiryddiaethau oedd bod rhaid dyrannu cadeiryddiaethau'r tri phwyllgor craffu ar sail cydbwysedd gwleidyddol ac na chaiff cadeiryddion y Pwyllgor Archwilio na'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd fod yn aelodau o grŵp gwleidyddol sy'n cael ei gynrychioli ar y Cabinet. Nid oedd yna unrhyw reolau ynglŷn â dyrannu is-gadeiryddiaethau.

Awgrymwyd y dylai cadeiryddiaethau ac is-gadeiryddiaethau'r holl bwyllgorau (ac eithrio'r rhai statudol) fod ar sail cydbwysedd gwleidyddol a chynigiwyd ac eiliwyd gwelliant bod y Grŵp Busnes yn edrych i mewn i'r posibiliadau ac yn adrodd yn ôl i'r Cyngor nesaf.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau a ganlyn:-

- Bod perygl i'r grwpiau lleiafrifol ar y Cyngor golli allan pe bai'r drefn yn newid gan fod modd, ar hyn o bryd, i unrhyw un gael ei ystyried ar gyfer y swyddi hyn heb unrhyw ystyriaeth wleidyddol.
- Y dylai swyddi cadeirydd ac is-gadeirydd y Cyngor fod yn rhydd o unrhyw gyfundrefn wleidyddol.
- Na ddylid ethol cadeirydd nac is-gadeirydd ar unrhyw sail heblaw haeddiant a chymhwysedd.
- Bod angen penodi merched ar y Cabinet.

Pleidleisiwyd ar y gwelliant ac fe ddisgynnodd.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Mabwysiadu dyraniad seddau ar bwyllgorau'r Cyngor yn unol â'r tabl isod, sy'n gyson â'r hyn a fabwysiadwyd ar 5 Rhagfyr, 2013:-**

**PWYLLGORAU CRAFFU**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Corfforaethol | 9 | 4 | 3 | 1 | 1 | |
| Cymunedau | 9 | 4 | 3 | 1 | 1 | |
| Gwasanaethau | 9 | 4 | 4 | 1 | | |
| Archwilio | 9 | 5 | 3 | 1 | | 0 |

**PWYLLGORAU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democratiaeth | 7 | 4 | 3 | 1 | | |
| Cynllunio | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 | |
| Trwyddedu Canolog | 7 | 4 | 4 | 0 | | |
| Iaith | 8 | 4 | 3 | | | |
| Penodi Prif Swyddogion | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 | |
| Apelau Cyflogaeth | 4 | 1 | 1 | 1 | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y seddau | 76 | 37 | 28 | 8 | 4 | 1 | 154 |

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 3 | 2 | 1 | | 1 | |
| CYSAG | 3 | 2 | 2 | | | |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 6 | 2 | 2 | 1 | | |
| Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig | 4 | 2 | 1 | | | |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | 4 (3 sedd ac un eilydd) | 2 | 1 | 1 | | 0 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y | 96 | 47 | 36 | 10 | 5 | 0 | 194 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Seddau** | | | | | | | |

**(b) Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd wneud penodiadau i'r pwyllgorau ar sail cydbwysedd gwleidyddol ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol.**

**(c) Mabwysiadu cadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu ar sail cydbwysedd gwleidyddol, fel a ganlyn:-**

**Pwyllgor Craffu Corfforaethol – Plaid Cymru**
**Pwyllgor Craffu Cymunedau – Annibynnol**
**Pwyllgor Craffu Gwasanaethau – Llais Gwynedd**

**15. CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Adroddwyd bod angen ethol Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am 2014/15.

**PENDERFYNWYD ail-ethol y Cynghorydd Lesley Day yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am 2014/15.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 4.30pm

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | Cyngor |
| **Dyddiad** | 17 Gorffennaf 2014 |
| **Teitl** | Addasu'r Polisi Tal |
| **Pwrpas** | Argymell addasiad i'r Polisi Tal er mwyn hwyluso'r gallu i benodi |
| **Awdur** | Darpar Brif Weithredwr – Dilwyn Williams |
| **Aelod Cabinet** | Cynghorydd Peredur Jenkins |

1. Cafodd y Polisi Tal ar gyfer 2014/15 a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar 6ed o Fawrth eleni, ei ystyried yn gyntaf gan y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion ar y 26 Chwefror. Yn yr adroddiad i'r Pwyllgor hwnnw gwnaed y pwyntiau canlynol -

   "Gan ystyried yr holl amgylchiadau, gan gynnwys ymagwedd hanesyddol y Cyngor tuag at lefelau cyflog uwch swyddogion, nid wyf yn argymell newidiadau (i gyflogau uwch swyddogion) ar gyfer) 2014/15.

   Gyda golwg ar swydd y Pennaeth Addysg, mae hon yn achosi mwy o bryder yn y tymor byr. Pe byddai'r swydd yn dod yn wag, yna byddai'n rhaid i'r Cyngor ystyried amgylchiadau'r farchnad ar y pryd ac ystyried unrhyw angen i ail osod y cyflog"

2. Mae Dewi Jones, y Pennaeth Addysg presennol, yn 60 eleni ac er mwyn hwyluso penodi fe wnaeth gais i adael ei swydd ddiwedd Awst. Fe gymeradwywyd hyn ac fe weithredodd y Panel Penodi Prif Swyddogion yn sydyn i hysbysebu'r swydd yn allanol er mwyn medru penodi erbyn 1 Medi – sef cychwyn y flwyddyn addysgol.

3. Er bod y Cyngor wedi cael trafferthion denu ymgeiswyr allanol o ansawdd ar gyfer swyddi uwch reolaeth ers rhai blynyddoedd bellach, 'roeddem yn obeithiol y byddai'r sefyllfa'n wahanol ar gyfer y maes addysg. Ystyriwyd hyn oherwydd y pwl potensial sylweddol uwch o ymgeiswyr Cymraeg (sef prifathrawon) sydd yn ddamcaniaethol ar gael ar gyfer y swydd.

   Pan gyfarfu'r Panel Penodi Prif swyddogion ym mis Mai i ystyried canlyniadau'r hysbyseb 'roedd yna siomedigaeth gyffredinol mai dim ond dau ymgeisydd a gafwyd – un mewnol ac un allanol.

4. Bu i'r Panel ystyried cyflog cymharol y swydd a nodwyd fod tri Phennaeth

Ysgol Uwchradd yng Ngwynedd yn barod yn ennill mwy na'r Pennaeth Addysg, gyda thri arall yn ennill mymryn yn is. Wedi ystyried y sefyllfa'n ddwys penderfynodd mwyafrif sylweddol o aelodau'r Panel Penodi ofyn i'r Cyngor gynyddu cyflog y swydd er mwyn ceisio cynyddu'r dewis ymgeiswyr ar gyfer y swydd hynod bwysig hon. Oherwydd deddfwriaeth diweddar - dim ond y Cyngor all benderfynu gwneud hynny.

5. Bydd aelodau yn cofio fod Penaethiaid Gwasanaeth eraill yn cael eu talu ar lefel canolrif y farchnad sector gyhoeddus ar gyfer swyddi o faint tebyg. Gosodwyd y meincnod ar gyfer y swydd Pennaeth Addysg ar y chwartil isaf. Byddai newid hyn i'r lefel canolrif yn golygu newid uchafswm y raddfa o £75,000 i £83,000. Byddai angen wynebu'r gost ychwanegol yma fel ymrwymiad anorfod yng nghyllideb y flwyddyn nesaf.

6. <u>CASGLIADAU AC ARGYMHELLION</u>

Er nad oes yna unrhyw sicrwydd y bydd codi cyflog yn cynyddu'r dewis ymgeiswyr i'r Cyngor ar gyfer y swydd hanfodol hon, ystyriaf oherwydd amgylchiadau'r farchnad nad oes synnwyr mewn ail hysbysebu ar yr un cyflog. Gofynnir i'r Cyngor fabwysiadu argymhelliad y Panel Penodi Prif Swyddogion ac i newid Polisi Tal y Cyngor ar gyfer y Pennaeth Addysg fel bod uchafswm y raddfa cyflog yn gyson gyda chanolrif y meincnod.

| | |
|---|---|
| Cyfarfod: | **Y CYNGOR** |
| Dyddiad: | 17, Gorffennaf, 2014 |
| Teitl: | Y Cyfansoddiad Newydd |
| Pwrpas yr Adroddiad: | Gofyn i'r Cyngor fabwysiadu diwygiadau i'r Cyfansoddiad yn dilyn adolygiad. |
| Cyflwynydd: | Cynghorydd John Pughe Roberts, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio. |
| Aelod Cabinet: | Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor |
| Swyddog: | Dilys Phillips, Swyddog Monitro |

**CEFNDIR.**

1. Eglurwyd wrth y Cyngor Llawn ar yr 2il o Fai, 2013 fod gwaith ar y gweill i lunio Cyfansoddiad safonol ar gyfer holl Gynghorau Unedol Cymru. Ysgogwyd y gwaith gan y gwahaniaethau sylweddol oedd yn amlygu eu hunan rhwng y gofynion cyfreithiol ar lywodraeth leol yng Nghymru o'u cymharu â rhai yn Lloegr yn sgîl pwerau Llywodraeth Cymru i ddeddfu. 'Roedd hyn, wedi ei gyplysu a'r ffaith fod pob Cyngor yng Nghymru bellach gyda threfn weithrediaeth (Arweinydd a Chabinet), yn ei gwneud yn amserol i gyflwyno dogfen gyfansoddiadol newydd fyddai'n caniatáu gwell cysondeb ar ddehongliadau ar draws Cymru. Cymerwyd y cyfle hefyd i symleiddio'r ddogfen a'i rhoi ar ffurf oedd yn haws i'w deall.

2. Y Pwyllgor Archwilio ydi'r pwyllgor sydd â chyfrifoldeb am adolygu materion llywodraethu o fewn y Cyngor a'r pwyllgor hwnnw ymgymerodd â'r gwaith o adolygu'r Cyfansoddiad. Gwnaeth hynny drwy sefydlu Gweithgor a aeth ati i edrych yn fanwl ar wahanol adrannau o'r ddogfen gan ymgynghori gyda chyrff perthnasol o fewn y Cyngor.

3. Ymgynghorwyd yn benodol â'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, y Cabinet, y Fforwm Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu, y Pwyllgor Cynllunio, y Pwyllgor Safonau, y Pwyllgor Apelau Cyflogaeth a'r Penaethiaid Adrannau ar wahanol elfennau o'r Cyfansoddiad. Casglwyd y sylwadau ynghyd gan y Gweithgor a chyflwynwyd ei adroddiad terfynol i'r Pwyllgor Archwilio ar y 6ed o Fai.

4. Yn ychwanegol gwnaed ymdrech i godi ymwybyddiaeth o'r newidiadau ymysg aelodau'r Cyngor drwy gyflwyno adroddiad i'r pedwar Fforwm Ardal ac yna ar y 1af o Fai anfonwyd crynodeb o'r prif newidiadau drwy e-bost i holl aelodau'r Cyngor gan wahodd unrhyw sylwadau.

**Y DDOGFEN GYFANSODDIADOL NEWYDD.**

5. Mae ffurf y ddogfen gyfansoddiadol newydd yn wahanol iawn i ffurf yr un bresennol, ond nid yw'r newidiadau o sylwedd ynddi yn niferus. Er bod y Cyfansoddiad ar ffurf sydd yn safonol ac yn gyson ar draws cynghorau Cymru, mae cyfle i gael amrywiadau lleol ac mae'r Gweithgor wedi ceisio cadw nifer y newidiadau i'r trefniadau presennol i'r lleiafswm. Mae i'r ddogfen gyfansoddiadol newydd 23 Adran ac fe'u rhestrir yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn. Mae'r ddogfen gyflawn yn 250 o dudalennau o hyd.

6. Er hynny, mae'r prif newidiadau sydd yn effeithio ar aelodau a threfniadau llywodraethu'r Cyngor wedi eu cyfyngu i saith adran o'r Cyfansoddiad yn unig.

7. Mae Atodiad 2 yn cynnwys crynodeb byr sydd yn manylu ar y prif newidiadau i'r saith adran yma ac mae'r adrannau perthnasol i gyd hefyd wedi eu hatodi i'r adroddiad.

**MATERION I'W HYSTYRIED.**

8. Ar ei daith drwy'r gwahanol gyrff ymgynghorol, y Gweithgor a'r Pwyllgor, dim ond ar ddau fater y cafwyd gwahaniaeth barn rhwng y gwahanol gyrff. Gofynnir i'r Cyngor roi sylw a dod i benderfyniad ar y rhain yn benodol.

9. Roedd pob diwygiad arall a gynigir yn y Cyfansoddiad newydd safonol, at ei gilydd, wedi derbyn cefnogaeth gan y Gweithgor, y corff yr ymgynghorwyd ag o â'r Pwyllgor Archwilio, ac maent yn ffurfio argymhellion y Pwyllgor Archwilio i'r Cyngor.

10. Y ddau fater lle nad oedd llwyr gytundeb ydi:-

    (a) gosod cyfyngiad ar hyd cyfarfodydd y Cyngor Llawn; a

    (b) dod i benderfyniad ar gynigion cau neu sefydlu ysgolion unigol dan y cynllun trefniadaeth ysgolion.

11. Mewn perthynas â hyd cyfarfodydd y Cyngor Llawn, mae'r Cyfansoddiad safonol yn cynnig y dylid rhoi amod fod y cyfarfod yn dod i ben ar ôl cyfnod penodol ac unrhyw fusnes sydd yn weddill yn cael ei ohirio i'r cyfarfod dilynol. Barn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd oedd na ddylid gosod terfyn amser ar gyfarfodydd o'r Cyngor Llawn. Barn y Gweithgor oedd ei bod yn briodol gosod terfyn amser o 4 awr, ond gan roi disgresiwn i'r Cadeirydd i barhau â'r cyfarfod heibio hynny os oedd o'r farn fod hynny yn addas. Dyna'r argymhelliad gafodd ei dderbyn gan y Pwyllgor Archwilio.

12. Mewn perthynas â chynlluniau trefniadaeth ysgolion, mae'r mater sydd angen ystyriaeth yn deillio o newid diweddar i ddeddfwriaeth yn hytrach nag o gynnwys y Cyfansoddiad safonol.

13. Er dod i benderfyniad ynglŷn â chynnig i ad-drefnu ysgol neu ysgolion mae gofyn i'r awdurdod lleol ddilyn trefn benodol. Wedi cynnal ymgynghoriad statudol gyda budd -ddeiliaid eang mae angen dod i benderfyniad ynglŷn â symud ymlaen a'r cynigion a gwneir hynny drwy gyhoeddi rhybudd statudol cyhoeddus ffurfiol, penderfyniad Cabinet. Gosodir cyfnod penodol ar gyfer cyflwyno gwrthwynebiadau i'r Rhybudd. Yn y gorffennol pe derbyniwyd gwrthwynebiad byddai'r penderfyniad i'w gadarnhau yn mynd gerbron y Gweinidog Addysg. Bellach mae'r penderfyniad yma (gyda rhai eithriadau), boed gwrthwynebiad a'i pheidio hefyd gerbron yr awdurdod lleol. Cyhoeddwyd Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 sydd yn rhoi arweiniad ar y gyfundrefn

Dan y gyfundrefn gyfreithiol newydd mae dewis pa un a'i'r Cabinet ynteu'r Cyngor neu Bwyllgor Penderfynu Lleol yw'r corff priodol i gymryd y penderfyniad hwn. Barn y Gweithgor oedd mai'r Cabinet oedd y corff mwyaf priodol i gymryd y penderfyniad a hynny am mai cynllun y Cabinet fyddai unrhyw ad-drefnu sydd wedi ei gychwyn a'i bod felly yn deg i'r Cabinet ysgwyddo'r cyfrifoldeb llawn am y penderfyniad yn hytrach na'i rannu rhwng dau gorff. Yr oedd y Pwyllgor Archwilio yn anfodlon gyda'r argymhelliad hwn ac o'r farn y dylai'r Cyngor Llawn gael rôl yn y broses benderfynu. Gofynnwyd am adroddiad i'r Cyngor Llawn yn cloriannu'r wybodaeth gan gymryd i ystyriaeth dymuniad y pwyllgor bod y Cabinet yn cyflwyno argymhelliad i'r Cyngor Llawn ar y penderfyniad terfynol. Opsiwn arall e.e. fyddai i Bwyllgor Craffu roi sylw i'r cynnig cyn i'r Cabinet ei ystyried.

**<u>FFACTORAU PERTHNASOL.</u>**

14.
- Arweiniad Cod Trefniadaeth Ysgolion sydd yn datgan fod y Cabinet, oherwydd eu dealltwriaeth o faes trefniadaeth yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau o'r fath.
- Swyddogaeth y Cyngor yn gosod strategaeth a pholisi a chyfrifoldeb gweithredol y Cabinet.
- Bodolaeth hawl galw i mewn Pwyllgorau Craffu.
- Na fyddai'r Cyngor wedi ymwneud a'r broses yn arwain at y cynnig.
- Amlder ac amserlen cyfarfodydd ac oblygiadau i amserlennu penderfyniadau trefniadaeth ysgolion sydd hefyd yn cael eu heffeithio gan amserlenni ariannu, adeiladu ynghyd ag effeithiau megis gwyliau ysgol. Caniateir uchafswm o 16 wythnos o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu i ddod i benderfyniad neu bydd y Rhybudd yn disgyn.
- Cymhlethdod y broses penderfynu terfynol a'r pwysigrwydd o fod yn gyfarwydd â sail y cynigion a gofynion y Cod Trefniadaeth wrth gloriannu'r penderfyniad i gadarnhau Rhybudd Statudol ai pheidio.

- Yr angen i baratoi a chyhoeddi adroddiad ar y gwrthwynebiadau ac ymateb yr Awdurdod i'r gwrthwynebiadau o fewn 7 diwrnod o'r penderfyniad.

Daw'r cysyniad o Bwyllgor Penderfynu Lleol o ddarpariaeth y Cod Trefniadaeth. Mae arweiniad ac awgrymiadau am natur pwyllgor o'r fath yn y Cod er nad yw yn gosod argymhellion hollol eglur ond yn hytrach cynigion ynglŷn â math o opsiynau fyddai yn bosib wrth ffurfio pwyllgor o'r fath. Awgrymir hefyd y dylai clerc a chefnogaeth gyfreithiol sydd yn annibynnol fod ar gael i'r pwyllgor ynghyd a gofyn amlwg ar gyfer hyfforddiant. Ni ystyrir y gellir argymell yr opsiwn yma.

Mae'r ffactorau a amlinellir uchod yn berthnasol i'r opsiynau amgen a nodir. Byddai trefniadau o'r fath yn golygu gosod y mater gerbron dau gyfarfod ar wahân. Ni ellir datgan na fyddai hyn yn bosib ond gellir damcaniaethu y byddai'n ychwanegu at y risg amserlen a amlinellir uchod.

15. Yn ddarostyngedig i'r uchod mae'r Pwyllgor Archwilio yn cymeradwyo argymhellion y Gweithgor ac yn argymell y Cyfansoddiad newydd i'r Cyngor Llawn i'w fabwysiadu.

**<u>ARGYMHELLIAD</u>**

16. Gofynnir i'r Cyngor :

    (a) benderfynu ar y materion a amlygir ym mharagraff 10(a) a (b) uchod.

    (b) fabwysiadu y Cyfansoddiad newydd yn unol ag argymhellion y Pwyllgor a'r crynodeb a geir yn yr Atodiadau.

DOGFEN CEFNDIR : Côd Trefniadaeth Ysgolion 2013 – Llywodraeth Cymru.

**ATODIAD 1.**

Rhestr o wahanol adrannau'r Cyfansoddiad :

| | |
|---|---|
| Adran 1 | Cyflwyniad |
| Adran 2 | Diben, diffiniadau, dehongliadau a diwygio |
| Adran 3 | Cael gwybodaeth a chymryd rhan |
| Adran 4 | Y Cyngor Llawn |
| Adran 5 | Y Cabinet |
| Adran 6 | Yr Arweinydd |
| Adran 7 | Y Pwyllgorau Craffu |
| Adran 8 | Y Pwyllgor Safonau |
| Adran 9 | Pwyllgorau Rheoleiddio ac eraill |
| Adran 10 | Cyd-bwyllgorau |
| Adran 11 | Swyddogion |
| Adran 12 | Contractau, cyllid a materion cyfreithiol |
| Adran 13 | Cyfrifoldeb am swyddogaethau |
| Adran 14 | Rheolau Gweithdrefn Mynediad at Wybodaeth |
| Adran 15 | Rheolau Gweithdrefn y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi |
| Adran 16 | Rheolau Gweithdrefn Ariannol |
| Adran 17 | Rheolau Gweithdrefn Contractau |
| Adran 18 | Côd Ymddygiad Aelodau |
| Adran 19 | Côd Ymarfer Cynllunio a Phrotocol aelodau |
| Adran 20 | Côd Ymddygiad Swyddogion |
| Adran 21 | Protocol Cyswllt Aelod/Swyddog |
| Adran 22 | Polisi Canu'r Gloch (Côd Adrodd Cyfrinachol) |
| Adran 23 | Disgrifiadau Rôl aelodau. |

**ATODIAD 2.**

**Adolygu'r Cyfansoddiad – Crynodeb o'r prif newidiadau.**

Y prif newid rhwng y Cyfansoddiad newydd a'r un presennol ydi ei arddull. O'r herwydd mae cymharu cymal wrth gymal yn amhosib. Isod fe welir crynodeb o'r prif newidiadau i'r Cyfansoddiad gan gyfeirio at yr adran berthnasol yn y Cyfansoddiad newydd.

| Adran o'r Cyfansoddiad | Y Cyfansoddiad newydd | Y Cyfansoddiad Presennol. |
|---|---|---|
| **Adran 4** | **Y Cyngor.** | |
| 4.13.2 | Cyfyngir hyd cyfarfodydd o'r Cyngor Llawn i 4 awr, gyda disgresiwn i'r Cadeirydd i ganiatáu rhagor o amser. | Nid oes darpariaeth gyffelyb yn y Cyfansoddiad presennol. |
| 4.18 | Caniateir cwestiynau gan y cyhoedd mewn cyfarfodydd o'r Cyngor Llawn, gydag amodau. | Mae darpariaeth debyg yn y Cyfansoddiad presennol, ond nid yw wedi ei gweithredu. |
| 4.20 | Os yw'r rhybudd perthnasol wedi ei roi, bydd cynigion i'r Cyngor Llawn yn cael eu trafod ar y diwrnod. | Mae'r rheol sy'n mynnu bod cynigion yn cael eu cyfeirio i bwyllgor oni bai bod y Cyngor yn pleidleisio i'w trafod yn cael ei diddymu. |
| 4.20.4 | Rhaid i gynnig i ddiswyddo'r Arweinydd gael ei lofnodi gan 20% o aelodau'r Cyngor. | Nid oes darpariaeth gyffelyb yn y Cyfansoddiad presennol. |
| 4.20.6 | Cyfyngir yr amser ar gyfer trafod cynigion i 30 munud, oni bai bod y Cyngor yn cytuno i'w ymestyn. | Nid oes darpariaeth gyffelyb yn y Cyfansoddiad presennol. |

| | | |
|---|---|---|
| 4.23 | Gall yr Arweinydd alw trafodaeth gyffredinol ar gyflwr y sir. | Mae'r rheol y gellir trafod pwnc penodol ymhob cyfarfod o'r Cyngor yn cael ei ddiddymu. |
| **Adran 5** | **Y Cabinet.** | |
| 5.4 | Nodir swyddogaethau penodol ar gyfer dirprwy Arweinydd. | Nid oes darpariaeth ar gyfer dirprwy Arweinydd yn y Cyfansoddiad presennol. |
| 5.9.5 | Rhoddir pwerau i swyddogion statudol fynnu bod materion yn cael eu trafod gan y Cabinet. | Nid oes darpariaeth gyffelyb yn y Cyfansoddiad presennol. |
| **Adran 7** | **Y Pwyllgorau Craffu.** | |
| 7.7 | Mae hawl i benodi hyd at 2 aelod cyfetholedig, heb bleidlais, ar bob pwyllgor craffu. | Nid yw'r nifer o aelodau cyfetholedig posib wedi ei nodi yn y Cyfansoddiad presennol. |
| 7.18 | Mae gofyn i aelodau sy'n dymuno cynnwys eitemau ar raglen Pwyllgor Craffu roi o leiaf 7 diwrnod o rybudd. | Nid yw'r Cyfansoddiad presennol yn nodi pa gyfnod rhybudd sydd ei angen. |
| 7.25 | Rhoddir cyfyngiad ar sawl penderfyniad o eiddo'r Cabinet y mae gan bwyllgor neu aelod hawl i'w alw i mewn i'w graffu o fewn cyfnod penodol. (Mae Galw i Mewn yn golygu proses ffurfiol sy'n atal y Cabinet rhag gweithredu hyd y bydd y Pwyllgor Craffu wedi ystyried y mater). | Diddymir y rheol yn y Cyfansoddiad presennol na ellir galw mater i mewn oni bai ei fod yn groes i gyfraith neu broses. |
| 7.28 | Y Cadeiryddion fydd yn penderfynu pa bwyllgor sy'n ymdrin â mater sy'n disgyn oddi fewn cylch gorchwyl mwy nag un pwyllgor. | Mae'r Cyfansoddiad presennol yn nodi fod materion oddi fewn i gylch gorchwyl mwy nag un pwyllgor yn cael eu trafod yn y ddau bwyllgor. |
| 7.29 ac atodiadau 1-3 | Rhoddi canllawiau manwl i gynghorwyr ar sut i weithredu'r drefn "galwad gan gynghorydd i weithredu" sy'n caniatáu i aelod ddod â mater yn ymwneud a'i ward i sylw pwyllgor craffu os yw wedi methu ei ddatrys mewn unrhyw ffordd arall. | Nid oes darpariaeth gyffelyb yn y Cyfansoddiad presennol. |

| | | |
|---|---|---|
| **Adran 13** | **Cyfrifoldeb am Swyddogaethau**<br><br>**(Atodiad 1 – Swyddogaethau Anweithredol)** | |
| Pwyllgor Apelau Cyflogaeth | Cyfrifoldebau'r Pwyllgor fydd i :<br><br>Hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad ymysg staff; monitro gweithrediad Cod Ymddygiad Swyddogion; lledaenu ymarfer da ymysg rheolwyr.<br><br>Ymdrin ag apeliadau gan brif Swyddogion. | Y cyfrifoldebau presennol ydi :<br><br>Ymdrin â phob apêl gan staff |
| **Adran 13** | **Cyfrifoldeb am Swyddogaethau**<br><br>**(Atodiad 3 – Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)** | |
| Cyfarwyddwyr Corfforaethol | Dirprwyir i gyfarwyddwr corfforaethol (neu bennaeth adran a enwebir ganddo) mewn ymgynghoriad ag aelod o'r Pwyllgor Apelau Cyflogaeth ac ymgynghorydd adnoddau dynol, yr hawl i benderfynu ar apeliadau gan staff yn erbyn camau disgyblaeth a gymerwyd yn eu herbyn neu apeliadau dan unrhyw rai o bolisïau cyflogaeth y Cyngor lle y caniateir hawl apelio. | Nid oes darpariaeth o'r fath yn y Cyfansoddiad presennol. |
| 3.20<br><br>(Gosod ffioedd) | Dirprwyir yr hawl i bob prif swyddog mewn ymgynghoriad Prif Weithredwr, Pennaeth Cyllid â'r Swyddog Monitro, Aelod Cabinet perthnasol i osod ffioedd ar gyfer ei wasanaeth. | Mae'r Cyfansoddiad presennol yn rhannu'r cyfrifoldeb rhwng y Cabinet, rhai pwyllgorau (h.y. Trwyddedu) a'r prif swyddog. |
| **Adran 15** | **Rheolau Gweithdrefn y Gyllideb a'r Fframwaith Bolisi.** | |
| 15.1 | Diben y rheolau yma ydi egluro'r berthynas rhwng cyfrifoldebau'r Cyngor i sefydlu cyllideb a mabwysiadu rhai cynlluniau oddi fewn i'r fframwaith bolisi (e.e. y Cynllun Strategol) a hawliau'r Cabinet i weithredu a blaenoriaethu oddi fewn i'r gyllideb a'r fframwaith bolisi. | Nid yw'r rheolau yma wedi eu cynnwys yn y Cyfansoddiad presennol. |

| | | |
|---|---|---|
| 15.2 | Y broses ar gyfer datblygu fframwaith bolisi ydi fod y Cabinet yn cyflwyno argymhelliad i'r Cyngor; os oes aelod yn dymuno cyflwyno gwelliant iddo yn y Cyngor rhaid rhoi diwrnod o rybudd; os yw'r Cyngor yn gwrthod argymhelliad y Cabinet mae gan yr Arweinydd hawl i wrthwynebu a'i anfon yn ôl i'r Cyngor am benderfyniad terfynol. | Gweler uchod. |
| 15.3 | Y broses ar gyfer sefydlu cyllideb ydi fod y Cabinet yn ymgynghori ar ei gynigion cychwynnol (hefo'r Pwyllgor Archwilio ymysg eraill) ac ar derfyn yr ymgynghoriad ei fod yn cyflwyno ei gynigion terfynol i'r Cyngor i benderfynu arnynt. | Gweler uchod. |
| 15.4 – 15.8 | Mae gweddill y rheolau yn ymdrin â'r broses i'w dilyn os ydi penderfyniadau'r Cabinet yn groes i'r Gyllideb neu'r Fframwaith polisi. | Gweler uchod. |
| **Adran 19** | **Protocol Cynllunio** | |
| (19).3.5 | Ychwanegwyd cymal i'w gwneud yn eglur nad oes gan aelod sydd â buddiant hawl i weithredu fel aelod lleol ond gall ofyn i aelod arall gymryd y rôl o gynrychioli etholwyr yr ardal. | Nid oedd hyn yn eglur yn y Cyfansoddiad presennol. |
| (19).6 | Mae'r cymal newydd yn dilyn canllawiau'r Ombwdsmon ar rag-benderfynu, yn sgil newid yn y gyfraith. | Mae'r Cyfansoddiad presennol yn seiliedig ar y gyfraith fel ag yr oedd. |
| **Adran 21** | **Protocol Cyswllt Aelod - Swyddog** | |
| 21.5 a 21.7 | Disgrifiad o rolau aelodau a swyddogion wedi ei gynnwys. | Dim disgrifiad cyffelyb yn y Cyfansoddiad presennol. |
| 21.14 | Eglurhad o'r cyfyngiad ar weithgarwch gwleidyddol swyddogion. | Eglurhad manwl ddim wedi ei gynnwys yn y Cyfansoddiad presennol. |

**ADRAN 4**

4. **Y CYNGOR LLAWN**

4.1 **Cyflwyniad**

Cyfarfod ffurfiol o’r holl Gynghorwyr yw’r Cyngor Llawn. Mae’n ofynnol yn ôl y gyfraith i’r Cyngor Llawn wneud rhai penderfyniadau pwysig gan gynnwys gosod cyllideb y Cyngor a’i Dreth Gyngor a chymeradwyo nifer o gynlluniau a strategaethau allweddol sydd, gyda’i gilydd, yn ffurfio’r Fframwaith Polisi (a restrir isod). Mae’n gyfrifol am yr holl swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cabinet. Bydd yn cyflawni rhai swyddogaethau ei hun, ond bydd eraill yn cael eu dirprwyo i Bwyllgorau neu Swyddogion a enwir.

4.2 **Y Fframwaith Polisi**

Mae’r Fframwaith Polisi yn golygu’r cynlluniau a’r strategaethau canlynol:

- Cynllun Strategol
- Cynllun perfformiad gwerth gorau
- Strategaeth Datblygu Economaidd
- Cynllun Trafnidiaeth Lleol
- Cynlluniau ac addasiadau sydd gyda’i gilydd yn ffurfio’r Cynllun Datblygu Lleol
- Y Cynllun Iaith Gymraeg
- Y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid
- Strategaeth Tai a Chynllun gweithredol
- Pwerau i gymeradwyo Cynllun Strategol Partneriaeth Pobl Ifanc a Phartneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc
- Cytundebau Polisi
- Cynllun Gwella Hawliau Tramwy

4.3 **Y Cynllun Integredig Sengl**

Mae’r Cynllun hwn yn disodli pedwar o’r cynlluniau a’r strategaethau presennol a ffurfiodd ran o’r Fframwaith Polisi, sef y Strategaeth Gymunedol, y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a Chynllun y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

4.4 **Y Gyllideb**

Mae’r gyllideb yn cynnwys dyrannu adnoddau ariannol i wahanol wasanaethau a phrosiectau, cronfeydd wrth gefn arfaethedig, sylfaen y Dreth Gyngor, gosod y Dreth Gyngor a phenderfyniadau yn ymwneud â rheoli gofyniad benthyca’r Cyngor, rheoli ei wariant cyfalaf a gosod terfynau trosglwyddo arian. Bydd y Cyngor Llawn yn pennu cyllideb refeniw gyffredinol a chyllideb gyfalaf gyffredinol y Cyngor ac unrhyw newidiadau i’r rhain. (Gweler Adran 15 i gael gwybod sut y

gall y Cyngor newid y Fframwaith Polisi neu'r Gyllideb a gyfeirir ato i'w cymeradwyo gan y Cabinet.)

4.5 **Trosglwyddo Tir ar gyfer Tai**

Mae Trosglwyddo Tir ar gyfer Tai yn golygu cymeradwyo neu fabwysiadu ceisiadau (pa un a ydynt ar ffurf ddrafft ai peidio) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer cymeradwyo rhaglen o waredu 500 neu fwy o adeiladau i unigolyn o dan Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993, neu i waredu tir a ddefnyddiwyd at ddibenion preswyl lle y mae angen cymeradwyaeth o dan adran 32 neu 43 Deddf Tai 1985.

4.6 **Swyddogaethau'r Cyngor Llawn**

Dim ond y Cyngor Llawn a gaiff arfer y swyddogaethau canlynol:

4.6.1 mabwysiadu a newid y Cyfansoddiad;

4.6.2 cymeradwyo neu fabwysiadu'r Cynllun Integredig Sengl, y Fframwaith Polisi, y gyllideb ac unrhyw gais i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran unrhyw Drosglwyddiad Tir ar gyfer Tai;

4.6.3 yn amodol ar y weithdrefn frys a gynhwysir yn y Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth yn Adran 14 y Cyfansoddiad hwn, gwneud penderfyniadau am unrhyw fater wrth arfer Swyddogaeth Weithredol sy'n rhan o'r Fframwaith Polisi neu'r gyllideb lle y mae'r penderfynwr yn teimlo y dylid ei wneud mewn modd a fyddai'n groes i'r Fframwaith Polisi neu'n groes i/heb fod yn gwbl gydnaws â'r gyllideb;

4.6.4 penodi a diswyddo'r Arweinydd;

4.6.5 cytuno ar a/neu ddiwygio'r cylch gorchwyl ar gyfer Pwyllgorau, penderfynu ar eu cyfansoddiad a gwneud penodiadau iddynt (yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989) oni bai y dirprwywyd y penodiadau gan y Cyngor;

4.6.6 newid enw'r ardal

4.6.7 gwneud neu gadarnhau penodiad Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig;

4.6.8 gwneud, gwella, diddymu, ailddeddfu neu fabwysiadu is-ddeddfau, a hyrwyddo neu wrthwynebu gwneud deddfwriaeth leol neu Filiau Personol;

4.6.9 yr holl Swyddogaethau Dewis Lleol a amlinellir yn Adran 13 y Cyfansoddiad hwn y mae'r Cyngor yn penderfynu y dylai ef ei hun ymgymryd â hwy yn hytrach na'r Cabinet; a

4.6.10 phob mater y mae'n rhaid eu neilltuo i'r Cyngor yn ôl y gyfraith. Er enghraifft, penodi Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r datganiad polisi tâl;

4.7 **<u>Aelodaeth</u>**

4.7.1 Bydd pob Aelod o'r Cyngor yn Aelodau o'r Cyngor Llawn.

4.7.2 Nid yw dirprwyo'n bosibl yng nghyfarfodydd y Cyngor.

4.7.3 <u>Cadeirio'r Cyngor</u>

i. Bydd y Cynghorydd a etholir yn flynyddol gan y Cyngor fel ei gadeirydd yn cael ei alw'n "Gadeirydd".

ii. Bydd y Cadeirydd yn peidio â bod yn Gadeirydd os yw'n ymddiswyddo, yn cael ei ddiswyddo trwy bleidlais gan y Cyngor Llawn, yn peidio â bod yn Aelod o'r Cyngor, neu'n methu â gweithredu fel Aelod o'r Cyngor. Bydd yn parhau i weithredu fel Cadeirydd ar ôl etholiad nes bod ei olynydd wedi'i benodi.

4.7.4 <u>Rôl a Swyddogaeth y Cadeirydd</u>

Bydd gan Gadeirydd y Cyngor ac yn ei (h)absenoldeb ef/hi, yr Is-gadeirydd, y rolau a'r swyddogaethau canlynol:

i. Rôl Seremonïol

Mae Cadeirydd y Cyngor:

(i) yn arweinydd dinesig sir Gwynedd;

(ii) yn hyrwyddo buddiannau ac enw da'r Cyngor a sir Gwynedd yn gyffredinol ac yn gweithredu fel llysgennad ar gyfer y ddau; ac

(iii) yn ymgymryd â gweithgareddau dinesig, cymunedol a seremonïol ac yn meithrin hunaniaeth a balchder cymunedol.

ii. Cyfrifoldebau'r Cadeirydd

(i) cynnal a hyrwyddo diben y Cyfansoddiad, a dehongli'r Cyfansoddiad pan fo angen;

(ii) llywyddu cyfarfodydd y Cyngor fel bod modd cynnal ei fusnes yn deg ac yn effeithlon a chan ystyried hawliau Cynghorwyr a buddiannau'r Gymuned;

(iii) sicrhau bod cyfarfod y Cyngor yn fforwm ar gyfer trafod materion sy'n bwysig i'r gymuned leol ac yn lle y gall Aelodau nad ydynt ar y Cabinet ddwyn y Cabinet a Chadeirydd Pwyllgor i gyfrif;

(iv) hyrwyddo cyfranogiad y cyhoedd yng ngweithgareddau'r Cyngor;

(v) bod yn gydwybod y Cyngor; a

(vi) mynychu'r cyfryw swyddogaethau dinesig a seremonïol ag y mae'r Cyngor ac ef/hi yn penderfynu sy'n briodol;

4.8 **<u>Cyfarfodydd y Cyngor</u>**

Ceir tri math o gyfarfod Cyngor:

4.8.1 y cyfarfod blynyddol;

4.8.2 cyfarfodydd cyffredin; a

4.8.3 chyfarfodydd arbennig

4.9 **<u>Rheolau Gweithdrefnol a Thrafod</u>**

Bydd Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor a gynhwysir yn yr Adrannau isod yn berthnasol i gyfarfodydd y Cyngor Llawn.

4.10 **<u>Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor – Cyfarfod Blynyddol y Cyngor</u>**

4.10.1 <u>Amseru a Busnes</u>

Mewn blwyddyn lle ceir etholiad cyffredin i ddewis cynghorwyr, cynhelir y cyfarfod blynyddol o fewn 21 diwrnod o ymddiswyddiad y cynghorwyr sy'n ymadael. Mewn unrhyw flwyddyn arall, cynhelir y cyfarfod blynyddol ym mis Mawrth, mis Ebrill neu fis Mai. Bydd y cyfarfod blynyddol yn:

i. ethol unigolyn i lywyddu os nad yw Cadeirydd nac Is-gadeirydd y Cyngor yn bresennol;

ii. ethol Cadeirydd y Cyngor;

iii. ethol Is-gadeirydd y Cyngor;

iv. cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf;

v. derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd;

vi. ethol Arweinydd y Cyngor, ac eithrio lle y penodwyd yr Arweinydd am gyfnod o bedair blynedd yng nghyfarfod blynyddol cychwynnol y Cyngor;

vii. yr Arweinydd i hysbysu'r Cyngor am nifer yr Aelodau i'w penodi i'r Cabinet;

viii. penodi'r Pwyllgorau Craffu, Pwyllgor Safonau a'r cyfryw bwyllgorau ac is-bwyllgorau eraill ag y mae'r Cyngor yn ystyried sy'n briodol i ymdrin â materion nad ydynt wedi'u neilltuo i'r Cyngor nac yn Swyddogaethau Gweithredol (fel yr amlinellir yn Adran Cyfansoddiad hwn);

ix. derbyn oddi wrth yr Arweinydd y cynllun dirprwyo (fel y'i hamlinellir yn Adran 13 y Cyfansoddiad hwn);

x. cymeradwyo rhaglen o gyfarfodydd cyffredin y Cyngor ar gyfer y flwyddyn; ac

xi. ystyried unrhyw fusnes a nodir yn y rhybudd sy'n ymgynnull y cyfarfod.

4.10.2 Dethol Cynghorwyr ar Bwyllgorau

Yn y cyfarfod blynyddol, bydd cyfarfod y Cyngor yn:

i. penderfynu pa bwyllgorau ac is-bwyllgorau i'w sefydlu ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol;

ii. penderfynu ar faint a chylch gorchwyl y pwyllgorau hynny;

iii. penderfynu ar ddyrannu seddau i grwpiau gwleidyddol yn unol â'r rheolau cydbwysedd gwleidyddol;

## 4.11 **Cyfarfodydd Cyffredin**

Cynhelir cyfarfodydd cyffredin y Cyngor yn unol â rhaglen y penderfynir arni yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor. Bydd y drefn busnes mewn cyfarfodydd cyffredin fel a ganlyn:

4.11.1 ethol unigolyn i lywyddu os nad yw'r Cadeirydd na'r Is-gadeirydd yn bresennol;

4.11.2 cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf;

4.11.3 derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiannau gan Aelodau;

4.11.4 derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd

4.11.5 derbyn adroddiad gan yr Arweinydd ac aelodau'r Cabinet a derbyn cwestiynau ac atebion ar yr adroddiad;

4.11.6 derbyn adroddiad gan y Cabinet a derbyn cwestiynau ac atebion ar yr adroddiad;

4.11.7 derbyn adroddiadau gan bwyllgorau'r Cyngor a derbyn cwestiynau ac atebion ar yr adroddiadau hynny;

4.11.8 derbyn adroddiadau ynglŷn â busnes trefniadau ar y cyd a sefydliadau allanol a derbyn cwestiynau ac atebion arnynt;

4.11.9 ystyried unrhyw fusnes arall a nodwyd yn yr wŷs i'r cyfarfod, gan gynnwys ystyried cynigion gan y Cabinet ynglŷn â Chyllideb a Fframwaith Polisi'r Cyngor, y Cynllun Integredig Sengl ac adroddiadau'r Pwyllgorau Craffu;

4.11.10 ystyried cynigion;

4.11.11 ymdrin â chwestiynau gan Aelodau yn unol â Rheol 4.19; a

4.11.12 derbyn cwestiynau gan y cyhoedd, a rhoi atebion iddynt, mewn perthynas â materion y mae'r Cadeirydd o'r farn eu bod yn berthnasol i swyddogaethau'r Cyngor.

## 4.12 **Cyfarfodydd Arbennig**

### 4.12.1 Galw Cyfarfodydd Arbennig

Caiff y Swyddog Priodol alw cyfarfodydd y Cyngor yn ychwanegol at gyfarfodydd cyffredin. Caiff y rhai a restrir isod wneud cais i'r Swyddog Priodol alw cyfarfodydd Cyngor ychwanegol:

i. y Cyngor trwy benderfyniad;

ii. Cadeirydd y Cyngor;

iii. Y Prif Weithredwr;

iv. Y Swyddog Monitro;

v. unrhyw bum Aelod o'r Cyngor os ydynt wedi llofnodi cais a gyflwynwyd i Gadeirydd y Cyngor a'i fod ef/hi wedi gwrthod galw cyfarfod neu wedi methu â galw cyfarfod o fewn saith diwrnod o gyflwyno'r cais.

### 4.12.2 Busnes

Bydd y busnes sydd i'w gynnal mewn cyfarfod arbennig yn gyfyngedig i'r eitem neu'r eitemau busnes a geir yn y cais am y cyfarfod arbennig ac ni fydd cofnodion blaenorol nac adroddiadau gan bwyllgorau ac ati yn cael eu hystyried. Fodd bynnag, caiff y Cadeirydd, yn ôl ei (d)disgresiwn llwyr ef/hi, ganiatáu ymgymryd ag eitemau busnes eraill er mwyn cyflawni busnes y Cyngor yn effeithlon.

## 4.13 **Amser, Lleoliad a Hyd Cyfarfodydd**

### 4.13.1 Amser a Lleoliad Cyfarfodydd

Pennir amser a lleoliad cyfarfodydd gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ac fe'u nodir yn yr wŷs.

### 4.13.2 Hyd Cyfarfodydd

Mewn cyfarfod cyffredin o'r Cyngor, pan fydd pedair awr wedi mynd heibio ar ôl i'r cyfarfod ddechrau, bydd y Cadeirydd, os bydd o'r farn fod hynny'n briodol, yn gohirio'r cyfarfod yn syth ar ôl cwblhau'r eitem busnes sy'n cael ei thrafod ar y pryd. Bydd busnes sy'n weddill yn cael ei drafod ar amser a dyddiad a bennir gan y Cadeirydd. Os nad yw ef/hi yn pennu dyddiad, bydd y busnes sy'n weddill yn cael ei drafod yn y cyfarfod cyffredin nesaf.

## 4.14 **Rhybudd am Gyfarfodydd a Gwŷs iddynt**

Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn rhoi rhybudd i'r cyhoedd am amser a lleoliad unrhyw gyfarfod yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth yn Adran 14. O leiaf 5 diwrnod clir cyn cyfarfod, bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn anfon gwŷs a lofnodwyd ganddo ef/ganddi hi at bob Aelod o'r Cyngor. Bydd yr wŷs yn rhoi dyddiad, amser a lleoliad pob cyfarfod ac yn nodi'r busnes sydd i'w drafod. Bydd hefyd yn cynnwys y cyfryw adroddiadau sydd ar gael.

4.15 **Cadeirydd Cyfarfod**

Caiff yr unigolyn sy'n llywyddu'r cyfarfod arfer unrhyw bŵer neu ddyletswydd a briodolir i'r Cadeirydd. Pan fo'r rheolau hyn yn berthnasol i gyfarfodydd pwyllgor ac is-bwyllgor, dylid cymryd bod cyfeiriadau at y Cadeirydd yn golygu cadeirydd y pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw.

4.16 **Cworwm**

Cworwm cyfarfod fydd chwarter y nifer gyfan o Aelodau. Yn ystod unrhyw gyfarfod, os bydd y Cadeirydd yn cyfrif nifer yr Aelodau sy'n bresennol ac yn datgan nad oes cworwm yn bresennol, yna bydd y cyfarfod yn cael ei ohirio yn syth. Bydd busnes sy'n weddill yn cael ei ystyried ar amser a dyddiad a bennir gan y Cadeirydd. Os nad yw ef/hi yn pennu dyddiad, bydd y busnes sy'n weddill yn cael ei ystyried yn y cyfarfod cyffredin nesaf.

4.17 **Presenoldeb o Bell**

*[I'w gwblhau pan gyhoeddir y canllawiau perthnasol gan Lywodraeth Cymru]*

4.18 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

4.18.1 Cyffredinol

i. Caiff aelodau'r cyhoedd ofyn cwestiynau i Aelodau'r Cabinet yng nghyfarfodydd cyffredin y Cyngor.

ii. Dylid cyfyngu'r amser a neilltuir ar gyfer cwestiynau gan y cyhoedd i 30 munud.

4.18.2 Trefn Cwestiynau

Gofynnir cwestiynau yn y drefn y derbyniwyd rhybudd ohonynt, ond caiff y Cadeirydd gasglu cwestiynau tebyg at ei gilydd mewn grŵp.

4.18.3 Rhybudd o Gwestiynau

Ceir gofyn cwestiwn dim ond os rhoddwyd rhybudd ohono trwy ei gyflwyno'n ysgrifenedig neu drwy bost electronig i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ddim hwyrach na chanol dydd 10 diwrnod cyn diwrnod y cyfarfod. Mae'n rhaid i bob cwestiwn gynnwys enw a chyfeiriad y sawl sy'n holi.

4.18.4 Nifer y Cwestiynau

Mewn unrhyw un cyfarfod, ni chaiff unrhyw unigolyn gyflwyno mwy nag un cwestiwn ac ni cheir gofyn mwy nag un cwestiwn o'r fath ar ran un sefydliad.

4.18.5 Cwmpas Cwestiynau

Caiff y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd wrthod cwestiwn:

i. os nad yw'n ymwneud â mater y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdano neu sy'n effeithio ar y sir;

ii. os yw'n ddifenwol, yn wacsaw neu'n sarhaus;

iii. os yw’n sylweddol debyg i gwestiwn a gyflwynwyd mewn cyfarfod o’r Cyngor yn ystod y chwe mis diwethaf;

iv. os yw’n gofyn am ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig;

v. os yw'n ymwneud â chwyn (dylai cwynion gael eu cyflwyno trwy drefn gwyno'r Cyngor

vi. os yw'n ymwneud â chais penodol am ganiatâd, trwydded, cydsyniad, cymeradwyaeth neu gofrestriad, neu unrhyw gamau gorfodi yn ymwneud â mater o'r fath;

vii. os yw'n ymwneud ag aelod penodol, aelod o staff y Cyngor neu aelod o'r Cyhoedd, neu

viii. pe bai darparu ateb yn golygu cost ac ymdrech afresymol;

ix. os yw'n ymwneud a mater lleol sydd heb arwyddocâd ehangach i'r Sir.

4.18.6 <u>Cofnod o Gwestiynau</u>

i. Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cofnodi pob cwestiwn mewn modd sydd ar gael i’r cyhoedd ei archwilio a bydd yn anfon copi o’r cwestiwn ar unwaith at y Cynghorydd y’i cyfeirir ato. Bydd cwestiynau a wrthodwyd yn cynnwys y rhesymau dros eu gwrthod.

ii. Bydd copïau o’r holl gwestiynau yn cael eu dosbarthu i bob Cynghorydd a byddant ar gael i’r cyhoedd sy’n mynychu’r cyfarfod.

4.18.7 <u>Gofyn y Cwestiwn yn y Cyfarfod</u>

Bydd y Cadeirydd yn gwahodd y sawl sy’n holi i ofyn y cwestiwn i’r Cynghorydd a enwyd yn y rhybudd. Os nad yw’r sawl a gyflwynodd gwestiwn ysgrifenedig yn gallu bod yn bresennol, caiff ofyn i’r Cadeirydd ofyn y cwestiwn ar ei ran. Caiff y Cadeirydd ofyn y cwestiwn ar ran y sawl sy’n holi, nodi y bydd ateb ysgrifenedig yn cael ei roi neu benderfynu, yn absenoldeb y sawl sy’n holi, na fydd y cwestiwn yn derbyn sylw.

4.18.8 <u>Cwestiwn Atodol</u>

Caiff unigolyn sydd wedi gofyn cwestiwn yn bersonol ofyn un cwestiwn atodol heb roi rhybudd i’r Cynghorydd a atebodd ei gwestiwn gwreiddiol. Mae’n rhaid i gwestiwn atodol godi’n uniongyrchol o’r cwestiwn gwreiddiol neu’r ymateb. Caiff y Cadeirydd wrthod cwestiwn atodol ar unrhyw un o’r seiliau a osodir yn Rheol 4.18.5 uchod.

4.18.9 <u>Atebion Ysgrifenedig</u>

Bydd unrhyw gwestiwn na ellir ymdrin ag ef yn ystod yr amser a neilltuwyd i’r cyhoedd ofyn cwestiynau, naill ai oherwydd diffyg amser neu oherwydd nad oedd y Cynghorydd y bwriadwyd gofyn y cwestiwn iddo yn bresennol, yn derbyn sylw trwy ateb ysgrifenedig.

4.18.10 Cyfeirio Cwestiwn at y Cabinet neu Bwyllgor

Oni bai bod y Cadeirydd yn penderfynu fel arall, ni fydd trafodaeth yn cael ei chynnal ar unrhyw gwestiwn, ond caiff unrhyw Aelod gynnig bod mater a godwyd gan gwestiwn yn cael ei gyfeirio at y Cabinet neu'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor priodol. Pan fydd wedi'i eilio, bydd cynnig o'r fath yn destun pleidlais heb drafodaeth.

## 4.19 Cwestiynau gan Aelodau

4.19.1 Ynglŷn ag Adroddiadau'r Cabinet neu Bwyllgorau

Caiff Aelod o'r Cyngor, heb roi rhybudd, ofyn unrhyw gwestiwn i'r Arweinydd, Aelod Cabinet neu Gadeirydd Pwyllgor sy'n codi'n uniongyrchol o eitem yn adroddiad y Cabinet neu Bwyllgor, pan fo'r eitem honno'n cael ei derbyn neu ei hystyried gan y Cyngor.

4.19.2 Cwestiynau yn y Cyngor Llawn y rhoddwyd Rhybudd ohonynt

Yn amodol ar Reol 4.19.4 caiff Aelod o'r Cyngor ofyn cwestiwn i'r:

i. Cadeirydd;

ii. Aelod o'r Cabinet;

iii. cadeirydd unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor;

ynglŷn ag unrhyw fater y mae gan y Cyngor bwerau neu ddyletswyddau yn ei gylch neu sy'n effeithio ar sir Gwynedd.

4.19.3 Cwestiynau mewn Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau y rhoddwyd Rhybudd ohonynt

Yn amodol ar Reol 4.19.4, caiff Aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor ofyn cwestiwn i gadeirydd y pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw ynglŷn ag unrhyw fater y mae gan y Cyngor bwerau neu ddyletswyddau yn ei gylch neu sy'n effeithio ar y sir ac sydd o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw.

4.19.4 Rhybudd o Gwestiynau

Caiff Aelod ofyn cwestiwn o dan Reol 4.19.2 neu 4.19.3:

i. os yw wedi rhoi o leiaf dau ddiwrnod o rybudd ysgrifenedig neu drwy bost electroneg o'r cwestiwn i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd; neu

ii. os yw'r cwestiwn yn ymwneud â materion brys, a bod ganddo/ganddi ganiatâd y Cadeirydd neu'r Aelod y bwriedir gofyn y cwestiwn iddo a bod cynnwys y cwestiwn yn cael ei roi i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd o leiaf pedair awr cyn y cyfarfod.

4.19.5 Nifer Fwyaf o Gwestiynau

Caiff Aelod ofyn un cwestiwn yn unig o dan Reol 4.19.2 neu 4.19.3 ac eithrio gyda chaniatâd Cadeirydd y Cyngor, y pwyllgor neu'r is-bwyllgor.

4.19.6 Trefn Cwestiynau

Bydd cwestiynau y rhoddwyd rhybudd ohonynt o dan Reol 4.19.2 neu 4.19.3 yn cael eu gofyn yn y drefn a bennir gan Gadeirydd y Cyngor, y pwyllgor neu'r is-bwyllgor.

4.19.7 Cynnwys Cwestiynau

Mae'n rhaid i gwestiynau o dan Reol 4.19.2 neu 4.19.3, ym marn y Cadeirydd:

i. beidio â chynnwys unrhyw fynegiadau o farn;

ii. fod yn berthnasol i faterion y mae gan y Cyngor bolisi arnynt neu y gallai bennu polisi arnynt;

iii. beidio ag ymwneud â chwestiynau ynglŷn â ffaith.

4.19.8 Ymateb

Caiff ateb fod ar ffurf:

i. ateb llafar uniongyrchol yn y cyfarfod;

ii. pan fo'r wybodaeth a ddymunir mewn cyhoeddiad gan y Cyngor neu waith cyhoeddedig arall, cyfeiriad at y cyhoeddiad hwnnw; neu

iii. pan na ellir ymateb yn gyfleus ar lafar, ateb ysgrifenedig a ddosberthir o fewn pum niwrnod i'r sawl sy'n holi.

4.19.9 Cwestiwn Atodol

Caiff Aelod sy'n gofyn cwestiwn o dan Reol 4.19.2 neu 4.19.3 ofyn un cwestiwn atodol heb roi rhybudd i'r Aelod y gofynnwyd y cwestiwn cyntaf iddo. Mae'n rhaid i'r cwestiwn atodol godi'n uniongyrchol o'r cwestiwn gwreiddiol neu'r ymateb.

4.19.10 Hyd Areithiau

Caiff Aelod sy'n gofyn cwestiwn o dan Reol 4.19.2 neu 4.19.3 ac Aelod sy'n ateb cwestiwn o'r fath siarad am ddim mwy na phum munud oni bai bod y Cadeirydd yn cydsynio i gyfnod hwy.

4.19.11 Yr Amser a Ganiateir ar gyfer Cwestiynau yng Nghyfarfodydd y Cyngor

i. Ni chaiff yr amser a ganiateir ar gyfer ystyried cwestiynau a gyflwynwyd o dan Reol 4.19.2, heb gydsyniad y Cyngor, fod yn fwy na 30 munud.

ii. Ar ddiwedd yr ateb i'r cwestiwn sy'n cael ei ystyried pan fydd 30 munud wedi dod i ben (neu'r cyfryw gyfnod hwy a ganiatawyd gan y Cyngor) o'r adeg y dechreuodd yr holwr cyntaf siarad, bydd y Cadeirydd yn dod â'r cwestiynau i ben.

iii. Ymatebir i unrhyw gwestiynau sy'n weddill yn ysgrifenedig cyn cyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor.

4.20 **Cynigion y rhoddir Rhybudd ohonynt**

4.20.1 Rhybudd

Ac eithrio cynigion y gellir eu cyflwyno heb rybudd o dan Reol 4.21 ac mewn achosion brys, mae'n rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig neu trwy bost electroneg o bob cynnig i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd erbyn 5 o'r gloch y prynhawn fan bellaf 10 diwrnod cyn y cyfarfod o'r Cyngor y bwriedir ei ystyried ynddo. Bydd cynigion a dderbyniwyd yn cael eu cofnodi mewn modd sydd ar gael i'r cyhoedd ei archwilio.

4.20.2 Rhestru Cynnig yn yr Agenda

Bydd cynigion y rhoddwyd rhybudd ohonynt yn cael eu rhestru yn yr agenda yn y drefn a bennir gan y Cadeirydd.

4.20.3 Cwmpas

Mae'n rhaid i gynigion ymwneud â materion y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt neu sy'n effeithio ar les ardal weinyddol y Cyngor.

4.20.4 Cynnig i Ddiswyddo'r Arweinydd

i. Ni ellir cyflwyno cynnig i ddiswyddo'r Arweinydd oni bai bod y rhybudd o'r cynnig yn cael ei lofnodi gan nifer o gynghorwyr sy'n gyfwerth â 20% o leiaf o gyfanswm nifer y cynghorwyr ar y Cyngor ac sy'n cynnwys cynghorwyr o ddau grŵp gwleidyddol o leiaf.

ii. Er mwyn i gynnig o'r fath gael ei dderbyn, mae'n rhaid iddo gael cefnogaeth o leiaf ddwy ran o dair o'r Aelodau hynny sy'n pleidleisio ac yn bresennol yn yr ystafell ar yr adeg y gofynnwyd y cwestiwn.

iii. Ni ellir cyflwyno cynnig i ddiswyddo'r Arweinydd fwy nag unwaith mewn unrhyw gyfnod treigl o 12 mis.

4.20.5 Un Cynnig fesul Aelod

Ni chaiff unrhyw Aelod roi rhybudd o fwy nag un cynnig ar gyfer unrhyw gyfarfod o'r Cyngor, ac eithrio gyda chaniatâd y Cadeirydd.

4.20.6 Yr Amser a Ganiateir ar gyfer Cynigion

Ni chaiff yr amser a ganiateir ar gyfer ystyried cynigion o dan y Rheol hon, heb gydsyniad y Cyngor, fod yn fwy na 30 munud. Ar ddiwedd yr araith a draddodir pan fydd 30 munud wedi dod i ben (neu'r cyfryw gyfnod hwy y mae'r Cyngor wedi cydsynio iddo) o ddechrau'r adeg yr ystyriodd y Cyngor y cynnig cyntaf o'r fath, bydd y Cadeirydd yn cynnal pleidlais, heb drafodaeth bellach, ar yr holl gwestiynau sy'n angenrheidiol i gwblhau'r cynnig sy'n cael ei drafod, yn amodol ar y canlynol:

i. os yw'r araith sydd i'w chwblhau yn araith sy'n cyflwyno cynnig, bydd y Cadeirydd yn caniatáu i'r cynnig gael ei eilio'n ffurfiol (heb sylwadau);

ii. os yw’r araith sydd i’w chwblhau yn araith sy’n cynnig gwelliant, bydd y Cadeirydd yn caniatáu i’r gwelliant gael ei eilio’n ffurfiol (heb sylwadau) a chaiff y sawl sy’n cyflwyno’r cynnig arfer ei hawl i ymateb; ac

iii. fel arall, bydd y Cadeirydd yn caniatáu i’r sawl sy’n cyflwyno’r cynnig arfer ei hawl i ymateb.

Bydd unrhyw gynigion sy’n weddill a gyflwynwyd o dan y Rheol hon yn cael eu gohirio tan gyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor ac ymdrinnir â hwy yn y cyfarfod hwnnw yn yr un drefn a chyn unrhyw gynigion eraill y rhoddwyd rhybudd ohonynt ar gyfer y cyfarfod hwnnw.

4.21 **Cynigion Heb Rybudd**

Ceir cyflwyno’r cynigion canlynol heb rybudd:

4.21.1 penodi Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod y cyflwynir y cynnig ynddo;

4.21.2 mewn perthynas â chywirdeb y cofnodion;

4.21.3 newid trefn busnes yr agenda;

4.21.4 atgyfeirio rhywbeth i gorff neu unigolyn priodol;

4.21.5 penodi pwyllgor neu Aelod sy’n codi o eitem ar yr wŷs ar gyfer y cyfarfod;

4.21.6 derbyn adroddiadau neu fabwysiadu argymhellion gan bwyllgorau, Aelodau Cabinet neu Swyddogion ac unrhyw benderfyniadau yn deillio ohonynt;

4.21.7 tynnu cynnig yn ôl;

4.21.8 gwella cynnig;

4.21.9 symud ymlaen i’r busnes nesaf;

4.21.10 bod y cwestiwn yn awr yn cael ei ofyn;

4.21.11 gohirio trafodaeth;

4.21.12 gohirio cyfarfod;

4.21.13 atal un o Reolau Gweithdrefnol penodol y Cyngor;

4.21.14 gwahardd y cyhoedd a’r wasg yn unol â’r Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth;

4.21.15 peidio â chlywed mwy gan Aelod a enwyd o dan Reol 4.29.3 neu ei (g)wahardd o’r cyfarfod o dan Reol 4.29.4; a

4.21.16 rhoi caniatâd y Cyngor lle y mae ei ganiatâd yn ofynnol gan y Cyfansoddiad hwn.

4.22 **<u>Rheolau Trafod</u>**

4.22.1 <u>Dim Areithiau nes bod Cynnig yn cael ei Eilio</u>

Ni cheir rhoi unrhyw areithiau ar ôl i'r cynigiwr gyflwyno cynnig ac esbonio ei ddiben nes bod y cynnig wedi cael ei eilio.

4.22.2 <u>Hawl i Fynnu Cynnig Ysgrifenedig</u>

Oni bai bod rhybudd eisoes wedi'i roi o'r cynnig, caiff y Cadeirydd fynnu ei fod yn cael ei nodi'n ysgrifenedig a'i roi iddo ef/iddi hi cyn iddo gael ei drafod.

4.22.3 <u>Araith yr Eilydd</u>

Wrth eilio cynnig neu ddiwygiad, caiff Aelod gadw ei araith tan yn ddiweddarach yn y drafodaeth.

4.22.4 <u>Cynnwys a Hyd Areithiau</u>

Mae'n rhaid i areithiau ymwneud â'r cwestiwn sy'n cael ei drafod neu esboniad personol neu bwynt o drefn, ac ni chaiff unrhyw araith fod yn fwy na deng munud yn achos cynigiwr y cynnig neu'r aelod lleol ar gyfer yr ardal lle saif y sefydliad neu'r tir sydd dan drafodaeth a phum munud yn achos pob siaradwr arall, heb ganiatâd y Cadeirydd.

4.22.5 <u>Pryd y caiff Aelod Siarad Eto</u>

Ni chaiff Aelod sydd wedi siarad ynghylch cynnig siarad eto tra bod y cynnig hwnnw'n destun trafodaeth, ac eithrio i:

i. siarad unwaith ynghylch gwelliant a gynigiwyd gan Aelod arall;

ii. cynnig gwelliant ychwanegol os cafodd y cynnig ei ddiwygio ers iddo siarad ddiwethaf;

iii. os oedd ei araith gyntaf yn ymwneud â gwelliant a gynigiwyd gan Aelod arall, siarad ynghylch y prif fater (pa un a dderbyniwyd y diwygiad y siaradodd yn ei gylch ai peidio);

iv. arfer yr hawl i ymateb;

v. codi pwynt o drefn; a

vi. rhoi esboniad personol.

4.22.6 <u>Gwelliannau i Gynigion</u>

i. Mae'n rhaid i welliant i gynnig fod yn berthnasol i'r cynnig ac fe'i gwneir naill ai i:

(i) atgyfeirio'r mater i gorff neu unigolyn priodol i'w ystyried neu ei ailystyried;

(ii) ddileu geiriau;

(iii) ddileu geiriau a chynnwys neu ychwanegu geiriau eraill; neu

(iv) gynnwys neu ychwanegu geiriau

cyn belled ag nad yw effaith 4.22.6i(ii) i 4.22.6i(iv) yn negyddu'r cynnig.

ii. Dim ond un gwelliant y ceir ei gynnig a'i drafod ar unrhyw un adeg. Ni cheir cynnig unrhyw welliant ychwanegol nes bod penderfyniad wedi'i wneud ynglŷn â'r gwelliant sy'n cael ei drafod.

iii. Os na dderbynnir gwelliant, ceir cynnig gwelliannau eraill i'r cynnig gwreiddiol.

iv. Os derbynnir gwelliant, bydd y cynnig fel y cafodd ei ddiwygio yn disodli'r cynnig gwreiddiol. Yna daw hwn yn gynnig gwreiddiol y bydd unrhyw welliannau ychwanegol yn cael eu cynnig iddo.

v. Ar ôl i welliant gael ei dderbyn, bydd y Cadeirydd yn darllen y cynnig wedi'i wella cyn derbyn unrhyw ddiwygiadau pellach neu, os nad oes rhai, yn ei roi gerbron pleidlais.

4.22.7 Newid Cynnig

i. Caiff Aelod newid cynnig y mae wedi rhoi rhybudd ohono gyda chaniatâd y cyfarfod. Bydd caniatâd y cyfarfod yn cael ei roi heb drafodaeth.

ii. Caiff Aelod newid cynnig y mae wedi'i gyflwyno heb roi rhybudd gyda chaniatâd y cyfarfod a'r eilydd. Bydd caniatâd y cyfarfod yn cael ei roi heb drafodaeth.

iii. Dim ond newidiadau y gellid eu gwneud fel diwygiad y ceir eu gwneud.

4.22.8 Tynnu Cynnig yn Ôl

Caiff Aelod dynnu'n ôl cynnig a gyflwynwyd ganddo/ganddi gyda chaniatâd y cyfarfod a'r eilydd. Bydd caniatâd y cyfarfod yn cael ei roi heb drafodaeth. Ni chaiff unrhyw Aelod siarad ynghylch y cynnig ar ôl i'r cynigiwr ofyn am ganiatâd i'w dynnu'n ôl oni bai y gwrthodir caniatâd.

4.22.9 Hawl i Ymateb

i. Mae gan y sawl a gyflwynodd y cynnig yr hawl i ymateb ar ddiwedd y drafodaeth ynghylch y cynnig, yn union cyn iddo gael ei roi gerbron pleidlais.

ii. Os cynigir gwelliant, mae gan y sawl a gyflwynodd y cynnig gwreiddiol yr hawl i ymateb ar ddiwedd y drafodaeth ynghylch y gwelliant, ond ni chaiff siarad yn ei gylch fel arall.

iii. Nid oes gan y sawl a gyflwynodd y gwelliant yr hawl i ymateb i'r drafodaeth ynghylch ei welliant ef/hi.

4.22.10 Cynigion y ceir eu Cyflwyno yn Ystod Trafodaeth

Pan fydd cynnig yn destun trafodaeth, ni cheir cyflwyno unrhyw gynnig arall ac eithrio'r cynigion gweithdrefnol canlynol:

i. tynnu cynnig yn ôl;

ii. gwella cynnig;

iii. symud ymlaen i'r busnes nesaf;

iv. bod y cwestiwn yn awr yn cael ei ofyn;

v. gohirio trafodaeth;

vi. gohirio cyfarfod;

vii. gwahardd y cyhoedd a'r wasg yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth; a

viii. pheidio â chlywed mwy gan Aelod a enwyd o dan Reol 4.29.3 neu ei (g)wahardd o'r cyfarfod o dan Reol 4.29.4.

4.22.11 Cynigion Cau

i. Caiff Aelod gyflwyno, heb roi sylwadau, y cynigion canlynol ar ddiwedd araith Aelod arall;

   (i) symud ymlaen i'r busnes nesaf;

   (ii) bod y cwestiwn yn awr yn cael ei ofyn;

   (iii) gohirio trafodaeth; neu

   (iv) ohirio cyfarfod.

ii. Os bydd cynnig i symud ymlaen i'r busnes nesaf yn cael ei eilio a bod y Cadeirydd o'r farn bod yr eitem wedi'i thrafod yn ddigonol, bydd yn rhoi hawl i ymateb i'r sawl a gyflwynodd y cynnig gwreiddiol ac yna'n rhoi'r cynnig gweithdrefnol i bleidlais. Pe bai'r cynnig hwnnw yn cael ei gario yna bydd y cynnig gwreiddiol yn disgyn.

iii. Os bydd cynnig bod y cwestiwn yn awr gael ei ofyn yn cael ei eilio a bod y Cadeirydd o'r farn bod yr eitem wedi'i thrafod yn ddigonol, bydd yn rhoi'r cynnig gweithdrefnol i bleidlais. Os caiff ei dderbyn, bydd yn rhoi hawl i ymateb i'r sawl a gyflwynodd y cynnig gwreiddiol cyn rhoi ei gynnig ef/ei chynnig hi gerbron pleidlais.

iv. Os bydd cynnig i ohirio'r drafodaeth neu'r cyfarfod yn cael ei eilio a bod y Cadeirydd o'r farn nad yw'r eitem wedi'i thrafod yn ddigonol ac na ellir gwneud hynny'n rhesymol ar yr achlysur hwnnw, bydd yn rhoi'r cynnig gweithdrefnol gerbron pleidlais heb roi hawl i ymateb i'r sawl a gyflwynodd y cynnig gwreiddiol.

4.22.12 Pwynt o Drefn

Pwynt o drefn yw cais gan Aelod i'r Cadeirydd ddyfarnu ynglŷn ag afreoleidd-dra honedig yng ngweithdrefn y cyfarfod. Caiff Aelod godi pwynt o drefn ar unrhyw adeg. Bydd y Cadeirydd yn gwrando arno/arni

ar unwaith. Caiff pwynt o drefn ymwneud yn unig â honiad o dorri Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor neu'r gyfraith. Mae'n rhaid i'r Aelod nodi'r rheol neu'r gyfraith a'r ffordd y mae'n ystyried y'i torrwyd. Bydd dyfarniad y Cadeirydd ynglŷn â'r mater yn derfynol.

4.22.13 Esboniad Personol

Caiff Aelod roi esboniad personol ar unrhyw adeg. Caiff esboniad personol ymwneud yn unig â rhyw ran berthnasol o araith gynharach gan yr Aelod a allai ymddangos fel pe bai wedi'i chamddeall yn y drafodaeth bresennol. Bydd dyfarniad y Cadeirydd ynglŷn â derbynioldeb esboniad personol yn derfynol.

4.22.14 Iaith

i. Ym mhob cyfarfod bydd i'r iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yr un statws a'r un dilysrwydd.

ii. Bydd gan bawb hawl i siarad yn y Gymraeg neu'r Saesneg pan fydd yn siarad mewn unrhyw gyfarfod.

iii. Rhaid i'r swyddog priodol drefnu i ddarparu cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg (ac o'r Saesneg i'r Gymraeg pan ofynnir am hynny), ym mhob cyfarfod.

iv. Yn absenoldeb cyfieithu ar y pryd, caniateir i fusnes cyfarfod fynd yn ei flaen, ond rhaid i'r sawl sy'n llywyddu sicrhau ar gais unrhyw aelod (gan gynnwys y siaradwr) y caiff union eiriau unrhyw gynnig, welliant, gwestiwn, ateb neu bwynt o drefn ac o leiaf sylwedd unrhyw araith neu sylw eu cyfieithu, ond ni fydd unrhyw fethiant anfwriadol i gydymffurfio â'r rheol hon neu unrhyw wall anfwriadol yn y cyfieithiad yn annilysu unrhyw benderfyniad.

## 4.23 Trafodaeth ynghylch Cyflwr y Sir

4.23.1 Galw Trafodaeth

Caiff yr Arweinydd alw trafodaeth ynghylch cyflwr y sir bob blwyddyn ar ddyddiad ac ar ffurf y cytunir arnynt gyda'r Cadeirydd.

4.23.2 Ffurf y Drafodaeth

Bydd yr Arweinydd yn penderfynu ar ffurf y drafodaeth gyda'r nod o alluogi cymaint o gyfranogiad gan y cyhoedd a chyhoeddusrwydd â phosibl. Gallai hyn gynnwys cynnal gweithdai a digwyddiadau eraill cyn neu yn ystod y drafodaeth.

4.23.3 Cadeirio'r Drafodaeth

Cadeirir y drafodaeth gan y Cadeirydd.

4.23.4 Canlyniadau'r Drafodaeth

Bydd canlyniadau'r drafodaeth yn cael eu lledaenu mor eang â phosibl yn y gymuned ac ymhlith asiantaethau a sefydliadau yn yr ardal sy'n gweithio mewn partneriaeth weithredol â'r Cyngor, a byddant yn cael eu hystyried gan yr Arweinydd wrth gynnig y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi i'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn i ddod.

4.24 **Penderfyniadau a Chynigion Blaenorol**

4.24.1 Cynnig i Ddiddymu Penderfyniad Blaenorol

Ni ellir cyflwyno cynnig neu welliant i ddiddymu penderfyniad a wnaed mewn cyfarfod o'r Cyngor o fewn y chwe mis diwethaf oni bai bod y rhybudd o'r cynnig yn cael ei lofnodi gan o leiaf 15 Aelod, ac eithrio yn achos gwybodaeth newydd sy'n dod i'r amlwg.

4.24.2 Cynnig sy'n Debyg i Un a Wrthodwyd yn Flaenorol

Ni ellir cyflwyno cynnig neu welliant sy'n debyg i un a wrthodwyd mewn cyfarfod o'r Cyngor yn ystod y chwe mis diwethaf oni bai bod y rhybudd o'r cynnig yn cael ei lofnodi gan o leiaf 15 Aelod. Pan fydd y cynnig neu'r gwelliant wedi derbyn sylw, ni all unrhyw un gyflwyno cynnig neu welliant tebyg am chwe mis.

4.25 **Pleidleisio**

4.25.1 Mwyafrif

Oni bai bod y Cyfansoddiad hwn yn darparu'n wahanol, penderfynir ar unrhyw fater gan fwyafrif syml o'r Aelodau hynny sy'n pleidleisio ac yn bresennol yn yr ystafell ar yr adeg y gofynnwyd y cwestiwn.

4.25.2 Pleidlais Fwrw'r Cadeirydd

Os oes nifer gyfartal o bleidleisiau o blaid ac yn erbyn, bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw. Ni fydd cyfyngiad ar sut y bydd y Cadeirydd yn dewis arfer pleidlais fwrw.

4.25.3 Dull Pleidleisio

Oni bai y mynnir pleidlais gudd o dan Reol 4.25.4 neu bleidlais gofrestredig o dan Reol 4.25.4, bydd y Cadeirydd yn cymryd y bleidlais trwy godi dwylo, neu drwy ddefnyddio system bleidleisio electronig y Cyngor os oes un, neu os nad oes anghytundeb, trwy gadarnhad y cyfarfod.

4.25.4 Pleidlais Gudd

Cymerir y bleidlais drwy bleidlais gudd os yw o leiaf dau allan o dri aelod gyda phleidlais sy'n bresennol yn y cyfarfod yn hawlio hynny. Bydd y cadeirydd yn cyhoeddi canlyniad y bleidlais cyn gynted ag y bo'r canlyniad yn wybyddus.

4.25.5 Pleidlais Gofrestredig

Os bydd o leiaf chwarter o Aelodau sy'n bresennol yn y cyfarfod yn mynnu, bydd yr enwau o blaid ac yn erbyn y cynnig neu'r gwelliant neu

sy'n ymatal rhag pleidleisio yn cael eu cofnodi'n ysgrifenedig a'u cynnwys yn y cofnodion. Bydd galwad am bleidlais gudd yn cael blaenoriaeth ar alwad am bleidlais gofrestredig.

4.25.6 Yr Hawl i Fynnu bod Pleidlais Unigol yn cael ei Chofnodi

Pan fydd unrhyw Aelod yn gofyn am hynny yn syth ar ôl y bleidlais, bydd ei bleidlais ef/ei phleidlais hi yn cael ei chofnodi felly yn y cofnodion i ddangos pa un a bleidleisiodd o blaid neu yn erbyn y cynnig neu a ymatalodd rhag pleidleisio.

4.25.7 Pleidleisio ar Benodiadau

Os enwebir mwy na dau unigolyn ar gyfer unrhyw swydd sydd i'w llenwi ac nid oes mwyafrif clir o bleidleisiau o blaid un unigolyn, yna bydd enw'r unigolyn sydd â'r nifer leiaf o bleidleisiau yn cael ei ddileu o'r rhestr a phleidlais newydd yn cael ei chynnal. Bydd y broses yn parhau hyd nes y ceir mwyafrif o bleidleisiau dros un unigolyn.

4.26 **Cofnodion**

4.26.1 Llofnodi'r Cofnodion

Bydd y Cadeirydd yn llofnodi cofnodion y trafodion yn y cyfarfod addas nesaf. Bydd y Cadeirydd yn cynnig bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn cael eu llofnodi yn gofnod cywir. Yr unig ran o'r cofnodion y gellir ei thrafod yw eu cywirdeb.

4.26.2 Dim Gofyniad i Lofnodi Cofnodion Cyfarfod Blaenorol mewn Cyfarfod Arbennig

O ran unrhyw gyfarfod, pan fydd y cyfarfod nesaf at ddiben llofnodi'r cofnodion yn gyfarfod a alwyd o dan baragraff 3 Atodlen 12 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (cyfarfod arbennig), yna bydd y cyfarfod dilynol nesaf (sef cyfarfod a alwyd heblaw o dan y paragraff hwnnw) yn cael ei drin fel cyfarfod addas at ddibenion paragraff 41(1) a (2) Atodlen 12 yn ymwneud â llofnodi cofnodion.

4.26.3 Ffurf Cofnodion

Bydd cofnodion yn cynnwys yr holl gynigion a gwelliannau yn y ffurf a'r drefn y'u cymerwyd gan y Cadeirydd.

4.27 **Cofnod o Bresenoldeb**

Mae'n rhaid i'r holl Aelodau sy'n bresennol yn ystod cyfarfod cyfan neu ran ohono (heblaw rhai sy'n ymuno o bell) lofnodi eu henwau ar y dalenni presenoldeb cyn diwedd pob cyfarfod er mwyn cynorthwyo â'r cofnod presenoldeb.

4.28 **Gwahardd y Cyhoedd**

Ceir gwahardd aelodau'r cyhoedd a'r wasg dim ond yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth yn Adran 14 y Cyfansoddiad hwn neu Reol 4.30 (Aflonyddwch gan y Cyhoedd).

4.29 **Ymddygiad Aelodau**

4.29.1 Siarad mewn Cyfarfodydd

Pan fydd Aelod yn siarad yn y Cyngor Llawn mae'n rhaid iddo ef/iddi hi sefyll ac annerch y cyfarfod trwy'r Cadeirydd. Os bydd mwy nag un Aelod yn mynegi eu bod yn bwriadu siarad, bydd y Cadeirydd yn gofyn i un siarad. Mae'n rhaid i Aelodau eraill aros yn dawel tra bod Aelod yn siarad oni bai eu bod yn dymuno codi pwynt o drefn neu roi esboniad personol.

4.29.2 Y Cadeirydd yn Sefyll

Pan fydd y Cadeirydd yn sefyll yn ystod trafodaeth, mae'n rhaid i unrhyw Aelod sy'n siarad ar y pryd fod yn dawel ac eistedd i lawr.

4.29.3 Peidio â Chlywed Mwy gan Aelod

Os bydd Aelod yn diystyru dyfarniad y Cadeirydd yn gyson trwy ymddwyn yn amhriodol neu'n llesteirio busnes yn fwriadol, caiff y Cadeirydd gynnig na ddylid clywed mwy gan yr Aelod. Os caiff y cynnig ei eilio, cynhelir pleidlais arno heb drafodaeth.

4.29.4 Gofyn i Aelod Adael y Cyfarfod

Os bydd yr Aelod yn parhau i ymddwyn yn amhriodol ar ôl i gynnig o'r fath gael ei dderbyn, caiff y Cadeirydd gynnig bod yr Aelod yn gadael y cyfarfod neu fod y cyfarfod yn cael ei ohirio am gyfnod penodol. Os caiff y cynnig ei eilio, cynhelir pleidlais arno heb drafodaeth.

4.29.5 Aflonyddwch Cyffredinol

Os oes aflonyddwch cyffredinol sy'n golygu bod busnes trefnus yn amhosibl, caiff y Cadeirydd ohirio'r cyfarfod am gyn hired ag y mae'n barnu sy'n angenrheidiol.

4.30 **Aflonyddwch gan y Cyhoedd**

4.30.1 Symud Aelod o'r Cyhoedd

Os bydd aelod o'r cyhoedd yn torri ar draws y trafodion, bydd y Cadeirydd yn rhoi rhybudd i'r unigolyn dan sylw. Os bydd yn parhau i dorri ar draws, bydd y Cadeirydd yn gorchymyn iddo ef/iddi hi gael ei symud o ystafell y cyfarfod.

4.30.2 Clirio Rhan o Ystafell y Cyfarfod

Os oes aflonyddwch cyffredinol mewn unrhyw ran o ystafell y cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, caiff y Cadeirydd alw am i'r rhan honno gael ei chlirio.

4.31 **Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol yn ystod Cyfarfodydd**

Caniateir defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ystod cyfarfodydd cyn belled ag na aflonyddir ar reolaeth y cyfarfod.

4.32 **Atal a Diwygio Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor**

4.32.1 Atal

Ceir atal holl Reolau Gweithdrefnol y Cyngor, ac eithrio Rheolau 4.20.5, 4.25.7 a 4.26.2, trwy gynnig y rhoddir rhybudd ohono neu gynnig heb rybudd os yw o leiaf hanner nifer cyfan Aelodau'r Cyngor yn bresennol. Bydd yr ataliad mewn grym am barhad y cyfarfod yn unig. Gellir atal Rheol 4.20.5 trwy gynnig y rhoddir rhybudd ohono yn unig ac mae'n rhaid i'r cynnig gael ei gefnogi gan o leiaf ddwy ran o dair o'r Aelodau hynny sy'n bresennol ac yn pleidleisio.

4.32.2 Diwygio

Bydd unrhyw gynnig i ychwanegu at, amrywio neu ddirymu Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor, pan fydd yn cael ei gyflwyno a'i eilio, yn cael ei ohirio heb drafodaeth hyd nes cyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor.

4.33 **Dehongliad.**

Ni fydd rheoliad y person sy'n llywyddu yn y cyfarfod ynghylch dehongliad neu gynhwysiad y Cyfansoddiad hwn neu ynglŷn ag unrhyw rai o drafodion y Cyngor yn cael ei herio mewn unrhyw un o gyfarfodydd y Cyngor.

4.34 **Cymhwyso i Bwyllgorau ac Is-bwyllgorau.**

Mae holl Reolau Gweithdrefnol y Cyngor yn berthnasol i gyfarfodydd y Cyngor Llawn. Nid yw'r un o'r rheolau yn berthnasol i gyfarfodydd y Cabinet. Dim on Rheolau 4.13 i 4.16, 4.19 i 4.22, 4.24 i 4.33 (ond nid Rheol 4.29.1) sy'n berthnasol i gyfarfodydd pwyllgorau ac is-bwyllgorau.

**ADRAN 5**

# 5. Y CABINET

## 5.1 Cyflwyniad

Penodir y Cabinet i gyflawni holl swyddogaethau'r Cyngor nad ydynt yn gyfrifoldeb unrhyw ran arall o'r Cyngor, boed hynny yn ôl y Gyfraith neu o dan y Cyfansoddiad hwn.

## 5.2 Ffurf a Chyfansoddiad y Cabinet

Bydd y Cabinet yn cynnwys:

5.2.1 Arweinydd y Cyngor (yr "Arweinydd"); ac

5.2.2 o leiaf ddau ond dim mwy na naw Cynghorydd arall a benodir i'r Cabinet gan yr Arweinydd.

## 5.3 Yr Arweinydd

5.3.1 Ethol

Bydd yr Arweinydd yn Gynghorydd a etholwyd i swydd yr Arweinydd gan y Cyngor.

5.3.2 Cyfnod yn y Swydd

Penodir yr Arweinydd am dymor y Cyngor.

5.3.3 Rôl yr Arweinydd

Bydd yr Arweinydd yn Cadeirio cyfarfodydd y Cabinet ac yn pennu portffolios Aelodau'r Cabinet. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn Adran 13.

## 5.4 Dirprwy Arweinydd

5.4.1 Bydd yr Arweinydd yn penodi Dirprwy Arweinydd i weithredu fel Arweinydd yn ei (h)absenoldeb ef/hi. Caiff yr Arweinydd ddiswyddo'r Dirprwy Arweinydd hefyd ar unrhyw adeg os yw'n ystyried bod hynny'n briodol.

5.4.2 Caiff y Dirprwy Arweinydd arfer holl swyddogaethau'r Arweinydd pan fo'r swydd yn wag neu pan fo'r Arweinydd yn absennol neu'n methu â gweithredu fel arall.

## 5.5 Aelodau Eraill y Cabinet

Bydd Aelodau eraill y Cabinet yn Gynghorwyr a benodwyd i swydd Aelod o'r Cabinet gan yr Arweinydd. Bydd pob Aelod o'r Cabinet yn dal y swydd hyd nes:

5.5.1 y bydd ef/hi yn ymddiswyddo o'r swydd honno; neu

5.5.2 y caiff ef/hi ei (d)diswyddo o'r swydd honno gan yr Arweinydd ar ôl i'r Arweinydd roi'r cyfryw gyfnod o rybudd (os o gwbl) ag y mae'n ystyried sy'n briodol; neu

5.5.3 y bydd ef/hi yn peidio â bod yn Gynghorydd.

Caiff yr Arweinydd benodi Aelod o'r Cabinet ar unrhyw adeg i lenwi unrhyw swyddi gwag.

## 5.6 **Dirprwyo Swyddogaethau**

Caiff yr Arweinydd arfer Swyddogaethau Gweithredol ei hun neu, fel arall, wneud trefniadau i ddirprwyo'r cyfrifoldeb dros eu cyflawni. Caiff yr Arweinydd ddirprwyo Swyddogaethau Gweithredol i'r canlynol:

5.6.1 y Cabinet yn ei chyfanrwydd;

5.6.2 un o Bwyllgorau'r Cabinet (sy'n cynnwys Aelodau gweithredol yn unig);

5.6.3 Aelod unigol o'r Cabinet;

5.6.4 cyd-bwyllgor;

5.6.5 awdurdod lleol arall neu weithrediaeth awdurdod lleol arall;

5.6.6 Swyddog dirprwyedig.

## 5.7 **Rheolau Gweithdrefnol a Thrafod**

Bydd trafodion y Cabinet yn cael eu cynnal yn unol â Rheolau Gweithdrefnol y Weithrediaeth yn Adran 5.8 isod.

## 5.8 **Rheolau gweithdrefn y Cabinet**

5.8.1 Dirprwyo gan yr Arweinydd

Yn dilyn cyfarfod blynyddol y Cyngor, bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, yn ôl cyfarwyddyd yr Arweinydd, yn llunio cofnod ysgrifenedig o'r dirprwyaethau gweithredol a wnaed gan yr Arweinydd i'w gynnwys yng nghynllun dirprwyo'r Cyngor yn Adran 13 y Cyfansoddiad hwn. Bydd hyn yn cynnwys y wybodaeth ganlynol am Swyddogaethau Gweithredol mewn perthynas â'r flwyddyn i ddod:

(a) maint unrhyw awdurdod a ddirprwywyd i Aelodau'r Cabinet yn unigol, gan gynnwys manylion y cyfyngiad ar eu hawdurdod;

(b) cylch gorchwyl a chyfansoddiad pa bwyllgorau Cabinet bynnag ag y bydd yr Arweinydd yn eu penodi ac enwau Aelodau'r Cabinet a benodir iddynt;

(c) natur a maint unrhyw ddirprwyo Swyddogaethau Gweithredol i unrhyw awdurdod arall neu unrhyw drefniadau ar y cyd;

(ch) natur a maint unrhyw ddirprwyo i Swyddogion ynghyd â manylion unrhyw gyfyngiad ar y dirprwyo hynny, a theitl y Swyddog y gwneir y dirprwyo iddo/iddi.

5.8.2 Is-ddirprwyo Swyddogaethau Gweithredol

(a) Pan fydd y Cabinet, un o bwyllgorau'r Cabinet neu Aelod unigol o'r Cabinet yn gyfrifol am Swyddogaeth Weithredol, caiff ddirprwyo ymhellach i drefniadau ar y cyd neu Swyddog.

(b) Oni bai bod yr Arweinydd yn cyfarwyddo fel arall, caiff un o bwyllgorau'r Cabinet y dirprwywyd swyddogaethau iddo gan yr Arweinydd ddirprwyo ymhellach i Swyddog.

(c) Pan fydd Swyddogaethau Gweithredol wedi'u dirprwyo, ni fydd y ffaith honno'n atal yr unigolyn neu'r corff a ddirprwyodd y swyddogaethau dirprwyedig rhag eu cyflawni.

5.8.3 Cynllun Dirprwyo a Swyddogaethau Gweithredol y Cyngor

(a) Caiff yr Arweinydd ddiwygio'r cynllun dirprwyo mewn perthynas â Swyddogaethau Gweithredol ar unrhyw adeg. Wrth wneud hynny, bydd yr Arweinydd yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a'r unigolyn, y corff neu'r pwyllgor dan sylw. Mae'n rhaid i'r rhybudd amlinellu maint y diwygiad i'r cynllun dirprwyo, a pha un a yw'n golygu tynnu dirprwyaeth yn ôl oddi ar unrhyw unigoly, corff neu bwyllgor. Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn cyflwyno adroddiad i gyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor yn amlinellu'r newidiadau a wnaed gan yr Arweinydd.

(b) Pan fydd yr Arweinydd yn ceisio tynnu dirprwyaeth yn ôl oddi ar un o bwyllgorau'r Cabinet, ystyrir bod rhybudd wedi'i roi i'r pwyllgor hwnnw pan fydd wedi'i roi i'w gadeirydd.

5.8.4 Gwrthdaro Buddiannau

(a) Pe byddai gan yr Arweinydd wrthdaro buddiannau, dylid ymdrin â hyn fel yr amlinellir yng Nghod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau yn Adran 18 y Cyfansoddiad hwn.

(b) Pe byddai gan unrhyw Aelod o'r Cabinet wrthdaro buddiannau, dylid ymdrin â hyn fel yr amlinellir yng Nghod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau yn Adran 13 Cyfansoddiad hwn.

(c) Os yw'r pŵer i arfer Swyddogaeth Weithredol wedi'i ddirprwyo i un o bwyllgorau'r Cabinet, Aelod unigol neu Swyddog, a bod gwrthdaro buddiannau'n codi, yna bydd y swyddogaeth yn cael ei harfer yn y lle cyntaf gan yr unigolyn neu'r corff a wnaeth y ddirprwyaeth ac fel arall fel y nodir yng Nghod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau yn Adran 18 y Cyfansoddiad hwn.

5.8.5 Cyfarfodydd y Cabinet – Pryd a Ble?

Yr Arweinydd fydd yn pennu amlder ac amseriad cyfarfodydd y Cabinet. Bydd y Cabinet yn cyfarfod ym mhrif swyddfeydd y Cyngor neu mewn lleoliad arall i'w gytuno gan yr Arweinydd.

5.8.6 Cyfarfodydd Cyhoeddus neu Breifat o'r Cabinet?

Bydd y Cabinet yn cynnal ei gyfarfodydd/chyfarfodydd yn gyhoeddus, ac eithrio yn yr amgylchiadau a nodir yn y Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth yn Adran 14 er enghraifft pan fydd gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig yn cael ei thrafod.

5.8.7 Cworwm

(a) Y cworwm ar gyfer cyfarfod y Cabinet fydd chwarter yr aelodau gan gynnwys yr Arweinydd neu'r Dirprwy Arweinydd.

(b) Y cworwm ar gyfer cyfarfod un o bwyllgorau'r Cabinet fydd dau.

5.8.8 Sut bydd Penderfyniadau'n cael eu Gwneud gan y Cabinet?

(a) Bydd Penderfyniadau Gweithredol gan y Cabinet yn ei gyfanrwydd yn cael eu gwneud mewn cyfarfod a gynullwyd yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth yn Adran 14 y Cyfansoddiad hwn.

(b) Pan ddirprwyir Penderfyniadau Gweithredol i un o bwyllgorau'r Cabinet, bydd y rheolau sy'n berthnasol i Benderfyniadau Gweithredol a wneir ganddo yr un fath â'r rhai hynny sy'n berthnasol i Benderfyniadau Gweithredol a wneir gan y Cabinet yn ei gyfanrwydd.

## 5.9 Sut y Cynhelir Cyfarfod y Cabinet?

5.9.1 Pwy fydd yn Llywyddu?

Bydd yr Arweinydd yn llywyddu unrhyw gyfarfod o'r Cabinet neu ei bwyllgorau y mae'n bresennol ynddo. Yn absenoldeb yr Arweinydd, bydd y Dirprwy Arweinydd yn llywyddu. Yn ei (h)absenoldeb ef/hi, bydd unigolyn yn cael ei benodi i lywyddu gan y rhai hynny sy'n bresennol.

5.9.2 Pwy Gaiff Fynychu?

Amlinellir y manylion hyn yn y Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth yn Adran 14 y Cyfansoddiad hwn. Gweler hefyd Adran 3

o ran cyfranogiad Aelodau mewn cyfarfodydd.

5.9.3 Pa Fusnes?

Ym mhob cyfarfod o’r Cabinet, bydd y busnes canlynol yn cael ei gynnal:

(a) ystyried cofnodion y cyfarfod diwethaf;

(b) datganiadau o fuddiannau, os oes rhai;

(c) materion a atgyfeiriwyd i’r Cabinet (boed hynny gan Bwyllgorau Craffu neu gan y Cyngor) i’w hystyried gan y Cabinet yn unol â’r darpariaethau a geir yn y Rheolau Gweithdrefnol Trosolwg a Chraffu neu Reolau Gweithdrefnol y Gyllideb a’r Fframwaith Polisi a amlinellir yn Adrannau 7 1 15 y Cyfansoddiad hwn;

(ch) ystyried adroddiadau gan Bwyllgorau Craffu;

(d) ystyried adroddiadau gan Bwyllgorau’r Cabinet ;

(dd) adroddiadau gan Aelodau’r Cabinet a/neu Swyddogion yr Awdurdod.

5.9.4 Ymgynghori

Mae’n rhaid i’r holl adroddiadau i’r Cabinet gan unrhyw Aelod o’r Cabinet neu Swyddog ar gynigion yn ymwneud â’r Gyllideb a’r Fframwaith Polisi gynnwys manylion am natur a graddau ymgynghoriad a gynhaliwyd â rhanddeiliaid a chyda’r Pwyllgor Craffu a chanlyniad yr ymgynghoriad hwnnw. Bydd adroddiadau ar faterion eraill yn nodi manylion a chanlyniad ymgynghoriadau fel y bo’n briodol. Bydd lefel yr ymgynghori sy’n ofynnol yn briodol i natur y mater sy’n cael ei ystyried.

5.9.5 Pwy gaiff roi Eitemau ar Agenda’r Cabinet?

(a) Yr Arweinydd fydd yn penderfynu ar y rhaglen ar gyfer cyfarfodydd y Cabinet. Caiff ef/hi roi unrhyw fater ar agenda unrhyw gyfarfod o’r Cabinet pa un a yw awdurdod wedi’i ddirprwyo i’r Cabinet, un o’i bwyllgorau neu unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas â’r mater hwnnw ai peidio.

(b) Caiff unrhyw Aelod o’r Cabinet fynnu bod y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn sicrhau bod eitem yn cael ei rhoi ar agenda cyfarfod nesaf y Cabinet i’w hystyried.

(c) Caiff Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Swyddog Monitro a/neu’r Prif Swyddog Ariannol gynnwys eitem i’w hystyried ar agenda cyfarfod o’r Cabinet a chaiff fynnu bod cyfarfod o’r fath yn cael ei gynnull yn unol â’i (d)dyletswyddau statudol.

(ch) Mewn amgylchiadau eraill, pan fydd unrhyw ddau o Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Prif Swyddog Ariannol a’r Swyddog Monitro o’r farn bod angen galw

cyfarfod o’r Cabinet i ystyried mater y mae angen gwneud penderfyniad arno, cânt gynnwys eitem ar agenda cyfarfod o’r Cabinet ar y cyd. Os nad oes cyfarfod i ymdrin â’r mater dan sylw, yna caiff yr unigolyn/unigolion sydd â hawl i gynnwys eitem ar yr agenda fynnu hefyd fod cyfarfod yn cael ei ystyried ac y caiff y mater ei drafod ynddo.

5.10 **Aflonyddwch gan y Cyhoedd a Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol**

5.10.1 Mae’r darpariaethau yn Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor yn Adran 4 mewn perthynas ag aflonyddwch gan y cyhoedd yn berthnasol i gyfarfodydd y Cabinet.

5.10.2 Mae’r darpariaethau yn Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor yn Adran 4 sy’n ymwneud â defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn berthnasol i gyfarfodydd y Cabinet.

**ADRAN 7**

## 7. **PWYLLGORAU CRAFFU**

### 7.1 **Cyflwyniad**

7.1.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor, o dan y Gyfraith, gyflawni swyddogaethau trosolwg a chraffu penodol. Mae'r swyddogaethau hyn yn elfen hollbwysig o ddemocratiaeth leol. Dylai Pwyllgorau Craffu fod yn bwyllgorau pwerus sy'n gallu cyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cyngor a dwyn y Cabinet i gyfrif am ei benderfyniadau. Rhan allweddol arall o'r rôl trosolwg a chraffu yw adolygu polisïau presennol, ystyried cynigion ar gyfer polisïau newydd ac awgrymu polisïau newydd.

7.1.2 Dylid cynnal trosolwg a chraffu mewn ffordd adeiladol a dylai geisio cyfrannu at ddarparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol sy'n bodloni anghenion a dyheadau preswylwyr lleol. Ni ddylai Pwyllgorau Craffu ofni herio a chwestiynu penderfyniadau a rhoi beirniadaeth adeiladol.

### 7.2 **Pwyllgorau Craffu**

Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Cyngor wedi penodi 3 o Bwyllgorau Craffu a fydd, rhyngddynt, yn:

7.2.1 adolygu neu graffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Cyngor, boed hynny gan y Cabinet neu ran arall o'r Cyngor;

7.2.2 llunio adroddiadau neu wneud argymhellion i'r Cyngor neu'r Cabinet mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaethau;

7.2.3 ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar ardal y Cyngor neu ei phreswylwyr; ac

7.2.4 arfer yr hawl i alw i mewn penderfyniadau a wnaed gan y Cabinet a Swyddogion, ond sydd heb eu gweithredu eto, er mwyn eu hailystyried.

7.3 **<u>Rôl, Cwmpas ac Aelodaeth</u>**

Disgrifir rôl, cwmpas ac Aelodaeth y Pwyllgorau Craffu yn y tabl isod:

| **Pwyllgor ac Aelodaeth** | **Rôl a Chwmpas** |
|---|---|
| Pwyllgor Craffu Corfforaethol<br>18 aelod | Craffu ar faterion yn ymwneud a gweithrediad y Cyngor yn fewnol megis:<br>• Strategaeth Corfforaethol<br>• Partneriaethau<br>• Ymgysylltu<br>• Trawsnewid Busnes<br>• Effeithlonrwydd Gwasanaethau<br>• Cytundeb Canlyniadau<br>• Gweithlu<br>• Gofal Cwsmer |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau<br>18 aelod | Craffu ar faterion yn ymwneud a gwasanaethau i'r gymuned ehangach megis:<br>• Adfywio ac Economi<br>• Gwynedd Werdd<br>• Amgylchedd<br>• Rhwydwaith Trafnidiaeth a Chludiant Cymunedol<br>• Grymuso Cymunedau<br>• Gwastraff<br>• Tai<br>• Iaith<br>• Lleihau ôl-troed Carbon<br>• Cynllun Datblygu Lleol |
| Pwyllgor Craffu Gwasanaethau<br>18 aelod | Craffu ar faterion yn ymwneud a gwasanaethau i unigolion megis:<br>• Pobl hyn ac Oedolion<br>• Teuluoedd<br>• Plant a Phobl Ifanc<br>• Addysg<br>• Llwybr i gyflogaeth<br>• Iechyd |

7.4 **<u>Swyddogaethau Penodol</u>**

7.4.1 <u>Datblygu ac Adolygu Polisïau</u>

Caiff y Pwyllgorau Craffu:

(a) ystyried effaith polisïau er mwyn asesu a ydynt wedi gwneud gwahaniaeth;

(b) gynorthwyo'r Cyngor a'r Cabinet i ddatblygu ei Gyllideb a Fframwaith Polisi trwy ddadansoddi materion polisi yn fanwl;

(c) gynnal ymchwil, ymgynghoriadau â'r gymuned ac ymgynghoriadau eraill wrth ddadansoddi materion polisi a dewisiadau posibl;

(ch) holi barn Aelodau'r Cabinet] a/neu Bwyllgorau a Phrif Swyddogion y Cyngor am faterion a chynigion sy'n effeithio ar yr ardal; a

(d) cysylltu â sefydliadau allanol eraill sy'n gweithredu yn yr ardal, pa un a ydynt yn rhai cenedlaethol, rhanbarthol neu leol, er mwyn sicrhau bod buddiannau pobl leol yn cael eu gwella trwy waith cydweithredol.

7.4.2 <u>Craffu</u>

Caiff y Pwyllgorau Craffu:

(a) adolygu a chraffu ar benderfyniadau a pherfformiad y Cabinet a/neu Bwyllgorau a Swyddogion y Cyngor o ran penderfyniadau unigol a thros amser;

(b) adolygu a chraffu ar berfformiad y Cyngor o ran ei amcanion polisi, ei dargedau perfformiad a/neu feysydd gwasanaeth penodol;

(c) holi Aelodau'r Cabinet a/neu Bwyllgorau a Phrif Swyddogion y Cyngor ynglŷn â'u penderfyniadau a'u perfformiad, boed hynny'n gyffredinol o gymharu â chynlluniau gwasanaeth a thargedau dros gyfnod o amser, neu o ran penderfyniadau, mentrau neu brosiect penodol;

(ch) gwneud argymhellion i'r Cabinet a/neu Bwyllgor priodol a/neu'r Cyngor sy'n deillio o ganlyniad y broses graffu;

(d) adolygu a chraffu ar berfformiad cyrff cyhoeddus eraill a phersonau dynodedig yn yr ardal a gwahodd adroddiadau ganddynt trwy ofyn iddynt annerch y Pwyllgorau Craffu a phobl leol ynglŷn â'u gweithgareddau a'u perfformiad; a

(dd) holi a chasglu tystiolaeth gan unrhyw unigolyn (gyda'i ganiatâd ef/ei chaniatâd hi).

7.4.3 Cyllid

Gall y Pwyllgorau Craffu ymarfer cyfrifoldeb cyffredinol am y cyllid a sicrheir iddynt.

7.4.4 Adroddiad Blynyddol

Mae'n rhaid i'r Pwyllgorau Craffu adrodd yn flynyddol i aelodau'r Cyngor ar eu gwaith gydag argymhellion ar gyfer eu rhaglen waith yn y dyfodol a dulliau gweithio diwygiedig os yw'n briodol.

## 7.5 Y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

Un o rolau'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd o dan adran 8 y Mesur yw hyrwyddo rôl Pwyllgorau Craffu y Cyngor a hyrwyddo cymorth ac arweiniad i Aelodau a Swyddogion y Cyngor yn gyffredinol ynglŷn â swyddogaethau'r Pwyllgorau Craffu.

## 7.6 Pwy Gaiff fod yn Aelod o Bwyllgorau Craffu?

Caiff pob Cynghorydd ac eithrio Aelodau'r Cabinet fod yn Aelodau o'r Pwyllgorau Craffu. Fodd bynnag, ni chaiff unrhyw Aelod ymwneud â chraffu ar benderfyniadau y mae ef/hi wedi bod yn uniongyrchol gysylltiedig â hwy.

## 7.7 Aelodau Cyfetholedig

Bydd gan bob Pwyllgor Craffu yr hawl i argymell i'r Cyngor benodi uchafswm o ddau o bobl yn aelodau cyfetholedig nad oes ganddynt bleidlais. Wrth arfer pŵer i benodi aelod cyfetholedig, neu benderfynu pa un ai arfer y pŵer hwnnw, mae'n rhaid i'r Awdurdod, o dan adran 76 y Mesur, roi ystyriaeth i'r arweiniad a roddwyd gan Weinidogion Cymru a chydymffurfio â'r cyfarwyddiadau a roddwyd ganddynt.

## 7.8 Cynrychiolwyr Addysg

Bydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau yn cynnwys yn ei Aelodaeth gynrychiolwyr pleidleisio o gredoau crefyddol a rhiant-lywodraethwyr, fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith ac arweiniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

## 7.9 Pwy fydd yn Cadeirio?

Bydd y trefniadau sydd wedi'u cynnwys yn adrannau 66-75 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cael eu dilyn ar gyfer penodi unigolion i gadeirio Pwyllgorau Craffu.

## 7.10 Rôl y Cadeirydd a'r Pwyllgorau Craffu

7.10.1 Bydd rôl Cadeirydd y Pwyllgorau Craffu yn hollbwysig wrth weithredu'r dull newydd o weithio. Bydd y Cadeiryddion yn cysylltu â'r Cabinet, yn goruchwylio'r Rhaglen Waith ac yn nodi themâu trawsbynciol sy'n codi o'r Pwyllgorau Craffu amrywiol.

7.10.2 I grynhoi, felly, bydd y Cadeirydd yn:

(a) atebol am gyflawni'r ffordd newydd o weithio ar gyfer craffu;

(b) cyfarfod yn rheolaidd i fonitro Rhaglenni Gwaith;

(c) cysylltu â'r Cabinet ynglŷn â materion sy'n effeithio ar y Rhaglen Waith Craffu; ac yn

(ch) adrodd yn ysgrifenedig i aelodau'r Cyngor ar gynnydd wrth weithredu'r dulliau newydd o weithio.

7.11 **Rhaglen Waith**

Bydd y Pwyllgorau Craffu yn gyfrifol am osod eu Rhaglen Waith eu hunain ac, wrth wneud hynny, dylent ystyried dymuniadau Aelodau'r Pwyllgor hwnnw nad ydynt yn Aelodau o'r grŵp gwleidyddol mwyaf yn y Cyngor. Cânt hefyd ystyried materion brys ac annisgwyl nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Waith.

7.12 **Cyfarfodydd**

7.12.1 Bydd y Pwyllgorau Craffu yn cynnal 5 o gyfarfodydd y flwyddyn.

7.12.2 Ceir galw cyfarfodydd arbennig o bryd i'w gilydd er mwyn ymdrin â materion a alwyd i mewn (Adran 7.25) lle y mae Cadeirydd Pwyllgor Craffu o'r farn bod angen i'r Pwyllgor Craffu hwnnw ystyried y penderfyniad a alwyd i mewn cyn y cyfarfod nesaf a drefnwyd ar gyfer y Pwyllgor.

.

7.13 **Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

O dan adran 58 y Mesur, ceir gwneud rheoliadau i ganiatáu i ddau awdurdod lleol neu fwy benodi Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu.. Amlinellir hyn yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu) (Cymru) 2012.

7.14 **Rheolau Gweithdrefn a Thrafod**

Bydd y Rheolau Gweithdrefn Craffu yn berthnasol i gyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu

7.15 **Faint o Bwyllgorau Craffu a Sefydlir a beth fydd y Trefniadau ar eu cyfer?**

7.15.1 Bydd gan y Cyngor 3 o Bwyllgorau Craffu a nodir yn y tabl yn Adran 7.3 a bydd yn penodi iddynt fel yr ystyria'n briodol o bryd i'w gilydd. Caiff y Pwyllgorau benodi grwpiau llai i gynnal archwiliad manwl o bynciau penodol er mwyn adrodd yn ôl iddynt. Ceir penodi grwpiau o'r fath am gyfnod penodol ac fe'u diddymir pan ddaw'r cyfnod hwnnw i ben.

7.15.2 Bydd cylch gorchwyl y Pwyllgorau Craffu fel a nodir yn y tabl yn Adran 7.3.

7.15.3 Cadeirir pob Pwyllgor Craffu gan Gadeirydd a benodwyd o aelodaeth y Pwyllgor Craffu hwnnw:

(a) bydd Aelodaeth drawsbleidiol ym mhob Pwyllgor Craffu;

(b) bydd y Pwyllgorau Craffu yn ymgymryd â'r canlynol:

(i) adolygu neu ymchwilio i fater penodol yn fanwl ac yn ddi-oed, gan adrodd ar eu casgliadau a gwneud unrhyw argymhellion i'r Cyngor neu'r Cabinet fel y bo'n briodol;

(ii) cynnal ymchwil ac ymgynghoriadau â'r gymuned (ac eraill) at ddibenion dadansoddi materion a datblygu dewisiadau posibl, lle y bo'n briodol, trwy gysylltu â'r partneriaethau ardal/cymunedol;

(iii) ystyried ac adrodd ar ddulliau o annog a gwella cyfranogiad y gymuned mewn datblygu dewisiadau ar gyfer darparu gwasanaethau;

(iv) holi Aelodau'r Cabinet a Swyddogion am eu barn a'u gweithredoedd o ran materion a chynigion sy'n effeithio ar y sir];

(v) cysylltu â sefydliadau allanol eraill sy'n gweithredu yn yr ardal, pa un a ydynt yn rhai cenedlaethol, rhanbarthol neu leol, er mwyn sicrhau bod buddiannau pobl leol yn cael eu gwella trwy waith cydweithredol; a

(vi) holi a chasglu tystiolaeth gan unrhyw unigolyn (gyda'i ganiatâd ef/ei chaniatâd hi) wrth gynnal prosesau ymchwiliol ac adrodd.

## 7.16 Cyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu

Caiff y Cyngor bennu cylch o gyfarfodydd ar gyfer y Pwyllgorau Craffu. Os nad yw'r Cyngor yn pennu'r cylch, bydd pob Pwyllgor o'r fath yn pennu ei gylch cyfarfodydd ei hun. Caiff y Cadeirydd neu, yn ei (h)absenoldeb ef/hi, yr Is-gadeirydd, newid dyddiad neu ganslo cyfarfodydd, neu alw cyfarfodydd ychwanegol fel yr ystyria'n angenrheidiol i ymdrin â rhaglen waith y Pwyllgor. Caiff y Cadeirydd (neu, yn ei (h)absenoldeb ef/hi, yr Is-gadeirydd) neu'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd alw cyfarfod Pwyllgor Craffu, os yw ef/hi o'r farn bod hynny'n angenrheidiol neu'n briodol.

## 7.17 Cworwm

Bydd y cworwm ar gyfer Pwyllgor Craffu yn chwarter aelodau'r pwyllgor.

## 7.18 Eitemau Agenda

7.18.1 Bydd gan unrhyw Aelod o Bwyllgor Craffu penodol yr hawl i roi rhybudd i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ei fod/bod yn

dymuno ychwanegu eitem sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Pwyllgor hwnnw at yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf sydd ar gael. Dylid rhoi saith diwrnod gwaith o rybudd o'r eitem i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ynghyd â digon o wybodaeth i alluogi'r Swyddog i gynghori ynghylch natur a diben yr eitem.

7.18.2 Ar ôl derbyn cais o'r fath, cyn belled ag y bo'n fater priodol i'w ystyried, bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn sicrhau ei fod yn cael ystyriaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer ei gynnwys yn yr agenda nesaf sydd ar gael.

7.18.3 Bydd Pwyllgor Craffu hefyd yn ymateb, cyn gynted ag y bydd ei raglen waith yn caniatáu, i geisiadau gan y Cyngor a/neu'r Cabinet i adolygu meysydd penodol o weithgarwch y Cyngor. Pan fydd yn gwneud hynny, bydd y Pwyllgor Craffu penodol yn adrodd ar ei ganfyddiadau ac unrhyw argymhellion i'r Cabinet a/neu'r Cyngor. Bydd y Cyngor a/neu'r Cabinet yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Craffu o fewn mis o'i dderbyn.

7.19 **<u>Adolygu a Datblygu Polisi</u>**

7.19.1 Amlinellir rôl y Pwyllgorau Craffu o ran datblygu Cyllideb a Fframwaith Polisi'r Cyngor yn fanwl yn Rheolau Gweithdrefnol y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi yn Adran 15.

7.19.2 O ran datblygu ymagwedd y Cyngor at faterion nad ydynt yn rhan o'i Gyllideb a'i Fframwaith Polisi, caiff Pwyllgor Craffu gyflwyno cynigion i'r Cabinet ar gyfer datblygiadau cyn belled â'u bod yn berthnasol i faterion sydd o fewn ei gylch gorchwyl.

7.19.3 Caiff Pwyllgor Craffu gynnal ymchwiliadau ac archwilio'r dewisiadau sydd ar gael ar gyfer cyfeiriad datblygu polisi yn y dyfodol a chaiff benodi ymgynghorwyr ac aseswyr i'w gynorthwyo â'r broses hon. Caiff ymweld â safleoedd, cynnal arolygon cyhoeddus, cynnal cyfarfodydd cyhoeddus, comisiynu ymchwil a gwneud yr holl bethau eraill y mae'n ystyried yn rhesymol eu bod yn briodol i lywio ei ystyriaethau. Caiff ofyn i dystion fynychu i'w annerch ar unrhyw fater sy'n cael ei ystyried a chaiff dalu ffi resymol a threuliau i unrhyw ymgynghorwyr, aseswyr a thystion am wneud hynny.

7.20 **<u>Adroddiadau gan y Pwyllgorau Craffu</u>**

7.20.1 Bydd pob adroddiad ffurfiol gan y Pwyllgorau Craffu yn cael ei gyflwyno i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i'w ystyried gan y Cabinet (os yw'r cynigion yn gyson â'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi presennol), neu i'r Cyngor fel y bo'n briodol (e.e. pe byddai'r argymhelliad yn golygu gwyro oddi wrth neu newid y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi cytunedig).

7.20.2 Os na all Pwyllgor Craffu gytuno ar un adroddiad terfynol sengl i'r Cyngor neu'r Cabinet fel y bo'n briodol, ceir paratoi un adroddiad lleiafrif a'i gyflwyno i'w ystyried gan y Cyngor neu'r Cabinet gyda'r adroddiad mwyafrif.

7.20.3 Bydd y Cyngor neu'r Cabinet yn ystyried adroddiad Pwyllgor Craffu o fewn mis o'i gyflwyno i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

7.21 **Sicrhau bod Adroddiadau Craffu yn cael eu hystyried gan y Cabinet**

7.21.1 Bydd yr agenda ar gyfer cyfarfodydd y Cabinet yn cynnwys eitem o'r enw "Materion yn Codi o Drosolwg a Chraffu". Bydd adroddiadau'r Pwyllgorau Craffu a atgyfeiriwyd i'r Cabinet yn cael eu cynnwys ar y pwynt hwn yn yr agenda (oni bai eu bod wedi derbyn sylw yng nghyd-destun ystyriaethau'r Cabinet ynglŷn ag eitem berthnasol ar yr agenda) cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Os na fydd eitem yn cael ei hystyried gan y Cabinet o fewn deufis, bydd y Cabinet yn rhoi esboniad o'r rhesymau i Gadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

7.21.2 Pan fydd y Cabinet wedi dirprwyo pŵer gwneud penderfyniadau i Aelod unigol arall o'r Cabinet, bydd Pwyllgor Craffu yn cyflwyno copi o'i adroddiad iddo ef/iddi hi i'w ystyried. Ar yr adeg y gwneir hynny, bydd y Pwyllgor Craffu yn rhoi copi o'r adroddiad i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Mae'n rhaid i'r Aelod y dirprwywyd pŵer gwneud penderfyniadau iddo/iddi ystyried yr adroddiad ac ymateb yn ysgrifenedig i'r Pwyllgor Craffu o fewn pedair wythnos o'i dderbyn. Bydd copi o'i (h)ymateb ysgrifenedig yn cael ei anfon at y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a'r Arweinydd. Bydd yr Aelod hefyd yn mynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu hwnnw yn y dyfodol i gyflwyno ei (h)ymateb.

7.22 **Hawliau Aelodau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu i weld Dogfennau**

7.22.1 Yn ogystal â'u hawliau fel Cynghorwyr, mae gan Aelodau'r Pwyllgorau Craffu yr hawl ychwanegol i weld dogfennau, ac i gael rhybudd o gyfarfodydd fel yr amlinellir yn y Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth yn Adran 14 y Cyfansoddiad hwn.

7.22.2 Nid oes unrhyw beth yn y paragraff hwn yn atal cysylltiad manylach rhwng y Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu fel y bo'n briodol yn dibynnu ar y mater penodol sy'n cael ei ystyried.

7.23 **Esboniadau gan Aelodau a Swyddogion**

7.23.1 Caiff y Pwyllgorau Craffu adolygu a chraffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Cyngor. Yn ogystal ag adolygu dogfennau, wrth gyflawni'r rôl Graffu, cânt ofyn i unrhyw Aelod o'r Cabinet, y Prif Weithredwr a/neu unrhyw uwch Swyddog ymddangos ger eu bron i esbonio mewn perthynas â materion sydd o fewn eu cylch gorchwyl:

(a) unrhyw benderfyniad penodol neu gyfres o benderfyniadau;

(b) i ba raddau y mae'r camau a gymerwyd yn gweithredu polisi'r Cyngor; a/neu

(c) ei berfformiad ef/pherfformiad hi

ac mae'n ddyletswydd ar yr unigolion hynny i fod yn bresennol os gofynnir iddynt.

7.23.2 At y diben hwn, mae uwch Swyddog yn cynnwys unrhyw brif Swyddog, dirprwy brif Swyddog ac uwch Swyddog priodol arall. Pan fo pryderon ynglŷn â phriodoldeb y Swyddog a ddylai fod yn bresennol, bydd y prif Swyddog perthnasol yn trafod hyn gyda'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd Craffu priodol er mwyn ceisio cael cydsyniad.

7.23.3 Pan fydd yn ofynnol i unrhyw Aelod neu Swyddog fynychu Pwyllgor Craffu o dan y ddarpariaeth hon, bydd Cadeirydd y Pwyllgor hwnnw'n hysbysu'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn hysbysu'r Aelod neu'r Swyddog, yn ysgrifenedig os oes angen, gan roi o leiaf 15 diwrnod gwaith o rybudd o'r cyfarfod y mae'n ofynnol iddo ef/iddi hi ei fynychu (oni bai y cytunwyd fel arall). Bydd unrhyw rybudd yn nodi natur yr eitem y mae'n ofynnol iddo ef/iddi hi fynychu i'w hesbonio a pha un a yw'n ofynnol dangos unrhyw bapurau i'r Pwyllgor.

7.23.4 Pan fydd yr esboniad sydd i'w roi i Bwyllgor Craffu yn golygu bod angen dangos adroddiad, yna rhoddir digon o rybudd i'r Aelod neu'r Swyddog dan sylw i ganiatáu ar gyfer paratoi'r ddogfennaeth honno.

7.23.5 Os, oherwydd amgylchiadau eithriadol, nad yw'r Aelod neu'r Swyddog yn gallu bod yn bresennol ar y dyddiad gofynnol, yna bydd y Pwyllgor Craffu], mewn ymgynghoriad â'r Aelod neu'r Swyddog, yn trefnu dyddiad arall iddo ef/iddi hi fod yn bresennol.

7.24 **<u>Presenoldeb gan Bobl Eraill</u>**

Caiff Pwyllgor Craffu wahodd pobl heblaw am y rhai hynny y cyfeirir atynt ym mharagraff 7.23 uchod i'w annerch, trafod materion sy'n achosi pryder yn lleol a/neu ateb cwestiynau. Mae'n bosibl, er enghraifft, y bydd yn dymuno clywed gan breswylwyr, rhanddeiliaid ac Aelodau a Swyddogion mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus a bydd yn gwahodd pobl felly i fod yn bresennol.

7.25 **<u>Galw i Mewn</u>**

7.25.1 <u>Rheolau</u>

(a) Pan fydd penderfyniad yn cael ei wneud gan y Cabinet, aelod unigol o'r Cabinet neu un o Bwyllgorau'r Cabinet neu o dan drefniadau ar y cyd, bydd y penderfyniad yn cael ei gyhoeddi gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, gan gynnwys trwy ddull electronig lle y bo'n bosibl, a bydd ar gael ym mhrif swyddfeydd y Cyngor fel arfer o fewn pum niwrnod gwaith clir o'i wneud. Bydd cofnodion yr holl benderfyniadau o'r fath yn cael eu hanfon at bob Aelod o'r

Pwyllgor Craffu o fewn yr un raddfa amser, gan yr unigolyn sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r penderfyniad.

(b) Bydd yr hysbysiad hwnnw'n cynnwys y dyddiad y'i cyhoeddir arno ac yn nodi y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y ceir ei weithredu ar ddiwedd pum niwrnod gwaith clir ar ôl i'r penderfyniad gael ei gyhoeddi, oni bai bod Pwyllgor Craffu yn ei wrthwynebu a'i alw i mewn i'w adolygu.

(c) Yn ystod y cyfnod hwnnw, bydd y Swyddog Monitro yn galw i mewn penderfyniad i graffu arno gan Bwyllgor Craffu os gofynnir am hynny yn y fformat a nodir gan Gadeirydd (neu yn ei (h)absenoldeb Is-gadeirydd) ac unrhyw ddau aelod o'r Pwyllgor Craffu hwnnw (o ddau grwp gwahanol), a bydd yn hysbysu'r penderfynwr bod y penderfyniad am gael ei alw i mewn. Bydd ef/hi yn galw cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu hwnnw ar y cyfryw ddyddiad ag y bydd ef/hi yn penderfynu, a hynny lle y bo'n bosibl ar ôl ymgynghori â Chadeirydd neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu hwnnw, a ph'un bynnag o fewn 15 diwrnod gwaith clir o'r penderfyniad i alw i mewn (dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu yn ystyried ymestyn y terfyn amser hwn).

(ch) Os yw'r Pwyllgor Craffu yn dal i bryderu am y penderfyniad ar ôl ei ystyried, yna caiff ei gyfeirio'n ôl at y corff a wnaeth y penderfyniad i'w ailystyried, gan amlinellu'n ysgrifenedig natur ei bryderon neu gyfeirio'r mater at y Cyngor Llawn. Os caiff ei gyfeirio at y penderfynwr, bydd ef/hi yn ei ailystyried o fewn 15 diwrnod gwaith clir arall, gan wneud gwelliannau iddo ai peidio, cyn mabwysiadu penderfyniad terfynol.

(d) Os, ar ôl gwrthwynebiad i'r penderfyniad, nad yw Pwyllgor Craffu yn cyfarfod o fewn y cyfnod a nodir uchod, neu os yw'n cyfarfod ond nid yw'n cyfeirio'r mater yn ôl i'r unigolyn neu'r corff a wnaeth y penderfyniad, bydd y penderfyniad yn dod i rym ar ddyddiad cyfarfod y Pwyllgor Chraffu, neu ddiwedd y cyfnod o 5 diwrnod gwaith arall, pa un bynnag sydd gynharaf.

(dd) Os cyfeiriwyd y mater at y Cyngor Llawn ac nid yw'r Cyngor yn gwrthwynebu penderfyniad a wnaed, yna ni fydd angen cymryd unrhyw gamau pellach a bydd y penderfyniad yn dod i rym yn unol â'r ddarpariaeth isod. Fodd bynnag, os bydd y Cyngor yn gwrthwynebu, bydd y Cyngor yn cyfeirio unrhyw benderfyniadau y mae'n eu gwrthwynebu yn ôl at yr unigolyn neu'r corff a wnaeth y penderfyniad, ynghyd â safbwyntiau'r Cyngor ar y penderfyniad. Bydd y corff neu'r unigolyn hwnnw a wnaeth y penderfyniad yn dewis pa un ai diwygio'r penderfyniad ai peidio cyn gwneud penderfyniad terfynol a'i roi ar waith. Os gwnaed y penderfyniad gan y Cabinet yn ei gyfanrwydd, neu un o'i Bwyllgorau, ailystyrir y penderfyniad yng nghyfarfod nesaf y Cabinet neu bwyllgor. Os gwnaed y penderfyniad gan unigolyn, bydd yr unigolyn

yn ei ailystyried o fewn deng niwrnod gwaith o gais y Cyngor.

(e) Os nad yw'r Cyngor yn cyfarfod, neu os yw'n cyfarfod ond yn dewis peidio â chyfeirio'r penderfyniad yn ôl i'r corff neu'r unigolyn a wnaeth y penderfyniad, daw'r penderfyniad i rym ar ddyddiad cyfarfod y Cyngor neu ddiwedd y cyfnod pryd y dylid bod wedi cynnal cyfarfod y Cyngor, pa un bynnag sydd gynharaf.

(f) Er mwyn sicrhau nad yw'r broses galw i mewn yn cael ei chamddefnyddio, nac yn achosi oedi afresymol, gosodir rhai cyfyngiadau ar ei defnydd, sef:

(i) caiff Pwyllgor Craffu alw i mewn cyfanswm o dri penderfyniad fesul cyfnod o dri mis;

(ii) mae angen tri Aelod o Bwyllgor Craffu (o ddau grŵp gwleidyddol o leiaf), gan gynnwys y Cadeirydd (neu yn ei (h)absenoldeb yr Is-gadeirydd) er mwyn i benderfyniad gael ei alw i mewn;

(iii) pan fydd Aelod wedi llofnodi cais am alw i mewn o dan y paragraff hwn, ni chaiff ef/hi wneud hynny eto nes bod y cyfnod o dri mis wedi dod i ben.

(iv) Ni chaiff unrhyw Aelodau Cyfetholedig adrodd penderfyniad i'w alw i mewn.

(ff) Caiff y Swyddog Monitro roi feto ar unrhyw gais am alw i mewn os yw y tu allan i gylch gorchwyl y cynllun hwn.

(g) Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, mae'n rhaid i bob Aelod sy'n gofyn am alw mater i mewn fynychu'r cyfarfod pryd yr ystyrir y mater.

7.25.2 <u>Galw i Mewn a Brys</u>

(a) Ni fydd y weithdrefn galw i mewn a amlinellir uchod yn berthnasol pan fo'r penderfyniad a wneir gan y Cabinet yn un brys. Bydd penderfyniad yn un brys pe byddai unrhyw oedi sy'n debygol o gael ei achosi gan y broses galw i mewn, er enghraifft, yn niweidiol iawn i fuddiannau'r Cyngor neu fuddiannau cyhoeddus eraill. Bydd y cofnod o'r penderfyniad, a'r hysbysiad a roddir ohono i'r cyhoedd, yn datgan pa un a yw'r penderfyniad yn un brys, ym marn yr unigolyn neu'r corff a wnaeth y penderfyniad, ac felly ni cheir ei alw i mewn. Mae'n rhaid i Cadeirydd y Cyngor gytuno bod y penderfyniad a gynigiwyd yn rhesymol yn yr holl amgylchiadau ac y dylid ei drin fel mater brys. Yn absenoldeb y Cadeirydd, bydd angen caniatâd yr Is-Gadeirydd. Yn absenoldeb y ddau, bydd angen caniatâd Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig neu ei (h)enwebai ef/hi. Mae'n rhaid adrodd ar benderfyniadau a wnaed fel mater

brys yng nghyfarfod nesaf y Cyngor, ynghyd â'r rhesymau dros y brys.

(b) Bydd gweithrediad y darpariaethau sy'n ymwneud â galw i mewn a brys yn cael ei fonitro'n flynyddol a chyflwynir adroddiad i'r Cyngor gyda chynigion ar gyfer adolygu os bydd angen.

7.26 **Chwip Plaid**

7.26.1 Ni chaniateir i aelod o bwyllgor craffu bleidleisio ar gwestiwn mewn cyfarfod o'r pwyllgor os rhoddwyd cyfarwyddyd chwip plaid i'r aelod cyn y cyfarfod mewn perthynas â'r cwestiwn ("Cyfarwyddyd gwaharddedig chwip plaid").

7.26.2 Rhaid diystyru pleidlais a roddir yn groes i 7.26.1.

7.26.3 Rhaid i aelod o'r pwyllgor ddatgan mewn cyfarfod unrhyw gyfarwyddyd gwaharddedig chwip plaid sydd wedi ei roi iddo/iddi mewn perthynas â'r cyfarfod.

7.26.4 Rhaid cofnodi pob datganiad a wneir o dan 7.26.3 yng nghofnodion y cyfarfod.

7.26.5 Y sawl sy'n llywyddu'r cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu sydd i benderfynu a yw aelod wedi cael cyfarwyddyd gwaharddedig chwip plaid mewn perthynas â'r cyfarfod.

.

7.27 **Y Weithdrefn mewn Cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu**

7.27.1 Bydd Pwyllgor Craffu yn ystyried y busnes canlynol:

(a) cofnodion y cyfarfod diwethaf;

(b) datganiadau o fuddiannau;

(c) ystyried unrhyw fater a gyfeiriwyd at y Pwyllgor Craffu hwnnw ar gyfer penderfyniad o ran galw penderfyniad i mewn;

(ch) ymatebion y Cabinet i adroddiadau'r Pwyllgor Craffu hwnnw;

(d) y busnes a amlinellwyd fel arall yn yr agenda ar gyfer y cyfarfod.

Bydd y Rheolau Gweithdrefnol ar gyfer Pwyllgor Craffu yr un fath â Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor ac eithrio y caiff Cadeirydd y cyfarfod ganiatáu i'r rheolau trafod gael eu llacio er mwyn i'r rhai hynny sy'n bresennol yn y cyfarfod allu cyfrannu'n llawn, boed hynny fel Aelodau o Bwyllgor Craffu neu mewn unrhyw rinwedd arall sy'n caniatáu iddynt gyfrannu at werth y cyfarfod.

7.27.2 Caiff Pwyllgor Craffu ofyn i bobl eraill fynychu i roi tystiolaeth neu ateb cwestiynau ynglŷn ag unrhyw eitemau sydd ar ei agenda. Dylid cynnal cyfarfodydd yn unol â'r egwyddorion canlynol:

(a) bod y busnes yn cael ei gynnal yn deg a bod pob Aelod o'r Pwyllgor Craffu yn cael cyfle i ofyn cwestiynau i'r rhai sy'n bresennol, ac i gyfrannu a siarad;

(b) bod y rhai hynny sy'n cynorthwyo trwy roi tystiolaeth yn cael eu trin â pharch a chwrteisi;

(c) bod y busnes yn cael ei gynnal mor effeithlon â phosibl.

7.27.3 Yn dilyn ymchwiliad neu adolygiad, bydd Pwyllgor Craffu yn paratoi adroddiad i'w gyflwyno i'r Cabinet a/neu'r Cyngor fel y bo'n briodol a bydd yn sicrhau bod ei adroddiad a'i ganfyddiadau ar gael i'r cyhoedd.

7.28 **<u>Materion sydd o fewn Cylch Gorchwyl mwy nag un Pwyllgor Craffu</u>**

Pan fydd mater sydd i'w ystyried gan Bwyllgor Craffu yn dod o fewn cylch gorchwyl un neu fwy o Bwyllgorau eraill, y Cadeiryddion priodol fydd yn penderfynu pa Bwyllgor fydd yn ei ystyried neu, os na allant gytuno, bydd Cadeirydd y Cyngor yn penderfynu.

7.29 **<u>Galwad gan Gynghorydd i Weithredu</u>**

7.29.1 Mae'r Alwad gan Gynghorydd i Weithredu yn ddull o alluogi Aelodau etholedig i ddwyn materion sy'n achosi pryder yn lleol i sylw'r Cyngor trwy'r broses Graffu. Dylai hyn fod yn "ddewis olaf".

7.29.2 Caiff unrhyw Aelod ofyn am gael gosod eitem ar agenda Pwyllgor Craffu i'w hystyried.

7.29.3 Mae'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â Galwad i Weithredu wedi'i hamlinellu yn y ddogfen Galwad gan Gynghorydd i Weithredu – Canllawiau i Gynghorwyr, sydd wedi'i hatodi i'r Rheolau hyn yn Atodiad 1.

**ATODIAD 1 I ADRAN 7**

**Galwad gan Gynghorydd i Weithredu – Canllawiau i Gynghorwyr**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwynodd Mesur Llywodraeth Leol 2011 nifer o ddarpariaethau newydd gyda'r nod o gryfhau democratiaeth leol. Cyflwynodd adran 63 y Mesur ddarpariaeth ar gyfer "Galwadau gan Gynghorwyr i Weithredu" sy'n galluogi Cynghorwyr i atgyfeirio materion sy'n bwysig yn lleol i Bwyllgorau Craffu.

1.2 Diben Galwadau gan Gynghorwyr i Weithredu yw galluogi Cynghorwyr lleol a'u hetholwyr i gael ymateb gan Arweinyddiaeth eu Cyngor ar faterion sy'n bwysig yn lleol. Dylid ystyried Galwadau gan Gynghorwyr i Weithredu yn un o gyfres o ddulliau y gall Aelodau eu defnyddio i ddatrys materion lleol a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol yn eu cymuned. Yn flaenorol yng Nghymru, dim ond materion Trosedd ac Anhrefn lleol y gallai'r Aelod (l)leol eu hatgyfeirio i'r Pwyllgor Craffu Trosedd ac Anhrefn dynodedig ar gyfer gweithredu, a dylid nodi y bydd yr atgyfeiriadau trosedd ac anhrefn lleol hyn yn parhau o dan ddeddfwriaeth ar wahân.

1.3 Fel rhan o'u rôl arweinyddiaeth gymunedol, mae cynghorwyr bob amser wedi ceisio datrys materion ar ran eu preswylwyr lleol ac mae Galwadau gan Gynghorwyr i Weithredu yn cynnig llwybr ychwanegol i gynghorwyr ei ddilyn os nad yw'r ffyrdd arferol o ddatrys mater wedi bod yn llwyddiannus a bod y mater yn bodloni'r meini prawf ar gyfer atgyfeirio. Sylwer y dylid ystyried atgyfeiriad o dan y broses hon yn ddewis olaf ar ôl dihysbyddu pob llwybr arall.

1.4 Cyflwynwyd Galwadau gan Gynghorwyr i Weithredu ochr yn ochr â phwerau eraill ar gyfer craffu, gan gynnwys pwerau i graffu ar ystod eang o gyrff nad oeddent yn destun craffu gan awdurdodau lleol yn flaenorol. Bwriedir i Alwadau gan Gynghorwyr i Weithredu alluogi unrhyw Aelod o'r Cyngor i atgyfeirio i Bwyllgor Craffu, "fater llywodraeth leol" sy'n dod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

## 2. SUT Y DYLWN I GEISIO DATRYS MATER LLEOL YN FY ARDAL FEL ARFER?

2.1 Gall cynghorwyr ddatrys materion lleol ar ran eu preswylwyr mewn nifer o ffyrdd fel y'u rhestrir yng Nghanllawiau Statudol Llywodraeth Cymru ar Fesur Llywodraeth Leol 2011:

2.1.1 trafodaethau anffurfiol gyda Swyddogion neu gynghorwyr eraill;

2.1.2 trafodaethau anffurfiol gyda chynrychiolwyr partner;

2.1.3 atgyfeirio i gyrff "craffu" eraill fel Cynghorau Iechyd Cymuned neu bwyllgor archwilio mewnol;

2.1.4 trafodaethau ffurfiol gyda Swyddogion a chynghorwyr;

2.1.5 llythyrau ffurfiol at Aelodau'r Cabinet;

2.1.6 gofyn cwestiynau yn y Cyngor Llawn;

2.1.7 cyflwyno cynnig i'r Cyngor Llawn;

2.1.8 trefnu cyfarfodydd cyhoeddus;

2.1.9 defnyddio deisebau;

2.1.10 gwneud cwyn;

2.1.11 ceisiadau am wybodaeth;

2.1.12 cyfathrebu ag Aelodau Cynulliad neu Aelodau Seneddol lleol;

2.1.13 ymgyrchu trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol neu negeseuon e-bost.

2.2 Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth a gallai cynghorwyr ddewis llwybrau gwahanol ar gyfer materion penodol. Os nad yw mater wedi'i ddatrys ar ôl dihysbyddu pob llwybr arall posibl, yna gall cynghorydd lleol ei atgyfeirio i'r Pwyllgor Craffu priodol.

3. **BETH YW GALWAD GAN GYNGHORYDD I WEITHREDU?**

3.1 Er mwyn i'r Pwyllgor dderbyn Galwad gan Gynghorydd i Weithredu fel eitem agenda i'w thrafod yn un o'i gyfarfodydd, mae'n rhaid i'r mater effeithio ar ardal etholiadol gyfan cynghorydd, neu ran ohoni, neu mae'n rhaid iddo effeithio ar rywun sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal honno.

3.2 Fodd bynnag, nid oes angen i Gynghorydd gael atgyfeiriad gan etholwr i gychwyn y broses. Mae'n bwysig sylweddoli nad yw Galwad gan Gynghorydd i Weithredu yn ffordd sicr o ddatrys problem benodol. Yn hytrach, fe all gynnig dull o drafod problemau o'r fath a, thrwy drafod, ceisio eu goresgyn.

4. **SUT A PHRYD Y DYLWN I WNEUD GALWAD GAN GYNGHORYDD I WEITHREDU?**

4.1 Darperir siart llif sy'n dangos y broses yn Atodiad A. Caiff cynghorydd gychwyn y broses trwy lenwi'r ffurflen yn Atodiad B. Mae mwy o gopïau ar gael gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Mae'n bwysig bod y cynghorydd lleol yn nodi pa ganlyniad a ddisgwylir gan yr atgyfeiriad. Ar ôl llenwi'r ffurflen, dylid ei dychwelyd i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a fydd yn cofnodi a chydnabod yr atgyfeiriad o fewn pum niwrnod gwaith.

4.2 Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cadarnhau pa un a yw'r atgyfeiriad yn bodloni'r gofynion a amlinellir ym mharagraff 3.1 uchod ai peidio i'w alluogi i gael ei roi ar yr agenda i'w drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor. Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cadw'r hawl i eithrio o'r agenda unrhyw fater sy'n flinderus, yn wahaniaethol neu'n anghyfreithlon o bosibl fel arall; a bydd y Cynghorydd yn cael gwybod am y canlyniad hwn cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

5. **MEINI PRAWF I'W DILYN GAN BWYLLGOR CRAFFU**

5.1 Aelodau Pwyllgor Craffu sydd i benderfynu pa un a ddylid ystyried y mater ymhellach, ac ar ba ffurf. Bydd y Pwyllgor Craffu yn defnyddio'r meini prawf canlynol i benderfynu pa un a yw'r atgyfeiriad yn briodol i'w ystyried gan y Pwyllgor Craffu hwnnw:

5.1.1 A yw'r Pwyllgor Craffu hwnnw yn fodlon bod y cynghorydd lleol wedi gwneud pob ymdrech resymol i ddatrys y mater? A yw'r ymatebion a dderbyniwyd gan y cynghorydd sy'n atgyfeirio yn dangos nad yw'r mater yn cael ei symud ymlaen?

5.1.2 A yw'r Pwyllgor Craffu wedi ystyried mater tebyg yn ddiweddar? Os felly, a yw'r amgylchiadau neu'r dystiolaeth wedi newid?

5.1.3 A oes mater tebyg neu gysylltiedig sy'n destun adolygiad yn y rhaglen waith gyfredol? Fe allai fod yn fwy priodol cysylltu'r mater newydd ag adolygiad presennol, yn hytrach na chynnal gwrandawiad ar wahân o dan y trefniadau Galwad gan Gynghorydd i Weithredu. Dylid ystyried y pwysau amser perthnasol o ran datrys Galwad gan Gynghorydd i Weithredu.

5.1.4 A yw'r holl feysydd gwasanaeth neu sefydliadau partner perthnasol wedi cael gwybod ac wedi cael digon o amser i ddatrys y mater? Pa ymateb a dderbyniwyd gan y cynghorydd?

5.1.5 A yw'r achos hwn yn un sy'n cael ei ddilyn neu y dylid ei ddilyn trwy weithdrefn gwyno gorfforaethol y Cyngor?

5.1.6 A yw'n ymwneud â mater neu benderfyniad "lled-farnwrol" fel cynllunio neu drwyddedu?

5.1.7 A yw'r mater yn achos pryder go iawn sy'n effeithio ar y gymuned leol yn hytrach na'n fater personol?

5.1.8 A yw'r mater hwn yn derbyn sylw ar hyn o bryd gan fath arall o graffu lleol?

5.1.9 Ac, fel ym mhob achos craffu, a oes posibilrwydd y gallai craffu ar y mater arwain at lunio argymhellion y gellid eu rhoi ar waith yn realistig ac a allai gyflawni gwelliannau i unrhyw un sy'n byw neu'n gweithio yn adran etholiadol yr Aelod?

DS: Dylai atgyfeiriadau Trosedd ac Anhrefn gael eu cyfeirio at y Pwyllgor Craffu Trosedd ac Anhrefn dynodedig.

5.2 Os bydd Pwyllgor Craffu yn penderfynu peidio â derbyn yr Alwad gan Gynghorydd i Weithredu, mae'n rhaid iddo hysbysu'r cynghorydd am y penderfyniad a'r rhesymau drosto.

5.3 Os bydd Pwyllgor Craffu yn penderfynu derbyn yr Alwad gan Gynghorydd i Weithredu, hysbysir y Cynghorydd a rhoddir gwybod iddo/iddi am y Protocol cytunedig, e.e. rhoddir rhybudd digonol (o leiaf 10 diwrnod clir) i'r Cynghorydd o ddyddiad cyfarfod y Pwyllgor Craffu. Gofynnir i'r Cynghorydd ymddangos gerbron y Pwyllgor Craffu ac fe'i hysbysir y bydd

ganddo/ganddi ddeng munud i annerch y Pwyllgor Craffu. Yna mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor Craffu yn dymuno holi'r Cynghorydd ymhellach cyn penderfynu sut y mae'n bwriadu symud y mater yn ei flaen. Gallai hyn gynnwys:

5.3.1 gofyn i'r awdurdodau cyfrifol perthnasol ymateb i'r Alwad gan Gynghorydd i Weithredu;

5.3.2 sefydlu grŵp ymchwil neu grŵp gorchwyl a gorffen i gynnal adolygiad manylach;

5.3.3 gofyn am fwy o dystiolaeth a/neu dystion ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol. Mae gan y Pwyllgor Craffu y pŵer i ofyn bod "unigolion dynodedig" fel cynrychiolwyr asiantaethau/cyrff cyhoeddus eraill yn mynychu, lle y bo'n berthnasol, ac i ofyn am wybodaeth. (Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rhestr o "unigolion dynodedig" hyd yma".)

## 6. CANLYNIADAU POSIBL GALWAD GAN GYNGHORYDD I WEITHREDU

6.1 Gallai Pwyllgor Craffu:

6.1.1 benderfynu ei fod yn fater cymhleth y mae angen ymchwilio iddo ymhellach a chomisiynu adolygiad craffu o'r mater;

6.1.2 ysgrifennu ymateb a gwneud argymhellion ar yr Alwad gan Gynghorydd i Weithredu i awdurdod cyfrifol perthnasol;

6.1.3 penderfynu nad yw camau pellach yn briodol gan roi ei resymau.

6.2 Pan fydd Pwyllgor Craffu wedi cwblhau ei waith, bydd y Cynghorydd a wnaeth yr atgyfeiriad yn derbyn copi o unrhyw ymateb neu argymhellion a wnaed.

## 7. GRADDFEYDD AMSER AR GYFER YMDRIN Â GALWAD GAN GYNGHORYDD I WEITHREDU

7.1 Mewn amgylchiadau eithriadol, er enghraifft pan fo cyfyngiadau amser na ellir eu hosgoi, ceir cynnull cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor.

7.2 Pe byddai Galwad gan Gynghorydd i Weithredu yn arwain at argymhellion i'r Cabinet ac awdurdodau cyfrifol, gofynnir iddynt ymateb i'r argymhellion o fewn 28 diwrnod a dau fis, yn ôl eu trefn.


7.3 Bydd Pwyllgor Craffu yn monitro gweithrediad unrhyw argymhellion fel rhan o'i Flaenraglen Waith.

## 8. ADOLYGU'R CANLLAWIAU HYN

Mae'r canllawiau hyn wedi'u seilio ar fodel a baratowyd ac a gymeradwywyd gan Gymdeithas Ysgrifenyddion a Chyfreithwyr y Cynghorau (ACSeS) ym mis Hydref 2009. Bydd ACSeS yn adolygu eu canllawiau model yng ngoleuni profiad awdurdodau lleol yng Nghymru o ddefnyddio'r gweithdrefnau hyn, ac felly mae'n bosibl y caiff y canllawiau hyn eu haddasu yn unol â hynny.

**ATODIAD 2 I ADRAN 7**

**Siart Llif ar gyfer Galwad gan Gynghorydd i Weithredu**



**ATODIAD 3 I ADRAN 7**

**Ffurflen Atgyfeirio ar gyfer Galwad gan Gynghorydd i Weithredu**

| | |
|---|---|
| **At sylw**<br>**(enw a theitl y Swyddog Priodol)** | |
| **Oddi wrth** | Cynghorydd |
| **Rhanbarth Etholiadol** | |
| **Manylion cyswllt** | |
| **Rhif ffôn** | |
| **E-bost** | |
| | |
| **PWNC** | |
| **Manylion**<br>Esboniwch y mater yn gryno a sut mae'n effeithio ar eich adran etholiadol. | |
| **Camau a gymerwyd hyd yma**<br>Esboniwch pa gamau a gymerwyd, gyda phwy, i geisio datrys y mater (ticiwch wrth ymyl y camau a gymerwyd gennych hyd yma) neu ychwanegwch rai eraill. | • Trafodaethau anffurfiol gyda Swyddogion neu gynghorwyr eraill<br>• Trafodaethau anffurfiol gyda chynrychiolwyr partner<br>• Atgyfeirio i gyrff "craffu" eraill fel Cynghorau Iechyd Cymuned neu bwyllgor archwilio mewnol<br>• Trafodaethau ffurfiol gyda Swyddogion a chynghorwyr<br>• Llythyrau ffurfiol at Aelodau'r Cabinet<br>• Gofyn cwestiynau yn y Cyngor Llawn<br>• Cyflwyno cynnig i'r Cyngor Llawn<br>• Trefnu cyfarfodydd cyhoeddus<br>• Defnyddio deisebau<br>• Gwneud cwyn<br>• Ceisiadau am Gwybodaeth<br>• Cyfathrebu ag Aelodau Cynulliad neu Aelodau Seneddol lleol<br>• Ymgyrchu trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol neu negeseuon e-bost |
| **Canlyniad Disgwyliedig**<br>Disgrifiwch y canlyniad yr ydych yn gobeithio amdano trwy'r atgyfeiriad hwn. | |

| **Papurau ynghlwm**<br><br>Rhestrwch ddogfennau sydd ynghlwm a ddylai ddangos tystiolaeth o effaith y mater, y camau a gymerwyd ac unrhyw ymatebion a dderbyniwyd. | |
|---|---|

1. Ystyrir y meini prawf canlynol pan fydd Pwyllgor Craffu yn penderfynu pa un ai a ddylid symud ymlaen â'ch Galwad gan Gynghorydd i Weithredu ai peidio:

   1.1 A wnaed pob ymdrech resymol i ddatrys y mater? A yw'r ymatebion a dderbyniwyd gennych yn dangos nad yw'r mater yn cael ei symud ymlaen?

   1.2 A yw'r pwyllgor wedi ystyried mater tebyg yn ddiweddar – os ydy, a yw'r amgylchiadau neu'r dystiolaeth wedi newid?

   1.3 A oes mater tebyg neu gysylltiedig sy'n destun adolygiad yn y rhaglen waith gyfredol? Fe allai fod yn fwy priodol cysylltu'r mater newydd ag adolygiad presennol, yn hytrach na chynnal gwrandawiad ar wahân o dan y trefniadau Atgyfeiriad Trosedd ac Anhrefn Lleol. Dylid ystyried y pwysau amser perthnasol o ran datrys Atgyfeiriad Trosedd ac Anhrefn Lleol

   1.4 A yw'r holl feysydd gwasanaeth neu sefydliadau partner perthnasol wedi cael gwybod ac wedi cael digon o amser i ddatrys y mater? Pa ymateb a dderbyniwyd gennych?

   1.5 A yw'r achos hwn yn un sy'n cael ei ddilyn neu y dylid ei ddilyn trwy weithdrefn gwyno gorfforaethol y Cyngor?

   1.6 A yw'n ymwneud â mater neu benderfyniad "lled-farnwrol" fel cynllunio neu drwyddedu?

   1.7 A yw'r mater yn achos pryder go iawn sy'n effeithio ar y gymuned leol yn hytrach na'n fater personol?

   1.8 A yw'r mater hwn yn derbyn sylw ar hyn o bryd gan fath arall o graffu lleol?

   1.9 Ac, fel ym mhob achos craffu, a oes posibilrwydd y gallai craffu ar y mater arwain at lunio argymhellion y gellid eu rhoi ar waith yn realistig ac a allai gyflawni gwelliannau i unrhyw un sy'n byw neu'n gweithio yn eich adran etholiadol?

2. Dylech ystyried pa un a allai'r Pwyllgor Craffu farnu bod eich atgyfeiriad yn cael ei wneud cyn pryd. Ystyriwch pa un a ddihysbyddwyd datrysiadau posibl eraill cyn gwneud atgyfeiriad. Dylai Aelodau fod yn ymwybodol, os gwneir atgyfeiriad cyn pryd, bod y Pwyllgor yn debygol o wrthod ymdrin â'r mater, yn seiliedig ar y meini prawf a amlinellir uchod. Os yw'r Swyddog Priodol o'r farn bod yr atgyfeiriad wedi'i wneud cyn pryd, bydd yn eich cynghori yn unol â hynny.

**ADRAN 13 - ATODIAD 1.**

**SWYDDOGAETH ANWEITHREDOL**

**CYNLLUN DIRPRWYO I BWYLLGORAU**

**PWYLLGOR APELAU CYFLOGAETH.**

**Aelodaeth.**

1. Bydd y Pwyllgor yn cynnwys 7 aelod o'r Cyngor ar sail cydbwysedd gwleidyddol.

2. Bydd mwyafrif aelodau'r pwyllgor yn aelodau o'r Cyngor nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet.

**Swyddogaethau**

Bydd y pwyllgor yn cyflawni'r swyddogaethau canlynol :-

1. Penderfynu ar apeliadau gan brif swyddogion (sef Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr neu Bennaeth Adran) yn erbyn camau disgyblaeth a gymerwyd yn eu herbyn yn sgil camymddwyn difrifol neu dan unrhyw rai o bolisïau cyflogaeth y Cyngor lle y caniateir hawl apelio.

2. Hyrwyddo a chynnal' safonau uchel o ymddygiad ymysg staff y Cyngor, monitro gweithrediad y Côd Ymddygiad Swyddogion a pholisïau cyflogaeth y Cyngor a hyrwyddo ymarfer da ymysg rheolwyr.

## ADRAN 13 – ATODIAD 3

## CYNLLUN DIRPRWYO I SWYDDOGION

### 1. Diffiniadau

1.1 Yn y cynllun hwn golyga “prif swyddog” y Prif Weithredwr, unrhyw Gyfarwyddwr Corfforaethol neu unrhyw Bennaeth Adran, fel y mynna’r cyd-destun.

1.2 Mae unrhyw gyfeiriad at ddeddf yn y cynllun hwn yn cynnwys cyfeiriad at ddiwygiad neu ailddeddfiad ohoni ac unrhyw orchymyn neu ddeddfwriaeth eilradd a wnaed tani.

### 2. Amodau a chyfyngiadau ar weithredu pwerau dirprwyedig

2.1 Awdurdodir pob prif swyddog i weithredu ar ran y Cyngor yn unol â'r cynllun hwn mewn perthynas ag unrhyw fater o fewn y gwasanaeth(au) y bo ef/hi yn gyfrifol amdanynt OND YN DDAROSTYNGEDIG i'r canlynol:-

2.1.1 y polisïau a gymeradwywyd gan y Cyngor neu'r Cabinet;

2.1.2 unrhyw fater sydd wedi ei gadw i'r Cyngor, Cabinet, Pwyllgor neu is-bwyllgor neu sydd wedi ei ddirprwyo i Arweinydd;

2.1.3 Cyfansoddiad y Cyngor (gan gynnwys Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, y Rheolau Gweithdrefn Ariannol a'r Rheolau Gweithdrefn Contractau).

2.2 Lle byddai gweithredu pwerau dirprwyedig yn debygol o effeithio ar ragor nag un gwasanaeth rhaid i brif swyddog ymgynghori ag unrhyw brif swyddog arall y gellid effeithio ar y gwasanaeth y mae'n gyfrifol amdano.

2.3 Heb ragfarn i'w bwerau/phwerau dirprwyedig neu rai'r Pwyllgor perthnasol, ac mewn achosion priodol yn unig, dylai bob prif swyddog wrth weithredu ei bwerau/phwerau:-

2.3.1 gadw cysylltiad agos gyda'r Cabinet ac, yn benodol, â’r aelodau hynny o’r Cabinet sydd yn gweithredu fel arweinyddion portffolio mewn meysydd perthnasol i’r pwnc dan sylw a hefyd roi sylw digonol i unrhyw sylwadau o eiddo’r pwyllgorau craffu perthnasol i’r mater dan sylw;

2.3.2 sicrhau ei b/fod yn ymgynghori â/neu gwybyddu'r aelod(au) lleol;

2.3.3 sicrhau ei b/fod yn ymgynghori â/neu'n gwybyddu'r Prif Weithredwr, fel pennaeth y gwasanaeth taledig, Prif Swyddog Cyllid y Cyngor a Swyddog Monitro’r Cyngor.

2.4 Cyn gweithredu unrhyw bŵer dirprwyedig dylai bob prif swyddog ystyried a yw'r penderfyniad sydd i'w wneud yn gyfryw fel y dylid ei gyfeirio i'r Cabinet, bwyllgor neu is-bwyllgor priodol i'w benderfynu.

2.5 Wrth benderfynu a ddylid cyfeirio mater i'r Cabinet, pwyllgor neu is-bwyllgor bydd prif swyddog yn rhoi sylw i'r ystyriaethau canlynol :-

2.5.1 fel arfer bydd penderfyniadau ar faterion technegol neu broffesiynol dydd i ddydd yn digwydd heb gyfeirio at aelodau;

2.5.2 rhaid ystyried barn yr aelod lleol, arweinydd portffolio a'r Prif Weithredwr; os bydd penderfyniad yn debyg o gael effaith sylweddol ar ddelwedd y Cyngor neu'n debyg o dderbyn sylw anffafriol yn y wasg bydd rhagdybiaeth o blaid ei gyfeirio at aelodau.

2.6 Bydd unrhyw swyddogaethau newydd a ddaw'n gyfrifoldeb i'r Cyngor yn cael eu cynnwys oddi fewn y cynllun hwn heb yr angen i'w ddiwygio gan y Cyngor llawn ac os cyfyd unrhyw amheuaeth ynglŷn â pha brif swyddog sy'n derbyn y swyddogaeth newydd bydd y Prif Weithredwr yn penderfynu.

## 3. Pwerau Cyffredinol

### Diogelu buddiannau'r cyngor.

3.1 Awdurdodir pob prif swyddog i weithredu yn ôl yr angen (wedi ymgynghori gyda'r arweinydd portffolio perthnasol mewn achosion priodol) i gymryd pob cam angenrheidiol i ddiogelu buddiannau neu hybu busnes y Cyngor, ond yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau uchod

3.2 Heb ragfarn i gyffredinoldeb yr uchod mae hyn yn cynnwys gwneud pa bynnag benderfyniadau sydd o fewn ei gallu a'i b/farn broffesiynol er mwyn gweithredu polisïau'r Cyngor ac er mwyn darparu a rheoli'r gwasanaethau y mae'n gyfrifol amdanynt ar sail dydd i ddydd.

### Awdurdodi swyddogion

3.3 Caiff unrhyw bwerau a roddir i brif swyddog eu gweithredu gan swyddog(ion) a awdurdodir ganddo/i boed yn ei absenoldeb neu yn unol â chyfarwyddiadau neu drefniadau cyffredinol a wneir gan y prif swyddog. Yn absenoldeb y prif swyddog caiff unrhyw swyddog a benodir ganddo/i i ddirprwyo drosto/i hefyd awdurdodi gweithredu'r pwerau dirprwyedig hynny. Er osgoi unrhyw amheuaeth gall awdurdod o'r fath ei roi i bersonau nad ydynt yn swyddogion o'r Cyngor.

3.4 Caiff pob prif swyddog awdurdodi ei staff i ymarfer pa bynnag bwerau i fynd ar neu archwilio unrhyw dir, adeiladau neu eiddo ac i roddi unrhyw dystiolaeth neu awdurdod a fo'n briodol ar gyfer gweithredu eu dyletswyddau ar gyfer y cyfryw y bo gan y Cyngor bwerau statudol.

3.5 Awdurdodir pob prif swyddog i benderfynu ar bresenoldeb gan swyddogion mewn cyfarfodydd allanol, seminarau neu gynadleddau nad ydynt ar y rhestr gymeradwy.

3.6 Awdurdodir pob prif swyddog i gymeradwyo rhestr o lofnodwyr awdurdodedig.

### Gweithredu Brys

3.7 Mewn perthynas â materion sydd wedi eu cadw i'r Cyngor, neu i bwyllgor neu is-bwyllgor caniateir i'r prif swyddog perthnasol weithredu, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd priodol a hefyd, yn ôl yr angen, â'r aelodau lleol ac arweinyddion y grwpiau gwleidyddol, rhwng cyfarfodydd os oes brys i wneud hynny, ar yr amod bod y gweithredu hynny yn cydymffurfio â pholisïau cyffredinol y Cyngor ac y rhoddir adroddiad o fanylion yr hyn a wnaed i gyfarfod priodol nesaf y Cyngor, pwyllgor neu is-bwyllgor.

***Materion Staffio.***

3.8 Awdurdodir pob prif swyddog i weithredu, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Adnoddau Dynol, mewn perthynas â materion staffio gan gynnwys recriwtio, penodi, adolygu'r strwythur, caniatáu hicynnau ychwanegol o fewn graddfa swydd, rhoi honorariwm dros dro, disgyblu a diswyddo staff yn amodol ar unrhyw faterion sydd wedi eu cadw i'r Cyngor, neu'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion ac yn ddarostyngedig (mewn achosion o newid strwythur sy'n golygu gwyro arian o benawdau cyllidol eraill) i gydymffurfiaeth hefo'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol ac i dderbyn cymeradwyaeth yr Arweinydd Portffolio perthnasol i'r achos busnes.

3.9 Awdurdodid pob prif swyddog ar y cyd â'r Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Adnoddau Dynol i gymeradwyo ceisiadau ymddeol cynnar neu ymddeol hyblyg gan staff, yn unol â pholisi'r Cyngor.

***Caffael / gwaredu eiddo a nwyddau a materion yn ymwneud â chontractau***

3.10 Awdurdodir pob prif swyddog i weithredu mewn perthynas â chaffael a chontractau o fewn y gyllideb sydd wedi ei chymeradwyo ac yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Contractau.

3.11 Awdurdodir pob prif swyddog i weithredu mewn cysylltiad â materion dan reolau sefydlog parthed contractau sy'n ymwneud â'i (h)adran, ble mae angen am atal y rheolau i ymestyn cytundebau, derbyn tendrau heb fod yn rhai isaf, a.y.b., o fewn canllawiau ariannol yn y rheoliadau sefydlog ariannol.

3.12 Awdurdodir pob prif swyddog i brynu eiddo sydd ei angen ar gyfer gwelliannau o fewn cyllideb yr adran (e.e. priffyrdd, lleiniau bychain yn unig).

3.13 Awdurdodi pob prif swyddog i ar werthu neu waredu lleiniau o dir a/neu adeiladau sy'n berchen i'r gwasanaeth yn dilyn ymgynghoriad gyda'r aelod(au) lleol ac ar delerau i'w cytuno gan y Rheolwr Eiddo Corfforaethol ac yn amodol ar y canlynol.

(a) lle gwerthir rhyddfraint, fod gwerth y tir yn llai na £25,000;
(b) lle gosodir y tir drwy brydles neu denantiaeth, bod y rhent blynyddol yn llai na £10,000.
(c) ym mhob achos os bydd yr aelod(au) lleol yn gwrthwynebu, cyfeirir y mater at y Weithrediaeth am benderfyniad.
(ch) nad yw'r gwerthiant neu warediad yn groes i Gynllun Rheoli Asedau'r Cyngor.

**Rheoli asedau**

3.14 Awdurdodir pob prif swyddog i werthu nwyddau sy'n weddill i anghenion, e.e. hen gyfrifiaduron, dodrefn, a.y.b.

3.15 Awdurdodir pob prif swyddog i reoli yr asedau, cerbydau, ac offer sy'n perthyn i'r gwasanaeth y mae'n gyfrifol amdano. Mae hyn yn cynnwys rhoi caniatâd i unrhyw ddigwyddiad ar dir y Cyngor a gosod ystafelloedd mewn adeiladau y maent yn gyfrifol amdanynt am gyfnodau o 24 awr neu lai.

3.16 Awdurdodir pob prif swyddog i ddymchwel adeilad o eiddo'r gwasanaeth, os oes adnoddau i'w ariannu.

**Oriau agor**

3.17 Awdurdodid pob prif swyddog i bennu ac amrywio (ar ôl ystyried ffactorau defnydd, barn gyhoeddus a chyllid) oriau agor yr holl safleoedd sy'n perthyn i'r gwasanaeth).

**Materion Ariannol, Grantiau a Ffioedd.**

3.18 Awdurdodir pob prif swyddog i weithredu ar faterion ariannol yn unol â’r Rheolau Ariannol.

3.19 Awdurdodir pob prif swyddog i gymeradwyo ceisiadau am grantiau a wneir i’w (h)adran hyd at £5,000.

3.20 Awdurdodir pob prif swyddog mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr, Pennaeth Cyllid, Swyddog Monitro a'r Aelod Cabinet perthnasol i osod ffioedd ar gyfer ei wasanaeth.

**Gwyro polisi gweithredol**

3.21 Awdurdodir pob prif swyddog i wyro oddi wrth bolisi gweithredol gwasanaeth (e.e. oriau agor Canolfan Hamdden dros y Nadolig; adeiladu gridiau gwartheg; mynwentydd).

**Cynlluniau drafft**

3.22 Awdurdodir pob prif swyddog i dderbyn cynlluniau drafft ar ôl asesiad gan y Pwyllgor Craffu priodol cyn mynd allan am gyfnod o ymgynghoriad. (Bydd y cynllun yn dod yn ôl i'r Cabinet wedyn).

**Ceisiadau am gefnogaeth**

3.23 Awdurdodir pob prif swyddog i ymateb i geisiadau am gymorth gan aelodau seneddol, aelodau cynulliad neu ryw ymgyrch genedlaethol lle mae'n amlwg bod yr ymgyrch yn gyson â pholisïau'r Cyngor.

**Ymddiriedolaethau**

3.24 Awdurdodir pob prif swyddog i weinyddu ymddiriedolaethau sydd o fewn cyfrifoldeb ei adran, mewn ymgynghoriad â'r aelod lleol lle'n berthnasol.

## 4. Dirprwyo penodol

4.1 Dirprwyir y pwerau a'r dyletswyddau penodol canlynol i'r prif swyddog a enwir.

## 5. Cyfarwyddwyr Corfforaethol.

Yn y "Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau" yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad, nodir lle mae swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth wedi eu dirprwyo i Brif Swyddogion.  Lle nad oes prif swyddog wedi ei enwi yn y ddogfen honno nid yw’r pŵer wedi ei ddirprwyo, ond yn hytrach fe'i cedwir gan y pwyllgor.

Mae'r swyddogaethau a ddirprwyir i'r cyfarwyddwyr Corfforaethol i'w dyrannu rhyngddynt gan y Prif Weithredwr.

**Swyddogaethau a ddirprwyir gan y Cyngor**

5,1 Penderfynu, mewn ymgynghoriad ag aelod o'r Pwyllgor Apelau Cyflogaeth ac ymgynghorydd adnoddau dynol, ar apeliadau gan staff yn erbyn camau disgyblaeth a gymerwyd yn eu herbyn mewn apeliadau dan unrhyw rai o bolisïau cyflogaeth y Cyngor lle y caniateir hawl apelio.  (Gall y cyfarwyddwr ddirprwyo'r hawl yma i bennaeth adran annibynnol lle bo angen).

**Swyddogaethau a ddirprwyir gan y Cabinet**

5,2 Gweithredu dyletswyddau statudol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

5.3 Gweithredu fel Cyfarwyddwr Arweiniol Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc dan Ddeddf Plant 2004.

5.4 Gweithredu pwerau'r Cyngor dan Ddeddf Digwyddiadau Sifil 2004 a hawliau cyffredinol i weithredu mewn argyfwng sifil.

5.5 Gweithredu ar sail dydd i ddydd ar faterion Cyfathrebu.

**ADRAN 15**

## 15. RHEOLAU GWEITHDREFN Y GYLLIDEB A'R FFRAMWAITH POLISI

### 15.1 Y Fframwaith ar gyfer Penderfyniadau Gweithredol

Y Cyngor fydd yn gyfrifol am fabwysiadu ei Gyllideb a'i Fframwaith Polisi fel yr amlinellir yn Adran 4. Pan fydd Cyllideb neu Fframwaith Polisi wedi'i sefydlu, y Cabinet fydd yn gyfrifol am ei roi ar waith.

### 15.2 Y Broses ar gyfer Datblygu'r Fframwaith Polisi

15.2.1 Bydd y Cabinet, yn dilyn adroddiadau manwl gan Brif Swyddogion priodol, (yn dilyn ymgynghori priodol â rhanddeiliaid) yn cyflwyno i'r Cyngor gynlluniau a pholisïau arfaethedig a'r cyllidebau blynyddol cysylltiedig. Gwneir hyn gan ganiatáu digon o amser i'r Cyngor ymdrin â'r mater ac, os oes angen, ei atgyfeirio'n ôl i'r Cabinet i'w ystyried ymhellach.

15.2.2 Bydd y Cyngor yn ystyried cynigion y Cabinet a chaiff eu mabwysiadu, eu gwella, eu hatgyfeirio'n ôl i'r Cabinet i'w hystyried ymhellach, neu eu disodli â'i gynigion ei hun. Wrth ystyried y mater, bydd gan y Cyngor gynigion y Cabinet o'i flaen ac unrhyw adroddiad cysylltiedig gan Bwyllgor Craffu.

15.2.3 Ni chaiff y Cyngor ystyried unrhyw welliant i gynigion y Cabinet sydd i'w cynnig gan Aelodau yng nghyfarfod y Cyngor, oni bai y rhoddwyd rhybudd ysgrifenedig am y diwygiad arfaethedig i'r Swyddog Priodol, a lofnodwyd gan y cynigiwr a'r eiliwr, heb fod yn hwyrach na 5 o'r gloch y prynhawn o leiaf un diwrnod clir cyn dyddiad cyfarfod y Cyngor.

15.2.4 Bydd penderfyniad y Cyngor yn cael ei gyhoeddi a rhoddir copi ohono i'r Arweinydd. Nodir dyddiad ar yr hysbysiad o'r penderfyniad a bydd yn datgan naill ai bod y penderfyniad yn dod i rym ar unwaith (os yw'r Cyngor yn derbyn cynigion y Cabinet heb unrhyw ddiwygiad) neu (os na dderbynnir cynigion y Cabinet heb unrhyw ddiwygiad), y bydd penderfyniad y Cyngor yn dod i rym ar ddiwedd pum diwrnod gwaith ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad o'r penderfyniad, oni bai bod yr Arweinydd yn ei wrthwynebu yn ystod y cyfnod hwnnw.

15.2.5 Os bydd yr Arweinydd yn gwrthwynebu penderfyniad y Cyngor, bydd ef/hi yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r Prif Weithredwr i'r perwyl hwnnw, cyn y dyddiad y daw'r penderfyniad i rym. Mae'n rhaid i'r hysbysiad ysgrifenedig ddatgan y rhesymau dros y gwrthwynebiad. Pan dderbynnir hysbysiad o'r fath, bydd y Prif Weithredwr yn cynnull cyfarfod arall o'r Cyngor i ailystyried ei benderfyniad ac ni fydd y penderfyniad yn dod i rym hyd nes y cynhelir y cyfarfod hwnnw.

15.2.6 Mae'n rhaid i'r cyfarfod o'r Cyngor gael ei gynnal o fewn 15 diwrnod gwaith o dderbyn gwrthwynebiad ysgrifenedig yr Arweinydd. Yn y cyfarfod hwnnw o'r Cyngor, bydd penderfyniad

y Cyngor yn cael ei ailystyried yng ngoleuni'r gwrthwynebiad, a fydd ar gael yn ysgrifenedig i'r Cyngor.

15.2.7 Yn y cyfarfod hwnnw, bydd y Cyngor yn gwneud ei benderfyniad terfynol ar y mater ar sail mwyafrif syml. Cyhoeddir y penderfyniad yn unol ag Adran 14 a chaiff ei weithredu ar unwaith.

## 15.3 **Y Broses ar gyfer Datblygu'r Gyllideb**

15.3.1 Bydd y Cabinet yn dilyn y broses a amlinellir yn y Rheolau Gweithdrefnol Ariannol yn Adran 16 y Cyfansoddiad. Yn ogystal, bydd y broses ganlynol yn berthnasol i ddatblygu'r Gyllideb:

(a) Bydd y Cabinet yn cyhoeddi amserlen ar gyfer cyflwyno cynigion i'r Cyngor ynghylch mabwysiadu'r Gyllideb, a'i drefniadau ar gyfer ymgynghori ar ôl cyhoeddi'r cynigion cychwynnol. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn cael gwybod hefyd.

(b) Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, bydd y Cabinet yn llunio cynigion cadarn gan roi ystyriaeth i'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Os bydd y Pwyllgor Archwilio yn dymuno ymateb i'r Cabinet yn rhan o'r broses ymgynghori honno, caiff wneud hynny. Bydd y Pwyllgor Archwilio yn adrodd i'r Cabinet ar ganlyniad ei ystyriaethau.

15.3.2 Bydd y Cabinet yn ystyried unrhyw ymateb gan y Pwyllgor Archwilio wrth lunio cynigion cadarn i'w cyflwyno i'r Cyngor, a bydd ei adroddiad i'r Cyngor yn adlewyrchu'r sylwadau a wnaed gan ymgyngoreion ac ymateb y Cabinet.

15.3.3 Pan fydd y Cabinet wedi cymeradwyo'r cynigion cadarn, bydd yn eu hatgyfeirio i'r Cyngor ar y cyfle cynharaf.

## 15.4 **Penderfyniadau y Tu Allan i'r Gyllideb neu'r Fframwaith Polisi**

15.4.1 Yn amodol ar ddarpariaethau paragraff 15.6 (Trosglwyddo Arian), caiff y Cabinet, pwyllgorau'r Cabinet, Aelodau unigol o'r Cabinet neu unrhyw Swyddogion neu drefniadau ar y cyd sy'n cyflawni Swyddogaethau Gweithredol wneud penderfyniadau sydd yn unol â'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi yn unig. Os bydd unrhyw un o'r cyrff neu'r unigolion hyn yn dymuno gwneud penderfyniad sy'n groes i'r Fframwaith Polisi, neu sy'n groes i/heb fod yn gwbl gydnaws â'r Gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn, yna'r Cyngor gaiff wneud y penderfyniad hwnnw yn unig, yn amodol ar baragraff 15.5 isod.

15.4.2 Os bydd y Cabinet, pwyllgorau'r weithrediaeth, Aelodau unigol o'r Cabinet neu unrhyw Swyddogion neu drefniadau ar y cyd sy'n cyflawni Swyddogaethau Gweithredol yn dymuno gwneud penderfyniad o'r fath, rhaid iddynt dderbyn cyngor gan y Swyddog Monitro a/neu'r Prif Swyddog Cyllid ynghylch pa un a

fyddai'r penderfyniad y dymunant ei wneud yn groes i'r Fframwaith Polisi, neu'n groes i/heb fod yn gwbl gydnaws â'r gyllideb.

15.4.3 Os bydd y naill neu'r llall o'r Swyddogion hynny'n cynghori na fyddai'r penderfyniad yn unol â'r Gyllideb a/neu'r Fframwaith Polisi presennol, yna mae'n rhaid i'r corff neu'r unigolyn hwnnw atgyfeirio'r penderfyniad i'r Cyngor i wneud penderfyniad, oni bai bod y penderfyniad yn fater brys. Yn yr achos hwnnw, bydd y darpariaethau ym mharagraff 15.5 (penderfyniadau brys y tu allan i'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi) yn berthnasol.

15.5 **Penderfyniadau Brys y Tu Allan i'r Gyllideb neu'r Fframwaith Polisi**

15.5.1 Caiff y Cabinet, un o bwyllgorau'r Cabinet, Aelod unigol o'r Cabinet neu Swyddogion neu drefniadau ar y cyd sy'n cyflawni Swyddogaethau Gweithredol, wneud penderfyniad sy'n groes i Fframwaith Polisi'r Cyngor neu sy'n groes i/heb fod yn gwbl gydnaws â'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn os yw'r penderfyniad yn fater brys. Fodd bynnag, ceir gwneud y penderfyniad dim ond:

(a) os nad yw'n ymarferol cynnull cyfarfod â chworwm o'r Cyngor Llawn; ac

(b) os yw Cadeirydd y Cyngor yn cytuno bod y penderfyniad yn fater brys.

15.5.2 Mae'n rhaid i'r rhesymau pam nad yw'n ymarferol cynnull cyfarfod â chworwm o'r Cyngor Llawn gael eu nodi ar y cofnod o'r penderfyniad, ynghyd â chaniatâd Cadeirydd y Cyngor ar gyfer gwneud y penderfyniad fel mater brys. Yn absenoldeb Cadeirydd y Cyngor, bydd caniatâd yr Is-gadeirydd ac, yn ei (h)absenoldeb ef/hi, Pennaeth y Gwasaneth Cyflogedig yn ddigonol.

15.5.3 Ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud, bydd y penderfynwr yn rhoi adroddiad llawn i'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor yn esbonio'r penderfyniad, y rhesymau drosto a pham yr ymdriniwyd â'r penderfyniad fel mater brys.

15.6 **Trosglwyddo Arian**

Ni fydd y camau a gymerir gan y Cabinet, un o bwyllgorau'r Cabinet, Aelodau unigol o'r Cabinet neu Swyddogion neu drefniadau ar y cyd sy'n cyflawni Swyddogaethau Gweithredol i weithredu polisi'r Cyngor, yn mynd heibio i'r cyllidebau hynny a neilltuwyd i bob pennawd cyllideb. Pe byddai'n angenrheidiol neu'n ddymunol trosglwyddo arian ar draws cyllidebau neu benaethiaid cyllideb, bydd hynny'n cael ei wneud yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnol Ariannol yn Adran 16 y Cyfansoddiad hwn.

15.7 **Newidiadau i'r Fframwaith Polisi yn Ystod y Flwyddyn**

Y Cyngor sy'n gyfrifol am gytuno ar y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi, ac mae'n rhaid i benderfyniadau gan y Cabinet, un o bwyllgorau'r Cabinet,

Aelod unigol o'r Cabinet neu Swyddogion neu drefniadau ar y cyd sy'n cyflawni Swyddogaethau Gweithredol, fod yn unol â hwy. Ni chaiff y cyrff na'r unigolion hynny wneud unrhyw newidiadau i unrhyw bolisi neu strategaeth sy'n rhan o'r Fframwaith Polisi, ac eithrio'r newidiadau hynny:

15.7.1 a fydd yn arwain at gau neu derfynu gwasanaeth neu ran o wasanaeth i fodloni cyfyngiad cyllidebol;

15.7.2 sy'n angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiad â'r gyfraith, cyfarwyddyd gweinidogol neu ganllawiau gan y llywodraeth;

15.7.3 sy'n ymwneud â pholisi y byddai'r Cyngor yn cytuno arno'n flynyddol fel arfer yn dilyn ymgynghoriad, ond lle nad yw'r ddogfen bolisi bresennol yn cyfeirio at y mater sy'n cael ei ystyried;

15.7.4 sy'n ymwneud â'r polisi ar ysgolion, lle y mae'r rhan fwyaf o'r cyrff llywodraethu ysgolion yn cytuno ar y newid arfaethedig; neu

15.7.5 y darperir ar eu cyfer yn y gyllideb neu'r polisi perthnasol.

15.8 **<u>Galw i Mewn Penderfyniadau y Tu Allan i'r Gyllideb neu'r Fframwaith Polisi</u>**

15.8.1 Pan fo'r Pwyllgor Craffu perthnasol o'r farn bod Penderfyniad Gweithredol yn groes i'r Fframwaith Polisi, neu'n groes i/heb fod yn gwbl gydnaws â Chyllideb y Cyngor, neu y byddai'n groes iddynt pe byddai'n cael ei weithredu, yna bydd yn ceisio cyngor gan y Swyddog Monitro a/neu'r Prif Swyddog Cyllid.

15.8.2 O ran swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb y Cabinet, bydd adroddiad y Swyddog Monitro a/neu adroddiad y Prif Swyddog Cyllid yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet a bydd copi ohono'n cael ei roi i bob Aelod o'r Cyngor. Waeth pa un a yw'r penderfyniad wedi'i ddirprwyo ai peidio, mae'n rhaid i'r Cabinet gyfarfod i benderfynu pa gamau i'w cymryd o ran adroddiad y Swyddog Monitro neu'r Prif Swyddog Cyllid a pharatoi adroddiad i'r Cyngor pe byddai'r Swyddog Monitro neu'r Prif Swyddog Cyllid yn dod i'r casgliad bod penderfyniad yn wyriad, ac i'r Pwyllgor Craffu perthnasol pe byddai'r Swyddog Monitro neu'r Prif Swyddog Cyllid yn dod i'r casgliad nad oedd y penderfyniad yn wyriad.

15.8.3 Os nad yw'r penderfyniad wedi'i wneud eto, neu os yw wedi'i wneud ond heb gael ei weithredu eto, a bod y cyngor gan y Swyddog Monitro a/neu'r Prif Swyddog Cyllid yn datgan bod neu y byddai'r penderfyniad yn groes i'r Fframwaith Polisi neu'n groes i/heb fod yn gwbl gydnaws â'r Gyllideb, caiff y Pwyllgor Craffu perthnasol atgyfeirio'r mater i'r Cyngor. Mewn achosion o'r fath, ni fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd o ran y penderfyniad ac ni fydd yn cael ei weithredu hyd nes y bydd y Cyngor wedi cyfarfod ac ystyried y mater. Bydd y Cyngor yn cyfarfod o fewn 15 diwrnod gwaith o'r cais gan y Pwyllgor Craffu. Yn y cyfarfod, bydd yn derbyn adroddiad ar y penderfyniad neu'r cynigion a chyngor y Swyddog Monitro a/neu'r Prif Swyddog Cyllid. Caiff y Cyngor naill ai:

(a) gadarnhau bod y penderfyniad neu'r cynnig gan y sawl a wnaeth y Penderfyniad Gweithredol o fewn y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi presennol. Yn yr achos hwn, ni fydd angen cymryd unrhyw gamau pellach, ar wahân i gofnodi penderfyniad y Cyngor a'i ddosbarthu i bob cynghorydd yn y ffordd arferol; neu

(b) ddiwygio Rheolau Gweithdrefnol Ariannol y Cyngor neu'r polisi dan sylw i gynnwys y penderfyniad neu'r cynnig gan y corff neu'r unigolyn sy'n gyfrifol am y Swyddogaeth Weithredol honno a chytuno â'r penderfyniad ar unwaith. Yn yr achos hwn, ni fydd angen cymryd unrhyw gamau pellach, ar wahân i gofnodi penderfyniad y Cyngor a'i ddosbarthu i bob cynghorydd yn y ffordd arferol; neu

(c) os yw'r Cyngor yn derbyn bod y penderfyniad neu'r cynnig yn groes i'r Fframwaith Polisi neu'n groes i/heb fod yn gwbl gydnaws â'r Gyllideb, ac nid yw'n diwygio'r fframwaith presennol i'w gynnwys, fynnu bod y Cabinet yn ailystyried y mater yn unol â chyngor y Swyddog Monitro neu'r Prif Swyddog Cyllid.

**ADRAN 19**

## 19. PROTOCOL AR GYFER CYNGHORWYR.

Ceisia'r protocol a ganlyn egluro rôl aelodau'r Pwyllgor Cynllunio ("y penderfynydd"), Aelodau Lleol a'r Cynghorwyr yn gyffredinol.

### 19.1. CYFLWYNIAD.

19.1.1 Mae gan y Cyngor un Pwyllgor Cynllunio sydd â phymtheg o aelodau sy'n gwneud penderfyniadau ar y Ceisiadau Cynllunio hynny sy'n cael eu cyfeirio ar gyfer eu hystyried yn unol â Chynllun Dirprwyo Cynllunio Gwynedd.

19.1.2 Fodd bynnag, yn amlach na pheidio, mi fydd Cais Cynllunio, yn unol â Chynllun Dirprwyo Cynllunio Gwynedd, yn cael ei benderfynu gan Bennaeth yr Adran Rheoleiddio yn hytrach na'r Pwyllgor Cynllunio. Mewn sefyllfa fel hyn ni fydd gan yr aelodau hynny sy'n eistedd ar y Pwyllgor Cynllunio rôl i'w chwarae yn y broses o wneud penderfyniad.

19.1.3 O ran Cais Cynllunio sydd o fewn adran etholiadol yr aelod, neu sy'n effeithio ar yr adran etholiadol, mae modd i'r Cynghorydd ddefnyddio'r hawl i alw'r cais i mewn (er mwyn i'r cais gael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio yn hytrach na gan y Pennaeth Rheoleiddio).

19.1.4 Yn ogystal, gall Cynghorydd, yng nghyswllt Cais Cynllunio yn ei adran etholiadol, neu sydd yn effeithio ar ei adran etholiadol, fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio pan fo'r cais hwnnw yn cael ei drafod er mwyn cyflwyno barn yr etholwyr y mae yn eu cynrychioli.

19.1.5 Mae'n bosibl y gall rôl a phŵer y Cynghorwyr gael eu cyfyngu pan fod gwrthdaro rhwng eu dyletswydd hwy fel cynghorwyr a'u diddordebau personol neu allanol.

19.1.6 Diffinnir y rolau a'r pwerau hyn isod, mewn mwy o fanylder.

### 19.2. RÔL Y PENDERFYNYDD.

19.2.1. Pan fo Cynghorydd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio ac yn cymryd rhan (neu'n bwriadu cymryd rhan) mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio wrth drafod cais cynllunio penodol, yng nghyswllt y protocol hwn, mae o'n "Benderfynydd".

19.2.2. Bydd Cynghorydd sy'n Benderfynydd yn cydymffurfio â darpariaethau Côd Ymddygiad Aelodau.

### 19.3 RÔL YR "AELOD LLEOL"

19.3.1. Pan fo cais cynllunio sydd yn adran etholiadol Cynghorydd gerbron Pwyllgor Cynllunio, gall cynghorydd fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio er mwyn cyflwyno sylwadau am y cais cynllunio hwnnw ar ran ei etholwyr, ac yng nghyswllt y cais cynllunio hwnnw, ef yw'r "Aelod Lleol".

19.3.2. Pan fo Cynghorydd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio ni all fod yn Benderfynydd ar gyfer cais cynllunio sydd yn ei adran etholiadol. Mewn perthynas ag unrhyw gais yn ei adran etholiadol bydd pob Cynghorydd yn Aelod Lleol yng nghyd-destun y protocol yma.

19.3.3. Pan fo Cynghorydd am ba bynnag reswm yn methu bod yn bresennol mewn Pwyllgor Cynllunio pan fo cais gerbron sydd yn ei adran etholiadol, caiff drefnu i Gynghorydd arall fynychu'r Pwyllgor er mwyn cyflwyno sylwadau am y cais cynllunio ar ran ei etholwyr. Mewn sefyllfa fel hyn, bydd y Cynghorydd hwn yng nghyd-destun y Protocol yma yn "Aelod Lleol" ar gyfer y cais cynllunio hwnnw.

19.3.4. Bydd Cynghorydd sy'n Aelod Lleol yn cydymffurfio â Darpariaethau Siarad Cyhoeddus a Chôd Ymddygiad Aelodau. Ceir Darpariaethau pellach yn ymwneud a rôl yr Aelod Lleol yn rhan nesaf y Protocol.

19.3.5 Pan fydd gan Aelod Lleol fuddiant personol sydd yn rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad Aelodau, ni fydd ganddo hawl i annerch y Pwyllgor. Mewn sefyllfa fel hyn gall drefnu i gynghorydd arall fynychu'r Pwyllgor er mwyn cyflwyno sylwadau am y cais cynllunio ar ran ei etholwyr.

## 19.4 <u>RÔL CYNGHORYDD NAD YW'N AELOD O'R PWYLLGOR CYNLLUNIO</u>

19.4.1. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Côd Ymddygiad Aelodau, bydd Cynghorydd nad yw'n Aelod o Bwyllgor Cynllunio'r Sir (pa un ai yw'n bwriadu bod yn "Aelod Lleol" ai peidio) yn rhydd i :-

- drafod unrhyw gais cynllunio gyda'r ymgeisydd/asiant gwrthwynebydd/grŵp lobio ac ati;
- fynychu unrhyw gyfarfod sy'n cael ei drefnu'n lleol yn ymwneud a'r cais;
- fynychu unrhyw gyfarfod Cyngor Tref neu Gymuned ynghylch y cais a siarad am y cais (gan gynnwys mynegi barn un ai o blaid neu yn erbyn y cais) a (pe byddai'n aelod o'r Cyngor Tref neu Gymuned) pleidleisio ar y cais;
- gyfnewid gwybodaeth sy'n berthnasol i'r cais gyda'r swyddog cynllunio;
- geisio gwybodaeth/eglurder ynghylch y cais gan swyddog cynllunio;
- dylai gydymffurfio a rheolau lobïo Adran 16 y Protocol hwn.

## 19.5 <u>"GALW I MEWN".</u>

19.5.1. Caiff Cynghorydd (pa un ai yw'n Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio ai peidio) yng nghyswllt Cais Cynllunio yn ei adran etholiadol neu sy'n effeithio ar ei adran etholiadol, neu unrhyw ddau Gynghorydd arall (pa un ai ydynt yn Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio ai peidio), gyflwyno cais ysgrifenedig i Reolwr Cynllunio Gwynedd o fewn yr amserlen benodol er mwyn i'r cais cynllunio gael ei gyfeirio ar gyfer ei benderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio. Fe ddylid cyflwyno rhesymau cynllunio eglur yn y cais ysgrifenedig ar gyfer cyflwyno'r cais cynllunio i'r Pwyllgor Cynllunio.

19.5.2. Pan fo Cynghorydd yn gweithredu ar ei hawl i alw cais cynllunio i mewn i'r Pwyllgor Cynllunio yn unol â 5.1. uchod, yr amserlen benodol ar gyfer rhoi rhybudd yw 16 diwrnod calendr o ddyddiad y llythyr o hysbysiad.

19.5.3. Pan fo dau Gynghorydd (nad ydynt yn Aelodau Lleol) yn defnyddio'u hawl i alw cais cynllunio i mewn i'r Pwyllgor Cynllunio yn unol â 5.1. uchod, dylid anfon llythyr yn rhoi gwybod i'r Aelod Lleol.

19.5.4. Pan fo dau Gynghorydd (nad ydynt yn Aelodau Lleol) yn defnyddio'u hawl i alw cais cynllunio i mewn i'r Pwyllgor Cynllunio yn unol â 5.1., caiff un ohonynt fynegi ei farn ynghylch y cais penodol hwnnw. Bydd y Cynghorydd yn cydymffurfio a Darpariaethau Siarad Cyhoeddus a Chôd Ymddygiad Aelodau.

19.5.5. Er mwyn osgoi amheuaeth pan fo Cynghorydd yn defnyddio'i hawl i siarad yn unol â 5.1. uchod mae hyn yn ogystal â hawl Aelod Lleol yn unol â 4.1. uchod.

## 19.6 PENDERFYNU YMLAEN LLAW.

19.6.1 Wrth gymryd rhan yng nghyfarfodydd yr awdurdod, neu wrth wneud penderfyniadau ynghylch eitem ger bron Pwyllgor Cynllunio, rhaid i Benderfynydd wneud hynny â meddwl agored ac yn wrthrychol. Yn ystod y broses penderfynu rhaid i'r Penderfynydd weithredu'n deg ac ystyried budd y cyhoedd yn briodol. Mewn penderfyniadau Pwyllgorau Cynllunio, rhaid bob amser gwneud penderfyniadau ar sail y ffeithiau sydd ger bron, a ni ellir penderfynu ymlaen llaw i'r graddau fod Penderfynydd yn hollol anfodlon ystyried yr holl dystiolaeth a chyngor a roddir.

19.6.2 Rhagderfyniad yw bod â meddwl hollol gaeedig. Mae gan unrhyw Benderfynydd hawl i arddel safbwynt ymlaen llaw ynghylch mater penodol cyn cyfarfod (rhagdueddiad) ar yr amod ei fod yn cadw meddwl agored a'u bod yn fodlon ystyried rhinweddau'r holl ddadleuon a phwyntiau a wneir ynghylch y mater a drafodir cyn g wneud penderfyniad.

19.6.3 Mae rhagderfyniad ar y llaw arall yn golygu pan mae'n amlwg ei fod wedi penderfynu ar weithredoedd cyn cyfarfod ac yn gwbl amharod i ystyried y dystiolaeth a'r dadleuon a gyflwynir ar y mater hwnnw yn ystod y cyfarfod. Gallai rhagderfyniad wneud y penderfyniad yn annilys, ond gallai hefyd olygu torri'r Cod.

19.6.4 Felly, dylai Penderfynydd ystyried yr uchod yn ofalus cyn cymryd rhan yn y Pwyllgor fel Penderfynydd.. Dylid gofyn am farn y Swyddog Monitro o flaen llaw ac os ystyrir fod y Penderfynydd wedi rhagderfynu mewn perthynas ag eitem benodol dylid gwneud datganiad agored cyn i'r eitem gael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio, peidio siarad na phleidleisio a gadael y siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitem honno.

## 19.7. CYSYLLTIAD UNIONGYRCHOL CYNGHORWYR GYDAG YMGEISWYR AC ERAILL.

19.7.1. Os yw Cynghorydd yn rhoi cyngor i ymgeiswyr, asiantau, gwrthwynebwyr neu unrhyw bartïon eraill sydd â diddordeb ynghylch pa mor debygol yw hi y caiff bwriad cynllunio ei ganiatáu, ni chaiff y Cynghorydd fod yn "Benderfynydd" pan drafodir y ceisiadau cynllunio hynny sy'n berthnasol i'r bwriad a bydd angen ystyried a yw'n disgyn o fewn categori o fod yn Aelod a Diddordeb sy'n Rhagfarnu.

19.7.2 Dylai aelod sy'n dymuno sicrhau ei fod yn aros yn gymwys i fod yn "Benderfynydd" gynghori'r ymgeiswyr arfaethedig i gysylltu â Swyddog Cynllunio am gyngor ar rinweddau y cais a threfniadau.

**19.8 DYLAI AELODAU DDERBYN CYNGOR.**

19.8.1 Pe byddai Cynghorydd yn amau lle mae'n sefyll o dan y Protocol hwn neu Gôd Ymddygiad Aelodau, dylai ofyn am gyngor y Swyddog Monitro pob tro.

**19.9. DYLETSWYDDAU'R "PENDERFYNYDD".**

19.9.1. Ar gyfer unrhyw gais cynllunio sy'n cael ei drafod gan y Pwyllgor Cynllunio:

- **ni ddylai'r** Penderfynydd lobïo na dylanwadu na cheisio lobïo na dylanwadu unrhyw Benderfynydd arall neu Bennaeth Rheoleiddio ynghylch cais cynllunio o'r fath nac ychwaith unrhyw benderfyniad a wneid cyn y Pwyllgor Cynllunio sy'n ystyried a phenderfynu ar y cais hwnnw.
- **ni ddylai'r** Penderfynydd dderbyn unrhyw anrhegion na lletygarwch gan unrhyw un sy'n gysylltiedig â chais cynllunio o'r fath a dylai weithredu'n syth i gofrestru unrhyw gynigion, anrhegion neu letygarwch a wrthodwyd yn y Gofrestr a gedwir yn bwrpasol ar gyfer hynny gan y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol.
- **ni ddylai'r** Penderfynydd dderbyn na dangos y byddai'n fodlon derbyn unrhyw lythyr, pamffled neu unrhyw ddeunydd ysgrifenedig arall (gan gynnwys e-bost neu ffacs) sy'n ymwneud a chais cynllunio cyn iddo gael ei benderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio. Pan fo Penderfynydd yn derbyn deunydd o'r fath am ddim fe ddylai ei anfon ymlaen at y Pennaeth Rheoleiddio yn ddi-oed (a bydd yn rhoi gwybod i'r sawl y'i anfonodd yn y lle cyntaf, os yn hysbys, fod y deunydd wedi cael ei anfon ymlaen iddo ef ac y bydd yn cael ei gyfeirio ato, os yn briodol, yn Adroddiad Pwyllgor y Swyddog)
- **ni ddylai'r** Penderfynydd fynychu unrhyw gyfarfod, cyfarfod Briffio a Thrafodaeth sy'n ymwneud â chais cynllunio o'r fath sydd ddim yn cael ei drefnu gan na'i fynychu gan y Pennaeth Rheoleiddio neu fel arall wedi'i awdurdodi yn ysgrifenedig gan y Swyddog Monitro a dylai barchu'r darpariaethau sy'n ymwneud â mynychu cyfarfodydd cyhoeddus yn adran 10 isod.
- **ni ddylai'r** Penderfynydd ddangos na mynegi'n gyhoeddus neu'n breifat y penderfyniad tebygol neu rinweddau/gwrthwynebiadau i gais cynllunio o'r fath cyn i'r Pwyllgor Cynllunio ystyried a gwneud penderfyniad at y cais cynllunio hwnnw. **Pan fo Penderfynydd yn gwneud hyn, fe ddylai dderbyn cyngor gan y Swyddog Monitro ynghylch a ddylai barhau i fod yn Benderfynydd ai peidio.**
- **ni ddylai** ymrwymo naill ffordd na'r llall o ran y cais cynllunio cyn iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio. **Mae'n hanfodol bwysig fod Cynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd gan gadw meddwl agored a'u bod yn medru dangos hynny.**

- **ni ddylai** ddod a chyflwyniadau manwl gydag ef i'w darllen i'r cyfarfod.  Gallai hyn awgrymu fod y Cynghorydd wedi gwneud penderfyniad un ai o blaid neu yn erbyn cais cyn mynychu'r cyfarfod. (Argymhellir y dylai Cynghorwyr wneud nodiadau o bwyntiau sy'n codi yn y cyfarfod ar gyfer eu defnyddio mewn cyflwyniadau).
- **ni ddylai** bleidleisio na chymryd rhan yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio os nad yw wedi bod yn bresennol i wrando ar y drafodaeth yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys cyflwyniad y swyddog i'r cais.
- **ni ddylai** ddychwelyd i'w sedd yn ystafell y Pwyllgor Cynllunio (ar ôl gadael yr ystafell neu'r siambr cyn i'r drafodaeth ar y cais ddechrau neu yn ystod y drafodaeth) nes bod y drafodaeth ar y cais penodol hwnnw wedi dod i ben.
- **ni ddylai** gynnig, eilio na chefnogi penderfyniad sy'n groes i'r Cynllun Datblygu neu argymhellion y Pennaeth Rheoleiddio heb adnabod ac ynganu'n glir y rhesymau sy'n cefnogi'r penderfyniad sy'n cael ei gynnig. Dylid cyflwyno'r rhesymau hynny cyn y bleidlais a dylid eu cynnwys yn y Cofnodion.
- **ni ddylai** gynnig gohirio'r cais cynllunio heb adnabod ac ynganu'n glir y rhesymau i gyfiawnhau gohiriad o'r fath. Dylid cynnwys y rhesymau hynny yn y Cofnodion os yw'r cais cynllunio yn cael ei ohirio.
- **ni ddylai** bleidleisio ar y cais mewn cyfarfod Cyngor Tref neu Gymuned cynharach.  Pe byddai Penderfynydd yn gwneud hyn, fe ddylai geisio cyngor gan y Swyddog Monitro ynghylch parhau i fod yn Benderfynydd ai peidio**.**

19.9.2 Bydd Cynghorydd sy'n Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio ac yn dymuno ymgymryd â rôl "Aelod Lleol" ar gyfer Cais Cynllunio sydd i'w drafod gan y Pwyllgor Cynllunio yn cydymffurfio â darpariaethau'r Protocol hwn sy'n berthnasol i "Aelod Lleol" yn enwedig y rhai yn adrannau 4 a 13.

19.9.3 Bydd Cynghorydd sy'n Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio yn cydymffurfio â **Chôd Ymddygiad Aelodau** ac yn cael ei atgoffa'n benodol os oes ganddo un o'r hyn a ganlyn mewn perthynas â chais cynllunio sydd i gael ei drafod gan Bwyllgor cynllunio :-

i) Diddordeb Personol - y gofynion o ran datgan;
ii) Diddordeb sy'n Rhagfarnu - yr angen i gael gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau - neu fel arall peidio ag ymgymryd â rôl y Penderfynydd.

## 19.10. PAN FO PENDERFYNYDD YN DEFNYDDIO'I HAWL I ALW CAIS I MEWN

19.10.1. Pe byddai cais cynllunio penodol yn cael ei alw i mewn i gael ei benderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio o ganlyniad i gais gan Aelod o'r Pwyllgor, yna mae angen i'r Aelod hwnnw ystyried yn ofalus pa rôl y dylai chwarae pan fo'r Pwyllgor Cynllunio yn ystyried a phenderfynu ar y cais dan sylw. Yn arbennig felly pan fo Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio sydd wedi gwneud cais i alw i mewn :-

- Wedi geirio'r cais i Alw i Mewn, mewn iaith fyddai'n awgrymu ei fod wedi llunio barn glir yn barod o ran canlyniad priodol y cais; neu

- Wedi gwneud y cais Galw i Mewn ar ôl trafod gyda'r ymgeisydd/asiant/ gwrthwynebwr ac/neu unrhyw drydydd parti (gan gynnwys Cynghorydd arall pe bai'n Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio ai peidio) dylai'r Aelod geisio cyngor gan y Swyddog Monitro ynghylch parhau i fod yn Benderfynydd.

**19.11. <u>DYLETSWYDDAU'R "AELOD LLEOL".</u>**

19.11.1. Pan fo Cynghorydd yn gweithredu fel Aelod Lleol (pa un ai yw'n Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio ai peidio):

- **ni ddylai** eistedd gydag Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio, wrth fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio sy'n trafod y cais cynllunio dan sylw, a dylai aros hyd nes y gelwir arno i siarad yn rhan y cyhoedd o'r ystafell;
- **ni ddylai** siarad gydag unrhyw Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio am y cais cynllunio dan sylw, un ai yn ystod y cyfarfod Pwyllgor neu fel arall;
- yng nghyswllt y cais dan sylw a chyda caniatâd y Cadeirydd, caiff ymateb i gwestiynau Aelodau o'r Pwyllgor, yr ymgeisydd neu ei asiant ac unrhyw barti arall sy'n cael caniatâd i siarad yn ystod y cyfarfod;
- **ni ddylai** dderbyn unrhyw anrheg na lletygarwch gan unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r cais cynllunio dan sylw a dylai weithredu heb oediad i gofrestru unrhyw gynigion o anrhegion neu letygarwch a wrthodwyd gan y Gofrestr a gedwir yn bwrpasol ar gyfer hynny gan y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol.

19.11.2 Disgwylir i Aelodau nad ydynt ar y Pwyllgor Cynllunio dderbyn hyfforddiant a ddarperir gan y Cyngor o leiaf unwaith y flwyddyn er mwyn eu galluogi i gyflawni eu rôl fel Cynrychiolydd Lleol yn gywir.

19.11.3 Dylai Cynghorydd sydd yn gweithredu fel Aelod Lleol ac sydd angen gwybodaeth bellach am y cais cynllunio gysylltu gyda'r swyddogion cynllunio perthnasol ac nid Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio.

**19.12. <u>HAWLIAU "AELOD LLEOL".</u>**

19.12.1 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth caiff hawliau Aelod Lleol eu cynnwys yn Adran 4.1. y Protocol hwn dan y pennawd "Rôl Cynghorydd nad yw'n Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio.".

**19.13. <u>LOBÏO.</u>**

19.13.1 Mae'n bwysig sylweddoli fod lobïo yn rhan arferol a phriodol iawn o'r broses wleidyddol. Bydd y rhai sy'n cael eu heffeithio gan y penderfyniad cynllunio yn aml yn ceisio cael dylanwad arno wrth fynd at aelod ward etholedig neu at aelod o'r Pwyllgor cynllunio. Dywed Trydydd Adroddiad Pwyllgor Nolan "*It is essential for the proper operation of the Planning system that local concerns are adequately ventilated. The most effective and suitable way this can be done is via the local elected representatives, the Councillors themselves."*

19.13.1.2 Fodd bynnag, heb ofal a synnwyr cyffredin gan bawb sydd â diddordeb, fe all lobïo o'r fath arwain at gwestiynau amhleidioldeb a gonestrwydd Cynghorydd.

19.13.1.3 Wrth gael ei lobïo dylai'r Penderfynydd ofalu wrth fynegi barn all gael ei ddehongli fel pe bai wedi gwneud ei feddwl i fyny yn barod cyn iddynt weld y dystiolaeth i gyd. Fe ddylent sicrhau mai dim ond cyngor trefniadol sy'n cael ei roi.

19.13.1.4 Argymhellir na ddylai Cynghorwyr lobïo Cynghorwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio ynghylch eu pryderon neu eu barn nac ychwaith geisio eu perswadio i benderfynu pa ffordd i bleidleisio cyn y cyfarfod ble y bwriedir gwneud penderfyniad cynllunio.

19.13.1.5 Ni ddylai Cynghorwyr benderfynu na thrafod sut i bleidleisio ar unrhyw gais mewn unrhyw fath o gyfarfod grwpiau gwleidyddol, na lobïo unrhyw aelod i wneud hynny. Ni ddylai Cyfarfodydd Grwpiau Gwleidyddol byth reoli sut y dylai Aelodau bleidleisio ar fater cynllunio. Ni ddylid cynnal Cyfarfodydd Grwpiau Gwleidyddol cyn pwyllgorau cynllunio.

## 19.14. <u>HYFFORDDI AELODAU'R PWYLLGOR CYNLLUNIO.</u>

19.14.1. Bydd y Cyngor yn sicrhau fod Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn cwblhau hyfforddiant cyflwyno yn foddhaol cyn dechrau gwasanaethau ar y Pwyllgor Cynllunio ac o dro i dro eu bod yn ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol / gloywi yn unol â rhaglen hyfforddiant sydd wedi'i gytuno gan y Cyngor.

19.14.2 Bydd cofnodion presenoldeb mewn digwyddiadau hyfforddiant yn cael eu monitro. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Prif Bwyllgor Craffu pob chwe mis ynghylch presenoldeb aelodau mewn digwyddiadau hyfforddiant. Ni fydd aelod o'r Pwyllgor Cynllunio sy'n peidio â mynychu'r sesiynau hyfforddi yn cael eistedd ar y Pwyllgor Cynllunio nes bod yr hyfforddiant hwn wedi'i gwblhau. Bydd Aelod newydd o'r Cyngor yn ymgymryd â sesiwn hyfforddiant cyn iddo gael caniatâd i fod yn rhan o'r Pwyllgor Cynllunio.

## 19.15. <u>HYFFORDDI AELODAU ERAILL.</u>

19.15.1 Bydd hyfforddiant priodol ar gyfer Aelodau nad ydynt yn rhan o'r Pwyllgor Cynllunio yn cael ei drefnu er mwyn eu galluogi i gyflawni rôl yr Aelod Lleol yn briodol.

## 19.16. <u>CEISIADAU CYNLLUNIO GAN AELODAU.</u>

19.16.1. Pan fo Aelod yn gwneud cais cynllunio, fe ddylai'r aelod hwnnw gydymffurfio'n gyffredinol a Chôd Ymddygiad Aelodau. Fodd bynnag, bydd gan yr Aelod hawl i gyfarch y Pwyllgor yn rhinwedd yr Ymgeisydd yn unol â'r Rheolau Siarad Cyhoeddus. Yn union ar ôl cyfarch y Pwyllgor, fe ddylai'r aelod adael y Siambr pan fo'r cais yn cael ei drafod yn unol â Chôd Ymddygiad Aelodau.

**ADRAN 21**

## 21. PROTOCOL AR GYSYLLTIADAU AELODAU / SWYDDOGION

21.1 **Cyflwyniad**

Diben y Protocol hwn yw rhoi arweiniad i Aelodau a Chyflogeion y Cyngor o ran eu cysylltiadau â'i gilydd.

21.2 Mae parch rhwng Aelodau a Chyflogeion yn hanfodol i lywodraeth leol dda. Fodd bynnag, gall cyfeillgarwch personol agos rhwng Aelodau a Chyflogeion unigol niweidio'r berthynas hon ac achosi embaras i Aelodau a Chyflogeion eraill.

21.3 Mae'n rhaid i'r berthynas weithredu heb beryglu cyfrifoldebau pennaf Cyflogeion i'r Cyngor yn ei gyfanrwydd, a chan roi ystyriaeth briodol i'r cyfryw gyngor technegol, ariannol, proffesiynol a chyfreithiol y gall Cyflogeion ei roi'n gyfreithlon i Aelodau. Mae'r Protocol yn ceisio gosod fframwaith sy'n hwyluso'r cysylltiadau gwaith rhwng Aelodau a Chyflogeion.

21.4 Mae Aelodau a Chyflogeion yn ddarostyngedig i'w Codau Ymddygiad eu hunain sydd ar gael yn y Cyfansoddiad hwn. Mae'r Protocol hwn yn rhoi arweiniad ar gysylltiadau gwaith rhwng Aelodau a Chyflogeion. Mae'n hanfodol bod y ddau yn gyfarwydd â'r rhwymedigaethau manwl yn eu Codau Ymddygiad unigol, a fydd yn drech os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Codau a'r Protocol hwn.

21.5 **Rolau Aelodau**

Mae Aelodau'n ymgymryd â llawer o wahanol rolau. Yn gyffredinol:

21.5.1 Mae Aelodau'n mynegi gwerthoedd gwleidyddol ac yn cefnogi polisïau'r grŵp neu'r blaid y maent yn perthyn iddo/iddi (os o gwbl).

21.5.2 Mae Aelodau'n cynrychioli eu hadran etholiadol ac yn eiriolwyr ar ran y dinasyddion sy'n byw yn yr ardal.

21.5.3 Mae Aelodau'n ymwneud â phartneriaethau gweithredol gyda sefydliadau eraill fel arweinwyr cymunedol.

21.5.4 Mae Aelodau'n cyfrannu at y penderfyniadau a wneir yn y Cyngor Llawn ac yn ei gyrff amrywiol y maent yn gwasanaethu arnynt, yn ogystal â chydbwyllgorau, cyrff allanol a sefydliadau partneriaeth.

21.5.5 Mae Aelodau'n helpu i ddatblygu ac adolygu polisi a strategaeth.

21.5.6 Mae Aelodau'n monitro ac adolygu gweithrediad polisïau ac ansawdd gwasanaethau.

21.5.7 Mae Aelodau'n ymwneud â gwaith lled-farnwrol trwy eu Haelodaeth o bwyllgorau rheoleiddio.

21.6 Mae ymddygiad Aelodau'n cael ei reoli gan y Cod Ymddygiad i Aelodau sy'n datgan:

"Rhaid i chi

(a) *gyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd;*

(b) *ddangos parch at eraill ac ystyriaeth ohonynt;*

(c) *beidio ag ymddwyn fel bwli neu harasio unrhyw berson; a*

(ch) *beidio â gwneud dim sy'n cyfaddawdu, neu sy'n debygol o gyfaddawdu, didueddrwydd y sawl sy'n gweithio i'ch cyngor neu ar ei ran."*

21.7 **Rolau Cyflogeion**

Yn fyr, mae prif rolau Cyflogeion fel a ganlyn:

21.7.1 Rheoli a darparu'r gwasanaethau y mae'r Cyngor wedi eu penodi'n gyfrifol amdanynt a bod yn atebol am effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau hynny.

21.7.2 Cynghori'r Cyngor a'i gyrff amrywiol ac Aelodau unigol o ran y gwasanaethau a ddarperir.

21.7.3 Cychwyn cynigion polisi.

21.7.4 Gweithredu polisi cytunedig.

21.7.5 Sicrhau bod y Cyngor bob amser yn gweithredu mewn modd cyfreithlon.

21.8 Mae ymddygiad Cyflogeion yn cael ei reoli gan y Cod Ymddygiad i Gyflogeion sy'n datgan:

*"Cysylltiadau ag aelodau, y cyhoedd a chyflogeion eraill.*

4. *Mae cyd-barch rhwng cyflogeion cymwys ac aelodau yn hanfodol ar gyfer llywodraeth leol dda, a dylai perthnasoedd gwaith gael eu cadw ar sail broffesiynol.*

5. *Dylai cyflogeion cymwys yr awdurdodau perthnasol ymdrin â'r cyhoedd, aelodau a chyflogeion eraill gyda chydymdeimlad, yn effeithlon ac yn ddiduedd."*

21.9 **Parch a Chwrteisi**

21.9.1 Er mwyn i fusnes y Cyngor gael ei gynnal yn effeithiol, mae'n rhaid cael parch, ymddiriedaeth a chwrteisi yn yr holl gyfarfodydd a chysylltiadau, ffurfiol ac anffurfiol fel ei gilydd, rhwng Aelodau a Chyflogeion. Mae hyn yn rhan bwysig iawn o enw da'r Cyngor a chanfyddiad y cyhoedd ohono.

Mae'n bwysig iawn bod Aelodau a Chyflogeion yn cofio eu rhwymedigaethau unigol i wella enw da'r Cyngor a'u bod yn gwneud ymdrech i osgoi beirniadu Aelodau eraill, neu Gyflogeion eraill, mewn mannau cyhoeddus.

21.9.2 Pwysau Gormodol

Wrth ymwneud â'i gilydd, mae'n bwysig nad yw Aelodau a Chyflogeion yn ceisio manteisio'n annheg ar eu safleoedd.

Wrth ymwneud â Chyflogeion (yn enwedig Cyflogeion iau), mae angen i Aelodau fod yn ymwybodol ei bod yn rhwydd iddynt deimlo parchedig ofn ac fel petaent dan anfantais. Gall teimladau o'r fath fod yn ddwysach pan fydd Aelodau'n dal swydd swyddogol a/neu wleidyddol uwch.

Ni ddylai aelod roi swyddogion dan bwysau amhriodol i weithredu yn unol â dymuniadau'r aelod a bydd swyddog bob amser yn rhydd i gynnig barn broffesiynol sy'n groes i farn yr aelod.

Ni ddylai Aelod roi pwysau gormodol ar Gyflogai i wneud unrhyw beth nad oes ganddo ef/ganddi hi y pŵer i'w wneud nac i ymgymryd â gwaith y tu allan i'w (d)yletswyddau arferol neu ei (h)oriau arferol. Mae angen bod yn arbennig o ofalus o ran defnyddio eiddo a gwasanaethau'r Cyngor.

Yn yr un modd, mae'n rhaid i Gyflogai beidio â cheisio dylanwadu'n ormodol ar Aelod unigol i wneud penderfyniad o'i blaid/phlaid, na chodi materion personol yn ymwneud â'i swydd, na gwneud honiadau yn erbyn Cyflogeion eraill. *(Mae gan y Cyngor weithdrefnau ffurfiol ar gyfer ymgynghori, cwyno a disgyblu, ac mae gan Gyflogeion yr hawl i adrodd am gamweddau posibl o dan God Adrodd Cyfrinachol y Cyngor sef Polisi Canu'r Gloch.)*

21.9.3 Bwlio neu harasio

Nid yw'n dderbyniol i aelod fwlio neu harasio swyddog. Ystyrir unrhyw weithred yn erbyn swyddog yn fwlio neu harasio os mai'r bwriad oedd dylanwadu'n amhriodol neu'n annheg ar ei farn neu ei weithgaredd. Nid oes lle i sylwadau dilornus personol mewn trafodaeth rhwng aelod a swyddog ac ni ystyrir ei bod yn briodol i'r naill leisio cwyn am y llall yn gyhoeddus mewn pwyllgor neu yn y wasg, heb yn gyntaf ddefnyddio trefniadau mewnol y Cyngor i geisio datrys y gwyn honno.

21.9.4 Cyfeillgarwch

Gall cyfeillgarwch personol agos rhwng Aelodau a Chyflogeion niweidio'r egwyddor o barch tuag at ei gilydd. Fe allai hefyd, yn fwriadol neu'n ddamweiniol, arwain at drosglwyddo gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth nad yw'n briodol ei throsglwyddo rhyngddynt, fel manylion personol.

Gallai cyfeillgarwch o'r fath hefyd achosi embaras i Aelodau eraill a/neu Gyflogeion eraill a hyd yn oed arwain at amheuon ynglŷn â ffafriaeth.

Am y rhesymau hyn, mae'n rhaid osgoi cyfeillgarwch personol agos.

21.10 **Rhoi Cyngor a Gwybodaeth i Aelodau**

21.10.1 Caiff Cyflogeion eu cyflogi gan y Cyngor yn ei gyfanrwydd. Maent yn gwasanaethu'r Cyngor ac yn atebol i'r Prif Weithredwr a'u Cyfarwyddwyr/Penaethiaid Gwasanaeth priodol, ac nid i Aelodau unigol o'r Cyngor waeth beth fo'u swydd.

21.10.2 Mae Aelodau'n rhydd i gysylltu â Chyflogeion y Cyngor er mwyn cael y cyfryw wybodaeth a chyngor ag y gallai fod ei (h)angen arnynt yn rhesymol i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl fel Aelod o'r Cyngor. Gall hyn amrywio o gais am wybodaeth gyffredinol ynglŷn â rhyw agwedd ar weithgareddau'r Cyngor i gais am wybodaeth benodol ar ran etholwr.

21.10.3 Dylai Cyflogeion bob amser geisio ymateb i geisiadau am wybodaeth yn brydlon a, sut bynnag, dylent hysbysu'r Aelod os oes oedi sylweddol yn debygol wrth ymdrin ag ymholiad. Dylid ymdrechu o leiaf i ddilyn yr amserlen ar gyfer ymateb i ohebiaeth h.y. naill ai ymateb llawn neu, os nad yw hyn yn bosibl, cydnabyddiaeth sy'n esbonio'n llawn beth sy'n digwydd o fewn [pum] diwrnod gwaith o dderbyn yr ymholiad.

21.10.4 Ymdrinnir â hawliau cyfreithiol Aelodau i archwilio dogfennau'r Cyngor yn rhannol gan statud ac yn rhannol gan gyfraith gwlad.

21.10.5 Mae'r Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth yn Adran 14 y Cyfansoddiad hwn yn esbonio'r sefyllfa o ran mynediad at bapurau sy'n ymwneud â chyrff y Cyngor.

21.10.6 Mae arfer yr hawl cyfraith gwlad yn dibynnu ar allu Aelod i ddangos ei fod/bod "angen gwybod". I'r perwyl hwn, nid oes gan Aelod hawl i "gennad i grwydro" i archwilio unrhyw rai o ddogfennau'r Cyngor. Nid yw chwilfrydedd yn unig yn ddigonol.

21.10.7 Dylai'r wybodaeth a geisir gan Aelod gael ei darparu gan y Gwasanaeth perthnasol dim ond cyn belled â bod hynny o fewn terfynau adnoddau'r Gwasanaeth. O'u rhan hwy, dylai Aelodau geisio gweithredu'n rhesymol o ran nifer a chynnwys y ceisiadau a wnânt.

21.10.8 Mae'n bwysig i Wasanaethau a'u staff roi gwybodaeth i Aelodau am y materion pwysig sy'n ymwneud â'r Cyngor ac, yn fwy penodol, am faterion a digwyddiadau sy'n effeithio ar yr ardaloedd y maent eu cynrychioli. Dylid rhoi gwybodaeth i Aelodau lleol am gynigion sy'n effeithio ar eu hadrannau etholiadol a dylid eu gwahodd hefyd i fynychu digwyddiadau a drefnir gan y Cyngor yn eu hadrannau etholiadol. (Mae mwy o fanylion yn y Siarter Ymgynghori ag Aelodau Lleol, sydd wedi'i hatodi i'r Protocol hwn).

21.10.9 Pe byddai Aelod yn gofyn am wybodaeth benodol yn ymwneud â gwaith Gwasanaeth arbennig, a'i bod yn ymddangos yn bosibl neu'n debygol y gallai mater gael ei godi neu gwestiwn gael ei ofyn mewn cyfarfod dilynol ar sail y wybodaeth a ddarparwyd, yna dylid rhoi gwybod i'r Aelod priodol o'r Cabinet neu Gadeirydd y Pwyllgor dan sylw am y wybodaeth a ddarparwyd.

21.10.10O bryd i'w gilydd, mae'n rhaid i Swyddogion gynghori Aelodau nad oes modd dilyn ffordd benodol o weithredu. Weithiau, mae Aelodau'n tybio mai'r rheswm am hyn yw bod Swyddogion yn ceisio llesteirio dymuniadau gwleidyddion yn fwriadol. Mewn gwirionedd, yn anaml iawn y bydd hyn yn wir. Cyflogir Swyddogion i roi cyngor proffesiynol

diduedd, hyd yn oed os nad yw'r cyngor hwnnw'n plesio Aelodau. Maent yn gwneud hyn llawn cymaint er mwyn amddiffyn Aelodau ag am unrhyw reswm arall. Fodd bynnag, os bydd angen rhoi cyngor negyddol, bydd Swyddog effeithiol hefyd yn rhoi awgrymiadau ynglŷn â sut y gallai Aelodau gyflawni rhai o'u hamcanion neu eu holl amcanion mewn ffyrdd eraill. Mae Swyddogion o'r fath yn amhrisiadwy i unrhyw Gyngor.

21.10.11 Mae'n bosibl y bydd gan Aelodau hawl o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i dderbyn gwybodaeth sydd y tu allan i'w hawliau cyfraith gwlad ar sail "angen gwybod". Anogir Cyflogeion i roi dogfennau i Aelodau heb fod angen cyflwyno cais ffurfiol o dan y Ddeddf os yw'n amlwg o ymholiad yr Aelod y byddai gan unrhyw unigolyn yr hawl i dderbyn dogfennau o'r fath. Bydd [*rhowch deitl*] y Cyngor yn gallu rhoi cyngor mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, os bydd angen, ynglŷn â pha un a fyddai unrhyw gais yn dod o fewn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

21.10.12 Mae'n bwysig cael perthynas waith agos rhwng Arweinydd y Cyngor, Aelod Cabinet a chyfarwyddwr, penaethiaid gwasanaeth ac uwch swyddogion unrhyw adran sy'n ymwneud a'r portfolio perthnasol. Serch hynny, ni ddylid byth ganiatau i'r perthynasau hyn ddatblygu i fod mor agos, neu ymddangos felly, fel bod hyn yn taflu amheuaeth ar allu'r swyddog i ddelio'n ddiduedd efo aelodau eraill a grwpiau gwleidyddol eraill.

21.10.13 Rhaid cofio bod swyddogion yn atebol i'w pennaeth gwasanaeth ac, er y dylai swyddogion bob amser geisio cynorthwyo cadeirydd, arweinydd portffolio (neu yn wir unrhyw aelod), rhaid iddynt beidio, wrth wneud hynny, fentro y tu hwnt i derfynau pa bynnag awdurdod sydd wedi ei roi iddynt gan eu prif swyddog.

21.11 **<u>Cyfrinachedd</u>**

21.11.1 Yn unol â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau, mae'n rhaid i Aelod beidio â datgelu gwybodaeth a roddwyd iddo ef/iddi hi yn gyfrinachol gan unrhyw un, na gwybodaeth a gafwyd y mae ef/hi yn credu ei bod o natur gyfrinachol, neu y mae'n rhesymol tybio y dylai ef/hi fod yn ymwybodol ei bod o natur gyfrinachol, ac eithrio:

(a) pan fydd ganddo ef/ganddi hi ganiatâd unigolyn sydd ag awdurdod i'w roi;

(b) ei bod yn ofynnol iddo ef/iddi hi wneud hynny gan y gyfraith;

(c) bod y datgeliad yn cael ei wneud i drydydd parti at ddiben cael cyngor proffesiynol, cyn belled â bod y trydydd parti'n cytuno i beidio â datgelu'r wybodaeth i unrhyw unigolyn arall; neu

(ch) fod y datgeliad:

(i) yn rhesymol ac er budd y cyhoedd; ac

(ii) yn cael ei wneud gyda phob ewyllys da ac yn unol â gofynion rhesymol yr awdurdod.

21.11.2 Dylid trin papurau Pwyllgor cyfrinachol (papurau eithriedig) fel gwybodaeth gyfrinachol oni bai bod y Pwyllgor perthnasol yn penderfynu

peidio ag eithrio'r wasg a'r cyhoedd. Atgoffir Aelodau mai'r Swyddog Monitro sy'n gwneud y penderfyniad cychwynnol ynglŷn â pha un a ddylid trin y papurau'n gyfrinachol ai peidio. Y Pwyllgor sydd i benderfynu pa un a ddylent aros yn gyfrinachol. Gall gwybodaeth arall fod yn gyfrinachol oherwydd y byddai ei datgelu yn mynd yn groes i fudd i'r Cyngor neu'r cyhoedd. Gall gwybodaeth fod yn gyfrinachol hefyd oherwydd yr amgylchiadau y'i cafwyd ynddynt.

21.11.3 Bydd gwybodaeth a gohebiaeth am faterion preifat neu fusnes unigolyn yn gyfrinachol fel arfer.

21.11.4 Dylai Swyddogion egluro wrth Aelodau os ydynt yn rhoi gwybodaeth gyfrinachol iddynt. Os yw Aelod yn ansicr pa un a yw gwybodaeth yn gyfrinachol ai peidio, dylai ef/hi ofyn i'r Swyddog perthnasol, ond trin y wybodaeth yn gyfrinachol yn y cyfamser.

21.11.5 Mae'n rhaid i unrhyw wybodaeth am y Cyngor a roddir i Aelod gael ei defnyddio gan yr Aelod hwnnw/honno dim ond mewn cysylltiad â chyflawni ei (d)dyletswyddau'n briodol fel Aelod o'r Cyngor.

21.11.6 Os yw Aelod yn derbyn gwybodaeth gyfrinachol a'i fod/bod o'r farn y dylid ei datgelu i unigolyn arall oherwydd bod hynny'n rhesymol ac er budd y cyhoedd, yna mae'n rhaid iddo ef/iddi hi ymgynghori â'r Swyddog Monitro yn gyntaf ac ni chaiff ddatgelu'r wybodaeth heb ystyried unrhyw gyngor a roddwyd gan y Swyddog hwnnw/honno.

## 21.12 **<u>Darparu Gwasanaethau Cymorth i Aelodau</u>**

21.12.1 Yr unig sail y gall y Cyngor ddarparu gwasanaethau cymorth (e.e. deunydd ysgrifennu, prosesu geiriau, technoleg gwybodaeth, argraffu, llun-gopïo, cludiant, ac ati) i Aelodau yn gyfreithlon yw er mwyn eu cynorthwyo i gyflawni eu rôl fel Aelodau o'r Cyngor. Felly, mae'n rhaid i wasanaethau cymorth o'r fath gael eu defnyddio ar gyfer busnes y Cyngor yn unig. Ni ddylid byth eu defnyddio mewn cysylltiad â gweithgarwch ymgyrchu neu wleidyddiaeth bleidiol nac at ddibenion personol.

21.12.2 <u>Gohebiaeth</u>

Fel arfer dylai llythyrau swyddogol ar ran y Cyngor gael eu hanfon yn enw'r Cyflogai priodol, yn hytrach nag yn enw Aelod. Mewn rhai amgylchiadau, mae'n berffaith dderbyniol anfon llythyr yn enw Aelod, er enghraifft, sylwadau i Weinidog o'r LLywodraeth neu lythyr mewn ymateb i lythyr ymholiad neu gwyno a anfonwyd yn uniongyrchol at yr Aelod hwnnw/honno. Ni ddylai llythyrau sydd, er enghraifft, yn creu rhwymedigaethau neu'n rhoi cyfarwyddiadau ar ran y Cyngor, byth gael eu hanfon yn enw Aelod.

21.12.3 Fel arfer, ni ddylai swyddog anfon copi o ohebiaeth rhwng aelod unigol a'r swyddog hwnnw/honno at unrhyw aelod arall. Pan fo achos neilltuol lle mae angen anfon copi o'r ohebiaeth at aelod arall, dylid egluro hyn yn glir wrth yr aelod gwreiddiol. Mewn geiriau eraill, ni ddylid defnyddio system o "gopiau distaw".

21.12.4 <u>Y Cyfryngau</u>

Gall cyfathrebu â'r cyfryngau fod yn rhan bwysig o lwyth gwaith Aelod. Yn gyffredinol, mae Aelodau'n rhoi sylwadau a safbwyntiau tra bod

Cyflogeion yn rhoi gwybodaeth ffeithiol. Os yw Aelod yn ansicr ynglŷn ag amgylchiadau mater penodol, dylai gysylltu â'r Cyfarwyddwr neu'r Pennaeth Gwasanaeth priodol neu ofyn i Swyddfa'r Wasg wneud hynny.

21.13 **<u>Rôl y Cyngor fel Cyflogwr</u>**

Wrth ymwneud â Swyddogion, dylai Aelodau gydnabod a rhoi ystyriaeth i rôl y Cyngor fel cyflogwr. Dylai Aelodau fod yn ymwybodol y gallai Swyddogion ddibynnu ar ymddygiad amhriodol Aelod mewn achos cyflogaeth yn erbyn y Cyngor.

21.14 **<u>Gweithgarwch Gwleidyddol</u>**

21.14.1 Mae nifer o gyfyngiadau'n berthnasol i gyflogai sy'n dal swydd y dynodir ei bod "dan gyfyngiadau gwleidyddol" o dan delerau Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

21.14.2 I grynhoi, ni chaiff cyflogeion o'r fath:

(a) fod yn Aelod Seneddol, Aelod o Senedd Ewrop neu Aelod o awdurdod lleol;

(b) gweithredu fel asiant neu is-asiant etholiad ar gyfer unigolyn sy'n ymgeisio i gael ei (h)ethol yn Aelod o unrhyw un o'r cyrff y cyfeirir atynt yn (a);

(c) bod yn Swyddog plaid wleidyddol neu unrhyw gangen plaid wleidyddol neu'n Aelod o unrhyw bwyllgorau neu is-bwyllgorau plaid neu gangen o'r fath, pe byddai ei (d)dyletswyddau'n debygol o fynnu ei fod/bod yn:

(i) cymryd rhan mewn rheolaeth gyffredinol y blaid neu'r gangen; neu

(ii) weithredu ar ran y blaid neu'r gangen wrth ymdrin ag unigolion heblaw am Aelodau o'r blaid;

(ch) canfasio ar ran plaid wleidyddol neu unigolyn sy'n ymgeisio i gael ei (h)ethol i unrhyw un o'r cyrff y cyfeirir atynt yn 21.14.2.(a).

(d) siarad â'r cyhoedd gyda'r bwriad ymddangosiadol o ennyn cefnogaeth y cyhoedd i blaid wleidyddol; a

(dd) chyhoeddi unrhyw waith ysgrifenedig neu artistig y mae ef/hi wedi'i awduro (neu'n un o'i awduron) neu weithredu fel golygydd mewn perthynas â gwaith o'r fath, neu achosi, awdurdodi neu ganiatáu i unrhyw unigolyn arall gyhoeddi gwaith neu gasgliad o'r fath – os yw'n ymddangos bod y gwaith wedi'i fwriadu i ennyn cefnogaeth i blaid wleidyddol.

21.14.3 Bydd swyddogion yn darparu cyngor i bwyllgorau, fforymau aelodau ayb yn hytrach nag i grwpiau gwleidyddol. O bryd i'w gilydd fodd bynnag, gall fod yn anorfod cynghori grwp gwleidyddol. Mewn amgylchiadau o'r fath mae'n briodol i grwpiau pleidiol alw ar Gyflogeion i gynorthwyo a chyfrannu at eu hystyriaethau cyn belled â'u bod yn cynnal safbwynt sy'n wleidyddol ddiduedd. Gall cymorth gynnwys ystod o weithgareddau

megis briffio Aelodau ynglŷn â'u rolau, e.e. cadeirydd neu lefarydd. Dylai grwpiau gwleidyddol ofyn i Gyflogeion roi gwybodaeth a chyngor sy'n ymwneud â busnes y Cyngor yn unig, ac nid materion sydd o natur gwleidyddiaeth bleidiol. Dylai cyngor o'r fath fod ar gael i'r holl grwpiau pleidiol ac nid dim ond i'r grŵp mwyafrifol. Mae'n bwysig bod amhleidioldeb gwleidyddol Cyflogeion yn cael ei gynnal, a bod Cyflogeion yn cynnal cyfrinachedd y grŵp.

21.14.4 Fel arfer, yr unig Gyflogeion a fydd yn mynychu cyfarfodydd grŵp fydd y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth. Yn gyffredinol, byddant yn gadael y cyfarfod ar ôl rhoi eu cyflwyniad ac ateb cwestiynau. Dylid cofrestru gyda'r Swyddog Monitro pob achlysur pan yw swyddog (heblaw cymhorthydd gwleidyddol) yn mynychu cyfarfod o grwp gwleidyddol.

21.15 **Torri'r Protocol**

Os yw Aelod o'r farn nad yw wedi cael ei drin/thrin â pharch neu gwrteisi priodol, caiff ef/hi godi'r mater gyda rheolwr llinell y Cyflogai. Os nad yw trafodaeth uniongyrchol gyda'r rheolwr yn datrys y gŵyn, dylid ei hatgyfeirio i'r Pennaeth Gwasanaeth neu'r Cyfarwyddwr sy'n gyfrifol am y cyflogai dan sylw. Gallai achos o Dorri'r Protocol arwain at gymryd camau disgyblu yn erbyn Cyflogai os yw'r amgylchiadau'n cyfiawnhau hynny.

Os yw cyflogai o'r farn bod Aelod wedi torri'r protocol, dylai ef/hi ymgynghori â'i l a fydd yn cynnwys y Pennaeth Gwasanaeth neu'r Cyfarwyddwr os bydd angen. Mewn rhai amgylchiadau, gallai achos o dorri'r Protocol hefyd fod yn gyfystyr â thorri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau. Os yw'r achos yn ddigon difrifol, gallai fod cyfiawnhad dros ei atgyfeirio i'r Swyddog Monitro fel cwyn i'w hystyried dan y drefn ddatrys leol a all yn y pen draw arwan at wrandawiad gerbron y Pwyllgor Safonau. Bydd modd datrys llawer o gwynion yn anffurfiol. Bydd y Swyddog Monitro neu'r Prif Weithredwr yn cynorthwyo â'r broses hon os bydd angen.

21.16 **Casgliad**

Trwy ddilyn arfer da a sicrhau cysylltiadau gwaith synhwyrol ac ymarferol rhwng Aelodau a Chyflogeion, gobeithir y gellir sefydlu un o gonglfeini awdurdod lleol llwyddiannus ac felly darparu gwasanaethau o werth uchel i bobl yr ardal. Cyd-ddealltwriaeth, didwylledd a pharch yw'r elfennau pwysicaf sy'n diogelu uniondeb y Cyngor, ei Aelodau a'i Gyflogeion.

| | |
|---|---|
| `Cyfarfod: | **Y CYNGOR** |
| Dyddiad: | 17, Gorffennaf, 2014 |
| Teitl: | Swyddog Cofrestru Etholiadol/Swyddog Canlyniadau |
| Pwrpas yr Adroddiad: | Penodi'r Swyddog Uchod. |
| Aelod Cabinet: | Cynghorydd Ioan Thomas, (Gofal Cwsmer). |
| Swyddog: | Dilys Phillips, Swyddog Monitro |

1. Dan Adran 8 o Ddeddf Cynrychioli'r Bobl 1983, mae'n ofynnol i'r Cyngor benodi Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer pob etholaeth, neu ran o etholaeth o fewn y Sir.

2. Dan yr un Ddeddf, y Swyddog Cofrestru Etholiadol fydd y Swyddog Canlyniadau Gweithredol ar gyfer etholiadau seneddol.

3. Dan Adran 35 o'r un Ddeddf mae'n ofynnol i'r Cyngor benodi un o'i swyddogion i fod yn Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau lleol (Sir a Chymuned).

4. Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn nodi mai'r Cyngor sydd i benodi dirprwy i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol (y Swyddog Canlyniadau ei hun sydd yn penodi dirprwy ar gyfer etholiadau).

5. Mae swyddogaethau Swyddog Canlyniadau (a rhai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol) yn gyfangwbl ar wahân i'w swyddogaeth fel swyddog o'r Cyngor ac mae'r cyfrifoldeb am gyflawni dyletswyddau cofrestru etholwyr a rhedeg etholiadau yn gyfrifoldeb personol ar yr unigolyn sy'n dal y swydd.

6. Gan fod y Swyddog Cofrestru Etholiadol/Swyddog Canlyniadau presennol yn ymddeol fe ddaw'r swydd yn wag ar y 1, Medi 2014 ac mae angen i'r Cyngor benodi olynydd o'r diwrnod hwnnw.

7. Fel rheol (ond nid bob amser), Prif Weithredwr y Cyngor sy'n cael ei ddynodi'n Swyddog Cofrestru Etholiadol a Swyddog Canlyniadau. Argymhellir fod y swyddogaethau yma'n cael eu rhoi i'r Prif Weithredwr.

8. Mae'r gwaith dydd i ddydd o gadw'r gofrestr etholiadol yn dod yn gyfrifoldeb i'r Swyddog Monitro newydd yn sgil yr ail-strwythuro diweddar. Argymhellir felly penodi'r Swyddog Monitro yn Ddirprwy Swyddog Cofrestru Etholiadol.

9. Argymhellir fod y Cyngor yn penderfynu fel a ganlyn:-

(a) Penodi'r Prif Weithredwr i fod yn Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer pob etholaeth a rhannau o etholaeth o fewn y Sir yn unol ag Adran 8(2A) deddf Cynrychioli'r Bobl 1983.

(b) Penodi'r Swyddog Monitro i fod yn Ddirprwy Swyddog Cofrestru at y dibenion a restrir yn (a) uchod ac Adran 52(2) o'r Ddeddf.

(c) Penodi'r Prif Weithredwr i fod yn Swyddog Canlyniadau ar gyfer ethol cynghorwyr i'r Cyngor ac ethol cynghorwyr cymuned o fewn y Sir yn unol ag Adran 35(1A) Deddf Cynrychioli'r Bobl 1983.

Y cyfan yn weithredol o 1af Medi, 2014.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD:** | **17 Gorffennaf 2014** |
| **AELOD CABINET:** | **Cynghorydd R H Wyn Williams** |
| **TEITL:** | **Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol 20131/14 (yn ymgorffori Adroddiadau Blynyddol y Panel Rhiant Corfforaethol a'r Panel Strategol Diogelu)** |
| **AMCAN:** | **Adrodd ar effeithlonrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol 2013/14<br>Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR:** | **Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Statudol a Chyfarwyddwr Corfforaethol** |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'n ofyn statudol i'r Cyngor gyhoeddi 'Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol' sydd yn adrodd ar effeithlonrwydd Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol.

1.2 Rhaid i'r adroddiad fod mewn iaith hawdd i'w ddeall gan ddweud wrth drigolion a chyfranddalwyr pa mor dda rydym yn meddwl mae'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yn perfformio yng Ngwynedd. Ar ddiwedd y broses, mae'n ddisgwyliad ein bod yn cyflwyno'r adroddiad i Aelodau'r Cyngor.

## 2. Y gyfundrefn

2.1 Cyflwynwyd y gyfundrefn hon yn 2010. Mae'n unigryw i Gymru ac i Wasanaethau Cymdeithasol ac mae gofyn i Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol dderbyn cyfrifoldeb personol i adrodd yn gyhoeddus ar berfformiad y gwasanaethau ynghyd â'r profiad o ddarparu gwasanaethau mewn cyd-destun lleol.

2.2 Gofynnir i'r Cyfarwyddwr Statudol ystyried yr ystod wybodaeth a phrofiadau sy'n cael effaith ar allu'r Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau dibynadwy a chynaliadwy o'r safon uchaf.

2.3 Er bod hwn yn gyfrifoldeb penodol ar y Cyfarwyddwr Statudol rhaid cyflawni'r gwaith a'r dasg mewn ffordd sy'n adlewyrchu a grymuso'r cydweithio, sy'n rhan annatod o'r maes.

2.4 Mae 4 cam i'r broses, sef:

**i. Yr Adroddiad Blynyddol (a gyflwynir yn atodol).**
Dogfen gyhoeddus sy’n crynhoi barn y Cyfarwyddwr ar effeithlonrwydd y gwasanaeth yn ystod 2013/14 gan nodi’r blaenoriaethau er sicrhau gwella gwasanaeth ar gyfer y dyfodol. Yn dilyn y Cyngor Llawn, bydd y ddogfen yn cael ei dylunio, er mwyn rhoi diwyg mwy lliwgar, a chynnwys rhywfaint o ddyfyniadau, lluniau a graffiau atodol. Yna, bydd yn cael ei rhoi ar wefan y cyngor.

**ii. Dadansoddiad o effeithiolrwydd Gwasanaethau**
Proses fanwl o hunan asesu effeithlonrwydd y gwasanaeth, gan gytuno ar ddadansoddiad ac adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae angen sicrhau fod cyfranddalwyr wedi cael cyfle i herio’r asesiad. Nid yw’n ddogfen gyhoeddus ond ar gael i bawb sydd eisiau’i gweld.

**iii. Llwybr Tystiolaeth**
Rhaid casglu tystiolaeth sydd yn cyfiawnhau'r asesiad a'r dyfarniad yn yr hunan asesiad.

**iv. Cynllun busnes**
Llunnir y cynllun busnes er mwyn cyflawni'r gwelliannau a nodir yn yr adroddiad.

3. **Atodiadau**

3.1 Yng nghorff yr Adroddiad Blynyddol uchod, cyfeirir at Adroddiadau Blynyddol y Panel Rhiant Corfforaethol a’r Panel Strategol Diogelu. Mae’r ddau adroddiad wedi eu cynnwys fel atodiadau i’r adroddiad hwn (Panel Rhiant Corfforaethol – Atodiad A, Panel Strategol Diogelu – Atodiad B)

**4. Argymhelliad**

4.1 Gofynnir i’r Cyngor dderbyn yr adroddiad fel crynodeb cywir a chytbwys o berfformiad y gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd yn ystod 2013/14, a’r bwriadau strategol ar gyfer 2014/15. Hefyd, gofynnir am hawl olygyddol i’r Cyfarwyddwr Statudol ychwanegu lluniau, graffiau a dyfyniadau ychwanegol, fel bo’n briodol, i fywiogi diwyg yr adroddiad cyn ei gyhoeddi’n ffurfiol. .

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd 2013-14

## Cynnwys


| Rhan | Teitl | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Gair agoriadol gan y Cyfarwyddwr | 3 |
| 2 | Creu Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy | 5 |
| 3 | Diogelu | 9 |
| 4 | Gwella Gwasanaethau i Oedolion | 11 |
| 5 | Gwella Gwasanaethau i Blant | 15 |
| 6 | Llywodraethu | 18 |
| 7 | Edrych i'r dyfodol | 22 |

# 1.Gair agoriadol gan y Cyfarwyddwr

Croeso i fy Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2013-2014. Ei bwrpas yw adlewyrchu ar berfformiad y gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd yn ystod y flwyddyn a fu, ac adrodd ar ein blaenoriaethau a'n bwriadau ar gyfer 2014/15. Rwy'n gobeithio y cewch amser i bori drwyddo a gweld a yw'r blaenoriaethau yn cyd-fynd â'r hyn yr ydych chi'n credu sy'n bwysig i chi, eich teulu a'ch cymunedau. Byddwn yn croesawu unrhyw sylwadau gennych. Yn arbennig, hoffwn glywed am syniadau ynglŷn â sut y gallwn, hefo'n gilydd, barhau i wella a datblygu'r modd y mae pobl Gwynedd yn cael cefnogaeth i fwy bywydau bodlon, llawn a diogel.

Hon yw fy ail flwyddyn yn fy rôl fel Cyfarwyddwr Statudol y gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd. Bellach, mae'n bleser gennyf gyhoeddi bod y Cyngor wedi sefydlu a phenodi i ddwy swydd allweddol i'm cefnogi, sef Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant, a Phennaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd.

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wedi ei mabwysiadu gan y Llywodraeth eleni, sy'n gosod cyfrifoldebau newydd arnom fel awdurdodau lleol, ynghyd â gosod cyfeiriad ynglŷn â darparu gwasanaethau cynaliadwy i'r dyfodol. Yn ogystal, gwyddom am yr her ariannol, a hyn mewn cyfnod o ddisgwyliadau uwch a mwy o alw am wasanaethau. Trwy hyn i gyd, fel y llynedd, ein blaenoriaeth fel gwasanaethau yw diogelu ac amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion mwyaf bregus ein cymdeithas, a cheisio gwella gwasanaethau iddynt yn barhaus.

Mae perfformiad 2013-14 yn dda ar y cyfan, gyda sawl maes yn gwneud cynnydd. Ond, os ydym am lwyddo i ddiwallu ein cyfrifoldebau statudol i'r dyfodol, mae rhaid i'n rhaglenni newid a chyflawni yn eu cyfanrwydd gyflymu. Credaf fod gwir gyfle i ehangu a datblygu ymyraethau all gefnogi'r mwyaf bregus yn ein cymdeithas. Er mwyn gwneud hyn, rhaid cyfarch yr agenda pwysig hwn fel un gymuned gyfan. Rhaid i ni gyd-weithio gyda'n gilydd, a sicrhau ein bod yn adeiladu ar gryfderau cymunedau ac unigolion. Trwy wneud hyn, rwy'n sicr y gallwn ymateb i'r her mewn dull sydd hefyd yn cynnig canlyniadau gwell i unigolion.

Rydym wedi sefydlu adran newydd ar gyfer plant a theuluoedd yng Ngwynedd. Mae hyn yn golygu fod yr holl wasanaethau plant a phobl ifanc, ac eithrio Addysg, wedi dod at ei gilydd o dan arweinyddiaeth Pennaeth Adran arbenigol. Rydym wedi ymgymryd â chryn dipyn o ymchwil yn y maes hwn ac rydym yn symud i ganolbwyntio ar ymyraethau cynnar gyda'r pwyslais ar gynorthwyo rhieni a rhoi cyfle i blant a phobl ifanc ddatblygu mewn awyrgylch gefnogol.

Ym maes Oedolion rydym, eto, wedi creu ffocws penodol ar gyfer y maes trwy greu'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Y bwriad yn ystod y flwyddyn nesaf yw cynnal adolygiad o bob agwedd o'r maes er mwyn sicrhau fod ein hymarfer o'r safon gorau a'n bod yn gallu tystiolaethu gwerth am arian drwyddi draw. Mae ffocws yma hefyd ar geisio sicrhau bod ymyraethau cynnar yn eu lle i ganiatáu i bobl aros yn iach mor hir â phosibl ac ar wella trefniadau ar gyfer darparu gwasanaeth.

Mae un neges yn hollol glir gan bawb, a hynny yw'r angen i'n gwasanaethau ni a gwasanaethau iechyd fod yn llai cymhleth ac yn fwy integredig. Y gri yn aml yw nad oes ots pwy sy'n darparu, cyn belled bod y ddarpariaeth o'r safon uchaf a'i bod yn hawdd ei chael pan fo'r angen yn codi. Yn syml, "y gofal iawn, yn y lle iawn, ar yr adeg iawn am y gost iawn". Dyna'r hyn sydd ei angen a dyna'r agenda i ni ar y cyd ac Iechyd dros y flwyddyn neu ddwy nesaf. Rydym eisoes wedi arwyddo cytundeb ffurfiol ac mae gennym raglen waith i yrru'r agenda yn ei blaen ym maes oedolion. Rydym hefyd wedi derbyn cyllideb blwyddyn i sicrhau ein bod yn gyrru'r agenda, a hynny ar fyrder.

Yr hyn sy’n hollbwysig drwy’r holl newidiadau angenrheidiol ydy ein bod yn cadw ein defnyddwyr, neu bobl Gwynedd, yn ganolog. Rhan hanfodol o hyn, yn amlwg, yw sicrhau bod gan bawb lais a bod gwasanaethau yn cael eu cynnig ar sail anghenion yr unigolion. Mae gofynion clir yma o ran parch, ymateb i anghenion ieithyddol a sicrhau ein bod yn cwrdd yn gyson ag egwyddorion gofal. Rwy’n sicr fod gennym le i wella ond rwyf hefyd yn credu ein bod yn glir ynglŷn â’r hyn yw’r gofal gorau.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch o waelod calon am ymrwymiad a gwaith caled ein staff, darparwyr a phartneriaid wrth sicrhau fod plant, pobl ifanc ac oedolion bregus a’u teuluoedd yn derbyn y gwasanaethau gorau bosibl. Yn ogystal, diolch yn arbennig i bawb sydd yn gofalu yn anffurfiol drwy’r flwyddyn, am aelod o’r teulu, neu am gymydog. Hoffwn hefyd ddiolch am arweiniad a chefnogaeth ddiflino’r Aelod Cabinet Gofal drwy gydol y flwyddyn.



Awen Morwena Edwards
Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Gwynedd

## 2.Creu Gwasanaethau Cymdeithasol cynaliadwy

Yn ystod 2013/14, mae Cyngor Gwynedd wedi rhoi ymdrech sylweddol i osod sylfeini cadarn ar gyfer sicrhau y bydd gennym wasanaethau cymdeithasol hyfyw a chynaliadwy i'r dyfodol a'n bod yn ymateb i ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru ('y Ddeddf') a'r cyd-destun lleol.

### 2.1 Arweinyddiaeth

Mae swyddogaethau'r 'Cyfarwyddwr Statudol' bellach wedi eu trosglwyddo i lefel Cyfarwyddwr Corfforaethol o fewn y Cyngor, sy'n sicrhau arweinyddiaeth ac atebolrwydd ar y lefel briodol. Yn ystod 2013/14, trwy greu adrannau newydd a dwy swydd newydd ar lefel Pennaeth (Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant, a Phennaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd), mae'r capasiti arweiniol ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ei gryfhau yn sylweddol. Yn ystod 2014/15, bydd y penaethiaid yn llunio strwythurau newydd ar gyfer eu hadrannau.


| |
|---|
| ***Mae codi rôl statudol gwasanaethau cymdeithasol i lefel Cyfarwyddwr Corfforaethol yn creu mwy o hyblygrwydd strwythurol ar lefel penaethiaid i ymateb i gyfleoedd a heriau'r dyfodol" (Arweinydd Cyngor Gwynedd)*** |

"O safbwynt arweinyddiaeth wleidyddol, mae'r Aelod Cabinet ar gyfer y maes Gofal wedi aros yn gyson, sydd wedi bod yn fanteisiol iawn o ran cynnig arweinyddiaeth mewn cyfnod o newid. Penderfyniad allweddol a wnaed yn ystod 2013/14 oedd y dylai Arweinydd y Cyngor gymryd perchnogaeth o'r angen i sicrhau bod goblygiadau'r Ddeddf yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol i gymunedau Gwynedd, a bod dealltwriaeth gorfforaethol ohonynt. Dengys hyn lefel y statws sydd bellach yn cael ei roi i'r maes. Gwelwyd cyfraniad gwerthfawr y Pwyllgor Gwasanaethau dros y flwyddyn ddiwethaf. Ychwanegwyd gwerth trwy gyfrwng yr her adeiladol a roddwyd, yn enwedig felly yn ystod yr ymchwiliad craffu a gynhaliwyd i edrych ar ein trefniadau ni ar y cyd â'r Byrddau Iechyd perthnasol, wrth i drigolion Gwynedd adael yr ysbyty.

### 2.2 Gweledigaeth

Buddsoddwyd egni yn ystod 2013/14 i fireinio ein gweledigaeth ar draws y gwasanaethau cymdeithasol, a sicrhau bod y weledigaeth honno'n cyd-fynd ag ethos y Ddeddf newydd tra hefyd yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Rydym wedi sôn lawer yn y gorffennol am geisio cadw pobl yn annibynnol, ond erbyn hyn rydym yn medru dehongli ein gweledigaeth yn llawer mwy eglur. Gallwn weld sut y mae angen i'r gwasanaethau cymdeithasol ddylanwadu y tu hwnt i'r ffiniau traddodiadol. Cyflwynwyd fersiwn gynharach o'r diagram isod yn yr Adroddiad Blynyddol diwethaf, fel modd o grynhoi blaenoriaethau'r Cyfarwyddwr. Mae hwn bellach wedi ei ddatblygu yn declyn i gyfathrebu ein gweledigaeth yn ei chyfanrwydd.

1. Gwasanaethau dwys, statudol ar yr amser iawn, yn y lle iawn, am y pris iawn
2. Cynorthwyo pobl fregus i aros adref yn annibynnol a bodlon
3. Gwaith cymdeithasol effeithiol, pan fo'i angen
4. Creu cymunedau cryf a gwydn sy'n cefnogi pobl mewn angen
5. Annog lles ac iechyd pawb




Wrth symud o'r cylch allanol (5) tuag at y cylch mewnol (1), mae'r niferoedd o ran pobl yn lleihau, ond mae'r gost i ni a'n partneriaid yn cynyddu'n aruthrol.

Yn syml, rydym eisiau ehangu ein gorwelion o ran y gwasanaethau cymdeithasol, a rhoi ffocws ar hyn y gallwn ni, ar draws adrannau'r Cyngor, a gyda'n partneriaid, ei wneud i gynnal pobl yn eu cymunedau mewn ffyrdd creadigol, hyblyg a chost effeithiol. Ar yr un pryd, rydym eisiau gwella'r profiadau a'r dewisiadau a gaiff pobl sydd ag anghenion dwys, gan gyfeirio ein hadnoddau at wasanaethau o'r radd flaenaf. Rydym yn ystyried natur ac addasrwydd cartref person yn gwbl ganolog i effeithiolrwydd ein gofal ac ansawdd bywyd, a bellach yn gweld plethiad llawer tynnach rhwng ystyriaethau tai a llety ac ystyriaethau gofal. Mae rheoli'r galw yn bwysig i ni, ond cyn y gallwn wneud hynny'n effeithiol, mae angen i ni ddeall natur y galw cyfredol, a dehongli gwybodaeth ddemograffig yn fanwl.

Mae'r weledigaeth uchod yn cyd-fynd yn llwyr â'r cyfeiriad cenedlaethol sydd wedi ei amlinellu yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Wrth lunio blaenoriaethau ar gyfer 2014/15 a thu hwnt, mae'r Cyngor wedi cynllunio i ymateb i wahanol agweddau o'r Ddeddf, ac wedi prif ffrydio'r prosiectau hyn o fewn rhaglen wella gorfforaethol ehangach.

## 2.3 Sefyllfa Ariannol

Mae cyllideb y gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd yn agos iawn i £60m ar hyn o bryd, gyda 78% yn cael ei wario ar y gwasanaethau dwys, statudol (y cylch canolog yn y diagram uchod). Gyda chyllideb o'r maint hwn, mae gennym gyfraniad allweddol i'w wneud o ran sicrhau y bydd y Cyngor yn cwrdd â'i strategaeth ariannol, sy'n mynd i olygu lleihau gwariant yn sylweddol. Rydym yn cynllunio i arbed yn agos i £10m erbyn diwedd 2017/18, sydd gyfwerth â 16% o'n cyllideb, yn gyfraniad at gyfanswm yr arbedion ar draws y Cyngor.

Dyma grynodeb sy'n manylu ar hyn:

| | Cyllideb 2014/15<br>£ | Arbedion i'w canfod<br>£ | Gweddill<br>£ |
|---|---:|---:|---:|
| Plant | 14,479,170 | -2,885,000 | 11,594,170 |
| Oedolion | 40,571,410 | -6,206,000 | 34,365,410 |
| Canolog / Cefnogaeth Busnes | 4,006,070 | -598,000 | 3,408,070 |
| **Cyfanswm** | **59,056,650** | **-9,689,000** | **49,367,650** |

Bwriedir anelu at arbedion cyfwerth â £4.3m ym maes Pobl Hŷn, a hyn, yn ddiamheuaeth fydd yr uchelgais fwyaf dros y blynyddoedd nesaf, a hynny drwy ganolbwyntio ar wireddu'r weledigaeth a nodir uchod. Ar ddiwedd 2013/14, roeddem wedi gorwario £498k yn erbyn ein cyllidebau Oedolion, gyda chyfran uchel o hwn ym maes Pobl Hŷn. Gwyddom ein bod yn prynu mwy o becynnau gofal dwys, yn ofal cartref a gofal nyrsio, nag oeddem flwyddyn yn ôl, ond rydym angen parhau i ddadansoddi ein

gwariant yn fanwl a deall beth sydd wrth wraidd y tueddiadau. Gwelwyd tanwariant o £138k yn erbyn cyllidebau Plant.

## 2.4 Integreiddio a chydweithio

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cynyddu'r momentwm o ran symud at ffordd integredig o weithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac er gwaethaf ansefydlogrwydd o ran strwythurau a threfniadau llywodraethu, wedi cryfhau ein perthynas. Canlyniad hyn yw llwyddiant gyda nifer o brosiectau i wella'r profiad i'r claf neu'r defnyddiwr gwasanaeth, megis darpariaeth gofal dydd ehangach ar gyfer rhai â dementia dwys, a threfniadau i ryddhau pobl o ysbytai ar benwythnos.

Datblygiad allweddol o ran gosod cyfeiriad strategol yw sefydlu'r Fforwm Sirol ar gyfer Gwynedd, ac adolygu'r Grŵp Rheoli Ardaloedd Lleol. Bydd y grwpiau hyn yn rhoi llwyfan priodol i drafod a gweithredu ar yr hyn yr ydym wedi ymrwymo iddo yn Natganiad o Fwriad Gogledd Cymru mewn ymateb i'r 'Fframwaith ar gyfer Cyflenwi Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig i Bobl Hŷn ag Anghenion Cymhleth', a'r agenda gydweithio ehangach.

Trwy gyfrwng £1.3m refeniw a £600k cyfalaf a ddaeth trwy Gronfa Gofal Canolraddol Llywodraeth Cymru, rydym wedi creu secondiad i uwch swyddog yrru'r agenda integreiddio yn ei blaen, ar draws y Cyngor, Iechyd a'r Trydydd Sector. Mae gennym raglen gyffrous o gynlluniau i'w gweithredu, fydd yn dylanwadu'n bositif ar brofiadau pobl, ac yn rhoi cyfleoedd i ni arbrofi â syniadau arloesol. Yn ogystal â gweithredu'r rhaglen hon, ein bwriad yw cynllunio ar gyfer medru parhau â'r agenda gweithio'n integredig unwaith y bydd oes y gronfa wedi dod i ben.

## 2.5 Iaith a Diwylliant unigryw Gwynedd

Fel pob Sir arall, y mae i Wynedd ei nodweddion ei hun. Caiff Gwynedd ei hadnabod fel un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg, a'r Gymraeg yw iaith weinyddol y Cyngor. Y mae hyn, yn ei dro, wedi dylanwadu'n ffafriol iawn ar ein gallu i gynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg i'n dinasyddion. Rydym yn falch iawn o'r ffaith ein bod wedi ennill mewn dau gategori yng ngwobrau 'Gwireddu'r Geiriau' eleni, a bod enwebiad arall wedi cyrraedd y rhestr fer.

Croesawyd cyhoeddi'r fframwaith strategol 'Mwy na Geiriau' gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cyngor wedi sefydlu grŵp tasg trawsadrannol, a gaiff ei gadeirio gan y Pennaeth Adnoddau Dynol, ac sy'n cynnwys tri aelod etholedig, er mwyn ymateb i ofynion y fframwaith. Mae gennym gynllun gweithredu ar gyfer sicrhau ein bod yn cwrdd â'r holl ddisgwyliadau. Y datblygiad mwyaf arwyddocaol yn ystod 2013/14 oedd gweithredu ar argymhellion adroddiad manwl gan y Ganolfan Cynllunio Iaith, a gomisiynwyd gennym i adolygu cynnwys ein holl gytundebau, o safbwynt cymalau yn ymwneud â'r disgwyliadau ar ddarparwyr o ran yr iaith a'r cynnig rhagweithiol. Rydym bellach wedi adolygu cymalau mewn cyfradd sylweddol o gytundebau, ac wedi cryfhau ein trefniadau monitro contractau. Mae hyn i gyd wedi ei anelu at sicrhau bod pob person sydd angen gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn ei dderbyn, a hynny'n cael effaith bositif ar ei les yn y pen draw.

Yn ystod 2014/15, byddwn yn bwrw ati i weithredu gofynion ail flwyddyn y fframwaith strategol. Bydd hefyd angen i ni sicrhau ein bod yn ymateb i rai o'r casgliadau y daethpwyd iddynt wrth i ni sefydlu

gwaelodlin mewn perthynas â'n gallu i barchu egwyddor y cynnig rhagweithiol ymhob agwedd o'n gwaith.

# 3.Diogelu

Nodwyd yn Adroddiad Blynyddol y llynedd bod diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion yn un o'r blaenoriaethau ar gyfer 2013/14, a bydd hwn yn bendant yn faes a fydd yn parhau yn flaenoriaeth.

## 3.1 Datblygiadau strategol

O dan arweiniad Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus, mae'r agenda diogelu bellach wedi treiddio yn gorfforaethol. Mae adborth rheolwyr yn cadarnhau bod dealltwriaeth llawer ehangach o'u dyletswydd i gyfrannu at ddiogelwch pobl, yn hytrach na chredu mai rhywbeth i'w adael i weithwyr cymdeithasol yn unig ydyw. Gellir gweld copi o Adroddiad Blynyddol y Panel Strategol hwn ar safle we'r cyngor : www.gwynedd.gov.uk. Yn ystod 2014/15, rydym wedi ymrwymo i barhau gyda'n rhaglen hyfforddiant ar Ddiogelu, gan dargedu staff a darparwyr gwasanaeth allanol a sicrhau bod yr ymwybyddiaeth o'r materion pwysig dan sylw yn ymledu ymhellach. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod gan bawb sydd ei angen wiriad cofnod troseddol cyfredol.

Yn ystod 2013/14, cafodd Polisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion Cyngor Gwynedd ei fabwysiadu. Lluniodd pob Adran ei Bolisi Diogelu ei hun a phenodwyd rheolwyr dynodedig ym mhob Gwasanaeth fel bod pwynt cychwynnol i droi ato ar gyfer unrhyw aelod o staff sy'n bryderus am ddiogelwch unrhyw un bregus. Cyflwynwyd rhaglen o hyfforddiant ar gyfer staff ac aelodau etholedig, a datblygwyd model e-ddysgu corfforaethol i gefnogi'r hyfforddiant hwn.

***"O edrych yn ôl, pe byddwn yn gwybod yr hyn dwi'n ei wybod a'i ddeall heddiw – byddwn wedi sylweddoli pa mor bwysig ydoedd i mi adrodd ar rai o'r sefyllfaoedd y deuthum ar eu traws yn y gorffennol. 'Dw i'n deall ac yn derbyn yn llwyr fod diogelu plant ac oedolion yn berthnasol i mi ac nad rhywbeth mae Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg yn unig yn ymdrin ag o yw hyn" (Neil Garton Jones, Uwch Reolwr, Ymgynghoriaeth Gwynedd, un o reolwyr dynodedig Cyngor Gwynedd)***

Mae'r cyfrifoldeb gweithredol am gyfundrefnau diogelu Plant ac Oedolion wedi eu huno o fewn dyletswyddau'r Pennaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd, ac mae gwaith ar y gweill i sefydlu uned Ddiogelu newydd.

## 3.2 Diogelu Plant

Parhawyd i ddefnyddio'r Model Risg a ddatblygwyd gennym rhai blynyddoedd yn ôl, a gwelwyd tystiolaeth barhaus bod hyn yn ein galluogi i sefydlu cynlluniau amddiffyn effeithiol er mwyn gweithio gyda theuluoedd i leihau risgiau yn amserol. Yn ychwanegol yn ystod 2013/14, bu'r gwasanaeth yn treialu teclyn asesu 'Graded Care Profile' yn amlasiantaethol ar gyfer achosion cofrestriadau esgeulustod. Byddwn yn adolygu'r cyfnod peilot ar ddiwedd 2014.

Cynyddodd nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant ychydig, o 79 ar ddiwedd 2012/13 i 85 ar ddiwedd 2013/14. Mae gennym fesurydd lleol i fesur 'cyfradd y plant a gafodd eu trafod mewn goruchwyliaeth, lle rhoddwyd ystyriaeth i niwed sylweddol (a'r ateb wedi ei gofnodi)' ac roedd ein perfformiad yn 100% yn ystod 2013/14. Elfen arall a chaiff ei mesur gennym yw 'cyfradd yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i Gynadleddau Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau'. Roedd ein perfformiad ar gyfer 2013/14 yn 95%.

Yn ystod 2013/14, bu prif ffocws y Panel Rhiant Corfforaethol ar sicrhau bod y cyngor yn cymryd perchnogaeth gorfforaethol dros y cyfrifoldeb i weithredu fel rhiant i blant sydd mewn gofal, a rhoi'r profiadau gorau bosibl iddynt. Gwnaed penderfyniad strategol i gadw'r cyfrifoldeb am yr agenda hwn ar lefel gorfforaethol, gan mai cyfrifoldeb corfforaethol ydyw. Mae Adroddiad Blynyddol y Panel Rhiant Corfforaethol yn nodi'r awydd i ddatblygu strategaeth newydd ar gyfer y dyfodol. Bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar ofal iechyd priodol, parhau i wella sgôr bwyntiau addysgol a chynnig profiad gwaith neu swyddi dros dro. Drwy fabwysiadu datganiad cyhoeddus o addewid o gefnogaeth i blant mewn gofal a chydweithio effeithiol bydd modd i'r Panel ddefnyddio'r strategaeth i ddylanwadu'n bositif er lles plant mewn gofal. Gellir gweld copi o'r adroddiad llawn ar safle we'r cyngor: www.gwynedd.gov.uk.

Mae ein Bwrdd Diogelu Lleol eisoes yn gweithredu ar draws cynghorau Gwynedd a Môn, ac mae trefniadau ar y gweill i weithio'n rhanbarthol. Disgwylir y bydd hyn wedi ei sefydlu yn ystod 2014/15.

## 3.3 Diogelu Oedolion

Yn ystod 2013/14, rydym wedi cydweithio â Chyngor Sir Ynys Môn a sefydlu Bwrdd Cysgodol Diogelu Oedolion Gwynedd a Môn. Derbyniwyd 187 cyfeiriad Amddiffyn Oedolion Bregus (POVA) yng Ngwynedd yn ystod 2013/14, o'i gymharu â 167 y flwyddyn cynt. Mewn 8 achos, roedd gan yr unigolyn gapasiti meddyliol i benderfynu peidio parhau â'r achos. Llwyddwyd i ymateb yn briodol i'r holl achosion eraill, sy'n rhoi hyder i ni yn ein gallu i ddiogelu pobl pan fo risgiau yn cael eu hamlygu

O ran achosion Dyrchafu Pryderon ('Escalating Concerns'), bu i ni ymdrin â 3 achos yn 2012/13 a 2 yn 2013/14. Yn ystod chwarter cyntaf 2014/15, rydym eisoes wedi ymdrin â 3 achos. Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi cryfhau ein gweithdrefnau a'n prosesau cydweithio er mwyn sicrhau diogelwch a chynaliadwyedd gwasanaethau, a neilltuwyd cyfran llawer uwch o amser yr Uned Contractau i fonitro ansawdd y sefydliadau dan sylw a chynnig cefnogaeth iddynt. Rydym wedi cydweithio â gweddill awdurdodau Gogledd Cymru i gytuno ar drefn Dyrchafu Pryderon rhanbarthol, ac yn ystod 2014/15 byddwn yn treialu teclyn asesu sy'n rhan o'r drefn honno.

Yn dilyn dyfarniad barnwrol Gorllewin Caer, mae'r meini prawf ar gyfer gweithredu rheoliadau 'Deprivation of Liberty Safeguards' (DOLS) wedi eu haddasu. O ganlyniadau, rydym wedi gweld cynnydd aruthrol yn nifer y cyfeiriadau, o 7 yn 2013/14 i 25 yn ystod 11 wythnos gyntaf 2014/15. Mae gennym nifer o weithwyr sy'n gymwys i gynnal asesiad DOLs a threfniadau i hyfforddi rhai pellach eleni. Ond, bydd cwrdd â'r cynnydd sylweddol yn y galw yn heriol ac rydym yn adolygu ymarfer i gwrdd â disgwyliadau cyfreithiol ac ymarfer da.

Bu sawl achlysur yn ystod y flwyddyn ddiwethaf pan fu gofyn i ni roi ein trefniadau cynllunio argyfwng ar waith. Roedd diogelu pobl fregus yn ystod y tywydd stormus eithriadol yn golygu gweithredu'n gyflym ac effeithiol iawn gyda budd-ddeiliaid. Rydym yn falch o'n llwyddiant, ac yn parhau i ddysgu gwersi pob tro y bydd amgylchiadau argyfyngus yn ein hwynebu.

# 4.Gwella Gwasanaethau i Oedolion

## 4.1 Mesuryddion

Gwelwyd perfformiad cymysg ym maes Oedolion yn 2013/14. O’r 4 mesurydd cenedlaethol statudol, roedd perfformiad 1 yn well na’r llynedd, ond roedd y 3 arall (75%) wedi gwaethygu. Mae gan y gwasanaeth hwn hefyd 29 o fesuryddion eraill, sy’n gymysgedd o rai cenedlaethol anstatudol a rhai lleol. Gellir cymharu perfformiad â 2012/13 ar gyfer 24 ohonynt. O’r 24, roedd perfformiad 13 ohonynt (54%) wedi gwella, 1 wedi aros yn gyson a 10 (42%) wedi gwaethygu rhwng 2012/13 a 2013/14.

Mae ein llwyddiant i gwblhau adolygiadau statudol o gynlluniau gofal wedi cynyddu’n raddol dros y chwe blynedd ddiwethaf. Mae'r perfformiad bellach yn 85.3%.Er bod hyn yn galonogol, rydym angen anelu’n uwch, gan fod yr adolygiadau hyn yn allweddol os am gadw’n effro i wir anghenion pobl a llwyddo i ail ddylunio pecynnau gofal fel eu bod yn gwireddu’r canlyniadau gorau bosibl i bobl yn y ffordd fwyaf cost effeithiol.

Llwyddwyd i berfformio yn arbennig o dda o ran osgoi oedi wrth ryddhau cleifion o’r ysbyty am resymau gofal cymdeithasol, sy’n dystiolaeth o’r modd yr ydym yn ymdrechu’n barhaus i gydweithio’n ymarferol â’r Bwrdd Iechyd. Roedd ein perfformiad ar gyfer 2013/14 yn 0.9 am bob 1,000 o’r boblogaeth dros 75 oed. Roedd ffigwr Cymru ar gyfer 2012/13 yn 4.57 am bob 1,000 o’r boblogaeth.

Ar ddiwedd 2013/14, roedd ein perfformiad ar gyfer cyfradd y bobl a gefnogir i fyw gartref yn 46.21 am bob 1,000 o’r boblogaeth dros 65 oed, o’i gymharu â ffigwr tebyg iawn y flwyddyn flaenorol, sef 46.53. Mae hwn yn faes lle rydym angen dehongli yn fanwl iawn, ac adnabod y lefel perfformiad a fyddai, yn ein barn ni, yn berfformiad rhagorol. Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu mesuryddion lleol, er mwyn medru gwahaniaethu’n effeithiol rhwng gwasanaethau sy’n cynnig ymyrraeth gynnar, a’r rhai sydd o natur ddwys iawn, megis pecynnau gofal cartref mawr. Gwyddom fod gofal cartref yn faes sydd ar gynnydd, a hynny heb i ni fod yn deall y tuedd yn llwyr. Byddwn yn dadansoddi’r wybodaeth hon yn fanwl yn ystod 2014/15.

Dengys ffigyrau 2013/14 ein bod yn parhau i berfformio yn groes i’n gweledigaeth o safbwynt cyfradd y bobl oedrannus yr ydym yn eu cefnogi mewn cartrefi preswyl a nyrsio. Ar ddiwedd 2012/13, ar draws Cymru, roedd cyfartaledd o 20.63 person am bob 1,000 o’r boblogaeth dros 65 oed wedi eu cefnogi mewn cartref preswyl neu nyrsio. Roedd ein ffigwr cyfatebol ni yn 24.69 ar gyfer 2012/13 a 25.59 ar gyfer 2013/14. Wrth ddadansoddi ffigyrau, ymddengys ein bod yn lleoli mwy o bobl mewn cartrefi nag yr oeddem flwyddyn yn ôl. Yn ogystal, ymddengys bod llai o bobl wedi gadael lleoliadau preswyl a nyrsio yn ystod hanner olaf 2013/14, o’i gymharu â blwyddyn yn gynt. Rydym wedi cychwyn dadansoddi’r tueddiadau hyn yn fanwl iawn, gan ystyried ein hymarfer, glendid ein data a thueddiadau demograffig.

Yn unol â’n gweledigaeth i gynyddu annibyniaeth pobl, a rhoi mwy o hyblygrwydd a dewis iddynt, rydym yn awyddus i gynyddu’r nifer o bobl sy’n derbyn taliadau uniongyrchol. Mae’r ffigyrau yr adroddwyd arnynt yn nodi bod oddeutu 60 o bobl yn eu derbyn ar ddiwedd 2012/13 a 2013/14, ond gwyddom bellach bod y ffigwr yn 106, yn dilyn ymarferiad glanhau data trwyadl. Bydd cynyddu’r defnydd o daliadau uniongyrchol, ac adolygu ein cyfundrefn a’n cefnogaeth, yn flaenoriaeth i ni yn ystod 2014/15.

## 4.2 Rhaglen Wella

Bydd 2014/15 yn gyfnod o osod sylfeini cadarn ar gyfer gwasanaethau i Oedolion yng Ngwynedd. Mae gwaith eisoes ar y gweill i gynnal adolygiad 'Dechrau i'r Diwedd', fel y gwnaed ym maes Plant y llynedd. Byddwn yn dadansoddi gwybodaeth o bob math er mwyn medru asesu lle rydym ni arni o'i gymharu â'n gweledigaeth, gofynion y Ddeddf newydd ac ymarfer da mewn ardaloedd eraill. Bydd y canfyddiadau yn bwydo i mewn i'n cynlluniau comisiynu strategol. Ochr yn ochr â'r adolygiad hwn, byddwn yn cychwyn ymarferiad trwyadl i adolygu ein systemau darparu gwasanaeth i sicrhau ffocws ar y defnyddiwr gan ganolbwyntio ar fynediad at wasanaeth yn y lle cyntaf.

Yn y cyfamser, tra fo'r adolygiadau uchod yn cael eu cwblhau, rydym yn bwrw ymlaen â'n rhaglen eang iawn o gynlluniau i drawsffurfio gwasanaethau, fel y'i disgrifir yng Nghynllun Strategol y Cyngor.

**Gwasanaethau Ataliol ac Ymyrraeth Gynnar**

Yn ystod 2013/14, bu ein hymdrechion pennaf a mwyaf llwyddiannus o ran gwasanaethau i hyrwyddo annibyniaeth ym maes Galluogi a Theleofal. Yn ystod 2013/14, cychwynnwyd 462 o becynnau galluogi, ac o'r bobl lle daeth y pecyn i ben yn ystod y flwyddyn honno, llwyddwyd i adfer annibyniaeth 58.4% ohonynt i'r graddau nad oeddynt angen unrhyw becyn gofal. Yn ystod 2014/15, rydym yn bwriadu parhau â gwaith sydd ar y gweill i adolygu, a diwygio lle bo'r angen, ein gweithdrefnau ar gyfer darparu cefnogaeth Teleofal.

Roedd yn gadarnhaol bod dros 75% o'r bobl a dderbyniodd wasanaeth yn Uned Lleu, sef uned 6 gwely ar gyfer adfer annibyniaeth pobl hyn yn dilyn cyfnod o salwch, wedi dychwelyd adref ar ôl bod yno. Serch hynny, nid ydym yn siŵr a yw lefel y defnydd yn ddigonol, gyda dim ond 31 person yn cael mynediad yn ystod 2013/14. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn ystyried ymhellach pa ddefnydd y dylid ei wneud o gefnogaeth dros dro o'r fath, gan gyplysu hyn gyda thrafodaethau ynglŷn â dyfodol gofal ysbaid. Gwasanaeth arall y byddwn yn parhau i'w adolygu yw gofal dydd, gan adeiladu ar waith positif yn ystod 2013/14 i gynnig mwy o gyfleoedd cymdeithasu ar gyfer rhai ag anghenion lefel isel, a darpariaeth ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rhai â dementia dwys. Erbyn diwedd 2014/15, bwriedir cael eglurder ar ddyfodol gofal dydd yn y Sir, ar gyfer amrediad eang o anghenion.

Cyn gweithredu unrhyw ddatblygiadau sylweddol y mae angen i ni wneud gwaith dadansoddol er mwyn canfod lle yn union y dylem roi ein hymdrechion o ran ymyrraeth gynnar ac ataliol. Rydym wedi ymrwymo, yn ystod 2014/15, i ganfod beth yw natur yr asedau cymunedol sy'n bodoli o fewn y Sir, ceisio diffinio natur yr ymyrraeth ataliol sy'n angenrheidiol a chael cytundeb ar beth y dylai rôl a chyfraniad y trydydd sector fod o safbwynt cwrdd â'r anghenion hyn. Wrth ystyried dyfodol ein gwasanaethau ar gyfer pobl ag anghenion gweddol isel, ein nod yw meddwl yn greadigol, a chydweithio â phartneriaid. Enghraifft o hyn yw gwaith sydd gennym ar y gweill i adolygu'r gefnogaeth a roddir gan wardeiniaid Tai Gwarchod, fel eu bod yn medru cael mewnbwn ehangach i ddylanwadu'n bositif ar les cyffredinol trigolion bregus. Syniad syml, ond cyfle i gael effaith sylweddol.

Rydym yn croesawu'r pwyslais a roddir yn y Ddeddf ar gyfraniad Gofalwyr i'r agenda gofal. Amcangyfrifir bod tua 14,000 o ofalwyr di-dâl yng Ngwynedd, a bydd ein gwaith i ystyried ein gwasanaethau ataliol yn ymgorffori cyfraniad y grŵp hanfodol hwn o bobl. Yn ystod 2013/14, cyhoeddodd Partneriaeth Gofalwyr Gwynedd y cyfeirlyfr 'A ydych chi'n edrych ar ôl rhywun?' sydd yn

cynnig gwybodaeth ddefnyddiol i unrhyw un sy'n gofalu am rywun arall. Rydym angen mireinio ein dealltwriaeth o gyfraniad gofalwyr o fewn y Sir, adolygu'r modd yr ydym yn asesu eu hanghenion ac ail-edrych ar y darpariaethau sy'n cynnig yr ansawdd bywyd gorau i ofalwyr a'r rhai y maent yn gofalu amdanynt.

Mae gwaith wedi cychwyn ym maes Anableddau Dysgu i ymgorffori egwyddorion y model 'Symud Ymlaen' ym mhob agwedd o'r gwasanaethau a gynigir. Yn ei hanfod, y weledigaeth yw sicrhau bod pob unigolyn yn cyflawni hyd eithaf ei allu, ac yn cael ei annog i anelu'n uwch a meithrin sgiliau a phrofiadau newydd o hyd. Bwriedir parhau â'r gwaith a gychwynnwyd yn ystod 2013/14, i adolygu pecynnau unigol, ac ail lunio cynlluniau gofal i adlewyrchu'r canlyniadau disgwyliedig i'r defnyddwyr gwasanaeth. Byddwn yn ystyried cynnal adolygiadau o'r fath ar draws pob maes gwasanaeth, yn arbennig felly Iechyd Meddwl. Gwyddom , mewn rhai meysydd, bod lle i drawsffurfio pecynnau gofal gan symud at becynnau sydd yn rhoi mwy o ffocws ar y canlyniadau y gellir eu disgwyl ar gyfer pob unigolyn. Mae gennym waith i reoli disgwyliadau a newid meddylfryd wrth i ni symud tuag at ffordd newydd o weithio.

**Darpariaethau dwys**

Gwyddom fod ein perfformiad, yn nhermau nifer defnyddwyr a gwariant, yn dangos lefel uchel iawn o ddibyniaeth ar wasanaethau gofal cartref a gofal preswyl a nyrsio. Soniwyd eisoes am ein bwriadau i ddadansoddi a dehongli ein hymarfer. Un maes yr ydym yn ei werthuso i weld a allwn ei ehangu yw'r Cynllun Lleoli Oedolion, lle mae gofalwyr a elwir yn alluogwyr cysylltu bywydau yn cefnogi pobl i ddatlbygu sgiliau byw a rhoi cefnogaeth emosiynol, ymysg pethau eraill. Mae'r gwasanaeth hwn wedi derbyn canmoliaeth yr AGGCC ac wedi ennill tair gwobr genedlaethol.

***"Y peth gorau am fod yn alluogwr cysylltu bywydau yw gweld y newid mewn pobl sy'n dod i fyw gyda ni. Rydym wedi cael oedolion yn dod atom heb unrhyw hyder o gwbl. Mae rhai ohonynt wedi treulio'r rhan fwyaf o'u bywydau yn cael eu gwarchod yn ormodol ac mae'n braf eu gweld yn dod yn annibynnol. Bydd rhai pobl yn symud ymlaen i'w cartrefi eu hunain yn y pen draw" (Galluogwr Cysylltu Bywydau)***

Rydym wedi sefydlu tîm prosiect i adolygu'r modelau o ofal cartref a ddarperir i bobl, ac i ystyried a oes rhai dulliau amgen y gellid eu mabwysiadu megis gwneud defnydd o dechnoleg, o weithwyr cefnogol neu o wirfoddolwyr ar gyfer agweddau gweddol syml o'r pecyn gofal. Rhan allweddol o'r gwaith fydd adolygu ein cost effeithlonrwydd a gallu'r farchnad fewnol ac allanol i gwrdd â lefel y galw yn ddigonol, gyda'r pwyslais ar dde'r Sir.

Ers dechrau'r flwyddyn ariannol hon, mae gwaith adeiladu wedi ei gychwyn ar safle Pant yr Eithin, yn Harlech, i ddatblygu 7 uned i letya 8 person ag anableddau dysgu. Dylai'r datblygiad agor cyn diwedd 2014/15, a bydd yn adnodd modern, pwrpasol, ar safle'r hen gartref preswyl a ddad-gomisiynwyd yn 2013. Mae gwaith ymgysylltu wedi digwydd ynglŷn â chartref preswyl arall, sef Frondeg yng Nghaernarfon. Yn ystod yr haf, 2014, byddwn yn paratoi astudiaeth dichonolrwydd ar y potential i ddarparu llety newydd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu dwys iawn. Bydd gennym eglurder ynglŷn â'r ffordd ymlaen erbyn diwedd 2014/15 .

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, agorwyd trafodaeth ag aelodau'r Cabinet, a hefyd aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau (pwyllgor craffu) ynglŷn â'r cyfeiriad i'r dyfodol o ran ein gofal preswyl. Mae gennym gyfradd uwch o welyau preswyl mewnol nag unrhyw awdurdod arall yng Nghymru, ond yn wahanol i'r sefyllfa hyd at flwyddyn yn ôl, rydym bellach yn darparu gwasanaeth sy'n weddol gystadleuol o ran pris.

Wedi dweud hynny, mae'n rhaid i ni ystyried ein prinder cyfalaf i ddatblygu a moderneiddio, ein gweledigaeth i leihau defnydd o welyau preswyl traddodiadol a'r farchnad allanol sy'n bodoli yn y Sir, cyn argymell cyfeiriad i'r dyfodol.

Erbyn diwedd 2014/15, byddwn wedi cyhoeddi Strategaeth Letya Pobl Hyn, fydd yn ymgorffori gofal preswyl a nyrsio. Bydd hyn yn gosod cyfeiriad o ran dyfodol ein cartrefi preswyl. Bydd hefyd yn hwyluso'r gwaith o ddylanwadu ar y Cynllun Datblygu Lleol ac ar ddarparwyr preifat a rhai o'r trydydd sector allai fod â diddordeb mewn cydweithio â ni i ddatblygu'r amrediad gorau bosibl o gyfleoedd lletya i bobl hyn.

Tra bo'r strategaeth hon yn cael ei llunio, mae'r gwaith ar safleoedd unigol wedi bod yn mynd rhagddo, mewn partneriaeth agos â Chymdeithasau Tai.  O fewn y misoedd nesaf, bydd datblygiad Tai Gofal Ychwanegol Cae Garnedd, Bangor, wedi agor, a bydd cais cynllunio ar gyfer Tai Gofal Ychwanegol ar safle hen gartref preswyl Hafod y Gest ym Mhorthmadog wedi ei gyflwyno.

# 5.Gwella Gwasanaethau i Blant

## 5.1 Mesuryddion

Gwelwyd perfformiad calonogol iawn ym maes Plant yn 2013/14. O’r 8 mesurydd cenedlaethol, roedd y perfformiad ar gyfer 5 yn well na’r llynedd, ac roedd wedi aros yn gyson ar gyfer 1 arall (75% cystal â, neu’n well na, 2012/13). Mae gan y gwasanaeth hwn 72 o fesuryddion eraill, sy’n gymysgedd o rai cenedlaethol anstatudol a rhai lleol. Gellir cymharu perfformiad â 2012/13 ar gyfer 56 ohonynt. O’r 56, roedd perfformiad 41 ohonynt (73%) wedi gwella neu aros yn gyson rhwng 2012/13 a 2013/14.

Roedd perfformiad 2012/13, y flwyddyn ddiweddaraf lle mae gennym ddata cymharol, ymysg y gorau yng Nghymru ar gyfer nifer o fesuryddion, sy’n rhoi sicrwydd bod effaith gadarnhaol ar fywydau plant. Gellir cyfeirio’n benodol at sefydlogrwydd lleoliadau, canlyniadau addysgol a graddfa adolygu achosion plant mewn gofal. Yn ogystal, roedd y perfformiad yn arbennig o dda o ran ymateb yn amserol i gyfeiriadau i’r gwasanaeth, gyda phenderfyniad yn cael ei wneud ar 99.3% ohonynt o fewn 24 awr. Gwelwyd gwelliant sylweddol ym maes cwblhau adolygiadau statudol prydlon ar gyfer plant mewn gofal, gyda’r canlyniad yn gwella o 75.4% yn 2012/13 i 94.3% yn 2013/14.

Maes sy’n symud i’r cyfeiriad cywir, ond sydd dal angen ei wella, yw nifer yr ymweliadau statudol ar gyfer plant sy’n derbyn gofal. Hyd yma, rydym wedi cyrraedd perfformiad o 83.7%. Mae gennym hyder yn ein gallu i dargedu tanberfformiad yn effeithiol, fel y gwnaed yn achos y mesurydd ar gyfer sicrhau bod gan bob plentyn mewn gofal Gynllun Addysg Bersonol. Trwy gydweithio a chynnig arweiniad i’r staff priodol, aed o 50.9% yn 2012/13 i 87.5% yn 2013/14.

Mater sy’n peri pryder i ni yw’r ffaith mai dim ond ar gyfer 46% o’r plant mewn gofal y llwyddwyd i sicrhau asesiad iechyd yn 2013/14. Mae hyn yn cymharu â pherfformiad cyfartalog o 80.3% ar draws Cymru yn 2012/13. Byddwn yn parhau â’n trafodaethau ag Iechyd er mwyn canfod datrysiadau i’r sefyllfa. Gwelwyd gostyngiad bychan ym mherfformiad canran yr asesiadau cychwynnol a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod gwaith, gyda chyrhaeddiad o 67.1% yn 2013/14 yn erbyn uchelgais o 75%. Rydym bellach wedi creu swydd ychwanegol o fewn y Tîm Derbyn Cyfeiriadau, fel modd o wella’r perfformiad.

## 5.2 Rhaglen Wella

### Gwasanaethau Ataliol ac Ymyrraeth Gynnar

Ers peth amser, y mae’r Cyngor wedi ymrwymo i geisio sicrhau ymyrraeth briodol i geisio cadw plant a phobl ifanc allan o wasanaethau cymdeithasol statudol. Mae mewnbwn y Cyfarwyddwr Arweiniol Plant a Phobl Ifanc wedi bod yn allweddol yn hyn o beth, a’i rôl wedi cyfrannu’n helaeth at ddatblygiad yr agenda hon.

Yn unol â’n gweledigaeth ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol, bu ymdrechion yn parhau yn ystod 2013/14 i ddatblygu a lledaenu cynllun Gyda’n Gilydd, er mwyn cynnig gwasanaeth ataliol effeithiol ar gyfer teuluoedd, cyn iddynt gyrraedd y lefel o angen i fod angen mewnbwn timau’r gweithwyr cymdeithasol. Hyd yma, mae dros 250 o deuluoedd wedi derbyn cymorth gan dîm arbenigol o bobl o fewn y cyngor ac o asiantaethau allanol, a’r cymorth yn amrywio o ddosbarthiadau rhiantu i gymorth ymarferol i ddod o hyd i waith. Erbyn diwedd 2014/15, ein targed yw y bydd 400 o deuluoedd bregus

wedi cael mynediad at wasanaethau ataliol trwy gyfrwng cefnogaeth a ariennir trwy grant Teuluoedd yn Gyntaf, ac 80 o deuluoedd bregus eraill wedi derbyn cefnogaeth integredig gan y tîm Gyda'n Gilydd.

Elfen gref o'n gweledigaeth yw y dylid arfogi a grymuso pobl i helpu eu hunain. Enghraifft o ddatblygiad diweddar gennym yn hyn o beth yw cynllun lle gwneir gwaith dwys gyda theuluoedd plant anabl lle mae angen datblygu sgiliau cyfathrebu rhwng y teulu a'r plentyn, a hynny drwy chwarae. Hefyd, rhoddir cyngor pan fo angen addasu arferion cwsg plentyn. Rhoddir y gefnogaeth gan Seicolegydd Cynorthwyol a Swyddog Cefnogi Teuluoedd, a cheir mewnbwn dwys am gyfnod cymharol fyr.

Yn ystod 2013/14, cwblhawyd yr adolygiad 'Dechrau i'r Diwedd' oedd wedi ei gychwyn ym maes Plant. Daethpwyd i'r prif gasgliad bod angen lleihau'r nifer o blant sydd mewn gofal, ynghyd â'r costau sy'n deillio o hynny. Mae rhan helaeth o raglen waith yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ar gyfer 2014/15 yn seiliedig ar yr argymhellion a wnaed yn sgil yr adolygiad.

Y flaenoriaeth yw sefydlu tîm trothwy gofal fydd yn rhoi cefnogaeth ddwys i deuluoedd bregus er mwyn ceisio arbed y plant rhag gorfod dod i ofal, yn ogystal â gweithio gyda theuluoedd er mwyn i blant sydd eisoes mewn gofal fedru dychwelyd adref. Ein gobaith yw y byddwn yn weithredol erbyn dechrau 2015. Mae'n gynllun cyffrous, llawn potensial, sy'n adlewyrchu ein nod o gynorthwyo pobl, pa mor fregus bynnag y bônt, i geisio adfer a gwella eu sefyllfa.

**Darpariaethau dwys**

Yn anochel, bydd sefyllfaoedd pan na ellir osgoi cymryd plant i'n gofal, er mwyn eu diogelwch a'u lles hirdymor. I'r plant hynny, y mae sefydlogrwydd eu gofal yn un o'r meini prawf wrth fesur llwyddiant. Roedd hwn yn un o'r prif feysydd y rhoddwyd ymdrech i'w wella yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac fel y nodwyd uchod, rydym yn perfformio'n galonogol. Datblygwyd polisi a chanllaw cynllunio parhaol ar gyfer plant, ac mae gennym hyder ein bod yn datblygu ein gweithlu i'w weithredu'n effeithiol. Eisoes fe welir tystiolaeth bod y drefn hon o graffu achosion yn fanwl wrth wneud penderfyniadau yn arddangos llwyddiant ym maes cynllunio gofal. Derbyniwyd canmoliaeth am ein gwasanaeth maethu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn ystod 2013, a hefyd roedd arolwg o'r gwasanaeth mabwysiadu sydd wedi ei sefydlu ar draws Gogledd Cymru yn gadarnhaol iawn. Ein targed yw asesu a chofrestru 20 uned faethu newydd yn flynyddol, ac rydym yn llwyddiannus tu hwnt. Rydym yn grediniol bod y gefnogaeth a roddir i ofalwyr maeth yn eu gwaith dydd i ddydd ar ôl i ni eu recriwtio yn greiddiol i'n llwyddiant.

***"Gall y plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu lleoli gyda gofalwyr maeth fod yn sicr y bydd y gwasanaeth maethu yn hybu eu diogelwch a'u lles ac yn ymdrechu i sicrhau y gall y lleoliad ddiwallu eu hanghenion ac roeddem yn teimlo fod gan y plant lais a'u bod yn cael cyfleodd i fynegi eu barn, a'u bod yn gallu cael dylanwad ar y ffordd y darperir y gwasanaeth … mae plant a phobl ifanc yn cael profiad o les a synnwyr o gyflawni gan fod y gwasanaeth yn hyrwyddo cyfranogiad mewn gweithgareddau hamdden a chymdeithasol a chyrhaeddiad addysgol." (Adroddiad Archwiliad Maethu AGGCC 2013)***

Nod Llywodraeth Cymru oedd y byddai Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd (GICD) yn weithredol ym mhob rhan o Gymru erbyn 2013. Prif bwrpas y gwasanaeth yw canolbwyntio ar deuluoedd lle y mae alcohol, cyffuriau neu'r ddau yn broblemau ymysg y rhieni, er mwyn diogelu'r plant sydd yn eu gofal. Mae'r tîm GICD amlasiantaethol ar y cyd ag Ynys Môn bellach yn weithredol.

Pan ddaw hi’n amser i berson ifanc adael gofal, ac wynebu’r byd fel oedolyn, mae’r gefnogaeth a gaiff i wynebu’r newid hwn ac addasu, yn allweddol o ran lles ac ansawdd bywyd yr unigolyn. Yn ystod 2013/14, bu cyngor Gwynedd, ynghyd â chynghorau Merthyr Tydfil a Rhondda Cynon Taf, yn rhan o gynllun peilot ‘Pan Fydda’ i’n Barod’. Mae’n gynllun sy’n hybu pobl ifanc i ymestyn hyd eu lleoliad maes a’u cynorthwyo i fanteisio ar gyfleoedd i hyfforddi neu ennill cymwysterau, heb orfod wynebu symud i fyw’n hollol annibynnol. Yn ogystal, gyda chefnogaeth y Panel Rhiant Corfforaethol, bu’r cyngor yn cydweithio â’r gwasanaeth gyrfaoedd i geisio sicrhau lleoliadau gwaith ar gyfer pobl ifanc sydd mewn, neu ar fin gadael, gofal.

# 6.Llywodraethu

Mae nifer o swyddogaethau cefnogol sydd angen eu cyflawni yn effeithiol ar draws meysydd Plant ac Oedolion er mwyn gosod sylfeini fydd yn ein galluogi i gynnal safonau.

## 6.1 Perfformiad ac Ansawdd

Yn ystod 2013/14, mae ein gallu i adrodd yn gywir ar berfformiad a chyflwyno gwybodaeth reolaethol amserol yn weledol wedi parhau i ddatblygu. Bu hyn o fudd wrth i ni gefnogi'r adolygiad 'Dechrau i'r Diwedd' ym maes Plant, paratoi ar gyfer adolygiad tebyg ym maes Oedolion a dadansoddi ein gorwariant yn ystod ail hanner y flwyddyn.

Llwyddwyd hefyd i gryfhau ein trefniadau rheoli risg yn ystod y flwyddyn, ac mae'r gofrestr risg ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol bellach yn cael ei diweddaru'n rheolaidd ac yn sail i benderfyniadau rheolaethol. Serch hynny, mae sgôp i wella'r berthynas rhwng rheolaeth risg a'r modd yr ydym yn blaenoriaethu ein gwaith a chyfeirio ein capasiti a'n sgiliau.

Mae gwaith ar y gweill i adolygu ein holl brosesau monitro contractau, mewn ymateb i adborth gan ddarparwyr a gofalwyr. Rydym yn anelu i roi ffocws llawer mwy eglur ar ganlyniadau. I'r perwyl hwn, rydym yn cydweithio â'r trydydd sector i ystyried defnyddio gwirfoddolwyr i gryfhau'r broses fonitro, ac yn adolygu'r sgiliau sydd gennym i weld a oes angen mewnbwn rhai â chefndir gwaith cymdeithasol ar gyfer rhai agweddau o fonitro.

Arhosodd nifer y cwynion a dderbyniwyd gennym yn debyg iawn rhwng 2012/13 a 2013/14. Bu un ymchwiliad gan yr Ombwdsman yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a rhoddwyd sylw i'r modd y buom yn ymdrin â'r rhai a fu yn y gorffennol. Erbyn hyn, mae gennym drefniadau mwy cadarn ar gyfer adnabod materion strategol sy'n codi o gwynion ac ymchwiliadau Ombwdsman unigol, ac mae pob mater Ombwdsman yn mynd yn uniongyrchol i sylw'r Cyfarwyddwr Corfforaethol. Rydym wedi addasu ein trefn gwynion i ymateb i feirniadaeth gan AGGCC, ac yn ystod 2014/15 byddwn yn gwneud newidiadau pellach er mwyn cwrdd â gofynion canllaw newydd Llywodraeth Cymru.

Er ein bod yn cywain llawer iawn o wybodaeth am ein perfformiad, nid oes gennym eto drefn sicrhau ansawdd gynhwysfawr a byddwn yn datblygu gweithdrefnau yn ystod 2014/15, er mwyn dod â gwybodaeth berthnasol at ei gilydd o wahanol ffynonellau. Bydd yr wybodaeth hon yn cynnwys canlyniadau perfformiad, manylion am gwynion a sylwadau, adroddiadau rheoleiddwyr a gwybodaeth gyffelyb.

## 6.2 Llywodraethu Gwybodaeth a'n Strategaeth TG a Chyfathrebu

Cam pwysig yn ystod 2013/14 fu ein cynnydd tuag at sicrhau ein bod yn gweithio'n ddi-bapur ar draws y gwasanaethau cymdeithasol. Ein bwriad yn ystod 2014/15 yw lledaenu'r ymarfer da i'r gwasanaethau Anableddau Dysgu. Mae gwaith yn parhau i sicrhau glendid ein data, ac mae enghreifftiau parhaus yn dod i'r wyneb lle mae ein gallu i ddefnyddio gwybodaeth reolaethol yn cael ei lesteirio gan ansicrwydd ynglyn ag integriti'r data neu'r wybodaeth. Erbyn Medi 2015 byddwn wedi cyhoeddi Llawlyfr Gwybodaeth i roi arweiniad penodol i staff am faterion Llywodraethu Gwybodaeth. Dros y misoedd diwethaf, bu nifer gynyddol o achosion lle na lwyddwyd i ddiogelu data yn effeithiol, ac mae rhaglen

hyfforddiant eang ar y gweill i gynyddu dealltwriaeth staff o bwysigrwydd parchu gwybodaeth. Ers Ionawr 2014, mae gennym drefn ffurfiol ar gyfer ymateb i achosion o fethiant diogelu data, sy'n cynnwys camau ar gyfer adfer y sefyllfa a dysgu gwersi. Cam arall i'r cyfeiriad cywir yw gwaith hir disgwyliedig sydd ar fin cychwyn, i adolygu ein trefniadau ffeilio electronig. Bydd hyn yn gosod sylfeini cadarn ar gyfer symud i ddefnyddio system EDRMS (Electronic Document and Records Management System) sy'n cael ei phrynu yn gorfforaethol. Bydd yn ein cynorthwyo i reoli ein gwybodaeth a thynhau rhai o'n prosesau busnes.

Rydym yn chwarae rôl arweiniol a chanolog yn y gwaith gyda Chonsortiwm Systemau Cymru i ddilyn proses gaffael ar gyfer system reoli gofal ac iechyd cymunedol, at pan ddaw ein system reoli gofal cyfredol i ddiwedd ei hoes. Neilltuwyd cyllid cyfalaf a refeniw corfforaethol ar gyfer y datblygiad hwn, i'w weithredu fel rhan o'n Strategaeth TG a Chyfathrebu ehangach, pan fydd gennym eglurder ar y modd yr hoffem adolygu ein prosesau busnes ac ar ein dulliau o weithio'n integredig i'r dyfodol. Ers tua thair blynedd, rydym wedi gobeithio medru sefydlu system rhannu gwybodaeth a hunan gyfeirio ar y we. Bellach, gyda chymorth y Gronfa Gofal Canolraddol a ddaeth gan Lywodraeth Cymru, a datblygiadau cenedlaethol i geisio ymateb i'r angen am well cyngor a gwybodaeth, mae gobaith y gwelwn hyn yn dwyn ffrwyth.

## 6.3 Comisiynu a Chaffael

### Comisiynu Strategol

Dros y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd cryn gynnydd o ran ein sgiliau comisiynu strategol, ac mae ein Model Mapio Anghenion ac Adnoddau wedi bod yn ddatblygiad pwysig o ran ein galluogi i fapio tueddiadau demograffig, cyllid a gweithgaredd. Rydym wedi bod trwy gyfnod o ansefydlogrwydd staff a chollwyd rhywfaint o fomentwm, ond yn dilyn cyfnod o hyfforddi staff ac adfer sgiliau, rydym bellach yn ail afael o ddifrif yn y gwaith. Rydym wrthi'n adolygu ein cynlluniau comisiynu ar gyfer Pobl Hyn ac Anableddau Dysgu ac wedi cychwyn ar y gwaith o lunio'r cynllun ar gyfer Iechyd Meddwl. Bydd y tri chynllun hyn wedi eu cwblhau erbyn 2014/15, a chynlluniau ar gyfer Amhariad Corfforol a Synhwyredd a Phlant a Phobl Ifanc ar y gweill. Byddwn yn paratoi Datganiadau Sefyllfa'r Farchnad er mwyn cyfathrebu cynnwys ein cynlluniau comisiynu i'n darparwyr a'n darpar-ddarparwyr, gan fanteisio ar arbenigedd ein cydweithwyr yn yr Adran Economi ac Adfywio.

Cam mawr ymlaen yw ein bod bellach yn cychwyn ar y daith o gydweithio â'r Bwrdd Iechyd ar bob rhan o'r cylch comisiynu. Y mae hon yn her enfawr, ond mae'n allweddol ein bod yn llwyddo, er mwyn troi ein gweledigaeth o ran gwasanaethau integredig yn realiti i bobl yn ein cymunedau. Rydym wrthi'n adolygu ein holl gytundebau trydydd sector ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd, ac eisoes wedi cytuno ar rai meysydd lle byddwn yn uno ein cyllid a chynnig un cytundeb ar draws y ddau gorff.

Mae datblygu ein perthynas gyda'r trydydd sector yn gyffredinol wedi bod yn faes lle rydym wedi adlewyrchu ar sylwadau ein budd-ddeiliaid, a sylweddoli bod angen cryfhau ein cyfathrebu a symud i fod yn gweithio'n llawer mwy cyd-gynhyrchiol â'r sector. Rydym bellach yn cwrdd yn fisol â'r Consortiwm Anableddau Dysgu, gyda'r grŵp hwn yn cael mewnbwn ymarferol iawn i'r Cynllun Comisiynu Anableddau Dysgu. Hefyd, mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi eu cynrychioli'n llawer ehangach ar y Grŵp Cyswllt Sector Wirfoddol ac yn rhannu gwybodaeth yn llawer mwy amserol a chwarae rhan amlycach yn y Rhwydwaith Iechyd, Gofal a Lles sydd gan y sector hon. Mae'r berthynas

hon yn ein cynorthwyo wrth i ni ddatblygu ein strategaeth ar gyfer gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar, sy'n feysydd na chafodd eu cynnwys yn eang yn ein cynlluniau comisiynu blaenorol.

**Caffael a Chontractau**

Yn ystod 2013/14, adolygwyd sawl agwedd o waith caffael a chontractau'r gwasanaethau cymdeithasol. Gwyddom nad yw'r holl weithgaredd yn y maes hwn yn digwydd o dan oruchwyliaeth yr Uned Gontractau, sy'n risg ynddo'i hun gan nad ydym yn medru sicrhau ansawdd a chysondeb. Mae camau ar y gweill i unioni'r sefyllfa hon. Rydym hefyd yn ymwybodol nad yw ein perthynas waith gyda'r Canolbwynt Comisiynu Rhanbarthol yn gwbl effeithiol, ac rydym wedi dechrau ar y gwaith o adolygu hyn. Ers cychwyn 2014/15, mae Cyfarwyddwr Statudol y cyngor yn Gadeirydd y bwrdd rheoli ar gyfer y Canolbwynt Comisiynu, fydd yn rhoi cyfeiriad rhanbarthol i'n gwaith.

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn rhan o brosiect rhanbarthol 'Caffael 3 Sir', ac yn sgil y gwaith hwn rydym bellach wedi ymrwymo, ar y cyd â siroedd Fflint a Dinbych, i symud at drefn Rheolaeth Categori. O fewn y misoedd nesaf, byddwn yn chwarae rhan allweddol mewn prosiect peilot ym maes caffael Gofal yng Ngwynedd, fydd yn gyfle pellach i ni adolygu ein trefniadau. Ein blaenoriaeth fydd sicrhau bod cytundebau yn bodoli ar gyfer pob lleoliad a'n bod yn ymestyn ein trefniadau broceriaeth y tu hwnt i faes Gofal Cartref yn unig.

## 6.4 Datblygu'r Gweithlu a Hyfforddiant

Ers peth amser, rydym wedi adnabod yr angen i baratoi strategaeth cynllunio'r gweithlu, fyddai'n dadansoddi ein gweithlu cyfredol a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae'r gwaith o sefydlu gwaelodlin ar fin cychwyn, ac wrth i'r gwaith o wneud adolygiad 'Systems Thinking' ym maes Oedolion fynd rhagddo, fe ddaw'r math o weithlu yr ydym eisiau ei weld i'r dyfodol yn amlycach. Gwyddom ein bod eisiau adolygu ein strwythurau, a sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud mor agos â phosibl at y dinesydd. Y nod, ar draws y gwasanaethau cymdeithasol, yw sicrhau bod gan yr holl staff, ar bob lefel, yn meddu ar y sgiliau cywir i fedru sicrhau bod ein gweledigaeth yn cael ei gwireddu. Mae hyn yn cynnwys y gallu i gael trafodaethau adeiladol ac arloesol gyda defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd neu ofalwyr.

Yn y gorffennol, nododd AGGCC y gallem gryfhau ein trefniadau goruchwylio. Yn ystod 2013/14, adolygwyd ein polisi goruchwylio, ac mae canllawiau ar egwyddorion pendant i'w dilyn wedi eu rhannu â phob tîm. Yn ogystal, sefydlwyd mecanwaith ar gyfer mesur perfformiad yn y maes hwn a byddwn yn sefydlu gwaelodlin yn ystod 2014/15. Ein nod yw datblygu ein gweithlu mewn modd sy'n arwain at wasanaethau o'r radd flaenaf a diogelwch i'n dinasyddion mwyaf bregus.

Cynigwyd hyfforddiant eang i'n staff yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn unol â'n Cynllun Datblygu'r Gweithlu. Yn y maes Plant, bu'r prif ffocws ar hyfforddiant ynghlwm â'r model risg. Yn dilyn adolygiad gan gwmni 'Alder' ar gyfer rhai ag anableddau dysgu, rydym wedi cychwyn ar raglen o hyfforddiant ar egwyddorion y Model Symud Ymlaen, gan gychwyn gyda rheolwyr, cyn symud ymlaen at staff a budd-ddeiliaid eraill. Bu cryn fuddsoddiad mewn hyfforddiant arbenigol ar glefydau penodol, yn arbennig dementia, ond hefyd 'multiple sclerosis' a chlefyd niwronau motor.

Dros y misoedd nesaf, byddwn yn parhau i fod yn rhan o waith rhanbarthol sydd ar y gweill i ystyried modelau posibl ar gyfer darparu gwasanaeth hyfforddiant ar draws y Gogledd. Bydd sicrhau gwasanaeth o ansawdd, heb golli ein gallu i roi sylw teilwng i'r iaith Gymraeg, yn hollbwysig i ni.

## 6.5 Ymgysylltu a chyd-gynhyrchu

Wrth weithredu i wireddu gofynion y Ddeddf, bydd angen i ni gymryd camau i barhau i wella ein trefniadau ymgysylltu, a symud ymhellach tuag at ffordd gyd-gynhyrchiol o weithio. Bydd hyn yn rhoi'r dinesydd neu'r budd-ddeiliaid wrth galon unrhyw ddatblygiad. Yn ystod y misoedd diwethaf, cymerwyd camau i adfywio ac ail ddiffinio rôl ambell i grŵp ymgysylltu allweddol, megis y Fforwm Darparwyr a'r Grŵp Gwella Gwasanaeth Anableddau Dysgu. Adnabuwyd maes Iechyd Meddwl fel un lle'r oedd ein gweithgaredd ymgysylltu yn wan iawn, ac mae gennym bellach gynrychiolwyr ar grwpiau budd-ddeiliaid yn y maes hwn. Cyn diwedd 2014/15, rydym eisiau sefydlu trefniadau effeithiol er mwyn diwallu'r holl weithgaredd ymgysylltu angenrheidiol a gaiff ei adnabod fel rhan o Gynllun Ymgysylltu pob rhaglen wella ym maes Oedolion.

Cam positif ymlaen yn ystod 2013/14 yw'r modd yr ydym wedi troi cwynion am wasanaethau gan ddefnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a darparwyr yn gyfle i gael trafodaeth agored am y modd y gallwn wella. Rydym hefyd wedi gwahodd y bobl hyn i'n cynorthwyo i lunio datrysiadau newydd.

# 7.Edrych i'r Dyfodol

## 7.1 Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd 2013-17

Mae Cynllun Strategol y Cyngor ar gyfer 2013-2017 wedi ei adolygu ar gyfer eleni, er mwyn adlewyrchu'r newid mewn cyd-destun i'r Cyngor a fu ers cyhoeddi'r cynllun gwreiddiol. Bu newidiadau mawr o ran yr hinsawdd ariannol a chyhoeddiad adroddiad Syr Paul Williams, sy'n ymwneud ag ail-drefnu Llywodraeth Leol yng Nghymru. Rydym wedi croesawu'r adolygiad, gan ei fod wedi rhoi'r cyfle i sicrhau bod cynnwys y Cynllun Strategol yn adlewyrchu'r gwaith a fu yn ystod 2013/14 i fireinio ein gweledigaeth ym maes gwasanaethau cymdeithasol.

Mae gennym gyfraniad enfawr i'w wneud i wireddu cynnwys y Cynllun Strategol ac rydym wedi ymrwymo i lunio ein rhaglen wella i gwrdd â'r blaenoriaethau strategol isod:

- Diogelu Plant ac Oedolion
- Gwella Profiadau a Chyfleoedd i Grwpiau Bregus o Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd
- Ymateb yn Well i Anghenion Pobl sydd Angen Cefnogaeth, Cynyddu'r Gefnogaeth Gymunedol sydd ar gael a Sicrhau Gwasanaethau Gofal Cynaliadwy
- Lleihau'r Galw ar Wasanaethau Drwy Atal ac Ymyrraeth Gynnar
- Gwneud Defnydd Mwy Effeithlon o Adnoddau, Gan Geisio Lleihau Effaith Toriadau ar Bobl Gwynedd.

Yng nghorff yr adroddiad hwn, y mae llawer o gyfeiriadau at yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud yn ystod 2014/15 i wella ein gwasanaethau. Maent yn bethau sydd wedi eu cynllunio yng nghyd-destun y blaenoriaethau uchod a chynnwys y Cynllun Strategol. Gellir gweld copi o'r Cynllun, sy'n cynnwys manylion ynglŷn â'r holl brosiectau, canlyniadau a mesuryddion unigol fesul blaenoriaeth, ar safle we'r cyngor trwy ddilyn y linc <http://www.gwynedd.gov.uk> (angen linc llawn).

## 7.2 Sicrhau llwyddiant

Y mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant wedi sefydlu cyfundrefn Rheolaeth Rhaglenni sy'n cynnwys cyfres o raglenni strategol i gadw trosolwg a sicrhau bod amryfal brosiectau'r Cynllun Strategol yn cyflawni eu canlyniadau yn llawn. Rydym wedi adlewyrchu llawer ar wersi yr ydym wedi eu dysgu o'r gorffennol. Byddwn yn cydweithio â'r Uned Rheoli Prosiectau corfforaethol i sicrhau bod gan aelodau pob Bwrdd Rhaglen neu Fwrdd Prosiect ddealltwriaeth lawn o'u rolau a'u cyfrifoldebau.

Bydd yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn parhau â threfniadau rheoli prosiect cadarn a arweiniodd at gwblhau'r adolygiad 'dechrau i'r diwedd', er mwyn sicrhau bod cynllun gweithredu'r adolygiad yn cael ei wireddu'n llawn.

## 7.3 Diweddglo

Bu 2013/14 yn flwyddyn o newidiadau sylweddol i'r gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd. Yn ogystal ag ymateb i newidiadau deddfwriaethol ac economaidd ar lefel Cymru gyfan, gwelwyd newidiadau arwyddocaol strwythurol a llywodraethol o fewn y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd Lleol. Mae'n galonogol iawn, ar ddiwedd blwyddyn o'r fath, ein bod yn medru adrodd ein bod wedi llwyddo i gynnal diogelwch ein trigolion, parhau i wella ein perfformiad mewn nifer o feysydd allweddol a gwneud cynnydd cymedrol, ond positif iawn, o safbwynt ein rhaglen drawsffurfio.

Yr hyn sy'n galonogol tu hwnt yw bod gennym bellach sylfeini cadarn iawn ar gyfer cwrdd â disgwyliadau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae gennym hyder yn ein gallu i wneud hynny, tra ar yr un pryd yn wynebu lleihad yn ein cyllidebau. Ein bwriad yw cynnwys cymunedau Gwynedd ar bob cam o'r daith, a chyd-gynhyrchu datrysiadau ar gyfer y dyfodol. Mae'n bosibl iawn y gwelwn ddatrysiadau gwahanol ar gyfer gwahanol rannau o'r Sir, a bydd cyfraniad a rôl ein partneriaid hefyd, yn sgìl hynny, yn amrywio o le i le. Mae'n hanfodol bod pobl Gwynedd yn ganolog drwy gydol yr amser, a bydd hyn yn gwbl greiddiol i'n ffordd newydd o weithio.

Os hoffech gynnig unrhyw sylwadau neu gwestiynau mewn perthynas â'r cynllun hwn, mae croeso i chi wneud hynny. Cysylltwch â'r Uned Gofal Cwsmer, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Cyngor Gwynedd, Stryd y Castell, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH, e-bost gcgc@gwynedd.gov.uk , rhif ffôn 01286 679268. Gall yr uned eich cynorthwyo hefyd os hoffech dderbyn copi o'r adroddiad hwn mewn fformat neu iaith wahanol.

**ATODIAD A**
**Adroddiad Blynyddol Panel Rhiant Corfforaethol Gwynedd**

**2013-14**

## Cyflwyniad

Mae’r adroddiad wedi ei rhannu yn bedair rhan yn ymwneud â rôl a chyfrifoldebau’r Cyngor, cyfraniad adrannau’r Cyngor, cyfraniad partneriaid ac yna trafodaeth ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni a’r camau sydd angen eu cymryd i’r dyfodol.

## 1.0 Rôl a Chyfrifoldebau’r Cyngor

Mae’r Panel Rhiant Corfforaethol wedi ei sefydlu yng Ngwynedd fel ymhob sir arall yng Nghymru fel corff i gadw trosolwg o les a buddiannau plant mewn gofal. Mae disgwyliad gan Lywodraeth Cymru y bydd aelodau a staff pob sir yn ymagweddu’r gadarnhaol i rôl rhiantu corfforaethol. Yn 2009 ryddhaodd Llywodraeth Cymru ar y cyd gyda Chymdeithas Llywodraeth leol ddogfen o’r enw ‘Petai’n blentyn i mi...’ sy’n amlygu rôl a chyfrifoldeb aelodau fel rhieni corfforaethol.

Mae gan rôl y rhiant corfforaethol y disgwyliad y bydd y rhiant yn ymdrechu i sicrhau fod plant mewn gofal yn derbyn gofal priodol, fod y llety lle maent yn byw ynddo’n safonol, eu bod yn cael gofal iechyd da a bod eu cynnydd addysgol yn un llwyddiannus. Mae hyn i ddigwydd heb fod y rhiant corfforaethol byth yn cyfarfod gyda’r plentyn mewn gofal. O ran y plant eu hunain mae’n bwysig eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth aelodau a staff y Cyngor a phartneriaid y Cyngor mewn cyfnod heriol iawn yn eu bywyd.

Er mwyn cynnal y rôl yma mae’r Cyngor wedi sefydlu Panel Rhiant Corfforaethol sy’n cynnwys yr Aelod Arweiniol Plant a Phobl Ifanc, Arweinydd y Cyngor, Aelodau Cabinet Gofal, Pencampwr Pobl Ifanc ac aelod wedi ei dewis gan Bwyllgorau Craffu. Mae’r Panel hefyd yn cynnwys y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol a Swyddog Arweiniol Plant a Phobl Ifanc, Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaeth Cymdeithasol, Pennaeth y Gwasanaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd a’r Pennaeth Addysg.  Drwy’r Panel mae’r Cyngor, sef yr holl aelodau etholedig, yn dirprwyo eu cyfrifoldeb yn y maes i’r Aelod Arweiniol Plant a Phobl Ifanc. Mae gan y Panel yr hawl i ofyn i faterion sy’n achosi pryder iddynt gael eu craffu gan y Pwyllgor Craffu gwasanaethau ar ei ran.

## 1.1 Hyfforddiant Aelodau

Cynhaliwyd yr hyfforddiant ar Ionawr 8fed, 2014 ar gyfer aelodau’r Cyngor. Roedd yn gyfle i aelodau dderbyn gwybodaeth am eu rôl ac ystyried senarios gwahanol ynghylch anghenion plant mewn gofal o fewn y sir. Roedd 24 aelod yn bresennol. Cafwyd adborth gan aelodau’n nodi y byddai sesiwn mwy ymarferol ar

gyfer eu rôl fel aelodau ac fel llywodraethwyr ysgol yn ddefnyddiol. Mae'n fwriad cynnal sesiwn hyfforddiant arall ar y 14 fed o Ionawr 2015.

### 1.3 Strategaeth y Panel ar gyfer 2014-17

Mae'r Panel wedi adnabod yr angen i weithredu'n fwy strategol i'r dyfodol. Oherwydd hynny, mae rhaglen ddatblygiadol wedi ei lunio i gynorthwyo'r Panel i sicrhau ei gyfeiriad i'r dyfodol, sicrhau ei fod yn clywed llais plant mewn gofal ac yn ymateb i her diogelu safonau darparu gwasanaeth gan adrannau'r Cyngor a phartneriaid allanol. Mae angen i'r rhaglen gynnwys cyfle i blant a phobl ifanc sydd ac a fu mewn gofal gael y cyfle i gynnig adborth ac awgrymiadau ar sail eu profiadau ac mae peth gwaith wedi ei gyflawni. Mae sesiynau datblygu a hunan arfarnu gwaith y Panel wedi eu cynnal yn ogystal â dwy sesiwn gyda phlant a phobl ifanc ond mae llawer i'w wneud eto. Mae'n fwriad cyflwyno strategaeth ddrafft i gyfarfod y Panel ym mis Hydref 2014.

## 2. 0 Llais Plant mewn Gofal

### 2.1 Sesiynau 'Dweud eich Dweud'

Cynhaliwyd sesiynau Dweud eich Dweud yn ystod y flwyddyn gyda chyfle i bobl ifanc gyfarfod ag aelodau'r cyngor a staff. Mae'r grŵp wedi cychwyn edrych ar amlinelliad o addewid' o safonau darparu gwasanaethau gan y Cyngor ac ar y LacPac, sef pecyn cynhwysfawr o wybodaeth ar gyfer plant mewn gofal.

Mae Tîm Ôl 16 y Gwasanaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd wedi cychwyn grŵp trafod hŷn rhwng 16 a 25 gyda'r bwriad o ddatblygu dull o dderbyn barn y grŵp hŷn am anghenion ac ansawdd y gwasanaeth maen nhw yn ei dderbyn.


## 3.0 Cefnogaeth gan y Cyngor

### 3.1 Gwasanaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd

Dyma ddata diweddar ar niferoedd y plant mewn gofal yng Ngwynedd


| Plant mewn gofal | 2013/14 | 2012/13 | 2011/12 |
|---|---|---|---|
| Nifer o blant mewn gofal ar ddiwedd y flwyddyn | 184 | 203 | 195 |
| Nifer o blant wedi dod i ofal yn ystod y flwyddyn | 46 | 56<br>(B.33/ M.23) | 54 |
| Nifer o blant wedi gadael gofal yn ystod y flwyddyn | 65 | 49 | 36 |
| Nifer o blant wedi eu mabwysiadu yn ystod y flwyddyn | 11 | 9 | 3 |

## Tuedd y nifer o blant mewn gofal yng Ngwynedd





Mae gostyngiad o 10% o blant mewn gofal yn ystod y flwyddyn. Nid yw'n glir pam fod y nifer o blant mewn gofal wedi gostwng ar hyn o bryd. Mae'r nifer y cyfeiriadau yn gydradd a'r niferoedd y llynedd.


## Ystod oed Plant mewn Gofal, Gwynedd 31/3/14




Cafodd 11 o blant eu mabwysiadu yn ystod y flwyddyn, gan gymryd 24 mis ar gyfartaledd rhwng y gorchymyn lleoliad a'r dyddiad mabwysiadu. Pan fydd plentyn wedi ei fabwysiadu nid yw bellach yng ngofal y Cyngor.

## Leoliadau Plant mewn Gofal




## Lleoliadau Daearyddol

Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 49 (27%) o blant mewn gofal wedi eu lleoli tu allan i Wynedd. Roedd 53% o'r rhain ym Môn a Chonwy. Mae lleoliadau preswyl yn cynrychioli 28% o'r lleoliadau hyn ac mae 69% ohonynt yn Lloegr. Mae amrywiaeth o resymau am leoliadau preswyl, mae dau leoliad mewn uned ddiogel (Nid oes uned ddiogel yng Ngogledd Cymru), ac mae'r gweddill mewn darpariaethau arbenigol penodol ar gyfer eu hanghenion personol.

**Plant ifanc Iawn yn dod i Ofal**
Mae'r data diweddaraf yn dangos parhaus cynnydd yn y nifer o blant o dan 5 oed sy'n dod i ofal. Mae hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar y gwasanaeth am nad oes digon o rieni mabwysiadol ar gael ar hyn o bryd. Mae llawer o'r plant hyn yn blant i oedolion fu mewn gofal eu hunain ac mae'n profi'n anodd iawn i dorri'r cylch yma.

**Cynllun Gwaith a Hyfforddiant i Bobl Ifanc – "Symud Ymlaen"**
Mae cynllun wedi ei sefydlu rhwng Coleg Menai, Cyngor Gwynedd a Gyrfa Cymru i gynorthwyo pobl ifanc mewn gofal neu ar fin gadael gofal. Mae 7 o bobl ifanc yn rhan o'r grŵp cychwynnol ac mae swyddog o Gyrfa Cymru yn eu paratoi ar gyfer gwaith..

Mae'r Gwasanaeth wedi trefnu lleoliad gwaith ar gyfer 4 unigolyn mewn adrannau ar draws y Cyngor gan gynnwys un o fewn y Gwasanaeth Plant ei hun. Y gobaith yw ehangu'r profiad o fewn y Cyngor o ddarparu lleoliadau ar gyfer plant mewn gofal ac o ganlyniad derbyn mwy o gynigion o leoliadau.

**Cynllun Lleoli Estynedig - "Pan fydda i'n Barod"**
Mae 7 o bobl ifanc sydd wedi gadael gofal wedi ymuno â chynllun arbrofol mae Gwynedd yn rhan ohoni "Pan fydda i'n Barod" fel eu bod yn gallu parhau i fyw gyda'u gofalwyr maeth ar ôl eu pen-blwydd yn ddeunaw oed.

**Ad-drefnu'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd**
Yn sgil gwaith manwl ar gynllun asesu 'dechrau i'r diwedd' mae'r Gwasanaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd wedi cychwyn ar ddatblygu model newydd i weithio gyda phlant a'u teuluoedd sydd ar drothwy dod i ofal. Y bwriad yw creu Tîm Trothwy Gofal i weithio gyda theuluoedd lle mae yna debygrwydd y byddai plentyn yn dod i ofal oni bai fod cefnogaeth ychwanegol ar gael a hynny er mwyn lleihau'r nifer sy'n dod i ofal. Bydd dyfodol Drws y Nant, y cartref preswyl sydd gan y Gwasanaeth yng Nghaernarfon ac sy'n cael ei redeg gan Weithredu dros Blant yn cael ei ail asesu. Fel rhan o'r ad-drefnu mae'r Gwasanaeth wedi creu Uned Diogelu ac Ansawdd sy'n cynnwys gwaith y swyddogion Adolygu Annibynnol sy'n adrodd i'r Panel bob 6 mis ar sefyllfa plant mewn gofal.

**2.2 Yr Adran Addysg**

Roedd yr 17 (76% o'r plant) oedd yn eistedd cymwysterau yn mynychu ysgolion o fewn y Sir, gyda'r gweddill yn mynychu ysgolion yn Ninbych, Môn, Conwy a Cheredigion.

**Canlyniadau addysgol - sgôr bwyntiau addysgol**

Mae sgôr cymwysterau yma'n cynnwys TGAU, BTEC, ESKW, ONAT, NVQ ac eraill. Mae pob cymhwyster gyda sgôr cywerth sy'n cael eu cyfrifo gan Cynnal. Roedd 17 o blant mewn gofal yn gymwys ar gyfer y mesurydd hwn yn 2013/14 (wedi bod mewn gofal dros 12 mis ar 31/8/2013 ac yn eistedd arholiadau TGAU yn ystod Haf 2013).

Mae'r canlyniadau'n adlewyrchu ystod eang o allu a chymwysterau amrywiol nifer cyfyngedig o blant mewn gofal sydd yn yr ystod oed yma rhwng 15 ac 16 oed ar y pryd.


Cyfartaledd sgôr bwynt plant mewn gofal eleni yw 439 o gymharu â 289 llynedd. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ar y llynedd ond gall y ffigwr amrywio bob

Draft

blwyddyn yn ôl natur yr unigolion sy'n rhan o'r grŵp. Mae hyn i'w gymharu â 525 sef cyfartaledd sgôr bwynt cyffredinol ar gyfer holl blant Gwynedd y llynedd. Roedd Gwynedd ar y sgôr bwynt cyffredinol uchaf (EDU/011) o holl siroedd Cymru yn 2013, gyda sgôr bwynt plant mewn gofal (SCC/037 ) Gwynedd yn bumed ymhlith siroedd Cymru.


Mae'n bwysig nodi'r gwahaniaeth hanesyddol sydd wedi bod rhwng canlyniadau sgôr bwynt plant mewn gofal a gweddill y disgyblion a gweithredu er mwyn lleihau'r bwlch.

**Y Gymhariaeth rhwng Sgôr Bwyntiau Plant mewn Gofal a gweddill y Disgyblion 2013-14**




**Adroddiad Perfformiad Cynlluniau Addysg Personol**

DRAFT




Mae gofyn i ysgolion baratoi Cynllun Addysg Bersonol ar gyfer pob plentyn mewn gofal pan fydd yn dod i'w hysgol a hynny o fewn 20 diwrnod (4 wythnos) i'w ddyfodiad. Gwelwyd gwellhad ym mherfformiad darparu Cynlluniau Addysg Personol eleni gyda'r cyfartaledd o Gynlluniau wedi eu cyflawni o fewn 20 diwrnod yn cyrraedd 91.6% erbyn y trydydd chwarter. Mae'r Adran Addysg wedi bod yn gweithio gydag ysgolion yr Awdurdod i sicrhau cydymffurfiaeth a bydd hynny yn parhau i'r dyfodol.

Mae'r Panel wedi gofyn i adrannau'r Cyngor edrych ar ffyrdd o fedru rhannu gwybodaeth yn fwy effeithiol am symudiadau addysgol plant mewn gofal fel bod modd sicrhau gwell cefnogaeth iddynt.

**3.0 Gofal Iechyd Plant mewn Gofal**

Mae'r mater o ddiffygion darpariaeth gofal iechyd plant mewn gofal yn parhau'n bryder i'r Panel eto eleni. Cafwyd adroddiad rheolaidd gan Reolwr Gwasanaeth Gofal Parhaus y Bwrdd Iechyd am y camau mae'r Bwrdd yn eu cymryd i ddarparu gwasanaethau ar gyfer plant mewn gofal. Nodwyd fod perfformiad yr archwiliadau wedi gostwng i 48% o blant mewn gofal i Wynedd o fewn y sir yn cael eu cwblhau mewn amser. Mae'r gofyn ar fyrddau eraill i ddarparu ar gyfer plant all-sirol tu allan i ogledd Cymru. Mae trafodaethau wedi digwydd gyda'r Gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn ond mae diffyg capiaist gyda chyfnod mamolaeth y Nyrs Plant mewn Gofal yn golygu y bydd llai o ddarpariaeth na sydd wedi bod yn ddiweddar.

Oherwydd y sefyllfa yma mae'r Panel wedi gofyn i'r Cadeirydd gyfathrebu gyda'r Bwrdd Iechyd i leisio anfodlonrwydd y Panel gyda'r trefniadau ac i flaenoriaethu cefnogaeth i blant mewn gofal y sir.

**Crynhoi**

Draft

**Adroddiad Blynyddol Panel Rhiant Corfforaethol Gwynedd**

Fel nodwyd yn yr adroddiad mae’r Panel Rhiant Corfforaethol wedi adnabod yr angen i fod yn fwy strategol yn ei olwg i’r dyfodol. Mae peth gwaith wedi ei gyflawni ar hyn ond mae gwaith sylweddol dal angen ei gyflawni.

Er mwyn symud yn nes at yr ymarfer gorau bydd angen i’r Panel, adrannau’r Cyngor a’r partneriaid sicrhau fod plant mewn gofal yn cael:

- gofal iechyd priodol sy’n cymharu’n dda gyda’u cyfoedion ar draws Cymru.
- cynnydd mewn cefnogaeth fel bod y sgôr bwyntiau addysgol yn symud yn nes at gyfartaledd sgôr bwynt cyffredinol y sir.
- profiad gwaith o fewn adrannau’r Cyngor a’r partneriaid ac efallai swyddi dros dro er mwyn ehangu eu profiad gwaith.

Drwy fabwysiadu datganiad cyhoeddus o addewid o gefnogaeth i blant mewn gofal a chydweithio effeithiol o fewn y Cyngor a chyda partneriaid allanol bydd modd i’r Panel ddefnyddio’r strategaeth i ddylanwadu’n effeithiol er lles plant mewn gofal.

Draft

# RHAGLEN WAITH Y PANEL RHIANT CORFFORAETHOL 2014-2017

| Maes | Mater | Gweithred | Cyfrifoldebau Arweiniol | Pryd | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|---|

1.0 Amcanion

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.1 | Llunio Strategaeth ar y cyd gyda phlant mewn gofal i roi arweiniad gweithredol i'r Cyngor. | Ymgynghori gyda phlant mewn gofal, ag aelodau'r Panel a defnyddio gwybodaeth am yr ymarfer gorau fel sail i'r strategaeth | RP/ITJ/PT | Hydref 2014 | Dogfen strategol yn amlinellu'r camau y bydd y Cyngor yn ei gymryd i gefnogi plant mewn gofal wedi derbyn cymeradwyaeth gan y Cabinet a'r Cyngor |
| 1.2 | Strategaeth Rhiantu Corfforaethol – Cyngor Gwynedd | Cymeradwyo, dosbarthu a sicrhau ymwybyddiaeth o'r strategaeth | ITJ/AME/RP Penaethiaid Gwasanaeth | Ionawr 2015 | Dealltwriaeth glir ymysg aelodau, staff a'r rhai sy'n gweithio ar ran y Cyngor o'r strategaeth rhiantu corfforaethol.<br><br>Tystiolaeth o effaith yn cael ei fesur gan y Panel Rhiant Corfforaethol yn flynyddol.<br><br>Mesuryddion Perfformiad yn cael eu datblygu ar gyfer Adroddiad Blynyddol y Panel Rhiant Corfforaethol i'r Cabinet a'r Cyngor Llawn. |
| 1.3 | Effaith y strategaeth yn gadarnhaol ar fywydau plant mewn gofal | Aelodau Arweiniol yn derbyn tystiolaeth o berfformiad briodol | RP/ITJ/PT | Mai 2015 | Argyhoeddi Aelodau'r Panel Rhiant Corfforaethol bod y strategaeth yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau plant mewn gofal. |
| 1.4 | Cynllun Strategol – Cyngor | Cynigion Rhiantu | RP/ITJ/PT | Mai 2015 | Cynllun Strategol yn amlygu'r |

# RHAGLEN WAITH Y PANEL RHIANT CORFFORAETHOL 2014-2017

| Maes | Mater | Gweithred | Cyfrifoldebau Arweiniol | Pryd | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gwynedd | Corfforaethol yn cael ei adlewyrchu yn y Cynllun Strategol. | | | modd y bydd Cyngor Gwynedd yn cyflawni ei rwymedigaethau corfforaethol ym maes rhiantu corfforaethol |

2.0 Codi Ymwybyddiaeth

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2.1 | Hyfforddiant Rhiantu Corfforaethol i aelodau etholedig. | Rhaglen Hyfforddiant/Codi Ymwybyddiaeth wedi ei sefydlu. | MPH/RP/PT/ITJ/AME | Tachwedd 2014 | Aelodau yn gyfarwydd â pholisi a chanllawiau rhiantu corfforaethol y Cyngor. |
| 2.2 | Codi ymwybyddiaeth staff o waith y Panel Rhiant Corfforaethol. | Rhaglen codi ymwybyddiaeth/hyfforddiant rhiantu corfforaethol wedi ei gytuno, sefydlu a'i ariannu o fewn matrics hyfforddiant corfforaethol y Cyngor. | RP/ITJ/AME Penaethiaid Corfforaethol | Tachwedd 2014 | Holl weithlu'r Cyngor wedi derbyn gwybodaeth am eu rôl rhiantu corfforaethol. |
| 2.3 | Codi ymwybyddiaeth ymhlith partneriaid o anghenion plant mewn gofal | Adnabod meysydd cyswllt gydag anghenion plant mewn gofal a sefydlu cytundebau lefel cefnogaeth gyda phartneriaid. | RP/MPH/ITJ | Mai 2015 | Partneriaid y Cyngor yn cydweithio'n agos i gynyddu effaith cadarnhaol eu gwasanaethau ar blant mewn gofal. |

**Atodiad B**

# Adroddiad Blynyddol Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion

**2013-14**

## Cyflwyniad

Cychwynnwyd ar y gwaith o ddatblygu strategaeth gorfforaethol gynhwysfawr ar gyfer diogelu plant ac oedolion bregus yng Ngwynedd yng ngwanwyn 2013 yn sgil archwiliad gan Estyn, Arolygaeth ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar ansawdd gwasanaethau addysg plant a phobl ifanc yr awdurdod. Yn ychwanegol, ac ar yr un adeg, nododd Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol fod arni angen strwythur fyddai'n gyfrwng i'w sicrhau o ymrwymiad y Cyngor yn gorfforaethol i faterion diogelu gan fod hyn yn ofyn statudol. Roedd yn awyddus hefyd i sefydlu strwythur ar lefel uchel fyddai'n gyfrwng i adnabod ac i ymateb i unrhyw broblemau fyddai'n codi yn y maes ar lefel gorfforaethol .

Yn yr Adroddiad yn dilyn archwiliad Estyn nodwyd y canlynol fel argymhelliad

*Argymhelliad 1 : Gwella diogelu drwy sicrhau bod gweithdrefnau a pholisïau'r cyngor yn cael eu deall yn glir gan bawb sy'n gweithio i'r awdurdod ac yn cael eu diweddaru a'u lledaenu'n rheolaidd*

O ganlyniad, sefydlwyd Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion, sy'n cynnwys aelodau arweiniol ac uwch swyddogion perthnasol. Mae'r Panel yn cael ei gefnogi gan Banel Gweithredol Diogelu Plant ac Oedolion sy'n cynnwys rheolwyr dynodedig o holl adrannau'r Cyngor. Drwy'r paneli hyn mae'r Cyngor wedi adolygu ac ehangu yn sylweddol ei drefniadau mewn perthynas â diogelu, gan gynnwys datblygu polisïau corfforaethol ac adrannol, codi ymwybyddiaeth a darparu hyfforddiant, a sicrhau cydymffurfiaeth gydag anghenion gwiriadau cyflogaeth.

Yn ei adroddiad ar y sesiwn monitro ôl-arolygiad cyntaf, dyddiedig 25 Ebrill 2014, mae Estyn yn nodi:

*Ers yr arolygiad, mae'r awdurdod wedi blaenoriaethu diogelu yn briodol yn ei strategaeth gorfforaethol. Mae hyn wedi gosod seiliau addas i'r broses o wella. O fewn cyfnod byr i ddiwedd yr arolygiad, fe fabwysiadodd yr awdurdod bolisi diogelu corfforaethol priodol. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu a mabwysiadu polisïau cyfatebol ar gyfer bron pob gwasanaeth.*

Mae'r adroddiad yn codi pwynt gweithredu pellach ym maes monitro cyflawni'r polisi diogelu corfforaethol er mwyn galluogi uwch-reolwyr a'r paneli i :

*...farnu i ba raddau y mae pawb sydd yn gweithio i'r awdurdod yn deall y gweithdrefnau a pholisïau yn glir ac yn eu gweithredu yn briodol ac effeithiol.*

Bydd Estyn yn dychwelyd yn ystod tymor addysgol hydref 2014 i asesu cynnydd cyffredinol y gwaith ar weithredu'r polisïau diogelu ac yn arbennig y dulliau o fonitro ymwybyddiaeth a gweithredu aelodau a staff o'r polisïau diogelu corfforaethol.

DRAFT

**Atodiad B**

**Adroddiad Blynyddol Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion**

**Yr hyn sydd wedi ei wireddu yn ystod y flwyddyn:**

1. Cafodd y Polisi Diogelu Corfforaethol ei fabwysiadu gan Gabinet y Cyngor ar 30/3/2013. Mae'r polisi corfforaethol yma a'r polisïau adrannol priodol yn eu lle ac ar gael i staff drwy mewnrwyd y Cyngor.
2. Mae cyfres o weithdai codi ymwybyddiaeth wedi cael eu darparu – un ar gyfer aelodau a chwech ar gyfer uwch reolwyr a rheolwyr canol. O ganlyniad, bu 25 o aelodau a 200 o reolwyr yn y sesiynau ar eu cyfer. Mae'n fwriad cynnal dwy sesiwn ychwanegol ar gyfer rheolwyr. Hefyd, mae bwletin gwybodaeth wedi ei ddarparu ar gyfer rheolwyr i raeadru gwybodaeth ar ddiogelu i'w staff. Mae pecynnau hyfforddiant electronig hefyd wedi eu datblygu.
3. Mae ffyrdd o asesu dealltwriaeth aelodau a staff o faterion diogelu yn cael eu datblygu.
4. Mae'r broses o adolygu polisïau drwy'r Panel Gweithredol Diogelu ac yna ymlaen am gymeradwyaeth i'r Panel Strategol Diogelu eisoes wedi cychwyn ar ei gylch adolygu cyntaf.

Datblygodd y Panel Diogelu Strategol Gynllun Gweithredu sydd wedi ei rannu yn feysydd gwaith, fel a ganlyn:

1. **Sicrhau dealltwriaeth o weithdrefnau a pholisïau diogelu corfforaethol o fewn y Cyngor.**
   i. Cafodd y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion a'r Panel Gweithredol Diogelu Plant ac Oedolion eu sefydlu yn Nhachwedd 2012 er mwyn sicrhau datblygu'r polisïau a'r gweithredu angenrheidiol o fewn maes diogelu. Mae aelodaeth y Panel Strategol yn cynnwys Aelodau'r Cabinet; Aelod Cabinet Gofal, Aelod Cabinet Addysg, Aelod Cabinet Gwynedd Iach a Phlant a Phobl Ifanc sydd hefyd yn Aelod Arweiniol Plant a Phobl Ifanc; Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfarwyddwr Corfforaethol a Swyddog Arweiniol Plant a Phobl Ifanc a Phenaethiaid Adrannau.
   ii. Mae'r Panel Strategol Diogelu yn arwain ar osod y cyfeiriad strategol gan ddelio gyda materion ymarferol sy'n gofyn mewnbwn ar y lefel uchaf. Mae'r Panel Gweithredol yn cynnwys rheolwyr dynodedig o holl adrannau'r Cyngor ac yn datblygu gwaith yn ôl y cyfeiriad sy'n cael ei osod gan y Panel Strategol.

2. **Sicrhau ymwybyddiaeth a chydymffurfiaeth o'r 'Polisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion' corfforaethol.**
   i. Cafodd y Polisi Corfforaethol ei gymeradwyo gan Gabinet Cyngor Gwynedd ar 30/3/13. Bydd y polisi yn cael ei adolygu yn rheolaidd bob blwyddyn. Cafodd y polisi corfforaethol ei adolygu eleni ym mis Mai 2014.

DRAFT

ii. Mae pob adran yn y Cyngor wedi cynhyrchu a chadarnhau eu polisi diogelu adrannol. Bydd y rhain hefyd yn cael eu hadolygu yn flynyddol gan y Panel Strategol. O fewn pob adran penodwyd un rheolwr yn “ berson dynodedig “ a’r rheolwr yma fydd yn arwain ac yn bwynt cyswllt yn y maes diogelu o fewn yr Adran arbennig honno.
iii. Mae drafft o bamffledi a phosteri gwybodaeth yn cael eu datblygu ar hyn o bryd gyda’r bwriad o’u cyhoeddi erbyn dechrau Medi 2014.
iv. Mae rhaglen gyfrifiadurol CETIS yn cael ei defnyddio i ymgyfarwyddo staff â pholisïau’r Cyngor ac mae’r polisi diogelu wedi ei osod arno gyda’r disgwyliad y bydd pob aelod o staff yn ymgyfarwyddo â’r polisi drwyddo. Mae 350 o staff wedi dilyn yr hyfforddiant ar-lein hyd yma.
v. Mae’r System Gweithlu Diogel sy’n sicrhau fod yr holl staff sydd angen gwiriad cyflogaeth wedi ei osod yn ei le ac yn weithredol. Mae Protocol Gweithredu’r System Gweithlu wedi ei ddatblygu a’i gymeradwyo. Mae hyfforddiant ar y system sy’n cynnwys y modiwl Gweithlu Diogel, wedi ei drefnu ar gyfer pob aelod o’r staff rheoli gan gynnwys yr Uwch Reolwyr a’r Rheolwyr Canol.

**3. Darparu hyfforddiant diogelu ar gyfer aelodau, staff a rheolwyr.**

i. Mae hyfforddiant Lefel 1 plant wedi ei ddarparu drwy raglen e-ddysgu ers mis Chwefror 2014 a disgwylir i holl staff y cyngor fod wedi ei gyflawni’n llwyddiannus. Bydd pob aelod o staff yn ail gyflawni’r rhaglen ‘hyfforddiant gloywi’ bob tair blynedd.
ii. Mae cynnwys sesiynau hyfforddiant Lefel 1 oedolion yn cael eu datblygu ar y cyd rhwng yr Uned Datblygu Gweithlu, Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, a’r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu Corfforaethol.
iii. Cynhaliwyd sesiynau hyfforddiant ar ‘Rheoli Honiadau o Gam-drin Proffesiynol’ ym mis Chwefror a Mawrth 2013 ac ym mis Ionawr 2014 ar gyfer gweithwyr proffesiynol asiantaethau partner gan Fwrdd Lleol Diogelu Môn a Gwynedd.
iv. Cafodd sesiwn hyfforddiant diogelu ar gyfer aelodau ei gynnal ar Mai'r 7fed, 2014.

**4. Cymeradwyo, dosbarthu a sicrhau ymwybyddiaeth o ‘Bolisi a Chanllawiau Diogelu'r Gwasanaeth Addysg’**

i. Cafodd y Polisi Amddiffyn Plant ei ddiwygio, ei ail-gyflwyno i ysgolion a’i ddosbarthu ymysg timau canolog yr Awdurdod Lleol. Mae trefniadau cadarnhau’r polisïau a’r hyfforddiant yn eu lle ar gyfer staff ac ysgolion drwy gyfrwng y penaethiaid.
ii. Bydd pob gweithiwr o fewn y gyflogres addysg yn derbyn hyfforddiant lefel 1, un ai’n uniongyrchol neu drwy Educare, rhaglen hyfforddiant gyfrifiadurol ar-lein. Cyflogres newydd arlwyo a glanhau wedi trosglwyddo i fod o dan ofal yr

adran addysg o Chwefror 2013 ymlaen ac mae rhaglen hyfforddi mewn lle i hyfforddi'r gyflogres newydd. Mae Gwasanaeth Dysgu a Datblygu y Cyngor yn datblygu adnodd hyfforddi ar-lein ddwyieithog fydd ar gael i bawb. Unwaith y bydd hwn yn ei lle ni fydd angen defnyddio Educare.

iii. Cafodd cyfres o ddyddiadau hyfforddiant mewn swydd diwrnod llawn Lefel 2 eu cynnal yn ystod 2012-13, ac mae rhaglen 2013-2014 yn weithredol ar hyn o bryd. Cafodd y rhain eu cynnal gan ymgynghorydd allanol a Swyddog Grwpiau Bregus yr adran, yn ogystal â'r Cyn Uwch Reolwr Addysg sy'n gyfrifol am Ddiogelu. Mae pob Pennaeth a Llywodraethwr Dynodedig Amddiffyn Plant wedi'u gwahodd. Mae dros 90% o staff yr Adran Addysg wedi mynychu'r hyfforddiant hyd yma, gyda'r gweddill yn mynychu eleni.

iv. Mae swyddogion perthnasol yr Adran wedi mynychu hyfforddiant lefel 3 ac mae rhaglen Lefel 3 pellach yn cael ei drefnu eleni i reolwyr eraill

5. **Sicrhau awdit blynyddol annibynnol o ansawdd gweithdrefnau Diogelu ac Amddiffyn Plant mewn ysgolion**,

    i. Cafodd cynllun Sir Caerfyrddin o asesu parodrwydd i ymateb i anghenion diogelu o fewn y gyfundrefn addysg ei addasu ar gyfer ymweliadau monitro sampl o 11 o ysgolion yn ystod tymor yr haf. Cafodd ysgolion eu rhagrybudd o fwriad yr awdurdod i gynnal yr awdit drwy gyfrwng grwpiau strategol uwchradd a chynradd tymor yr Hydref 2013.

    ii. Bydd pob ysgol ymwelwyd â hi yn derbyn adroddiad a chynllun gweithredu ac amserlen ar gyfer gweithredu ar yr argymhellion. Bydd adroddiad cyfansawdd yn cael ei ddarparu i'r Adran Addysg, gydag argymhellion i'w bwydo i'r cynllun gweithredu Diogelu adrannol. Bydd hefyd yn adrodd i'r Panel Strategol ac i'r Panel Gweithredol. Disgwylir yr adroddiad erbyn diwedd Mehefin 2014.

6. **Sicrhau awdit blynyddol annibynnol o ansawdd gweithdrefnau Diogelu ac Amddiffyn Plant ar draws adrannau a gwasanaethau, drwy samplo gweithdrefnau gweithredol Diogelu.**

    i. Mae ymgynghorydd allanol wedi ei chomisiynu i gynnal gwaith awdit ar ansawdd gweithdrefnau diogelu adrannau'r Cyngor. Disgwylir i'r adroddiad fod ar gael erbyn Gorffennaf 2014.

7. **Sicrhau fod y flaenoriaeth i faes Diogelu Plant ac Oedolion yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynllun Strategol y Cyngor**

    i. Mae'r flaenoriaeth strategol i faes Diogelu Plant ac Oedolion i'w weld yng Nghynllun Strategol 2014-17 yn GOF2: Diogelu Plant ac Oedolion.

8. **Aelodau Arweiniol yn derbyn tystiolaeth o berfformiad corfforaethol / trawsadrannol y Cyngor parthed materion diogelu plant ac oedolion.**

DRAFT

**Atodiad B**

**Adroddiad Blynyddol Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion**

i. Mae Aelodau'r Cabinet sydd â chyfrifoldebau am feysydd Gofal Cymdeithasol a Phlant a Phobl Ifanc yn aelodau o'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion. Cadeirydd y Panel yw'r aelod Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd (Strategol). Bydd y Panel yn derbyn adroddiadau ar sail dangosyddion sy'n cael eu datblygu ar gyfer ei gyfer.

ii. Mae'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol, y Pennaeth Addysg a'r Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn aelodau o Fwrdd Diogelu Môn a Gwynedd.

9. **Cefnogi swyddogaethau a dyletswyddau'r Cyfarwyddwr Statudol (Gwasanaethau Cymdeithasol) o fewn y Cyngor.**

   i. Mae gwaith diogelu plant ac oedolion yn rhan o ofyniad statudol y Cyfarwyddwr Statudol ond yn ddyletswydd ar y Cyngor yn ei gyfanrwydd. Mae gwaith y Panel Strategol yn dangos cefnogaeth adrannau ar draws y Cyngor i'r dyletswyddau hyn.

   ii. Mae Adroddiad y Cyfarwyddwr Statudol yn cael ei ryddhau'n flynyddol. Mae cyfeiriad penodol at y gwaith diogelu yn y rhagair ac yn fwy manwl ar dudalen 17 yn adroddiad 2012-13.

   iii. Bydd adroddiad blynyddol y Panel Strategol sy'n amlygu gweithgaredd yn y maes yn cael ei ryddhau ym mis Gorffennaf 2014.

10. **Rhannu gwybodaeth am weledigaeth, blaenoriaethau a pholisïau'r Panel Diogelu**

    i. Drwy gyfrwng y Paneli Strategol Diogelu a'r Panel Gweithredol Diogelu mae'r weledigaeth, blaenoriaethau a pholisïau'r Panel Diogelu wedi cael eu lledu i reolwyr a staff y Cyngor drwy gyfrwng dogfennau polisi a hyfforddiant. Mae diweddariad o'r Llawlyfr Caffael fydd yn cael ei ryddhau ym mis Mehefin yn rhoi cyfarwyddyd i staff y Cyngor wrth gomisiynu ac i'r cyrff sydd yn darparu gwasanaethau i'r Cyngor o'r disgwyliadau arnynt hwy ym maes diogelu

11. **Cryfhau'r cysylltiadau rhwng y Bwrdd Lleol Diogelu Plant a gwasanaethau o fewn y Cyngor**

    i. Cafodd adroddiad Ôl arolwg Estyn ei gyflwyno i'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant Môn a Gwynedd ym Medi 2013. Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Statudol, Pennaeth Gwasanaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd a Phennaeth yr Adran Addysg yn aelod o'r Bwrdd Lleol.

12. **Trefniadau comisiynu neu rheoleiddio gwaith gyda phlant a phobl ifanc y Cyngor gan asiantaethau/cyrff eraill.**

    i. Comisiynwyd adroddiad gan Archwilio Mewnol i asesu'r anghenion ar gyfer datblygu ymarfer da o fewn y maes comisiynu a chaffael. O ganlyniad, sefydlwyd Grŵp Tasg Caffael a Chytundebau sydd wedi llunio diweddariad i'r

DRAFT

Llawlyfr Caffael. Bydd y Llawlyfr Caffael yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2014 ac yn cynnwys:

- arweiniad cyson ar faterion diogelu
- atodiad penodol ar ddiogelu ( cynnwys cymalau safonol ac ystyriaethau yn y broses caffael)
- atodiad penodol ar fonitro'r gofynion diogelu mewn cytundebau.

13. **Cronfa ddata corfforaethol, integredig sy'n cofnodi holl staff y Cyngor sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc**.

i. Comisiynwyd gwaith gan Archwilio Mewnol i asesu gweithdrefnau a phrosesau gwiriadau DBS ac ar sail y gwaith hwnnw gwnaed gwelliannau i'r broses gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS - Disclosure and Barring Service).

ii. Cafodd Cronfa Ddata Gweithlu Diogel ei sefydlu i sicrhau fod yr holl staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ac oedolion bregus wedi eu hadnabod fel rhai sydd angen gwiriad DBS. Mae cyfres o sesiynau hyfforddi wedi eu cynnig i reolwyr er mwyn esbonio sut mae'r system yn gweithio.

**14. Sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau ar gyfer diogelu Oedolion yn sgil argymhellion adolygiad Winterbourne**

i. Mae dadansoddiad o'r sefyllfa gyfredol wedi ei gyflwyno i'r Panel Strategol a gwaith pellach gyda'r Gwasanaeth Oedolion ac asiantaethau partner yn cael ei wneud i sicrhau fod argymhellion adroddiad Winterbourne yn cael eu gwireddu yng Ngwynedd.

**Effaith y strategaeth**

i. Mae'n ddyddiau cynnar ar fesur effaith y strategaeth ond mae adborth gan swyddogion dynodedig yr adrannau yn awgrymu fod, er enghraifft, penaethiaid ysgolion yn llawer mwy ymwybodol o faterion diogelu ers y datblygiadau ym maes addysg y mae'r adroddiad yn cyfeirio ato. Mae hyn hefyd yn sylw cyffredin gan y swyddogion dynodedig fod dealltwriaeth o faterion diogelu wedi cynyddu yn sgil y cyfarfodydd codi ymwybyddiaeth ymhlith uwch-rheolwyr a rheolwyr y Cyngor..

ii. Bydd gennym fwy o dystiolaeth o effaith y strategaeth yn sgil yr awdit blynyddol o adrannau'r cyngor a'r ysgolion fel y nodwyd ym mhwynt 5, 6 a 7.

iii. Bydd y gwaith ar ddatblygu mesuryddion ymwybyddiaeth nodwyd ym mhwynt 8 ar ddatblygu mesuryddion yn cynorthwyo'r Panel i fesur effaith y strategaeth a bod staff yn ymateb yn briodol ni faterion diogelu.

**Argymhellion**

i. Bod gwaith y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion hyd yma yn cael ei gydnabod a bod sylwadau Estyn ar y cyrhaeddiad yn cael ei nodi.

ii. Bod angen i'r Panel gadarnhau gwaith cyflawnwyd hyd yma a sicrhau fod gwaith ar osod trefniadau cadarn a chlir ar y lefel o hyfforddiant priodol ar gyfer aelodau a staff yn cael eu cwblhau'n fuan a bod holl aelodau a staff yn



DRAFT

cymryd rhan mewn sesiynau codi ymwybyddiaeth neu hyfforddiant sy'n briodol ar gyfer eu rôl.

iii. Bod angen sicrhau fod adborth lleol a chenedlaethol y rheoleiddwyr yn sgil eu hymweliadau diweddar yn cael eu nodi a'u cynnwys lle'n briodol o fewn y strategaeth a'r rhaglen waith.

**Diweddglo**

Cyflwynir yr adroddiad yma er mwyn rhoi blas ar weithgareddau sy'n digwydd ym maes diogelu o fewn y Cyngor. Mae pwyslais y gwaith ar y ffaith mai cyfrifoldeb corfforaethol yw diogelu ac nid ar gyfer yr Adran Addysg ac Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn unig.

DRAFFT

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y Cyngor Llawn |
| **DYDDIAD** | 17 Gorffennaf 2014 |
| **PWNC** | Adroddiad Blynyddol gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar ran y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yng nghyswllt cefnogaeth i aelodau |
| **PWRPAS** | Cyflwyno diweddariad i aelodau ynghylch y gefnogaeth sydd ar gael a'r datblygiadau sydd wedi'u gwireddu a'r rhai sydd ar waith. |
| **AWDURON** | Y Cynghorydd Lesley Day<br>Cadeirydd – Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **SWYDDOG PERTHNASOL** | Geraint George<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

**1.** Dan y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 newydd, mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn gyfrifol am faterion penodol (dan Adran 11), fel a ganlyn:

- Cyflawni rôl yr awdurdod lleol i benodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
- Adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael yng nghyswllt staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ar gyfer gofynion y rôl
- Cynhyrchu adroddiad, o leiaf bob blwyddyn, i'w gyflwyno i'r cyngor llawn yng nghyswllt yr uchod.

**2.** Fel y gwyddoch, penodwyd Geraint George, Pennaeth Strategol a Gwella, i'r rôl Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar 29 Mai 2012.

**3.** Ar 2 Mai 2013, cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor llawn yn amlinellu'r gefnogaeth sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a'r aelodau etholedig, yn cynnwys y gefnogaeth oedd yn cael ei datblygu.

**4.** Mae'r isod yn ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol yng nghyswllt y gefnogaeth i'r aelodau.

A. **Cefnogi cyfathrebu effeithiol?**

1. **Gwybodaeth / Gweithdai / Ymgynghori** – Mae nifer o weithdai wedi'u cynnal ar gyfer Aelodau Etholedig yn 2013/14, yn cynnwys gweithdai ar baratoi'r Cynllun Strategol, y Strategaeth Wastraff, gweithdai ymgysylltu a gweithdai arbedion. Roedd yr adborth anffurfiol gan yr aelodau a oedd yn bresennol yn y gweithdai yn ffafriol a byddwn yn ceisio trefnu cyfleoedd tebyg dros y flwyddyn nesaf.

2. **Pencampwyr** – Mae swydd ddisgrifiad cyffredinol ar gyfer “rôl y pencampwr” yn ei le ac mae sawl un wedi’u penodi. Fodd bynnag, mae angen adolygu rhai o’r penodiadau hyn a chadarnhau rhai eraill:

| | |
|---|---|
| • Pobl Hŷn | Gareth Thomas |
| • Gofalwyr | Eryl Jones Williams |
| • Awtistiaeth | Elin Walker Jones |
| • Datblygu Aelodau | Lesley Day |
| • Craffu | Peter Read |
| • Anabledd | Peter Read |
| • Atal Tlodi | Brian Jones |
| • Yr Iaith Gymraeg | Craig ab Iago |
| • Llais Plant a Phobl Ifanc | Mair Rowlands |
| • Digartrefedd | (i’w gadarnhau) |
| • Cydraddoldeb | (i’w gadarnhau) |
| • Masnach Deg | (i’w gadarnhau) |
| • Iechyd a Diogelwch | (i’w gadarnhau) |
| • Bioamrywiaeth | (i’w gadarnhau) |
| • Y Lluoedd Arfog | (i’w gadarnhau) |

3. **Fforymau Ardal** – Yn ystod 2013/14, fe wnaeth y Cyngor dreialu system o Fforymau Ardal. Mae’r pedwar Fforwm Ardal (Bangor / Ogwen, Gwyrfai, Dwyfor (Pwyllgor Ardal) a Meirionnydd) wedi bod yn weithredol yn ystod 2013/14. Cynhaliwyd adolygiad o’r Fforymau ar ddiwedd 2013/14. Yn gyffredinol, fe’u hystyriwyd yn llwyddiant a’r consensws oedd y dylent barhau yn yr un ffurf yn 2014/15.

4. **Gwybodaeth a Chyfathrebu Electroneg** – Mae pob aelod etholedig wedi derbyn y cynnig a’r cyfle i dderbyn iPad a hyfforddiant sylfaenol ar sut i’w ddefnyddio a sesiwn pellach ar sut i wneud gwell defnydd o’r iPad. Yn ystod 2013/14, cynhaliwyd sesiynau hyfforddiant pellach a sesiynau 1:1 i’r aelodau etholedig hynny a oedd yn dymuno derbyn cefnogaeth bellach ar ddefnyddio’r iPad.

   Erbyn hyn, mae bron i 70 o’r 75 aelod wedi derbyn iPad i’w cynorthwyo nhw gyda’u gwaith fel aelodau etholedig ac mae nifer sylweddol yn eu defnyddio nhw fel eu prif ddull cyfathrebu ac maent yn adrodd eu bod yn derbyn gwybodaeth yn llawer rhwyddach ac mewn modd amserol drwy’r iPad.

   Nid oes gan rai aelodau etholedig ddarpariaeth iPad ac mae eraill wedi gwneud ceisiadau penodol i dderbyn copïau papur o ddogfennau rhai pwyllgorau. Ers gweithredu’r system rydym wedi gweld cynnydd graddol yn nifer yr aelodau sy’n gwneud cais am gopïau papur er gwaetha’r ffaith fod ganddynt iPad ac rydym yn cadw llygad ar y sefyllfa. Fodd bynnag, ers cyflwyno’r iPad i aelodau, mae arbedion o dros £17,000 y flwyddyn wedi’u gwneud yng nghyllideb y Gwasanaethau Democrataidd yn unig gydag arbedion pellach wedi’u gwneud yng nghyllidebau adrannau unigol. Mae posibilrwydd o wneud £5,000 o arbediad

blynyddol pellach os yw aelodau'n parhau i ddefnyddio'r iPad yn lle copïau papur. Gallai'r arbediad hwn gyfrannu cyfanswm o bron i £90,000 tuag at ddiffyg ariannol y Cyngor yn ystod y tymor hwn.

Yn y cyfnod yma, rydym wedi cael peth anawsterau gydag ychydig o gyfrifon iPad ac mae'n hanfodol bod aelodau yn cysylltu â'r Ddesg Gymorth TG ar 01286 679 114 am gymorth. Mae gwaith ar y gweill i alluogi aelodau i wneud mwy o ddefnydd o'r iPad ac, yn yr hydref, bwriedir treialu ambell 'ap' a fyddai'n galluogi i aelodau greu dogfennau byrion.

5. **Bwletinau Gwybodaeth** – Mae Bwletin Gwybodaeth *Rhaeadr* fel arfer yn cael ei gylchredeg bob pythefnos i ddiweddaru'r holl aelodau, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch beth mae'r Cabinet neu aelodau unigol o'r Cabinet yn eu gwneud, materion cefnogi aelodau, beth sy'n digwydd yn ehangach o fewn y Cyngor (newyddion diweddaraf / datganiadau i'r wasg) a materion o fewn wardiau (gwaith ffordd / gwaredu eiddo ac ati).

   Yn ystod 2013/14 cynhaliwyd adolygiad o *Rhaeadr* yn cynnwys casglu barn aelodau am eu defnydd ohono. O ganlyniad i'r adolygiad, penderfynwyd parhau i gyhoeddi *Rhaeadr* bob pythefnos am flwyddyn ychwanegol a'i ariannu o gyllideb unwaith ac am byth am y flwyddyn honno. Bydd gofyn ystyried cyflwyno bid am yr adnodd os bydd awydd i barhau y tu hwnt i hynny.

6. **Adroddiadau Aelodau Cabinet i'r Cyngor** – Mae system o gael aelod unigol o'r Cabinet yn adrodd ar elfen o'i (g)waith ym mhob cyfarfod Cyngor, gyda chyfle am gwestiynau, wedi bod yn weithredol. Mae'r Aelodau Cabinet dros Adnoddau, yr Amgylchedd a Gwynedd Iach ynghyd ag Arweinydd y Cyngor oll wedi cyflwyno i'r Cyngor.

7. **Cyfarfodydd rhwng Cadeiryddion Craffu a'r Cabinet** – Mae protocol wedi'i sefydlu ar y berthynas rhwng Craffu a'r Cabinet i sicrhau parch a chydweithio er mwyn cyflawni'r gorau ar gyfer trigolion Gwynedd. Fel arfer, cynhelir dau gyfarfod y flwyddyn gyda'r trafodaethau'n rhai agored ac adeiladol i asesu cynnydd hyd yn hyn a rhannu gwersi a ddysgwyd gan y Craffwyr a'r Cabinet. Cytunwyd hefyd ar gyfeiriad craffu gan fod aelodau'r Fforwm Craffu a'r Cabinet wedi cytuno ar Strategaeth Graffu am y tair blynedd nesaf. Bydd trafodaeth hefyd ar y Rhaglen Graffu am y flwyddyn nesaf.

8. **Cyfryngau Cymdeithasol** – Mae'r Cyngor llawn, wrth gwrs, wedi mabwysiadu protocol ar ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol gan gynghorwyr er mwyn rhoi canllaw i aelodau ar y cyfleoedd a'r problemau posib wrth eu defnyddio. Bellach, mae Cynghorwyr wedi'u gwahodd i fynegi diddordeb mewn hyfforddiant pellach ar y mater hwn ac mae trefniadau ar y gweill ar gyfer hyn.

9. **Gweddarlledu a gwefannau Cynghorau Cymuned** – Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi cytuno i gyflwyno gweddarllediadau o rai cyfarfodydd allweddol y Cyngor. Mae gwaith ar y gweill i gyflwyno hyn dros y

misoedd nesaf er mwyn cynyddu atebolrwydd democrataidd ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o waith y Cyngor. Bydd hyfforddiant penodol ar gael i aelodau cyn i'r system gael ei gweithredu'n fyw. Law yn llaw â hyn, mae'r Cyngor wedi bod yn hyrwyddo datblygiadau i wefannau Cynghorau Cymuned, gan ddefnyddio grant gan Lywodraeth Cymru i wneud hynny. Mae tua 29 o gynghorau cymuned yn awyddus i fanteisio ar y grant yn unigol gydag 20 o gynghorau hefyd wedi mynegi diddordeb mewn gweithio gyda chynghorau cyfagos i gaffael darpariaeth ar y we ar y cyd. Yn ddiweddar, mae'r Adran Technoleg Gwybodaeth wedi paratoi manyleb i helpu gyda hyn.

**B. Cefnogaeth i aelodau etholedig gynnal eu dyletswyddau penodol**

10. **Cyfweliadau Datblygiad Personol** – Yn ystod yr wythnos ddiwethaf, cysylltwyd ag aelodau nad ydynt yn aelodau Cabinet i gynnig y posibilrwydd o gynnal Cyfweliad Datblygiad Personol er mwyn rhoi cyfle i asesu eu hanghenion datblygu. Y nod yw i'r cyfweliadau hynny gael eu cwblhau erbyn diwedd mis Medi. Ar hyn o bryd, rydym yn aros am ymatebion gan gynghorwyr unigol ynghylch a fyddent yn dymuno manteisio ar y cyfle hwn.

11. **Datblygiadau yn yr ardal leol** – mae peth gwybodaeth o'r fath ar gael yn *Rhaeadr* ond mae hwn yn faes sydd angen sylw pellach. Bydd Grŵp Tasg ar y cyd o aelodau etholedig a swyddogion yn edrych ar hyn dros y misoedd nesaf ac yn cyflwyno cynigion am welliannau.

12. **Ymateb i ymholiadau neu gwynion gan Aelodau Lleol** – Mae trefn eisoes yn ei lle i sicrhau bod aelod lleol yn cysylltu â'r gwasanaeth penodol yn gyntaf er mwyn cael ateb i ymholiad. Os nad yw'r ateb a ddarperir yn ddigonol, dylid cyfeirio'r mater penodol i sylw'r Aelod Cabinet i sicrhau y derbynnir ymateb. Mae aelodau wedi'u hannog i ddefnyddio'r systemau priodol gan fod hynny'n fwy tebygol o arwain at ddatrysiad i'r ymholiad.

13. **Hawliau Aelod Unigol mewn cyfarfodydd Cabinet** – Gwahoddir yr aelod lleol i fod yn bresennol os yw mater lleol yn codi. Cyfrifoldeb y Tîm Cabinet yw adnabod aelodau lleol ar gyfer eitemau lleol a chyfrifoldeb yr aelod lleol yw sicrhau ei fod/ei bod yn ymwybodol o gynnwys rhaglen y Cabinet.

14. **Hyrwyddo rôl y Cynghorydd** – Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu arolwg i Ymgeiswyr Llywodraeth Leol yn 2012 gan gyhoeddi ei ganfyddiadau yn 2013/14. Prif ganfyddiadau'r arolwg oedd bod diffyg amrywiaeth ymhlith Ymgeiswyr Llywodraeth Leol, yn nhermau pobl ifanc, lleiafrifoedd ethnig a merched. Er enghraifft, dim ond 32% o gynghorwyr etholedig oedd yn ferched, roedd 57% o gynghorwyr dros 60 mlwydd oed ac roedd 99.4% o gynghorwyr etholedig yn wyn. O ganlyniad, mae grŵp tasg cenedlaethol wedi'i sefydlu er mwyn edrych ar ehangu cyfranogiad. Yng Ngwynedd, mae trafodaethau wedi cychwyn ar ddatblygu cynllun hir dymor er mwyn paratoi at etholiadau Llywodraeth Leol 2017 a allai gynnwys ymweld ag ysgolion – a siarad â dosbarthiadau cynradd

ynghylch dadleuon, siarad ag ysgolion uwchradd ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 a'r chweched dosbarth a chysylltiadau â grwpiau allweddol eraill.

15. **Mynediad i'r Anabl** – Yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth y Cynghorydd Peter Read, y Pencampwr Anabledd, a Geraint George, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, gomisiynu adroddiad ar hygyrchedd i Swyddfeydd y Cyngor. Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi cymeradwyo rhaglen synhwyrol o addasiadau i wella hyn.

C. **Cefnogaeth i aelodau craffu a phwyllgorau eraill**

16. **Cyngor ac arweiniad annibynnol ar gyfer Cadeiryddion ac aelodau'r Pwyllgorau Craffu** – Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, yr Uwch Reolwr (Comisiynu Corfforaethol) a'r tîm o fewn yr Adran Strategol a Gwella yn cynghori'r pwyllgorau ar eu rhaglen waith, yn cynnal cyfarfodydd paratoi ac yn cynghori ar y rhaglen waith fyw er mwyn sicrhau bod craffu yn ychwanegu gwerth.

    Mae'r tri Phwyllgor Craffu wedi derbyn hyfforddiant ar eu rôl ac yn derbyn cyngor ac arweiniad annibynnol. Yn ogystal, mae'r Fforwm Craffu, sydd bellach yn cynnwys Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, yn ystyried y rhaglen waith a'r meysydd blaenoriaeth ar draws yr holl bwyllgorau. Ar hyn o bryd, mae hefyd yn ystyried materion perfformiad ac yn cyfeirio unrhyw faterion o bryder i'r Cyfarfod Paratoi perthnasol.

17. **Gweinyddu a chofnodi cyfarfodydd a chyhoeddi'r cofnodion** (craffu ac eraill) – Mae'r Tîm Cefnogol yn trefnu ac yn gwneud cofnodion bras o waith y pwyllgorau craffu a'r pwyllgorau eraill. Mae arddull cofnodion pwyllgorau dan ystyriaeth ar hyn o bryd yn dilyn sylwadau yn yr adolygiad llywodraethu o'r Pwyllgor Archwilio er mwyn eu gwneud nhw'n fwy cryno ac eglur.

    Dylid nodi bod gwaith wedi'i wneud i foderneiddio Siambr Dafydd Orwig a Siambr Hywel Dda. Mae'r systemau sain a chyfieithu wedi gwella'n fawr yn Siambr Dafydd Orwig, ac mae'r system bleidleisio newydd yn haws i'w defnyddio er bod rhai problemau cychwynnol wedi bod wrth ei defnyddio.

    Mae'r gwaith moderneiddio yn ein paratoi ymhellach ar gyfer gofynion y dyfodol yng nghyd-destun gweddarlledu a mynychu cyfarfodydd o bell. Bydd hyfforddiant penodol ar y mater hwn yn cael ei gynnig wrth i'r system gael ei chyflwyno.

18. **Ymchwiliadau Craffu** – Mae'r Ymchwiliadau yn ymgymryd â gwaith i archwilio effaith polisïau ar lawr gwlad. Yn ystod 2013/14, fe wnaeth aelodau'r Pwyllgorau Craffu, gyda chefnogaeth gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd ac Uwch Swyddogion yr Adran Strategol a Gwella, ymgymryd â nifer o ymchwiliadau craffu 'dechrau a gorffen'. Mae pedwar eisoes wedi adrodd i'r Pwyllgorau Craffu a'r

argymhellion wedi'u cyflwyno i'r Aelod Cabinet perthnasol tra bod tri ymchwiliad craffu arall yn dal ar waith.

Pwyllgor Craffu Corfforaethol

- Caffael Cynaliadwy
- Yr Agenda Wledig

Pwyllgor Craffu Gwasanaethau

- Ansawdd Addysg
- Gofal (ar waith)
- Addysg Gymraeg (ar waith)

Pwyllgor Craffu Cymunedau

- Balchder Bangor
- Cludiant Addysg ôl-16 (ar waith)

**Ch. Cefnogaeth i'r holl aelodau – gweinyddol, ymarferol a datblygiadol**

19. **Cefnogaeth weinyddol i'r grwpiau gwleidyddol** – Gweithredir cefnogaeth weinyddol i'r grwpiau gwleidyddol yn unol â phenderfyniad y Cyngor ym mis Mai 2012, gyda'r tri grŵp mwyaf yn derbyn cefnogaeth weinyddol yn unol â'u maint.

20. **Gweinyddu, prosesu a thalu cyflogau a chostau teithio** - Gweinyddu, prosesu a thalu cyflogau a chostau teithio yn unol â chanllawiau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Mae'r canllawiau er mwyn hawlio ar y wefan.

    Fe wnaeth adroddiad gan Archwilio Mewnol yn 2012/13 gadarnhau bod y trefniadau yn gywir ond bod lle i atgoffa aelodau i gyflwyno eu cais bob mis yn unol â'r canllawiau. O ganlyniad, yn 2013/14, defnyddiwyd *Rhaeadr* i atgoffa aelodau am y canllawiau a'r angen iddynt gyflwyno eu ceisiadau bob mis.

    Mae datblygiadau'n parhau ynghylch y posibilrwydd o drethu lwfansau teithio aelodau pan fyddant yn mynychu cyfarfodydd y Cyngor. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau am hyn drwy *Rhaeadr* a byddwn yn rhannu cyfarwyddyd pellach wrth i'r sefyllfa ddod yn fwy eglur.

21. **Adroddiadau blynyddol gan aelodau etholedig** – Rhaid i'r Cyngor wneud trefniadau i alluogi i aelodau etholedig gynhyrchu a chyhoeddi adroddiadau blynyddol, ond nid yw'n orfodol i unrhyw aelod baratoi adroddiad o'r fath. Gweithredwyd peilot o'r drefn hon yn 2012/13 ac, o ganlyniad, cyhoeddwyd wyth adroddiad blynyddol ar gyfer 2012/13. O ganlyniad, eleni rydym wedi cynhyrchu templed safonol i gynorthwyo aelodau wrth gynhyrchu adroddiadau blynyddol yn 2013/14 gyda data ynghylch nifer y pwyllgorau a fynychwyd a nifer y sesiynau hyfforddiant a fynychwyd gan bob aelod unigol eisoes wedi'i gynnwys. Mae cais wedi'i wneud i'r aelodau ddychwelyd eu hadroddiadau erbyn 31 Gorffennaf 2014. Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

22. **Rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant** – Fe wnaeth is-grŵp trawsbleidiol (cyfuniad o aelodau newydd a rhai mwy profiadol) roi cyngor ar y meysydd hyfforddiant yr oedd aelodau'n dymuno eu gweld ac fe wnaeth y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu fwrw ymlaen â chynlluniau gan addasu'r rhaglen hyfforddiant i aelodau yn seiliedig ar waith y grŵp.

    Yn ystod 2013/14, cynigiwyd rhaglen amrywiol i aelodau yn cynnwys sesiynau ar Ddata Perfformiad Ysgolion, Gosod Tai a Digartrefedd, Materion Priodoldeb a Chynllunio, Rhiantu Corfforaethol a Sgiliau Cadeirio. Roedd presenoldeb ar y cyrsiau yn amrywio o rhwng 20 a 30 o aelodau mewn rhai ohonynt, gyda chyn lleied â 5 i 10 o aelodau mewn rhai eraill. Mae hyn yn fater o bryder ac mae cynnwys a chyflwyniad y sesiynau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn eu gwneud nhw mor ddefnyddiol a deniadol â phosib i'r aelodau.

    Mae gwaith pellach yn digwydd ar hyn o bryd i ymateb i ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ac i geisio sicrhau bod Cyngor Gwynedd yn symud ymlaen i gyflawni Siarter Cefnogi a Datblygu Aelodau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **17 Gorffennaf 2014** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR** |
| **PWRPAS** | **Adolygu Cydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Dyrannu Seddau ar Bwyllgorau'r Cyngor** |
| **AWDUR** | **Dyfed Edwards**<br>**Arweinydd Y Cyngor** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Derbyniwyd rhybudd:

i) nad yw'r cynghorydd Charles Wyn Jones bellach yn aelod o Grŵp Plaid Cymru a'i fod yn dymuno cael ei drin fel aelod unigol.

ii) nad yw'r Cynghorydd Linda Ann Jones bellach yn aelod o Grŵp Plaid Cymru a'i bod yn dymuno cael ei thrin fel aelod unigol.

iii) nad yw'r Cynghorydd Louise Hughes bellach yn aelod o Grŵp Llais Gwynedd a'i bod yn dymuno cael ei thrin fel aelod unigol.

1.2 O ganlyniad, mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Plaid Cymru | 35 |
| Annibynnol | 18 |
| Llais Gwynedd | 13 |
| Llafur | 4 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | 2 |
| Aelod Unigol | 3 |
| **Cyfanswm** | **75** |

## 2. DYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

2.1 I atgoffa'r aelodau, nodir yma'r pedair prif reol yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ynglŷn â dyrannu seddau:-

2.2 (a) Ni chaiff pob sedd ar bwyllgor ei dyrannu i'r un grŵp gwleidyddol;

(b) Rhaid dyrannu mwyafrif y seddau ar bwyllgor i grŵp gwleidyddol os yw nifer y personau sy'n perthyn i'r grŵp yn fwyafrif o aelodau'r Cyngor;

(c) Yn amodol ar baragraffau (a) a (b) uchod, bydd nifer y seddau ar y pwyllgorau cyffredin a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un fath â'r nifer o'r holl seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor;

(ch) Yn amodol ar (a),(b) ac (c) uchod, bydd nifer y seddau ar bwyllgor a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un gyfran o'r seddau ar y pwyllgor â'r nifer o seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor.

2.3 Er mwyn sicrhau y glynir wrth y rheolau hyn, mae'r Cyngor wedi bod yn ymdrin â

phwyllgorau mewn blociau gwahanol yn y gorffennol. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i sicrhau y glynir wrth reol (c) ym mharagraff 2.2 uchod hefyd.

## 3. NEWIDIADAU I DDYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

3.1 Mae'r newid yn y cydbwysedd gwleidyddol yn golygu bod Aelod Unigol yn ennill sedd ar y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar draul Grŵp Plaid Cymru sydd yn colli sedd ar y Pwyllgor Craffu Cymunedau.

3.2 Golyga hefyd fod Aelod Unigol yn ennill sedd ar y Pwyllgor Archwilio ar draul Grŵp Plaid Cymru sydd yn colli sedd ar y Pwyllgor Archwilio.

3.3 Golyga hefyd fod Aelod Unigol yn ennill sedd ar y Pwyllgor Iaith ar draul Grŵp Plaid Cymru sydd yn colli sedd ar y Pwyllgor Iaith.

3.4 Golyga hefyd fod Aelod Unigol yn ennill sedd ar y Pwyllgor Apelau Cyflogaeth ar draul Grŵp Plaid Cymru sydd yn colli sedd ar y Pwyllgor Apelau Cyflogaeth.

3.5 Golyga hefyd fod Aelod Unigol yn ennill sedd ar y Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Lleol ar draul Grŵp Plaid Cymru sydd yn colli sedd ar y Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Lleol.

3.6 Golyga hefyd fod Aelod Unigol yn ennill sedd ar y Cyd-bwyllgor AAA ar draul Grŵp Plaid Cymru sydd yn colli sedd ar y Cyd-Bwyllgor AAA.

3.7 Golyga hefyd fod Aelod Unigol yn ennill sedd ar y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar draul Grŵp Llais Gwynedd sydd yn colli sedd ar y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau.

3.8 Golyga hefyd fod Aelod Unigol yn ennill sedd ar y Pwyllgor Trwyddedu Canolog ar draul Grŵp Llais Gwynedd sydd yn colli sedd ar y Pwyllgor Trwyddedu Canolog. (Gweler **Atodiad A**)

3.9 Mae trafodaethau yn cael eu cynnal gyda'r 3 Aelod Unigol i gadarnhau ar ba bwyllgor y mae pob aelod unigol yn dymuno gwasanaethu.

## 4. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Cyngor:

- drafod a chytuno ar y newid i ddyraniad y seddau ar y pwyllgorau fel y noder yn 3.1 - 3.8 uchod yn unol â chytundeb arweinyddion y Grwpiau.

**ATODIAD A**

**PWYLLGORAU CRAFFU**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Corfforaethol | 9 | 4 | 3 | 1 | 1 | |
| Cymunedau | 8 | 4 | 3 | 1 | 1 | 1 |
| Gwasanaethau | 9 | 4 | 3 | 1 | | 1 |
| Archwilio | 8 | 5 | 3 | 1 | | 1 |

**PWYLLGORAU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democratiaeth | 7 | 4 | 3 | 1 | | |
| Cynllunio | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 | |
| Trwyddedu Canolog | 7 | 4 | 3 | | | 1 |
| Iaith | 7 | 4 | 3 | | | 1 |
| Penodi Prif Swyddogion | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 | |
| Apelau Cyflogaeth | 3 | 1 | 1 | 1 | | 1 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y seddau** | **74** | **37** | **29** | **8** | **4** | **2** | **154** |

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 3 | 2 | 1 | | 1 | |
| CYSAG | 3 | 2 | 2 | | | |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 5 | 2 | 2 | 1 | | 1 |
| Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig | 3 | 2 | 1 | | | 1 |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | 4 (3 sedd ac un eilydd) | 2 | 1 | 1 | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Seddau** | **94** | **47** | **36** | **10** | **5** | **2** | **194** |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | PWYLLGOR IAITH |
| **DYDDIAD:** | MEHEFIN 27, 2014 |
| **TEITL:** | YMGYRCH MYNYDDOEDD PAWB |
| **AWDUR:** | SWYDDOG DATBLYGU IAITH |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | CAIS AM GEFNOGAETH GAN YMGYRCH MYNYDDOEDD PAWB |

**DATGANIAD MYNYDDOEDD PAWB**

Mewn cynhadledd, o dan yr enw 'Mynyddoedd Pawb' a gynhaliwyd yng Ngwersyll Glan-llyn, Llanuwchlyn ar y 23ain o Dachwedd 2013 daeth nifer o gymdeithasau ac unigolion ynghyd. Pwrpas y gynhadledd oedd trafod y bygythiad sydd i enwau Cymraeg ar nodweddion tirlun Cymru, megis mynyddoedd, cymoedd a llynnoedd yng ngwyneb proses o ddisodli'r enwau hynny gyda chyfieithiadau i'r Saesneg neu fathu enwau llwyr wahanol yn Saesneg.

Yn sgil y gynhadledd dirprwywyd cynrychiolwyr o'r sefydliadau a'r mudiadau canlynol i lunio datganid a fyddai'n cwmpasu pryderon ac amcanion y gynhadledd: Menter Iaith Conwy; Antur Stiniog; Cymdeithas Edward Llwyd; Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru; Clwb Mynydda Cymru, Yr Urdd a Chymdeithas yr Iaith Gymraeg. Gweler atodiad 1 am gopi o'r datganiad.

Drwy rwydwaith Mentrau Iaith y gogledd daeth cais am gefnogaeth at hunan**iaith** gan drefnwyr ymgyrch Mynyddoedd Pawb.

Galwa ymgyrch Mynyddoedd Pawb gyrff cyhoeddus, y sefydliadau trydedd sector a'r mentrau preifat hynny sy'n weithredol yn y maes amgylcheddol, twristiaeth a gweithgareddau awyr agored i barchu'r cyfoeth o enwau Cymraeg ar nodweddion ar dirlun Cymru.

Yn benodol galwant ar i:

- Lywodraeth Cymru i ddod a newid enwau lleoedd traddodiadol a hir sefydlog dan reolaeth y drefn gynllunio;
- ganolfannau awyr agored barchu enwau lleoedd traddodiadol brodorol;
- asiantaethau cyhoeddus, sefydliadau'r drydedd sector a mentrau preifat sy'n weithredol yn y sectorau amgylcheddol; treftadaeth a thwristiaeth dynnu sylw at y cyfoeth enwau lleoedd sy'n perthyn i dirlun Cymru.

Galwa ymgyrch Mynyddoedd Pawb hefyd ar gyrff cyhoeddus, sefydliadau trydedd sector a mentrau preifat sy'n cefnogi eu hachos ddatgan hynny er mwyn eu gosod mewn sefyllfa gryfach i fynd a'r maen i'r wal.

Mae llythyr o gefnogaeth eisoes wedi ei anfon at drefnyddion yr ymgyrch gan gadeirydd Grŵp Cyfeiriad Strategol hunan**iaith** yn datgan cefnogaeth, gweler atodiad 2.

## TRAFODAETHAU PWYLLGOR IAITH YN Y GORFFENNOL

Yn ei gyfarfod ar Hydref 11, 2012 trafododd y Pwyllgor Iaith yr enwau safonol a roddir ar strydoedd, tai a lleoedd. Bryd hynny nodwyd yr hyn dywed Cynllun Iaith Cyngor Gwynedd:

**"…..enwau Cymraeg yn unig a ddefnyddir gan y Cyngor mewn perthynas ag enwau lleoedd, afonydd, mynyddoedd, strydoedd newydd ac ati, ac ar sefydliadau'r Cyngor ac eithrio lle bo'r Cyngor ei hun wedi awdurdodi defnyddio fersiwn/fersiynau eraill." 4.2.1.**

Nodwyd hefyd yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2012 bwysigrwydd defnyddio enwau Cymraeg lleol ar nodweddion daearyddol megis trwynau, ynysoedd, clogwyni ayb. A hefyd i sicrhau enwau Cymraeg ar Lwybr Arfordir Cymru.

Ymddengys fod ewyllys da a chefnogaeth i amcanion yr ymgyrch yn eang ac y byddai cefnogith ystod o fudiadau ac asiantaethau yn Gymorth I ddwyn ffrwyth. Mae Mapiau'r Ordnans eisoes, fel ac yr adroddwyd i'r Pwyllgor Iaith fis Hydref, 2012 wedi datgan eu bod yn agored i ystyried newid iaith enwau penodol ar gais budd-ddeiliaid tebyg i awdurdodau lleol neu Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru.

## GOFYNNIR I'R PWYLLGOR:

Roi eu sylwadau ar gais ymgyrch Mynyddoedd Pawb am gefnogaeth i'w amcanion

I ystyried cysylltu â threfnwyr yr ymgyrch i ddatgan cefnogaeth Pwyllgor Iaith Cyngor Gwynedd a'r amcanion hynny.

**ATODIAD 1**

**Penderfyniad Cynhadledd 'Mynyddoedd Pawb' a gynhaliwyd yng Ngwersyll Glan-llyn, Llanuwchllyn ar 23ain o Dachwedd, 2013:**

*"Dymunwn fynegi pryder bod prosesau ar waith sy'n peryglu enwau lleoedd Cymraeg. Y prosesau y cyfeiriwn atynt yw 1. Anwybyddu enw Cymraeg ar le, a rhoi enw Saesneg arno. 2. Gosod enw Saesneg ochr yn ochr ag enw Cymraeg yn ddiangen, gyda'r enw Saesneg yn cael ei ddefnyddio'n gynyddol mewn cyhoeddiadau ac ar y cyfryngau. 3. Peidio â chynnwys enwau Cymraeg ar fapiau, gydag enwau Saesneg yn cael eu bathu ar gyfer y lleoedd. 4. Disodli enwau Cymraeg gwreiddiol trwy ddefnyddio cyfieithiadau o enwau Saesneg ar y lleoedd.*

*Yr ydym o'r farn y dylid codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd diogelu enwau lleoedd Cymraeg, a bod gan sefydliadau a chymdeithasau gwirfoddol, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, ran allweddol yn y gorchwyl. Hefyd, dylai'r ysgolion sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i werthfawrogi cyfoeth enwau lleoedd Cymraeg fel rhan o'u hetifeddiaeth genedlaethol.*

*Credwn y dylai enwau lleoedd ynghyd a'r dreftadaeth a'r hanes sy'n gysylltiedig â nhw, fod yn rhan annatod o gyrsiau astudiaethau'r amgylchedd mewn addysg bellach ac addysg uwch, ac o gyrsiau gweithgareddau awyr agored gan gyrff eraill. Dylid sicrhau bod cyrff hyfforddi, canolfannau a chlybiau sy'n ymwneud â mynydda a gweithgareddau awyr agored yn parchu enwau lleoedd Cymraeg.*

*Gofynnwn i'r cyrff perthnasol megis Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru,Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (sydd â dyletswydd i ''Warchod a gwella ….. treftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol') ynghyd a chyrff eraill yn y sectorau statudol, cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat, i gymryd camau priodol i ddiogelu enwau lleoedd Cymraeg."*

Dylem ddathlu cyfoeth ein henwau lleoedd:

i ysgogi parch a diddordeb yn yr iaith Gymraeg ac i sicrhau a chynyddu'r defnydd ohoni.
cynyddu'r ymdeimlad o hunaniaeth ymysg cymunedau lleol a rhannu cyfoeth ein treftadaeth ddiwylliannol gydag eraill.
gall ennyn diddordeb ac ymwybyddiaeth ymwelwyr o gyfoeth ein treftadaeth leol ddod a buddion addysgiadol ac economaidd i ardaloedd.

ATODIAD 2

Mai 15fed, 2014

Esyllt Tudur
Mynyddoedd Pawb
Menter Iaith Conwy
Y Sgwar
Llanrwst
LL26 0LG

Annwyl Esyllt

Diolch i chi am y cyfle i ddatgan cefnogaeth hunaniaith i ymgyrch Mynyddoedd Pawb.

Hoffwn yn gyntaf groesawu sefydlu'r ymgyrch. Dros gyfnod hir o'n hanes fel Cymry bu enwau ein mynyddoedd a'n hafonydd a nodweddion eraill ein tirwedd yn graddol newid. Mynnodd llywodraethau, awdurdodau, busnesau ac unigolion fathu enwau Saesneg o'r newydd oherwydd eu hanwybodaeth neu eu hamharodrwydd i gydnabod dilysrwydd enwau Cymraeg. A thrwy hynny, fe gollwyd rhai enwau am byth, a gyda nhw talp pwysig o'n hanes fel Cymry.

O safbwynt personol mi ydw i wedi bod yn ymwneud â gwarchod ac arddel enwau Cymraeg ers blynyddoedd, boed hynny gyda Chymdeithas yr Iaith neu fel aelod o gynghorau sir a chymuned.

Gallaf ddatgan yma gefnogaeth lwyr hunan**iaith** i'r ymgyrch. Byddaf hefyd yn gosod ymgyrch Mynyddoedd Pawb fel eitem ar raglen nesaf cyfarfod ein Grŵp Cyfeiriad Strategol. Bryd hynny gallwn fel grŵp aml asiantaethol adnabod dulliau pellach o hyrwyddo'r ymgyrch yma yng Ngwynedd.

Byddwn hefyd yn croesawu'r cyfle i weithio ar y cyd gyda holl Fentrau Iaith Cymru i sicrhau fod yr ymgyrch yn derbyn sylw ym mhob cwr o Gymru yn ogystal ag ar lefel genedlaethol.

Edrychaf ymlaen at gydweithio'n bellach.

Yn gywir,

Dafydd Iwan
Cadeirydd Grŵp Cyfeiriad Strategol hunan**iaith**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD** | **17 GORFFENNAF 2014** |
| **PWNC** | **CYNLLUN STRATEGOL Y CYNGOR** |
| **AWDURON** | **Y Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor**<br>**Geraint George, Pennaeth Strategol a Gwella** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Mabwysiadu'r uchelgais ar gyfer y mesuryddion sydd wedi eu hamlygu yn y Cynllun Strategol.** |

**1. Cyflwyniad:**

1.1 Cafodd y Cynllun Strategol ei fabwysiadu gan y Cyngor Llawn ar y 1af o Fai 2014. Ar y pryd, roedd ychydig o fylchau yn y wybodaeth mewn perthynas â rhai o'r mesuryddion o fewn y cynllun. Penderfynwyd, felly, cyflwyno gwybodaeth bellach am y mesuryddion hyn yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Llawn ar yr 17eg o Orffennaf 2014.

**2. Mesuryddion y Cynllun Strategol:**

2.1 Mae gwybodaeth gyflawn yn ei le ar gyfer y mwyafrif o'r mesuryddion oedd angen sylw pellach. Yr unig fylchau nawr sydd angen eu llenwi yw'r 13 Mesurydd Canlyniad lle mae angen sefydlu gwaelodlin a phennu uchelgais ar eu cyfer. Bydd y gwaith yma yn cael ei gwblhau yn ystod 2014 – 15.

2.2 Cyflwynir fersiwn diwygiedig o'r Cynllun Strategol yn Atodiad 1. Mae'r Cyngor Llawn eisoes wedi mabwysiadu'r Cynllun Strategol, felly tynnir sylw Aelodau yn benodol at yr uchelgais sydd wedi cael ei bennu ar gyfer y mesuryddion sydd wedi eu hamlygu yn y ddogfen ar dudalennau 14, 16, 18, 19, 22, 23, 24, 28, 31, 33, 36 a 37.

**3. Argymhelliad:**

**3.1 Gwahoddir y Cyngor Llawn i fabwysiadu'r uchelgais ar gyfer y mesuryddion sydd wedi eu hamlygu yn y Cynllun Strategol.**

# CYNLLUN STRATEGOL CYNGOR GWYNEDD

# 2013 - 17

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

www.gwynedd.gov.uk

**CYNNWYS**


| | |
|---|---|
| 1. CYFLWYNIAD YR ARWEINYDD A'R PRIF WEITHREDWR | 03 |
| 2. PROFFIL O WYNEDD A'R CYNGOR | 04 |
| 3. ADOLYGU'R CYNLLUN | 06 |
| 4. STRWYTHUR Y CYNLLUN | 08 |
| 5. CYFLAWNI'R CYNLLUN | 11 |
| 6. MAES PLANT A PHOBL IFANC | 12 |
| 7. MAES GOFAL, IECHYD A LLES | 20 |
| 8. MAES YR ECONOMI | 26 |
| 9. MAES YR AMGYLCHEDD | 30 |
| 10. MAES CYMUNEDAU CRYF | 34 |
| 11. MAES DIWYLLIANT A THREFNIADAU BUSNES Y CYNGOR | 38 |
| 12. ATODIAD 1 – CYD-DESTUN ARIANNOL AR GYFER Y CYNLLUN STRATEGOL | 42 |

## 1. CYFLWYNIAD YR ARWEINYDD A'R PRIF WEITHREDWR

Mae'n amlwg datgan bod y cyfnod yr ydym yn ei wynebu fel Sir ac fel Cyngor yn un eithriadol o heriol. Mae pwysau ar wasanaethau cyhoeddus yn codi o ddisgwyliadau uwch a hefyd crebachu i raddau na welwyd ei debyg o'r blaen ar yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer darparu gwasanaethau.

Ar adeg heriol fel hyn, mae ffocws clir a phendant yn allweddol. Ffocws y Cynllun hwn yw **"cefnogi pobl Gwynedd i ffynnu mewn cyfnod anodd"**. Nod y Cyngor felly yw cynnal safon uchel o wasanaethau dydd i ddydd a hefyd newid a gwella mewn ffyrdd sydd yn arbed arian ac yn cynnig canlyniadau da i bobl Gwynedd.

Felly, hyd yn oed ar adeg heriol, mae gennym fel Cyngor uchelgais glir iawn ac mae'r Cynllun hwn yn amlygu'r uchelgais hynny ar draws 6 maes thematig lle y mae'r Cyngor yn dymuno gwneud gwahaniaeth i drigolion y Sir. Ond, oherwydd yr amgylchiadau ariannol digynsail, bydd rhaid i'r Cyngor fod yn hyblyg wrth ymateb i'r holl fygythiadau a chyfleoedd sy'n codi yn y cyfnod dan sylw ac ymarfer yr ystwythder sy'n gysylltiedig gydag ysbryd o fentergarwch cyhoeddus.

Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn ymrwymo i anelu at gyflawni'r canlyniadau sydd yn cael eu cynnig yn y ddogfen hon er lles ein trigolion. Un peth sydd yn amlwg yw na all y Cyngor wneud hyn oll ar ei ben ei hun. Byddwn yn dibynnu ar bartneriaid o'r sectorau cyhoeddus, trydydd sector a busnes a hefyd ar drigolion i ganfod a gweithredu atebion sydd yn mynd i weithio ar lawr gwlad.



Dyfed Edwards
**Arweinydd y Cyngor**



Harry Thomas
**Prif Weithredwr**

## 2. PROFFIL O WYNEDD A'R CYNGOR

Cyflwynir isod ychydig o ffeithiau am Sir Gwynedd a'r Cyngor:




- Mae 75 Aelod Lleol yn eistedd ar Gyngor Gwynedd. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ddarparu ystod eang o wasanaethau cyhoeddus ar gyfer 122,100 o breswylwyr, gan gynnwys: addysg ac ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol, canolfannau hamdden, llyfrgelloedd, gwasanaethau cynllunio, priffyrdd, rheoli gwastraff, gwarchod y cyhoedd, gwasanaethau ieuenctid a datblygu'r economi.

- Ers 2001, mae poblogaeth Gwynedd wedi cynyddu o 4.5% (5,298 o bobl). Mae hyn yn cymharu gyda chynnydd o 5.6% yng Nghymru.

- Mae Gwynedd yn ardal wledig fawr sydd yn 2,535 cilomedr sgwâr o faint mewn termau daearyddol. Gwynedd yw'r ail Sir fwyaf yng Nghymru ac mae'n werth 12% o gyfanswm arwynebedd y wlad.

- Mae 65% o drigolion Gwynedd yn siarad Cymraeg a hithau hefyd yw iaith weinyddol fewnol y Cyngor.

- Yn 2013 - 14, roedd Gwariant Refeniw Crynswth y Cyngor yn £369.3 miliwn. Ymhlith amrywiaeth eang o wasanaethau eraill, defnyddiwyd yr arian hwn i addysgu dros 16,000 o breswylwyr, cynnal 2,882 cilomedr o briffyrdd a 301 cilomedr o arfordir.

- Mae 97 Ysgol Gynradd, 14 Ysgol Uwchradd a 3 Ysgol Arbennig yng Ngwynedd.

- Mae'r Cyngor yn gyfrifol am redeg 14 Canolfan Hamdden o fewn y Sir ac 17 o Lyfrgelloedd.

- Mae amgylchedd naturiol Gwynedd yn atyniad gwerthfawr o ran denu twristiaeth. Yn 2011, daeth oddeutu 7.2 miliwn o ymwelwyr i Wynedd gan greu £916 miliwn mewn refeniw.

- Mae 67.5% o dir Gwynedd wedi ei leoli o fewn Parc Cenedlaethol Eryri, y parc cenedlaethol mwyaf yng Nghymru.

- Cafodd ran helaeth o Ben Llŷn ei ddynodi yn Ardal o Harddwch Naturiol yn 1956, un o bump yng Nghymru.

- Yn 2013, roedd canolrif incwm cartref yng Ngwynedd (£22,111) yn 11% yn is na'r ffigwr ar gyfer Cymru (£24,721) ac 20% yn is na'r ffigwr ar gyfer Prydain (£27,510).

- Yn 2012, y pris canolrif ar gyfer tŷ yn cael ei werthu yng Ngwynedd oedd £136,000 sydd yn gynnydd o 3.0% o'i gymharu â 2011.

- Amcangyfrifir bydd nifer yr aelwydydd yng Ngwynedd wedi cynyddu o 12.5% erbyn 2036. Mae hyn yn llai na'r amcangyfrif o gynnydd ar gyfer Cymru oll, sef 14.6%.

- Yn ôl Arolwg Panel Trigolion Gwynedd (2013):

  - Roedd 92.3% o bobl yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda Gwynedd fel lle i fyw;

  - Roedd 63.4% yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r ffordd mae Cyngor Gwynedd yn rhedeg pethau;

  - Roedd 54.5% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod Cyngor Gwynedd yn cynnig gwerth am arian;

  - Roedd 14.4% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf fod Cyngor Gwynedd yn cynnig gwerth am arian;

  - Roedd 39.3% yn anghytuno eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol, ond roedd 37.0% yn cytuno eu bod yn gallu dylanwadu ar y gwasanaethau maent yn eu defnyddio.

Gellir cael mwy o wybodaeth am y Cyngor a'i wasanaethau drwy ymweld â'r wefan - www.gwynedd.gov.uk

## 3. ADOLYGU'R CYNLLUN

Cafodd y Cynllun Strategol gwreiddiol ar gyfer 2013 – 17 ei fabwysiadu gan y Cyngor ym mis Mai 2013. Cafodd ei baratoi mewn sawl cam, fel a ganlyn:

- Cam Un - Asesu Anghenion a Sganio'r Gorwel:

Cychwyn y gwaith o baratoi'r Cynllun oedd adnabod y prif yrwyr cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a pholisi sydd yn dylanwadu'r Cyngor a'r Sir ac sy'n debygol o wneud hynny yn y blynyddoedd nesaf. Yn ogystal, cynhaliwyd arolygon gyda thrigolion y Sir a staff ac Aelodau Etholedig y Cyngor er mwyn casglu gwybodaeth am eu profiadau o fyw a gweithio yng Ngwynedd a rhoi cyfle iddynt leisio'u barn ar y materion y dylid eu blaenoriaethu yn y Cynllun.

- Cam Dau - Adnabod Blaenoriaethau Drafft:

Yr ail gam yn y broses oedd defnyddio'r data a gwybodaeth allweddol a gasglwyd yn ystod Cam Un i adnabod blaenoriaethau drafft ar gyfer y Cynllun. Fel rhan o'r gwaith hwn, rhoddwyd ystyriaeth i'r prif gyfleoedd a heriau sy'n wynebu'r Sir ar draws nifer o feysydd, eu heffaith posibl ar drigolion Gwynedd a gallu'r Cyngor i wneud gwahaniaeth arwyddocaol yn y meysydd hynny. Rhoddwyd y cyfle i drigolion y Sir a'n partneriaid i leisio'u barn ar y blaenoriaethau drafft.

- Cam Tri - Cadarnhau'r Blaenoriaethau a Datblygu Cynigion Cyflawni:

Y cam nesaf oedd cadarnhau'r blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun a datblygu cyfres o gynigion ar gyfer eu cyflawni. Datblygwyd cynigion ar gyfer rhai meysydd penodol ac adnabuwyd yr angen i gwblhau gwaith pellach yn ystod 2013 - 14 er mwyn datblygu cynigion pendant ar gyfer meysydd eraill. Rhoddwyd ystyriaeth gofalus i faterion cydraddoldeb, iaith a chynaliadwyedd drwy gydol y broses o baratoi'r Cynllun er mwyn sicrhau ei fod yn cael effaith cadarnhaol ar grwpiau penodol o fewn y boblogaeth, yr amgylchedd a'r iaith Gymraeg.

Wrth lunio'r cynigion ar gyfer 2014 - 15, rhoddwyd sylw i ddau fater pwysig fydd yn cael effaith ar flaenoriaethau a siâp y Cyngor i'r dyfodol:

- Yn gyntaf, bydd llai o arian ar gael dros y blynyddoedd nesaf i gynnal gwasanaethau. Mae hyn yn golygu y bydd rhaid i ni ganfod ffyrdd newydd a gwahanol o ddarparu gwasanaethau o ansawdd i'r dyfodol i drigolion y Sir.

- Yn ail, mae adroddiad Comisiwn Syr Paul Williams ar ddyfodol gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn awgrymu lleihau nifer cynghorau Gogledd Cymru o chwech i dri. Yn ddibynnol ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad, bydd unrhyw ad-drefnu a newid mewn patrwm gwasanaethau yn sicr o gael dylanwad ar ein ffordd o weithio dros y blynyddoedd nesaf.

Rhoddwyd sylw hefyd i yrwyr cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a pholisi newydd sydd yn dylanwadu'r Cyngor a'r Sir nawr ac sy'n debygol o wneud hynny yn y blynyddoedd nesaf. Yn ogystal, rhoddwyd y cyfle i drigolion y Sir a'n partneriaid leisio'u barn ar y blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf.

Rhestrir isod y prif addasiadau a wnaed i'r Cynllun yn dilyn yr adolygiad:

<u>Blaenoriaethau:</u>

Mae nifer y blaenoriaethau wedi lleihau o 24 i 21:

- Rydym wedi cyfuno dwy flaenoriaeth o fewn y Maes Gofal, Iechyd a Lles (*Ymateb yn well i anghenion pobl fregus i sicrhau gwasanaethau gofal cynaliadwy* a *Chynyddu gwaith ataliol ym maes gofal oedolion a phobl hŷn*) er mwyn sefydlu blaenoriaeth newydd, sef: *Ymateb yn Well i Anghenion Pobl sydd Angen Cefnogaeth, Cynyddu'r Gefnogaeth Gymunedol sydd ar gael a Sicrhau Gwasanaethau Gofal Cynaliadwy*.

- Rydym wedi dileu'r flaenoriaeth *Hybu balchder a chyfrifoldeb cymunedol* o'r Maes Cymunedau Cryf. Ond, bydd elfennau o'r gwaith yn parhau i dderbyn sylw o dan y flaenoriaeth *Lleihau'r galw ar wasanaethau drwy atal ac ymyrraeth gynnar* o fewn y Maes Diwylliant a Threfniadau Busnes y Cyngor.

- Rydym wedi dileu'r flaenoriaeth *Manteisio ar 'faint' y Cyngor er lles pobl Gwynedd* o'r Maes Diwylliant a Threfniadau Busnes y Cyngor. Ond, bydd elfennau o'r gwaith yn parhau i dderbyn sylw o dan y flaenoriaeth *Lleihau'r galw ar wasanaethau drwy atal ac ymyrraeth gynnar* o fewn y Maes Diwylliant a Threfniadau Busnes y Cyngor.

<u>Canlyniadau:</u>

Mae'r canlyniadau oll yn canolbwyntio ar bobl Gwynedd ac yn fwy eglur a phendant o ran y gwahaniaeth a geisir erbyn diwedd cyfnod y Cynllun.

<u>Prosiectau:</u>

Rydym wedi penderfynu terfynu rhai prosiectau er mwyn rhyddhau capasiti ac arian i ganolbwyntio ar faterion eraill. Rhestrir isod y prosiectau sydd wedi eu dileu o'r Cynllun:

- Prosiect Rhaglen Cyflenwyr Gwynedd
- Prosiect Ymateb i Fygythiadau Newid Hinsawdd (Tymor Hir)
- Prosiect Iaith – 'Amodau Gweithio mewn partneriaeth'

<u>Mesuryddion:</u>

Rydym hefyd wedi addasu a mireinio rhai o'r mesuryddion canlyniad er mwyn sicrhau y gallwn fesur yn well effaith ein gwaith ar drigolion Gwynedd.

## 4. STRWYTHUR Y CYNLLUN

Ein nod yw sicrhau *Y Gorau ar gyfer Pobl Gwynedd Heddiw ac Yfory* ac rydym yn gwneud hynny yn bennaf trwy ein busnes arferol, sef y gwasanaethau sydd yn cael eu darparu yn ddyddiol. Mae'r Cynllun hwn, fodd bynnag, yn rhoi sylw penodol i'n blaenoriaethau a'r prif newidiadau rydym yn ymrwymo iddynt dros y blynyddoedd nesaf.

Mae'r ddogfen hon wedi ei strwythuro o gwmpas y meysydd canlynol:

- Plant a Phobl Ifanc
- Gofal, Iechyd a Lles
- Yr Economi
- Yr Amgylchedd
- Cymunedau Cryf
- Diwylliant a Threfniadau Busnes y Cyngor

Mae gennym **weledigaeth** ar gyfer pob maes. Mae'r gweledigaethau maes yn cyfrannu at brif weledigaeth y Cynllun, sef: *Cefnogi pobl Gwynedd i ffynnu mewn cyfnod anodd*, ac yn disgrifio ein huchelgais ar gyfer y maes dros y blynyddoedd nesaf.

| **Gweledigaeth Maes Plant a Phobl Ifanc** | **Gweledigaeth Maes Gofal, Iechyd a Lles** |
|---|---|
| *Cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i fyw bywydau cyflawn* | *Ysbrydoli pobl Gwynedd i fyw bywydau iach*<br><br>*Cefnogi pobl fregus i fyw bywydau cyflawn* |
| **Gweledigaeth Maes Yr Economi** | **Gweledigaeth Maes Yr Amgylchedd** |
| *Gwella'r cyfleoedd i bobl Gwynedd fyw, gweithio a llwyddo'n lleol* | *Hybu cyflenwad addas o gartrefi i bobl Gwynedd*<br><br>*Hybu amgylchedd diogel a chynaliadwy, gyda chysylltiadau hwylus* |
| **Gweledigaeth Maes Cymunedau Cryf** | **Gweledigaeth Maes Diwylliant a Threfniadau Busnes y Cyngor** |
| *Cydweithio i greu dyfodol hyderus a Chymraeg*<br><br>*Lleihau effaith amddifadedd ar bobl Gwynedd* | *Pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud* |

Rydym wedi pennu cyfres o **flaenoriaethau** ar gyfer pob maes. Mae'r blaenoriaethau yn canolbwyntio ar y materion byddwn yn rhoi sylw pennaf iddynt dros y blynyddoedd nesaf. Y blaenoriaethau yw **amcanion gwella'r** Cyngor ar gyfer cyfnod y Cynllun. Rydym wedi pennu 21 o flaenoriaethau i gyd:

| Blaenoriaethau Maes Plant a Phobl Ifanc |
|---|
| P1: Codi Safonau Addysgol Plant a Phobl Ifanc<br>P2: Gwella Profiadau a Chyfleoedd i Grwpiau Bregus o Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd<br>P3: Gwella Addasrwydd y Gyfundrefn Ysgolion<br>P4: Paratoi Pobl Ifanc yn Well ar gyfer Byw a Gweithio yn Lleol |
| **Blaenoriaethau Maes Gofal, Iechyd a Lles** |
| GOF1: Ymateb yn Well i Anghenion Pobl sydd Angen Cefnogaeth, Cynyddu'r Gefnogaeth Gymunedol sydd ar gael a Sicrhau Gwasanaethau Gofal Cynaliadwy<br>GOF2: Diogelu Plant ac Oedolion<br>GOF3: Gwella'r Amodau a'r Cyfleon i Drigolion Gwynedd Allu Byw'n Iach |
| **Blaenoriaethau Maes Yr Economi** |
| ECON1: Cryfhau Gwytnwch Busnesau'r Sir a Chadw'r Budd yn Lleol<br>ECON2: Gwella Ansawdd Swyddi a Lefelau Cyflog<br>ECON3: Gwella Mynediad Pobl y Sir i Waith ac Ymateb i Rwystrau |
| **Blaenoriaethau Maes Yr Amgylchedd** |
| AMG1: Hybu Cyflenwad Addas o Dai ar gyfer Pobl Leol<br>AMG2: Lleihau Allyriadau Carbon<br>AMG3: Ymateb i Fygythiadau Newid Hinsawdd<br>AMG4: Lleihau Faint o Wastraff sy'n Mynd i'w Dirlenwi |
| **Blaenoriaethau Maes Cymunedau Cryf** |
| CC1: Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg<br>CC2: Mynd i'r Afael â Thlodi ac Amddifadedd<br>CC3: Hybu Cymunedau Gwledig Cynaliadwy |
| **Blaenoriaethau Maes Diwylliant a Threfniadau Busnes y Cyngor** |
| DT1: Hybu Diwylliant drwy'r Cyngor Cyfan o Roi Pobl Gwynedd yn Ganolog i'n Holl Waith a'n Penderfyniadau<br>DT2: Ymgysylltu'n Effeithiol â Phobl Gwynedd a Sicrhau eu Cyfranogaeth a'u Perchnogaeth o'r Dyfodol<br>DT3: Gwneud Defnydd Mwy Effeithlon o Adnoddau, Gan Geisio Lleihau Effaith Toriadau ar Bobl Gwynedd<br>DT4: Lleihau'r Galw ar Wasanaethau Drwy Atal ac Ymyrraeth Gynnar |

Yn ogystal, rydym wedi adnabod cyfres o **ganlyniadau** i drigolion Gwynedd. Mae'r canlyniadau hyn yn disgrifio'r prif wahaniaeth rydym eisiau ei gyflawni i drigolion erbyn 2017. Cyflwynir isod trosolwg o'r canlyniadau fesul maes. Defnyddir saethau i ddisgrifio'r gwahaniaeth a geisir:

⇧ - Mwy / Cynyddu

⇩ - Llai / Lleihau

⇔ - Cynnal

| Canlyniadau Maes Plant a Phobl Ifanc |
|---|
| ⇧ Perfformiad disgyblion ym maes Safon Trothwy Lefel 2+ |
| ⇧ Perfformiad disgyblion ym maes Mathemateg Lefel 2 |
| ⇧ Disgyblion yn derbyn yr un safon dda o addysg o fewn ysgolion ar draws y Sir |
| ⇧ Plant a phobl ifanc yn barod ar gyfer y cyfnod addysgol nesaf |
| ⇧ Presenoldeb disgyblion Ysgolion Cynradd ac Uwchradd |
| ⇩ Disgyblion yn cael eu gwahardd am gyfnodau penodol (Cynradd ac Uwchradd) |
| ⇩ Disgyblion yn cael eu gwahardd yn barhaol (Uwchradd) |
| ⇧ Plant a phobl ifanc yn cael eu haddysgu mewn amgylchedd ddysgu o ansawdd er gwella safonau |
| ⇧ Pobl Ifanc gyda sgiliau bywyd a gwaith addas |
| ⇧ Perfformiad addysgol disgyblion Cinio Ysgol am Ddim |
| ⇧ Perfformiad addysgol Plant Mewn Gofal |
| ⇩ Teuluoedd bregus yn datblygu problemau dwys a chymhleth |
| ⇩ Plant yn cael eu hystyried fel Plant Mewn Angen |
| ⇩ Plant yn cael eu derbyn i ofal |
| ⇩ Plant gydag Anghenion Addysgol Arbennig |
| ⇧ Plant a phobl ifanc gydag Anghenion Addysg arbennig yn cyflawni yn erbyn eu targedau |
| ⇩ Pobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant neu'n hawlio'r Lwfans Ceiswyr Gwaith |
| **Canlyniadau Maes Gofal, Iechyd a Lles** |
| ⇧ Pobl yn derbyn cefnogaeth gymunedol |
| ⇧ Pobl Gwynedd yn cael dewis eang o wasanaethau ataliol |
| ⇧ Pobl Gwynedd yn cael dewis ehangach a mwy addas o lety ar draws y Sir |
| ⇧ Pobl Gwynedd yn derbyn gwasanaethau sy'n cwrdd â'u hanghenion yn well |
| ⇧ Gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i bobl sydd angen |
| ⇧ Ansawdd yr asesiadau risg sy'n cael eu cyflwyno i Gynhadledd Achos |
| ⇧ Aelodau staff newydd a presennol yn derbyn hyfforddiant diogelu pwrpasol |
| ⇧ Gweithrediad trefniadau diogelu mewn cyrff / asiantaethau mae'r Cyngor yn eu comisiynu |
| ⇧ Iechyd Pobl Gwynedd |
| **Canlyniadau Maes Yr Economi** |
| ⇧ Swyddi ar gyfer pobl Gwynedd yn cael eu gwarchod a'u creu |
| ⇧ Busnesau lleol yn gystadleuol ac yn goroesi |
| ⇧ Swyddi gwerth uchel ar gael i bobl y Sir |
| ⇧ Dewis o swyddi amrywiol i bobl ar draws Gwynedd |
| ⇧ Pobl y Sir efo'r sgiliau sydd eu hangen gan gyflogwyr lleol |
| ⇧ Pobl yn symud o fudd-daliadau i waith |
| **Canlyniadau Maes Yr Amgylchedd** |
| ⇧ Pobl Gwynedd yn cael unedau tai addas |
| ⇩ Allyriadau carbon y Cyngor |
| ⇧ Pobl Gwynedd yn ymdopi'n well efo llifogydd |
| ⇧ Ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio gan bobl a busnesau Gwynedd |
| **Canlyniadau Maes Cymunedau Cryf** |
| ⇧ Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc y tu allan i'r ysgol |
| ⬄ Cymunedau gyda dros 70% o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg |
| ⬄ Cymunedau sydd wedi gostwng o dan 70% |
| ⇩ Dirywiad cymharol mewn adnoddau cyhoeddus i'r Cyngor oherwydd natur wledig y Sir |
| ⇧ Pobl yn gallu ymdopi yn annibynnol efo'r her ariannol yn deillio o'r drefn Diwygio Lles |
| ⇩ Pobl yn cael eu derbyn yn ddigartref |
| ⇩ Pobl dan anfantais oherwydd tlodi |
| **Canlyniadau Maes Diwylliant a Threfniadau Busnes y Cyngor** |
| ⇧ Pobl yn derbyn gwasanaethau sydd yn cwrdd â'u hanghenion ac yn cynnig gwerth am arian |
| ⇧ Pobl Gwynedd yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau sydd yn effeithio ar eu bywydau a'u hardal |
| ⬄ Cyflawni arbedion o £15m heb wneud toriadau |
| ⇩ Galw am wasanaethau |
| ⇩ Cost darparu gwasanaethau |
| ⇧ Canlyniadau i drigolion Gwynedd |

Byddwn yn gweithredu cyfres o **brosiectau** er mwyn cyflawni'r canlyniadau uchod a gwireddu ein blaenoriaethau. Rhestrir pob prosiect fesul blaenoriaeth a rhoddir sylw yn benodol i'r addewidion bydd y prosiectau yn anelu i'w cyflawni yn ystod 2014 - 15.

Byddwn yn defnyddio **mesuryddion canlyniad** er mwyn mesur cynnydd y prosiectau o safbwynt cyflawni'r canlyniadau a gwireddu'r blaenoriaethau. Rydym wedi pennu **uchelgais** ar gyfer pob mesurydd canlyniad, sef maint y gwahaniaeth rydym eisiau ei gyflawni i drigolion Gwynedd.

Byddwn hefyd yn mesur y mesuryddion allweddol eraill sydd yn berthnasol i feysydd y Cynllun, sef **Mesuryddion Allweddol y Cyngor** a **Mesuryddion Strategol Cenedlaethol**.

Mae Mesuryddion Allweddol y Cyngor un ai yn:

- Bwysig i fywyd dydd i ddydd pobl Gwynedd.
- Adlewyrchu iechyd corfforaethol y Cyngor.

Defnyddir Mesuryddion Strategol Cenedlaethol i fesur perfformiad Awdurdodau Lleol ar lefel genedlaethol. Mae pob mesurydd yn cyd-fynd ag un neu fwy o flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru. Mae rhai o Fesuryddion Canlyniad a Mesuryddion Allweddol y Cyngor hefyd yn Fesuryddion Strategol Cenedlaethol.

Yn olaf, rydym wedi llunio **Strategaeth Ariannol** am oes y Cynllun Strategol gan sicrhau fod yr adnoddau priodol mewn lle i wireddu'r hyn sy'n cael ei gynnwys yn y Cynllun. Gellir gweld y strategaeth yn Atodiad 1.

## 5. CYFLAWNI'R CYNLLUN

Mae cyflawni'r Cynllun yn flaenoriaeth bwysig yn ei hun. Rydym wedi rhoi trefniadau priodol mewn lle ar bob lefel o fewn y Cyngor er mwyn cyflawni'r Cynllun ac mae gan bawb rhan bwysig i'w chwarae yn hynny.

Y Cyngor Llawn sydd yn gyfrifol am fabwysiadu'r Cynllun Strategol a gosod y cyfeiriad i waith y Cyngor dros y blynyddoedd nesaf.

Bydd Aelodau Cabinet y Cyngor yn gyfrifol am weithredu'r Cynllun Strategol o fewn eu meysydd o gyfrifoldeb ac yn sicrhau fod trefniadau rheoli prosiect a rheoli perfformiad cadarn mewn lle i gyflawni'r canlyniadau a gwireddu'r blaenoriaethau.

Bydd y Pwyllgorau Craffu yn dal yr Aelodau Cabinet i gyfrif am eu perfformiad o safbwynt cyflawni'r canlyniadau a byddant hefyd yn craffu effaith y Cynllun ar drigolion Gwynedd.

Bydd y Cyngor yn parhau i gydweithio gyda'i bartneriaid yn y sector gyhoeddus, trydydd sector a sector breifat i wireddu blaenoriaethau sydd angen mewnbwn gan fwy nag un partner i'w cyflawni.

Fel rhan o'n hymrwymiad i roi pobl Gwynedd yng nghanol popeth mae'n wneud, byddwn yn ymgysylltu'n barhaus gyda thrigolion a chymunedau er mwyn rhoi cyfleoedd iddynt ddylanwadu ar waith y Cyngor a'u grymuso i gymryd perchnogaeth a chyfrifoldeb o'r dyfodol.

## 6. MAES PLANT A PHOBL IFANC

| Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y maes? |
|---|
| P1: Codi Safonau Addysgol Plant a Phobl Ifanc<br>P2: Gwella Profiadau a Chyfleoedd i Grwpiau Bregus o Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd<br>P3: Gwella Addasrwydd y Gyfundrefn Ysgolion<br>P4: Paratoi Pobl Ifanc yn Well ar gyfer Byw a Gweithio yn Lleol |

**Pam fod y rhain yn flaenoriaethau?**

- Mae perfformiad ysgolion Gwynedd yn annigonol o ran Safon Trothwy Lefel 2+ a chanlyniadau Mathemateg o'u cymharu â chanlyniadau mewn pynciau eraill yng Nghyfnod Allweddol 4. Yn ogystal, mae angen cau'r bwlch canlyniadau rhwng disgyblion drwy wella cyrhaeddiad grwpiau penodol o ddisgyblion sydd yn tanberfformio (e.e. disgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim, Plant Mewn Gofal). Mae angen hefyd lleihau'r anghysonderau rhwng canlyniadau ysgolion gwahanol.
- Nid yw'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer grwpiau bregus o blant, pobl ifanc a theuluoedd yn gynaliadwy i'r dyfodol a gall y Cyngor sicrhau arbedion ariannol sylweddol drwy fuddsoddi mwy mewn gwaith ataliol ac ymyrraeth gynnar. Yn ogystal, mae angen cryfhau cydweithio rhwng asiantaethau er mwyn darparu gwasanaethau cydlynus ac integredig sydd wedi eu cynllunio'n effeithiol o amgylch anghenion grwpiau bregus o blant, pobl ifanc a theuluoedd.
- Nid yw'r gyfundrefn addysg bresennol yn gynaliadwy nac yn cynnig yr amgylched ddysgu orau i blant, pobl ifanc a staff. Oherwydd hynny mae'n llawer iawn mwy heriol cyrraedd ein huchelgais o wella safonau addysg y Sir.
- Nid yw pobl ifanc Gwynedd wedi eu paratoi'n addas ar gyfer bywyd fel oedolion. Mae diffyg pwyslais yn yr ysgolion ar ddysgu sgiliau bywyd (e.e. rheoli arian a choginio) ac mae canran uchel o fusnesau yn datgan eu bod yn wynebu anawsterau recriwtio oherwydd diffyg sgiliau a chymwysterau perthnasol gan ymgeiswyr.

**Beth yw'r canlyniadau yr ydym yn ceisio'u cyflawni i drigolion Gwynedd?**

Dyma'r gwahaniaeth yr ydym eisiau ei gyflawni i *holl blant a phobl ifanc* Gwynedd:

⇧ Perfformiad disgyblion ym maes Safon Trothwy Lefel 2+
⇧ Perfformiad disgyblion ym maes Mathemateg Lefel 2
⇧ Disgyblion yn derbyn yr un safon dda o addysg o fewn ysgolion ar draws y Sir
⇧ Plant a phobl ifanc yn barod ar gyfer y cyfnod addysgol nesaf
⇧ Presenoldeb disgyblion Ysgolion Cynradd ac Uwchradd
⇩ Disgyblion yn cael eu gwahardd am gyfnodau penodol (Cynradd ac Uwchradd)
⇩ Disgyblion yn cael eu gwahardd yn barhaol (Uwchradd)
⇧ Plant a phobl ifanc yn cael eu haddysgu mewn amgylchedd ddysgu o ansawdd er gwella safonau
⇧ Pobl Ifanc gyda sgiliau bywyd a gwaith addas

Dyma'r gwahaniaeth yr ydym eisiau ei gyflawni i *grwpiau bregus o blant, pobl ifanc a theuluoedd* yng Ngwynedd:

⇧ Perfformiad addysgol disgyblion Cinio Ysgol am Ddim
⇧ Perfformiad addysgol Plant Mewn Gofal
⇩ Teuluoedd bregus yn datblygu problemau dwys a chymhleth
⇩ Plant yn cael eu hystyried fel Plant Mewn Angen
⇩ Plant yn cael eu derbyn i ofal
⇩ Plant gydag Anghenion Addysgol Arbennig
⇧ Plant a phobl ifanc gydag Anghenion Addysg arbennig yn cyflawni yn erbyn eu targedau

⇩ Pobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant neu'n hawlio'r Lwfans Ceiswyr Gwaith

**Beth fyddwn ni yn ei gyflawni yn ystod 2014 - 15?**

Rhestrir isod y prosiectau y byddwn yn eu gweithredu fesul blaenoriaeth er mwyn cyflawni'r canlyniadau uchod. Nodir hefyd yr addewidion y bydd pob un yn eu gwireddu yn ystod 2014 - 15.

P1: Codi Safonau Addysgol Plant a Phobl Ifanc:

*Prosiect Hyrwyddo Ansawdd Mewn Ysgolion Uwchradd*

- Bydd 100% o reolwyr canol a 65% o uwch reolwyr wedi cael y cyfle i'w huwch-sgilio ym maes arweinyddiaeth erbyn diwedd y flwyddyn addysgol 2014 - 2015. Bydd arferion da wedi eu rhannu ymhob cyfarfod penaethiaid ac mewn gweithdai i dimau rheoli.
- Bydd pob Ysgol Uwchradd yn rhan o o leiaf un rhwydwaith cydweithio arfer dda erbyn 2015.
- Bydd egwyddorion cyffredin ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd wedi'u sefydlu ar draw Ysgolion Uwchradd yr Awdurdod.
- Bydd 14 Ysgol Uwchradd yn rhan o gynlluniau llythrennedd / rhifedd dalgylchol.
- Bydd 100% o ddysgwyr Prydau Ysgol am Ddim wedi cael cefnogaeth i gyrraedd eu targedau addysgol.
- Bydd 100% o Blant Mewn Gofal wedi cael cefnogaeth cydlynus i gyrraedd eu targedau o fewn y cynllun addysg personol.
- Bydd o leiaf 72% o ddysgwyr yn meddu ar y sgiliau llythrennedd a rhifedd gweithredol wrth drosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3.
- Bydd dealltwriaeth Llywodraethwyr o'u rôl fel cyfaill beirniadol a'u cyfraniad at godi safonau dysgwyr wedi gwella.

P2: Gwella Profiadau a Chyfleoedd i Grwpiau Bregus o Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd:

*Prosiect Gyda'n Gilydd*

- Bydd 400 o deuluoedd bregus wedi cael mynediad at wasanaethau ataliol Teuluoedd yn Gyntaf.
- Bydd 80 o deuluoedd bregus wedi derbyn cefnogaeth integredig gan y Tîm Gyda'n Gilydd.
- Bydd cyfeiriad y gwasanaeth i'r dyfodol wedi ei sefydlu.

*Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau Plant*

- Bydd eglurder yn ei le ynghylch y defnydd o ofal preswyl i'r dyfodol yn dilyn adolygiad o'r Strategaeth Gofal.
- Bydd trefniadau newydd mewn lle ar gyfer rheoli lleoliadau er mwyn rheoli ansawdd a chostau i'r Cyngor.

*Prosiect Gwella Presenoldeb a Lefelau Gwaharddiadau*

- Bydd y Cyngor wedi parhau i gydweithio gydag ysgolion y Sir i weithredu cynlluniau a rhaglenni er gwella presenoldeb disgyblion a lleihau gwaharddiadau.

P3: Gwella Addasrwydd y Gyfundrefn Ysgolion:

*Project Trefniadaeth Ysgolion*

- Bydd gwaith adeiladu Ysgol Ardal Groeslon, Carmel a Fron wedi cychwyn a'r camau angenrheidiol eraill wedi digwydd i sefydlu'r Ysgol Ardal newydd yn llwyddiannus.
- Bydd modelau terfynol wedi eu cymeradwyo ar gyfer dalgylch Y Gader a dalgylch y Berwyn.
- Bydd y weledigaeth ar gyfer cynllunio gofodol addysg a gwasanaethau cyhoeddus ym Meirionnydd yn cael ei weithredu.
- Bydd cynllun pendant wedi ei adnabod ar gyfer Ysgol Arbennig Dwyfor Meirion ac ymgynghoriad wedi ei gynnal arno.
- Bydd cytundeb yn ei le ar y weledigaeth gymunedol / addysgol ar gyfer Maesgeirchen.

| P4: Paratoi Pobl Ifanc yn well ar gyfer Byw a Gweithio yn Lleol: |
|---|
| *Prosiect Darpariaeth Addysg a Hyfforddiant 16 - 19*<br>• Bydd dysgwyr pob Ysgol Uwchradd efo chweched dosbarth a Cholegau Addysg Bellach yn dechrau manteisio o'r drefn newydd bydd mewn lle ar gyfer cydgynllunio a delifro'r cwricwlwm ar gyfer addysg a hyfforddiant yn ardal Gwynedd ac Ynys Môn. |

| **Sut fyddwn ni yn mesur effaith ein gwaith?** |
|---|
| Byddwn yn defnyddio'r mesuryddion isod er mwyn mesur cynnydd y prosiectau o safbwynt gwireddu'r canlyniadau a'r blaenoriaethau. Nodir hefyd yr uchelgais ar gyfer pob canlyniad, sef maint y gwahaniaeth rydym eisiau ei gyflawni i drigolion Gwynedd. |

| **Mesuryddion Canlyniad** | **Gwaelodlin** | **Perfformiad 2013 - 14** | **Uchelgais 2014 - 15** | **Uchelgais 2017** |
|---|---|---|---|---|
| Canlyniad = ⇧ Perfformiad disgyblion ym maes Safon Trothwy Lefel 2+ | | | | |
| • Canran y disgyblion 15 oed ar y 31ain Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol a gyflawnodd y Trothwy Lefel 2+ yn cynnwys gradd A*-C TGAU mewn Cymraeg mamiaith neu Saesneg a Mathemateg [Mesurydd Strategol Cenedlaethol]. | 54.99% | 57.98% | 62% | 65% |
| Canlyniad = ⇧ Perfformiad disgyblion ym maes Mathemateg Lefel 2 | | | | |
| • Canran o ddisgyblion 16 oed yn cyrraedd Safon Lefel 2 mewn Mathemateg. | 58.68% | 62.17% | 64% | 70% |
| Canlyniad = ⇧ Disgyblion yn derbyn yr un safon dda o addysg o fewn ysgolion ar draws y Sir | | | | |
| • Canran y bwlch rhwng disgyblion 16 oed sy'n cyrraedd y Safon Trothwy Lefel 2+ rhwng ysgolion. | 24% | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | 15% | 12% |
| Canlyniad = ⇧ Plant a Phobl Ifanc yn barod ar gyfer y cyfnod addysgol nesaf | | | | |
| • Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon [Mesurydd Strategol Cenedlaethol]. | 86.22% | 86.60% | 87% | 89% |
| • Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon. | 83% | 85.4% | 87% | 90% |

| Mesuryddion Canlyniad | Gwaelodlin | Perfformiad 2013 - 14 | Uchelgais 2014 - 15 | Uchelgais 2017 |
|---|---|---|---|---|
| Canlyniad = ⇧ Presenoldeb disgyblion Ysgolion Cynradd ac Uwchradd | | | | |
| • Canran presenoldeb disgyblion mewn Ysgolion Cynradd. | 94.60% | 94.40% | Gwelliant | 95% |
| • Canran presenoldeb disgyblion mewn Ysgolion Uwchradd. | 92.10% | 93.40% | Gwelliant | 95% |
| Canlyniad = ⇩ Disgyblion yn cael eu gwahardd am gyfnodau penodol (Cynradd ac Uwchradd) | | | | |
| • Nifer y diwrnodau ysgol wedi'u colli o ganlyniad i waharddiadau cyfnod penodol yn ystod y flwyddyn academaidd mewn Ysgolion Cynradd. | 126.50 | 111.50 | Gwelliant | Gwelliant |
| • Nifer y diwrnodau ysgol wedi'u colli o ganlyniad i waharddiadau cyfnod penodol yn ystod y flwyddyn academaidd mewn Ysgolion Uwchradd. | 706.50 | 320 | Gwelliant | Gwelliant |
| Canlyniad = ⇩ Disgyblion yn cael eu gwahardd yn barhaol (Uwchradd) | | | | |
| • Nifer y gwaharddiadau parhaol mewn Ysgolion Uwchradd. | 15 | 4 | 4 | Cynnal |
| Canlyniad = ⇧ Plant a phobl ifanc yn cael eu haddysgu mewn amgylchedd ddysgu o ansawdd, er mwyn gwella safonau | | | | |
| • Nifer yr ysgolion yng nghategori cyflwr 'A' a 'B' [Categori A = Da. Yn perfformio yn ôl y disgwyl ac yn gweithredu'n effeithlon / Categori B = Boddhaol. Yn perfformio yn ôl y disgwyl ond dirywiadau bychan yn dod i'r amlwg]. | 113 (o 116) | 113 (o 116) | Cynnal | Gwelliant |
| • Canran y Llefydd Gweigion (cyfunol) yn Ysgolion y Sir. | 28.2% | 28.2% | Gwelliant | 18.5 - 21.6% |
| Canlyniad = ⇧ Pobl Ifanc gyda sgiliau bywyd a gwaith addas | | | | |
| • Canran o ddisgyblion 16 oed sy'n cyrraedd Safon Trothwy Lefel 1. | 93.09% | 97.1% | Cynnal | Cynnal |
| • Cyfraddau cyrhaeddiad wedi'u seilio ar ganlyniadau arholiadau mewn cyrsiau galwedigaethol ar draws sefydliadau. | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | Gosod Gwaelodlin | I'w Sefydlu |
| Canlyniad = ⇧ Perfformiad addysgol disgyblion Cinio Ysgol am Ddim | | | | |
| • Canran bwlch rhwng perfformiad dysgwyr Prydau Ysgol am Ddim / Dim-Prydau Ysgol am Ddim sy'n cyrraedd Safon Trothwy Lefel 2+. | 36.04% | 32.20% | Cynnal | 20% |

| Mesuryddion Canlyniad | Gwaelodlin | Perfformiad 2013 - 14 | Uchelgais 2014 - 15 | Uchelgais 2017 |
|---|---|---|---|---|
| Canlyniad = ⇧ Perfformiad addysgol Plant Mewn Gofal | | | | |
| • Canran bwlch sgôr Plant Mewn Gofal a disgyblion nad ydynt mewn gofal. | 34% | 24% | Gwelliant | Gwelliant |
| Canlyniad = ⇩ Teuluoedd bregus yn datblygu problemau dwys a chymhleth | | | | |
| • Canran y cynnydd a wnaed gan deuluoedd yn dilyn ymyrraeth y Tîm Gyda'n Gilydd. | 15% | 15% | 18% | 15 - 20% |
| Canlyniad = ⇩ Plant yn cael eu hystyried fel Plant Mewn Angen | | | | |
| • Cyfanswm Plant Mewn Angen. | 720 | 720 | Gwelliant | Gwelliant |
| Canlyniad = ⇩ Plant yn cael eu derbyn i ofal | | | | |
| • Cyfanswm Plant Mewn Gofal neu ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. | 244 | 244 | 244 | 235 |

| Beth arall fyddwn ni yn ei fesur? |
|---|
| Byddwn hefyd yn mesur y mesuryddion allweddol eraill sydd yn berthnasol i'r maes, sef:<br><br>• Mesuryddion Allweddol y Cyngor<br>• Mesuryddion Strategol Cenedlaethol |

| Mesuryddion Allweddol y Cyngor (Haen 1) | Perfformiad 2012 - 13 | Perfformiad 2013 - 14 | Uchelgais 2014 - 15 | Cyfeiriad Uchelgais |
|---|---|---|---|---|
| • Cynllun trosiannol wedi ei gytuno ar gyfer Plant Anabl yn 16 oed. | Mesurydd Newydd yn 2013 - 14 | 100% | 100% | Cynnal |
| • Cynllun llwybr wedi ei gytuno ar gyfer Plant Mewn Gofal. | Mesurydd Newydd yn 2013 - 14 | 100% | 95 - 100% | Cynnal |
| • Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu'n fwy yn ystod y flwyddyn [Mesurydd Strategol Cenedlaethol]. | 4.4% | 4.9% | 4.5 - 8% | Cynnal |
| • Canran y cyfeiriadau sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis. | 31.7% | 26.6% | 25 - 30% | Cynnal |
| • Canran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal oedd fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a'u cynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau. | 81.3% | 83.7% | 83 - 85% | Gwelliant |
| • Canran y Gofalwyr Ifanc y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwybodol ohonynt a gafodd eu hasesu. | 100% | 100% | 95 - 100% | Cynnal |

| Mesuryddion Allweddol y Cyngor (Haen 1) | Perfformiad 2012 - 13 | Perfformiad 2013 - 14 | Uchelgais 2014 - 15 | Cyfeiriad Uchelgais |
|---|---|---|---|---|
| • Nifer Ysgolion Cynradd yn un o gategorïau ESTYN [gwelliant sylweddol a mesurau arbennig]. | 1 | 5 | 1 i 2 | Gwelliant Sylweddol |
| • Nifer Ysgolion Uwchradd yn un o gategorïau ESTYN [gwelliant sylweddol a mesurau arbennig]. | 2 | 1 | 1 | Gwelliant |
| • Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal awdurdod lleol); ac sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan Awdurdod Lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd [Mesurydd Strategol Cenedlaethol]. | 0% | 0% | 0 - 0.21% | Cynnal |
| • Canran gwahaniaeth rhwng perfformiad disgyblion sydd â'r hawl i Brydau Ysgol am Ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys am Brydau Ysgol am Ddim CA2 (7 - 11 oed) yn y dangosydd Pynciau Craidd. | 13.70% | 18.9% | 12% | Gwelliant |
| • Canran gwahaniaeth rhwng perfformiad disgyblion sydd a'r hawl i Brydau Ysgol am Ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys am Brydau Ysgol am Ddim CA3 (11 - 14 oed) yn y dangosydd Pynciau Craidd. | 26.60% | 28.5% | 23% | Gwelliant |
| • Canran disgyblion enillodd lefel 3 da neu uwch [lefel 3 yn ysgrifennu yn y Gymraeg] yn CA2 (7 - 11oed) a gafodd asesiad athro yn y Gymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd CA3 (11 - 14 oed). | 93.8% | 95.6% | 95.60% | Cynnal |

| Mesuryddion Strategol Cenedlaethol | Perfformiad 2012 - 13 | Perfformiad 2013 - 14 | Uchelgais 2014 - 15 | Cyfeiriad Uchelgais |
|---|---|---|---|---|
| • Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd â phrofiad o symud ysgol unwaith neu fwy yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth. | 14.5% | 22.8% | 15% | Gwelliant |
| • Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol: a chanddynt gynlluniau llwybr yn ôl yr angen. | 100% | 100% | 95 - 100% | Cynnal |
| • Canran yr asesiadau cychwynnol sydd wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle mae yna dystiolaeth bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gweld y plentyn ar ben ei hun. | 40% | 47.2% | 45 - 50% | Cynnal |
| • Canran y bobl ifanc oedd yn arfer derbyn gofal y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â nhw pan yn 19 oed. | 87.5% | 100% | 100% | Cynnal |
| • Canran y bobl ifanc oedd yn arfer derbyn gofal y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â nhw, ac yn gwybod eu bod mewn llety difrys addas pan yn 19 oed. | 85.7% | 86.7% | 100% | Gwelliant |
| • Canran y bobl ifanc oedd yn arfer derbyn gofal ac mae'r awdurdod mewn cysylltiad â nhw, ac yn gwybod eu bod yn derbyn addysg, hyfforddiant neu sy'n gweithio pan yn 19 oed . | 35.7% | 66.7% | 65 - 70% | Cynnal |
| • Y sgôr ar gyfartaledd, o'r pwyntiau cymwysterau allanol ar gyfer plant sy'n 16 oed ac yn derbyn gofal, mewn unrhyw osodiad dysgu sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdod. | 289 | 439 | 350 - 450 | Cynnal |

| Mesuryddion Strategol Cenedlaethol | Perfformiad 2012 - 13 | Perfformiad 2013 - 14 | Uchelgais 2014 - 15 | Cyfeiriad Uchelgais |
|---|---|---|---|---|
| • Canran y disgyblion sydd yng ngofal awdurdodau lleol, sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd. | 0% | 6.3% | 0 - 0.65% | Cynnal |
| • Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3. | 86.10% | 82.5% | 82.50% | Cynnal |
| • Canran y datganiadau terfynol am anghenion addysgol arbennig wedi'u cyhoeddi o fewn 26 wythnos: a) Yn cynnwys eithriadau. | 87.80% | 43.1% | Gwelliant | Gwelliant |
| • Canran y datganiadau terfynol am anghenion addysgol arbennig wedi'u cyhoeddi o fewn 26 wythnos: b) Ddim yn cynnwys eithriadau. | 100% | 96.3% | 96.3% | Cynnal |
| • Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol. | 335 | 353.41 | 355 | Gwelliant |

**Beth fyddwn ni yn ei gynllunio yn ystod 2014 - 15?**

Yn ogystal â gwireddu'r addewidion pendant a nodwyd uchod, byddwn hefyd yn cynllunio ymlaen yn y meysydd isod. Byddwn yn gwneud hyn un ai er mwyn cadarnhau'r addewidion i'w gwireddu neu sicrhau eglurder yn ystod neu erbyn diwedd y flwyddyn ar yr hyn y gellir ei gyflawni i drigolion Gwynedd fel bod modd i ni benderfynu a ydym am gynnig addewidion pendant yn y meysydd hynny o 2015 - 16 ymlaen.

<u>P2: Gwella Profiadau a Chyfleoedd i Grwpiau Bregus o Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd:</u>

*Trawsnewid Anghenion Addysgol Arbennig a Chynhwysiad*

- Bydd eglurder yn ei le ynghylch natur a strwythur y ddarpariaeth i'w weithredu ym Medi 2015 a'i effaith ar blant, pobl ifanc, teuluoedd, ysgolion a phartneriaid.

<u>P4: Paratoi Pobl Ifanc yn well ar gyfer Byw a Gweithio yn Lleol:</u>

*Paratoi Pobl Ifanc ar gyfer Byw a Gweithio yng Ngwynedd*

- Bydd y prosiect wedi llunio strategaeth a rhaglen gweithredu.
- Bydd 14 Ysgol Uwchradd yn cydweithio er mwyn datblygu heriau er mwyn eu cyflwyno o Fedi 2015.

## 7. MAES GOFAL, IECHYD A LLES

| **Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y maes?** |
|---|
| GOF1: Ymateb yn Well i Anghenion Pobl sydd Angen Cefnogaeth, Cynyddu'r Gefnogaeth Gymunedol sydd ar Gael a Sicrhau Gwasanaethau Gofal Cynaliadwy<br>GOF2: Diogelu Plant ac Oedolion<br>GOF3: Gwella'r Amodau a'r Cyfleon i Drigolion Gwynedd Allu Byw'n Iach |

**Pam fod y rhain yn flaenoriaethau?**

- Ein dymuniad yw sicrhau fod pobl yn gallu parhau i fyw yn eu cartrefi a chymunedau eu hunain mor hir ag sydd bosib. Ar hyn o bryd, mae ein gwasanaethau gofal yn tueddu i 'dynnu pobl mewn' i ofal ffurfiol, gan beidio gwerthfawrogi yn ddigonol gallu unigolion a chymunedau i barhau yn 'iach ac adref' yn hwy. Er mwyn blaenoriaethu hyn, rydym am sicrhau gwasanaethau integredig sy'n cefnogi pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain cyhyd ag y dymunant ac y bo hynny'n ymarferol bosibl. Yn ogystal, byddwn yn sicrhau cyfundrefnau llywodraethu a gweithlu priodol sy'n canolbwyntio ar anghenion y sawl sy'n derbyn y gwasanaeth mewn modd cost effeithiol.
- Mae angen sicrhau bod ein gweithdrefnau a pholisïau diogelu plant ac oedolion yn cael eu deall yn glir gan bawb sy'n gweithio i'r Cyngor ac yn cael eu diweddaru a'u lledaenu'n rheolaidd.
- Mae angen ystyried a yw'r model presennol o ddarpariaeth hamdden yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol o ystyried y sefyllfa ariannol sydd ohoni. Mae angen hefyd i ni fod yn glir o'n rôl o fewn y maes gwella iechyd ac yng nghyd-destun gwaith partneriaid.

**Beth yw'r canlyniadau yr ydym yn ceisio'u cyflawni i drigolion Gwynedd?**

Dyma'r gwahaniaeth rydym eisiau ei gyflawni i *bobl sydd angen cefnogaeth* yng Ngwynedd:

⇧ Pobl yn derbyn cefnogaeth gymunedol
⇧ Pobl Gwynedd yn cael dewis eang o wasanaethau ataliol
⇧ Pobl Gwynedd yn cael dewis ehangach a mwy addas o lety ar draws y Sir
⇧ Pobl Gwynedd yn derbyn gwasanaethau sy'n cwrdd â'u hanghenion yn well

Dyma'r gwahaniaeth yr ydym eisiau ei gyflawni i *holl bobl* Gwynedd:

⇧ Gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i bobl sydd angen
⇧ Ansawdd yr asesiadau risg sy'n cael eu cyflwyno i Gynhadledd Achos
⇧ Aelodau staff newydd a presennol yn derbyn hyfforddiant diogelu pwrpasol
⇧ Gweithrediad trefniadau diogelu mewn cyrff / asiantaethau mae'r Cyngor yn eu comisiynu
⇧ Iechyd Pobl Gwynedd

**Beth fyddwn ni yn ei gyflawni yn ystod 2014 - 15?**

Rhestrir isod y prosiectau y byddwn yn eu gweithredu fesul blaenoriaeth er mwyn cyflawni'r canlyniadau uchod. Nodir hefyd yr addewidion y bydd pob un yn eu gwireddu yn ystod 2014 - 15.

<u>GOF1: Ymateb yn Well i Anghenion Pobl sydd Angen Cefnogaeth, Cynyddu'r Gefnogaeth Gymunedol sydd ar Gael a Sicrhau Gwasanaethau Gofal Cynaliadwy:</u>

*Prosiect Lletya*

- Bydd y Strategaeth Letya Pobl Hŷn wedi ei gytuno.
- Bydd 7 uned bwrpasol yn barod yn Harlech ar gyfer 8 unigolyn ag anableddau dysgu.
- Bydd gwaith adeiladu wedi cychwyn ar Dai Gofal Ychwanegol ym Mhorthmadog.
- Bydd 40 uned Tai Gofal Ychwanegol ar gael ar gyfer pobl hŷn ym Mangor.
- Bydd eglurder ar ddyfodol safle Frondeg.

- Bydd model amgen o ddefnydd tai gwarchod wedi ei dreialu yn ardal Meirionnydd a bydd y canlyniadau wedi eu gwerthuso.

*Prosiect Trefniadau Llywodraethu a Strwythur*

- Bydd cytundeb ar strwythur adrannol newydd mewn lle, a hwnnw wedi ei weithredu, ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr os yn berthnasol.
- Bydd trefniadau llywodraethu a llinellau atebolrwydd clir mewn lle ar draws yr Adran o ran gwaith dydd i ddydd a phrosiectau.

*Prosiect Gweithio'n Integredig (Cronfa Gofal Canolraddol)*

- Bydd holl brosiectau'r Gronfa Gofal Canolraddol wedi eu cyflawni yn unol â'r cais a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru.
- Bydd rhaglen gynllunio wedi ei datblygu ar gyfer dilyniant i'r Gronfa Gofal Canolraddol.

GOF2: Diogelu Plant ac Oedolion:

*Prosiect Diogelu Plant ac Oedolion*

- Bydd yr holl reolwyr a staff o fewn y Cyngor a'r cyrff sydd wedi eu comisiynu wedi derbyn hyfforddiant sy'n briodol i'w rôl a'u cyfrifoldeb.
- Bydd yr holl staff a gwirfoddolwyr sydd angen gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS, CRB gynt) wedi'i dderbyn.
- Bydd holl staff y Cyngor yn ymwybodol o 'Bolisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion' ac yn cydymffurfio â hi.

GOF3: Gwella'r Amodau a'r Cyfleon i Drigolion Gwynedd Allu Byw'n Iach:

*Prosiect Chwaraeon a Gweithgaredd Egnïol*

- Bydd cyfleoedd ar gael i bobl Gwynedd fod yn fwy egnïol.
- Bydd pobl Gwynedd yn fwy ymwybodol o gyfleoedd i fod yn fwy egnïol.

**Sut fyddwn ni yn mesur effaith ein gwaith?**

Byddwn yn defnyddio'r mesuryddion isod er mwyn mesur cynnydd y prosiectau o safbwynt gwireddu'r canlyniadau a'r blaenoriaethau. Nodir hefyd yr uchelgais ar gyfer pob canlyniad, sef maint y gwahaniaeth rydym eisiau ei gyflawni i drigolion Gwynedd.

| Mesuryddion Canlyniad | Gwaelodlin | Perfformiad 2013 - 14 | Uchelgais 2014 - 15 | Uchelgais 2017 |
|---|---|---|---|---|
| Canlyniad = ⇧ Pobl yn derbyn cefnogaeth gymunedol | | | | |
| • Canran o ddefnyddwyr sy'n adrodd bod Teleofal yn eu galluogi i fyw gartref yn annibynnol. | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | Gosod Gwaelodlin | Gwelliant |
| Canlyniad = ⇧ Pobl Gwynedd yn cael dewis eang o wasanaethau ataliol | | | | |
| • Cyfradd o gysylltiadau gyda'r gwasanaeth oedolion wedi eu cyfeirio at gyngor asiantaethau partner / cefnogol neu ddarpariaeth amgen. | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | Gosod Gwaelodlin | Gwelliant |

| Mesuryddion Canlyniad | Gwaelodlin | Perfformiad 2013 - 14 | Uchelgais 2014 - 15 | Uchelgais 2017 |
|---|---|---|---|---|
| Canlyniad = ⇧ Pobl Gwynedd yn cael dewis ehangach a mwy addas o lety ar draws y Sir | | | | |
| • Canran trigolion sydd wedi eu cartrefi mewn tai gofal sydd wedi gweld gwahaniaeth positif i'w bywydau. | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | Gosod Gwaelodlin | Gwelliant |
| Canlyniad = ⇧ Pobl Gwynedd yn derbyn gwasanaethau sy'n cwrdd â'u hanghenion yn well | | | | |
| • Canran y defnyddwyr gwasanaeth Galluogi sy'n gadael y gwasanaeth heb yr angen am wasanaethau parhaol wedi eu comisiynu gan Ofal Cymdeithasol i Oedolion. | 53.13% | 53.13% | 53 - 60% | Gwelliant |
| Canlyniad = ⇧ Gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i bobl sydd angen | | | | |
| • Canran o'r holl staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion bregus sydd â gwiriad DBS cyfredol. | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | 100% | 100% |
| Canlyniad = ⇧ Ansawdd yr asesiadau risg sy'n cael eu cyflwyno i Gynhadledd Achos | | | | |
| • Canran yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i Gynhadledd Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniad. | 97% | 95% | 95 - 100% | 95 - 100% |
| Canlyniad = ⇧ Aelodau staff newydd a presennol yn derbyn hyfforddiant diogelu pwrpasol | | | | |
| • Caran holl staff Gwynedd wedi derbyn hyfforddiant Lefel 1 mewn amddiffyn a diogelu. | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | Gosod Gwaelodlin | 100% |
| Canlyniad = ⇧ Gweithrediad trefniadau diogelu mewn cyrff / asiantaethau mae'r Cyngor yn eu comisiynu | | | | |
| • O'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, y ganran lle mae'r perygl wedi'i reoli [Mesurydd Strategol Cenedlaethol]. | 95.7% | 95.7% | 90 - 100% | 90 - 100% |

| Mesuryddion Canlyniad | Gwaelodlin | Perfformiad 2013 - 14 | Uchelgais 2014 - 15 | Uchelgais 2017 |
|---|---|---|---|---|
| Canlyniad = ⇧ Iechyd Pobl Gwynedd | | | | |
| • Canran o oedolion Gwynedd yn cyrraedd canllawiau gweithgareddau egnïol llywodraeth Cymru. | 34% | 34% | 34 - 36% | 36 - 38% |
| • Canran o oedolion sydd dros eu pwysau neu'n ordew. | 55% | 55% | 55 - 53% | 53 - 51% |
| • Canran o blant yn cael eu mesur dros eu pwysau neu'n ordew trwy'r Rhaglen Mesur Plant. | 30% | 30% | 30 - 28% | 28 - 26% |
| • Canran o gyfranogwyr NERS (Y Cynllun Atgyfeirio Cenedlaethol ar gyfer Ymarfer Corfforol) gyda gwellhad yn eu hiechyd meddwl - canlyniadau EQ5L5D (pecyn cymorth i ddangos gwelliannau mesuradwy mewn canlyniadau clinigol cleifion). | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | 70 - 75% | 75 - 80% |
| • Canran o gerddwyr sydd yn datgan eu bod yn egnïol yn gorfforol yn rheolaidd yn y 6 mis diwethaf. | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | 75 - 80% | 80 - 85% |

| **Beth arall fyddwn ni yn ei fesur?** |
|---|
| Byddwn hefyd yn mesur y mesuryddion allweddol eraill sydd yn berthnasol i'r maes, sef:<br><br>• Mesuryddion Allweddol y Cyngor<br>• Mesuryddion Strategol Cenedlaethol |

| Mesuryddion Allweddol y Cyngor (Haen 1) | Perfformiad 2012 - 13 | Perfformiad 2013 - 14 | Uchelgais 2014 - 15 | Cyfeiriad Uchelgais |
|---|---|---|---|---|
| • Canran y cyflwyniadau digartref sy'n cael eu penderfynu o fewn 33 diwrnod gwaith. | 77.4% | 81.4% | 82 - 89.5% | Gwelliant |
| • Galluogi - Canran y rhai a dderbyniodd wasanaeth Galluogi a ddychwelodd o fewn 2 flynedd. | 11.07% | 12.60% | 10 - 12.6% | Gwelliant |
| • Cyfradd pobl hŷn (sy'n 65oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65oed neu drosodd ar 31 Mawrth - gan eithrio hunan arianwyr. | 22.71 | 20.04 | Gwelliant | Gwelliant |

| Mesuryddion Allweddol y Cyngor (Haen 1) | Perfformiad 2012 - 13 | Perfformiad 2013 - 14 | Uchelgais 2014 - 15 | Cyfeiriad Uchelgais |
|---|---|---|---|---|
| • Canran o ofalwyr oedolion a gafodd asesiad neu ailasesiad uniongyrchol yn ystod y flwyddyn a dderbyniodd wasanaeth. | 82.27% | 78.52% | Gwelliant | Gwelliant |
| • Canran o staff perthnasol sydd wedi derbyn gwiriad Disclosure and Barring Service (DBS) o fewn 2 fis i ddyddiad eu penodiad. | Mesurydd Newydd yn 2013 - 14 | 100% | 99 - 100% | Cynnal |
| • Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth, pan fydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. | 12408 | 10192 | 10192 | Cynnal |
| • Canran o blant erbyn 11 oed sydd wedi cyrraedd safon cwricwlwm cenedlaethol mewn nofio. | 80% | 80% | 85% | Gwelliant |

| Mesuryddion Strategol Cenedlaethol | Perfformiad 2012 - 13 | Perfformiad 2013 - 14 | Uchelgais 2014 - 15 | Cyfeiriad Uchelgais |
|---|---|---|---|---|
| • Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) sy'n cael cymorth i fyw gartref fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed a throsodd. | 46.53 | 46.21 | Gwelliant | Gwelliant |
| • Cyfradd pobl hyn (sy'n 65oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65oed neu drosodd ar 31 Mawrth. | 24.69 | 25.59 | Gwelliant | Gwelliant |
| • Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75+ oed. | 1.16 | 0.9 | 0.8 - 1.2 | Gwelliant |
| • Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl. | 298 | 271 | 240 - 260 | Cynnal |

| **Beth fyddwn ni yn ei gynllunio yn ystod 2014 - 15?** |
|---|
| Yn ogystal â gwireddu'r addewidion pendant a nodwyd uchod, byddwn hefyd yn cynllunio ymlaen yn y meysydd isod. Byddwn yn gwneud hyn un ai er mwyn cadarnhau'r addewidion i'w gwireddu neu sicrhau eglurder yn ystod neu erbyn diwedd y flwyddyn ar yr hyn y gellir ei gyflawni i drigolion Gwynedd fel bod modd i ni benderfynu a ydym am gynnig addewidion pendant yn y meysydd hynny o 2015 - 16 ymlaen.<br><br><u>GOF1: Ymateb yn Well i Anghenion Pobl sydd Angen Cefnogaeth, Cynyddu'r Gefnogaeth Gymunedol sydd ar Gael a Sicrhau Gwasanaethau Gofal Cynaliadwy:</u><br><br>*Adolygiad Dechrau-i-Ddiwedd Pobl Hŷn*<br>• Bydd yr adolygiad wedi ei gwblhau a bydd chynllun gweithredu clir wedi ei gymeradwyo gan y Cabinet a'i gyhoeddi.<br>• Bydd eglurder yn ei le ar gyfer cyfeiriad y Gwasanaeth i'r dyfodol.<br><br>*Ymyrraeth Gynnar / Arbedol*<br>• Bydd asedau cymunedol a chyfleoedd gefnogaeth anffurfiol ar draws Gwynedd wedi eu hadnabod.<br>• Bydd eglurder yn ei le ar y math o gefnogaeth a gwasanaethau ataliol sydd angen eu datblygu ar draws y Sir.<br>• Bydd eglurder yn ei le ar rôl a chyfraniad y Trydydd Sector i wireddu'r anghenion.<br><br>*Ymyrraeth wedi ei dargedu*<br>• Bydd y Gwasanaeth Teleofal a Galluogi wedi gwireddu £318,000 o arbedion.<br>• Bydd cynllun yn ei le ar gyfer sicrhau darpariaeth gofal dydd addas drwy'r Sir.<br>• Bydd adolygiad llwyr o'r gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol wedi ei gynnal.<br><br><u>GOF3: Gwella'r Amodau a'r Cyfleon i Drigolion Gwynedd Allu Byw'n Iach:</u><br><br>*Adolygiad Digonolrwydd y Ddarpariaeth Hamdden*<br>• Bydd eglurder mewn lle ar y ffordd ymlaen ar gyfer darpariaeth canolfannau hamdden y Cyngor, gyda gweledigaeth glir ar gyfer y maes.<br><br>*Ymyraethau Iechyd*<br>• Bydd cyfeiriad ac uchelgais glir ar gyfer y maes gwella iechyd yng Ngwynedd wedi ei ddatblygu. |

## 8. MAES YR ECONOMI

**Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y maes?**

ECON1: Cryfhau Gwytnwch Busnesau'r Sir a Chadw'r Budd yn Lleol
ECON2: Gwella Ansawdd Swyddi a Lefelau Cyflog
ECON3: Gwella Mynediad Pobl y Sir i Waith ac Ymateb i Rwystrau

**Pam fod y rhain yn flaenoriaethau?**

- Mae angen rhoi sylw penodol i allu busnesau i oroesi a chyflogi. Mae angen eu cefnogi i ganfod a chyrraedd marchnadoedd newydd, a chystadlu am gytundebau, fel gallant dyfu a ffynnu a sicrhau fod y Sir a'i phobl yn gallu manteisio ar y buddion economaidd ddaw.
- Mae angen rhoi sylw i: lefelau cyflog isel o fewn y Sir, y diffyg amrywiaeth yn y gwaith sydd ar gael yn lleol yn enwedig mewn sectorau sy'n talu'n dda, a'r prinder swyddi gwag yn enwedig mewn rhai ardaloedd.
- Mae angen sicrhau fod pobl Gwynedd - boed nhw gyda chymwysterau uchel neu dan fygythiad o golli incwm oherwydd y trefniadau newydd ar gyfer budd-daliadau - yn meddu'r sgiliau priodol i fanteisio ar gyfleoedd gwaith o fewn yr ardal, a bod busnesau Gwynedd yn gallu dod o hyd i weithwyr lleol addas wrth recriwtio.

**Beth yw'r canlyniadau yr ydym yn ceisio'u cyflawni i drigolion Gwynedd?**

Dyma'r gwahaniaeth yr ydym eisiau ei gyflawni i *holl bobl* Gwynedd:

⇧ Swyddi ar gyfer pobl Gwynedd yn cael eu gwarchod a'u creu
⇧ Busnesau lleol yn gystadleuol ac yn goroesi
⇧ Swyddi gwerth uchel ar gael i bobl y Sir
⇧ Dewis o swyddi amrywiol i bobl ar draws Gwynedd
⇧ Pobl y Sir efo'r sgiliau sydd eu hangen gan gyflogwyr lleol

Dyma'r gwahaniaeth yr ydym eisiau ei gyflawni i *grwpiau penodol o fewn y farchnad lafur* yng Ngwynedd:

⇧ Pobl yn symud o fudd-daliadau i waith

**Beth fyddwn ni yn ei gyflawni yn ystod 2014 - 15?**

Rhestrir isod y prosiectau y byddwn yn eu gweithredu fesul blaenoriaeth er mwyn cyflawni'r canlyniadau uchod. Nodir hefyd yr addewidion y bydd pob un yn eu gwireddu yn ystod 2014 - 15.

<u>ECON1: Cryfhau Gwytnwch Busnesau'r Sir a Chadw'r Budd yn Lleol:</u>

*Prosiect Cadw'r Budd yn Lleol: Caffael y Cyngor*

- Bydd y Cyngor wedi newid ei drefniadau fel sail i gynyddu ei wariant efo busnesau lleol.

*Prosiectau Buddsoddi yng Ngwynedd*
*(a) Gwynedd Ddigidol*

- Bydd argaeledd y ddarpariaeth newydd i fusnesau'r Sir wedi ei hyrwyddo.
- Bydd sylw wedi ei roi i ddefnyddio technolegau blaengar eraill ar gyfer busnesau a chartrefi fydd ddim yn derbyn darpariaeth Cyflymu Cymru.
- Bydd y gefnogaeth fwyaf effeithiol i fusnesau cynhenid y Sir wedi ei hadnabod a'i hyrwyddo ar gyfer sefydlu defnydd e.fusnes ac e.fasnachu o ganlyniad i werthusiad o'r peilot a gynhaliwyd yn y Sir ar y cyd â Llywodraeth Cymru.
- Bydd busnesau wedi dechrau manteisio wrth i'r gwaith o dreiglo rhaglen gefnogaeth e.fusnes ac e.fasnachu gychwyn ar draws y Sir.

*(b) Yma Mae Pethau yn Digwydd*

- Bydd pobl a busnesau lleol wedi manteisio o 5 digwyddiad proffil uchel cenedlaethol neu ryngwladol wedi eu denu i Wynedd, a 6 digwyddiad llai, ar draws y Sir.
- Bydd oddeutu £3.5m ychwanegol wedi ei ddenu i economi'r Sir trwy'r digwyddiadau.
- Bydd pobl ifanc yn fwy ymwybodol o'r cyfleoedd yn y maes digwyddiadau.
- Bydd arbenigedd 3 grŵp cymunedol o fewn ardaloedd y digwyddiadau wedi ei ddatblygu.

<u>ECON2: Gwella Ansawdd Swyddi a Lefelau Cyflog:</u>

*Prosiect Swyddi Gwerth Uchel ac o Ansawdd*

- Bydd eglurder yn ei le ar y sectorau gwerth uchel i'w targedu ar gyfer safleoedd Trawsfynydd a Llanbedr, a hefyd y camau allweddol ar gyfer y gwaith targedu busnesau a swyddi.
- Bydd Cynigion Sector mewn lle ar gyfer 3 sector (Ynni ac Amgylchedd; Digidol a Data; Uwch-Weithgynhyrchu); a bydd y clystyrau busnes perthnasol wedi cychwyn cael eu cefnogi.
- Bydd y gwasanaeth i gynorthwyo gyda mewnfuddsoddiad yn ei le, ar gyfer sefydlu gwaith a swyddi gwerth uchel yn y Sir.
- Bydd eglurder mewn lle ar sut bydd trigolion y Sir yn cael eu cysylltu gyda chyfleoedd gwaith gwerth uchel.

**Sut fyddwn ni yn mesur effaith ein gwaith?**

Byddwn yn defnyddio'r mesuryddion isod er mwyn mesur cynnydd y prosiectau o safbwynt gwireddu'r canlyniadau a'r blaenoriaethau. Nodir hefyd yr uchelgais ar gyfer pob canlyniad, sef maint y gwahaniaeth rydym eisiau ei gyflawni i drigolion Gwynedd.

| Mesuryddion Canlyniad | Gwaelodlin | Perfformiad 2013 - 14 | Uchelgais 2014 - 15 | Uchelgais 2017 |
|---|---|---|---|---|
| Canlyniad = ⇧ Swyddi ar gyfer pobl Gwynedd yn cael eu gwarchod a'u creu | | | | |
| • Nifer swyddi wedi eu diogelu o fewn busnesau'r Sir o ganlyniad i weithgaredd Caffael y Cyngor. | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | Gosod Gwaelodlin | I'w Sefydlu |
| • Nifer swyddi wedi eu creu o fewn busnesau'r Sir o ganlyniad i weithgaredd Caffael y Cyngor. | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | Gosod Gwaelodlin | I'w Sefydlu |
| • Canran gwariant y Cyngor efo busnesau lleol. | 40.33% | 40.33% | Gwelliant | 40 - 45% |
| Canlyniad = ⇧ Busnesau lleol yn gystadleuol ac yn goroesi | | | | |
| • Nifer busnesau'r Sir yn adrodd iddynt ddefnyddio technoleg (e.fusnes / e.fasnachu) o ganlyniad i ymyrraeth *Gwynedd Ddigidol*. | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | 250 o'r newydd | 750 o'r newydd (cronnus) |
| • Cyllid wedi ei ddenu i'r economi leol o'r digwyddiadau proffil uchel. | £6.3m | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | £3.5m | £10.5m (cronnus) |
| Canlyniad = ⇧ Swyddi gwerth uchel ar gael i bobl y Sir | | | | |
| • Nifer swyddi gwerth uchel wedi eu creu. | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | 30 o'r newydd | 150 - 200 (cronnus) |

| Mesuryddion Canlyniad | Gwaelodlin | Perfformiad 2013 - 14 | Uchelgais 2014 - 15 | Uchelgais 2017 |
|---|---|---|---|---|
| Canlyniad =⇧ Dewis o swyddi amrywiol i bobl ar draws Gwynedd | | | | |
| • Nifer swyddi wedi eu creu o fewn Ardaloedd Gwynedd. | 68.5 | 68.5 | 50 | I'w sefydlu |

| Beth arall fyddwn ni yn ei fesur? |
|---|
| Byddwn hefyd yn mesur y mesuryddion allweddol eraill sydd yn berthnasol i'r maes, sef:<br><br>• Mesuryddion Allweddol y Cyngor<br>• Mesuryddion Strategol Cenedlaethol |

| Mesuryddion Allweddol y Cyngor (Haen 1) | Perfformiad 2012 - 13 | Perfformiad 2013 - 14 | Uchelgais 2014 - 15 | Cyfeiriad Uchelgais |
|---|---|---|---|---|
| • Nifer o swyddi newydd wedi eu creu gyda chefnogaeth y Cyngor. | 60 | 89.38 | 36 | Derbyn gostyngiad yn yr hinsawdd bresennol |

Nid oes Mesuryddion Strategol Cenedlaethol ar gyfer y maes.

**Beth fyddwn ni yn ei gynllunio yn ystod 2014 – 15?**

Yn ogystal â gweithio tuag at wireddu'r addewidion pendant a nodwyd uchod, byddwn hefyd yn cynllunio ymlaen yn y meysydd isod. Byddwn yn gwneud hyn un ai er mwyn cadarnhau'r addewidion i'w gwireddu neu sicrhau eglurder yn ystod neu erbyn diwedd y flwyddyn ar yr hyn y gellir ei gyflawni i bobl Gwynedd fel bod modd i ni benderfynu a ydym am gynnig addewidion pendant yn y meysydd hynny o 2015 - 16 ymlaen.

ECON1: Cryfhau Gwytnwch Busnesau'r Sir a Chadw'r Budd yn Lleol:

*Hyrwyddo Prynu Lleol*

- Bydd y cynllun a'r brand mewn lle ar gyfer hybu pryniant mewn siopau a busnesau lleol, a bydd y Cyngor wedi cychwyn gweithredu.

*Gwynedd Werdd – Economi Fwy Hunangynhaliol*

- Bydd y prosiect wedi ei ddatblygu i gyd-fynd gydag amserlen Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru (rhaglen cyllid Ewrop) a bydd y ceisiadau priodol wedi eu cyflwyno i ganiatáu gweithredu yng Ngwynedd.

ECON2: Gwella Ansawdd Swyddi a Lefelau Cyflog:

*Cynlluniau Cyflogaeth*

- Bydd y Cyngor wedi ymateb i ganfyddiadau Cynllun Cyflogaeth Llŷn ac Eifionydd, trwy lunio cynllun gweithredu fel sail ar gyfer targedu cyfleoedd ac adnoddau i'r ardal yn y dyfodol.

*Adeiladu ar Ein Cryfderau*

- Bydd gwerth buddsoddiad Safle Treftadaeth y Byd i'r Sir a'i thrigolion yn eglur.
- Bydd rhanddeiliaid, gan gynnwys cymunedau, wedi eu cynnwys wrth sefydlu'r bwriadau ar gyfer yr ardaloedd llechi a'r safleoedd ar gyfer enwebiad Safle Treftadaeth y Byd.
- Bydd ceisiadau cyllido ar gyfer prosiect Glannau Caernarfon wedi eu cyflwyno.

| ECON3: Gwella Mynediad Pobl y Sir i Waith ac Ymateb i Rwystrau: |
| --- |
| • Bydd y Cyngor wedi cydweithio gydag Awdurdodau Lleol eraill Gogledd Cymru i adnabod yr ymyraethau cywir yn 2014 - 15 ar gyfer gweithredu rhaglen waith briodol yn y blynyddoedd dilynol. |

## 9. MAES YR AMGYLCHEDD

| **Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y maes?** |
|---|
| AMG1: Hybu Cyflenwad Addas o Dai ar gyfer Pobl Leol<br>AMG2: Lleihau Allyriadau Carbon<br>AMG3: Ymateb i Fygythiadau Newid Hinsawdd<br>AMG4: Lleihau Faint o Wastraff sy'n Mynd i'w Dirlenwi |

**Pam fod y rhain yn flaenoriaethau?**

- Nid oes digon o dai addas ar gael i drigolion lleol yn y Sir sydd o'r math a'r maint cywir, yn y lleoliad iawn ac am y pris cywir.
- Mae allyriadau carbon yng Ngwynedd yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd lleol yn ogystal â chyfrannu tuag at effeithiau newid yn yr hinsawdd ar lefel byd eang. Er mai dim ond bychan iawn yw cyfraniad y Cyngor a Gwynedd mae'n bwysig ein bod yn chwarae ein rhan trwy leihau ein hallyriadau carbon ar lefel briodol.
- Nid yw'r trefniadau presennol ar gyfer ymateb i fygythiadau newid hinsawdd yn addas a chynaliadwy.
- Mae gorddibyniaeth ar waredu gwastraff i safleoedd tirlenwi ac felly mae angen cynyddu lefelau ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio ar draws y Sir.

**Beth yw'r canlyniadau yr ydym yn ceisio'u cyflawni i drigolion Gwynedd?**

Dyma'r gwahaniaeth yr ydym eisiau ei gyflawni i *holl bobl* Gwynedd:

⇧ Pobl Gwynedd yn cael unedau tai addas
⇩ Allyriadau carbon y Cyngor
⇧ Pobl Gwynedd yn ymdopi'n well efo llifogydd
⇧ Ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio gan bobl a busnesau Gwynedd

**Beth fyddwn ni yn ei gyflawni yn ystod 2014 - 15?**

Rhestrir isod y prosiectau y byddwn yn eu gweithredu fesul blaenoriaeth er mwyn cyflawni'r canlyniadau uchod. Nodir hefyd yr addewidion y bydd pob un yn eu gwireddu yn ystod 2014 - 15.

<u>AMG1: Hybu Cyflenwad Addas o Dai ar gyfer Pobl Leol:</u>

*Prosiect Tai Gwag Nôl i Ddefnydd*

- Bydd 70 o bobl Gwynedd (gyda blaenoriaeth ar y digartref ac ymgeiswyr oddi rhestr tai cyffredin yng Ngwynedd) wedi elwa o waith i ddod â 35 o unedau tai gwag yn ôl i ddefnydd drwy gymorth grantiau ar gyfer pobl leol am rent / pris fforddiadwy.
- Bydd pobl wedi elwa o waith i ddod â 25 o unedau tai gwag yn ôl i ddefnydd drwy gymorth benthyciadau, mesuriadau gorfodaeth ac anogaeth sydd ar gael yn y farchnad dai agored lleol.

*Prosiect Tai Fforddiadwy*

- Bydd rhwng 139 - 187 o bobl Gwynedd sy'n methu fforddio cartref addas wedi manteisio ar waith i sefydlu 115 o unedau tai fforddiadwy fydd ar gael i'w rhentu a'u prynu yn y Sir.
- Bydd rhwng 80 - 98 o bobl Gwynedd sy'n methu fforddio cartref addas wedi manteisio ar gynnydd o 61 yn y nifer o unedau tai llai mewn llefydd ag angen.
- Bydd model cyllido yn ei le sydd wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth tai fforddiadwy yn y Sir.
- Bydd penderfyniad wedi ei wneud os oes modelau Ymddiriedolaeth Tir addas a hyfyw ar gyfer eu gweithredu yn y Sir.

- Bydd cynllun yn ei le i gynorthwyo hunan adeiladwyr i oresgyn y rhwystrau sydd ynghlwm ag amodau 106.

AMG2: Lleihau Allyriadau Carbon:

*Cynllun Rheoli Carbon y Cyngor*
- Bydd 8 o gynlluniau wedi eu gweithredu i ddod ag allyriadau carbon i lawr 5% pellach er mwyn cwrdd â tharged o leihad o 25% yn allyriadau carbon y Cyngor erbyn diwedd 2014 - 15.
- Bydd adolygiad o'r cynllun wedi ei gwblhau ac opsiynau ar gyfer Cynllun Rheoli Carbon Newydd wedi eu hadnabod gan benderfynu ar hyfywdra cynllun i'r dyfodol.

AMG3: Ymateb i Fygythiadau Newid Hinsawdd:

*Prosiect Ymateb i Fygythiadau Newid Hinsawdd*
- Bydd 1,750 o aelwydydd mewn ardaloedd hefo risg o lifogydd yn ymwybodol o'r risg sy'n eu hwynebu ac yn deall y camau sydd angen eu cymryd er mwyn lliniaru'r risg hwnnw.

AMG4: Lleihau Faint o Wastraff sy'n Mynd i'w Dirlenwi:

*Prosiect Lleihau Gwastraff*
- Bydd pobl Gwynedd wedi lleihau'r gwastraff bwrdeistrefol a yrrir i'w dirlenwi a chynyddu lefelau ailddefnyddio / ailgylchu / compostio.
- Bydd busnesau Gwynedd wedi lleihau'r gwastraff masnachol a yrrir i'w dirlenwi a chynyddu lefelau ailddefnyddio / ailgylchu / compostio.

**Sut fyddwn ni yn mesur effaith ein gwaith?**

Byddwn yn defnyddio'r mesuryddion isod er mwyn mesur cynnydd y prosiectau o safbwynt gwireddu'r canlyniadau a'r blaenoriaethau. Nodir hefyd yr uchelgais ar gyfer pob canlyniad, sef maint y gwahaniaeth rydym eisiau ei gyflawni i drigolion Gwynedd.

| Mesuryddion Canlyniad | Gwaelodlin | Perfformiad 2013 - 14 | Uchelgais 2014 - 15 | Uchelgais 2017 |
|---|---|---|---|---|
| Canlyniad = ⇧ Pobl Gwynedd yn cael unedau tai addas | | | | |
| • Canran trigolion sydd wedi eu cartrefu o ganlyniad i waith gan y Cyngor sydd wedi gweld gwahaniaeth positif i'w bywydau. | 82% yn nodi effaith bositif o ran bod y tŷ yn fforddiadwy; 77% yn nodi effaith bositif o ran agweddau cymdeithasol. | 82% yn nodi effaith bositif o ran bod y tŷ yn fforddiadwy; 77% yn nodi effaith bositif o ran agweddau cymdeithasol. | Cynnal | Cynnal |
| • Nifer o unigolion / cyplau / teuluoedd sydd wedi elwa o ganlyniad i ddarpariaeth unedau tai gwag nôl i ddefnydd. | 50 | 50 | 70 | 262 (Cronnus) |
| • Nifer o unigolion / cyplau / teuluoedd sydd wedi elwa o ganlyniad i ddarpariaeth tai fforddiadwy. | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | 139 - 187 | I'w Sefydlu |

| Mesuryddion Canlyniad | Gwaelodlin | Perfformiad 2013 - 14 | Uchelgais 2014 - 15 | Uchelgais 2017 |
|---|---|---|---|---|
| Canlyniad = ⇩ Allyriadau carbon y Cygnor | | | | |
| • Canran y lleihad yn lefel yr allyriadau carbon sy'n cael ei gynhyrchu trwy weithgareddau'r Cyngor. | 30,748 $tCO_2$ | 24.84% | 25% | I'w Sefydlu |
| Canlyniad = ⇧ Pobl Gwynedd yn ymdopi'n well efo llifogydd | | | | |
| • Nifer o aelwydydd yr ymgysylltwyd â hwy er mwyn gwella eu dealltwriaeth o risg llifogydd a sut i fyw gyda'r / lliniaru'r risg. | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | 1,750 | I'w Sefydlu |
| Canlyniad = ⇧ Ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio gan bobl Gwynedd | | | | |
| • Canran y gwastraff trefol a gesglir gan yr Awdurdod Lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio, ailgylchu neu ei gompostio [Mesurydd Strategol Cenedlaethol]. | 51.52% | 54.30% | 56% | 60% |
| • Canran y gwastraff masnachol a gesglir gan yr Awdurdod Lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio, ailgylchu neu ei gompostio. | 27.30% | 30.79% | 32 - 35% | 35 - 40% |
| • Uchafswm tunelledd gwastraff pydradwy a dirlenwir (lwfans tirlenwi). | 20,695t (Lwfans = 21,567t) | 19,650t | 19,731t | 17,895t |

| Beth arall fyddwn ni yn ei fesur? |
|---|
| Byddwn hefyd yn mesur y mesuryddion allweddol eraill sydd yn berthnasol i'r maes, sef:<br><br>• Mesuryddion Allweddol y Cyngor<br>• Mesuryddion Strategol Cenedlaethol |

| Mesuryddion Allweddol y Cyngor (Haen 1) | Perfformiad 2012 - 13 | Perfformiad 2013 - 14 | Uchelgais 2014 - 15 | Cyfeiriad Uchelgais |
|---|---|---|---|---|
| • Canran y troseddau sylweddol a gafodd eu cywiro drwy ymyrraeth gan Gwarchod y Cyhoedd. | 87.5% | 92.00% | 85 - 100% | Gwelliant |
| • Canran o sefydliadau bwyd sydd yn y system sy'n cyrraedd sgôr 4 / 5 safonau hylendid bwyd. | Mesurydd Newydd yn 2013 - 14 | 91.00% | 75 - 100% | Gwelliant |
| • Canran yr holl geisiadau cynllunio perthnasol wedi eu pennu o fewn 8 wythnos. | 70.1% | 77.22% | 70 - 75% | Cynnal |
| • Mesur o Lendid ac Edrychiad Strydoedd. | 71.88% | 71.85% | 71% | Gwelliant |

| Mesuryddion Allweddol y Cyngor (Haen 1) | Perfformiad 2012 - 13 | Perfformiad 2013 - 14 | Uchelgais 2014 - 15 | Cyfeiriad Uchelgais |
|---|---|---|---|---|
| • Canran y prif ffyrdd (dosbarth A) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol. | 5.2% | 4.4% | 5% | Derbyn gostyngiad yn yr hinsawdd bresennol |
| • Canran ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd / ffyrdd dosbarthedig (B) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol. | 5.3% | 4.7% | 5.1% | Derbyn gostyngiad yn yr hinsawdd bresennol |

| Mesuryddion Strategol Cenedlaethol | Perfformiad 2012 - 13 | Perfformiad 2013 - 14 | Uchelgais 2014 - 15 | Cyfeiriad Uchelgais |
|---|---|---|---|---|
| • Nifer o unedau tai fforddiadwy a gafodd eu darparu fel canran o'r holl unedau tai ychwanegol a gafodd eu darparu yn ystod y flwyddyn drwy'r drefn cynllunio. | 30% | 41% | 16 - 30% | Derbyn gostyngiad yn yr hinsawdd bresennol |
| • Canran yr oedolion sy'n 60 oed neu drosodd sy'n ddeiliaid tocynnau Teithio rhatach ar y bws. | 84.93% | 84.56% | 82.63 - 84.04% | Cynnal |
| • Canran o ddigwyddiadau gwaredu slei bach ar dir perthnasol sydd wedi clirio o fewn 5 diwrnod gwaith i'r amser hysbyswyd. | 93.8% | 97.86% | 94 - 95% | Cynnal |
| • Canran y gwastraff trefol yrrwyd i'w dirlenwi. | 46.92% | 46.07% | 44% | Gwelliant |
| • Canran o'r anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr Awdurdod Lleol. | 4.34% | 5.24% | 4.5 - 5.5% | Cynnal |

## 10. MAES CYMUNEDAU CRYF

**Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y maes?**

CC1: Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg
CC2: Mynd i'r Afael â Thlodi ac Amddifadedd
CC3: Hybu Cymunedau Gwledig Cynaliadwy

**Pam fod y rhain yn flaenoriaethau?**

- Gwelwyd lleihad o 3.6% yn y nifer o siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011 yn ogystal â lleihad yn y nifer o wardiau etholiadol yng Ngwynedd gyda 70% neu fwy o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg. Mae llai o blant a phobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol / cymdeithasol a cheir amrywiaeth o ran polisïau iaith cyrff ac asiantaethau cyhoeddus o fewn y Sir.
- Mae angen symud y ffocws o liniaru effaith tlodi ac amddifadedd yn unig i roi sylw i'r ffactorau ehangach sydd yn eu hachosi, yn ogystal â pharhau gyda mesurau i leihau effaith y newidiadau yn y drefn Diwygio Lles, a gweithio i leihau digartrefedd.
- Mae fformiwla cyllido Llywodraeth Leol y Cynulliad yn creu anfantais i'r Cyngor gan nad yw'n cymryd i ystyriaeth natur wledig y Sir. O ganlyniad, mae dirywiad cymharol mewn adnoddau cyhoeddus i'r Cyngor ac mae hyn, yn ei dro, yn cael effaith ar ddarpariaeth gwasanaethau mewn cymunedau gwledig.

**Beth yw'r canlyniadau yr ydym yn ceisio'u cyflawni i drigolion Gwynedd?**

Dyma'r gwahaniaeth yr ydym eisiau ei gyflawni i *holl bobl* Gwynedd:

⇧ Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc y tu allan i'r ysgol
⬄ Cymunedau gyda dros 70% o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg
⬄ Cymunedau sydd wedi gostwng o dan 70%
⇩ Dirywiad cymharol mewn adnoddau cyhoeddus i'r Cyngor oherwydd natur wledig y Sir

Dyma'r gwahaniaeth yr ydym eisiau ei gyflawni i *grwpiau bregus* o bobl yng Ngwynedd:

⇧ Pobl yn gallu ymdopi yn annibynnol efo'r her ariannol yn deillio o'r drefn Diwygio Lles
⇩ Pobl yn cael eu derbyn yn ddigartref
⇩ Pobl dan anfantais oherwydd tlodi

**Beth fyddwn ni yn ei gyflawni yn ystod 2014 – 15?**

Rhestrir isod y prosiectau y byddwn yn eu gweithredu fesul blaenoriaeth er mwyn cyflawni'r canlyniadau uchod. Nodir hefyd yr addewidion y bydd pob un yn eu gwireddu yn ystod 2014 - 15.

<u>CC1: Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg:</u>

*Prosiect Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd*

- Bydd pob Ysgol Gynradd wedi eu harfogi i weithredu gofynion Gwobr Efydd a / neu Arian Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd fel dull o gynyddu defnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg.

*Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg*

- Bydd cynnydd yng nghanran y disgyblion Blwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (Iaith Gyntaf).
- Bydd Cynllun Gweithredu wedi ei gytuno yn sgil yr Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg.

*Prosiect Cymunedau yn Hyrwyddo'r Gymraeg*

- Bydd cymunedau wedi eu grymuso i weithredu cynlluniau fydd yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg.

*Prosiect Y Gymraeg yn y Gwasanaethau Cyhoeddus*

- Bydd y Cyngor wedi cydweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill yr ardal i weithio tuag at y Safonau Iaith a chynllunio arfer dda ar y cyd.

<u>CC2: Mynd i'r Afael â Thlodi ac Amddifadedd:</u>

*Prosiect Diwygio Lles*

- Bydd teuluoedd wedi derbyn cefnogaeth i addasu i'r newid achosir gan y dreth llofftydd ac osgoi syrthio i ddyled trwy barhau i weithredu'r Gronfa Galedi (Tâl Dewisol Tai).
- Bydd trigolion wedi eu cefnogi i ddod yn fwy annibynnol trwy strwythuro a thargedu'r cymorth fydd ar gael e.e. trwy'r Gronfa Galedi, a sefydlu trefn dapro dros amser.
- Bydd gallu derbynwyr cymorth i ddod yn fwy annibynnol wedi ei gryfhau trwy ddatblygu eu sgiliau.
- Bydd y Cyngor wedi cadw llygad ar effaith y newidiadau budd-daliadau hyd yma ar ddinasyddion, gan adnabod y sgîl-effeithiau problemus er mwyn darparu cefnogaeth brydlon i'r rhai effeithir fwyaf.
- Bydd y Cyngor wedi cydweithio'n lleol efo'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn adnabod bylchau gwasanaeth a chostau; a rhagbaratoi ar gyfer y Gwasanaethau Cymorth Lleol newydd fydd yn cefnogi Hawlwyr y Credyd Cynhwysol pan ddaw i rym yn 2016.
- Bydd y Cyngor wedi sicrhau fod pobl ar fudd-daliadau efo gwasanaeth safonol, cydlynus a chyson ar draws sefydliadau er mwyn ateb cwestiynau, sicrhau mynediad i'r union wybodaeth arbenigol sydd ei hangen, a'u cyfeirio at leoliadau cyfrifiaduron cyfagos ac at gyngor ariannol.
- Bydd adnoddau allanol newydd wedi eu denu i gefnogi rhaglen cynhwysiad ariannol ar gyfer rhai ar fudd-daliadau.
- Bydd cyngor arbenigol wedi ei ddarparu i hawlwyr budd-daliadau mewn lleoliadau hanesyddol dirwasgedig yn ardaloedd Caernarfon, Bangor a Thalysarn.

*Prosiect Lesu Tai Preifat*

- Bydd stoc unedau byw y Sir yn cyd-fynd yn well efo'r galw gan ddefnyddwyr o ran mathau o gartrefi - a'r cartrefi hynny ar gyfer eu rhentu ar gael yn y lleoliadau cywir.
- Bydd cynnydd yn yr unedau sydd gan y Cyngor i'w cynnig trwy'r sector breifat, gyda 5 uned ychwanegol yn 2014 - 15 yn cyfrannu at y cyfanswm newydd o 65 uned.

*Prosiect Atal Digartrefedd*

- Bydd 60 unigolyn neu deulu wedi derbyn blaendal rhent i'w galluogi i osgoi digartrefedd ac osgoi mynd i wely a brecwast neu lety anaddas.
- Bydd 60 o unedau o fewn y sector breifat wedi eu sicrhau.
- Bydd y Cyngor wedi rhoi sylw pellach i anghenion grwpiau bregus mewn peryg o fod yn ddigartref trwy adnabod be fydd yn lleddfu pryderon landlordiaid ynglŷn â risgiau ôl-ddyledion ac yn eu cymell i gytuno i ddarparu unedau ar rent, ynghyd â'r mathau o becynnau i'w darparu, gyda 5 uned wedi eu darparu dros y cyfnod.
- Bydd y Cyngor wedi adnabod yr ardaloedd i'w targedu o ran llenwi bylchau yn y cyflenwad unedau byw trwy waith sgopio.

*Prosiect Cyflog Teg*

- Bydd gweithwyr y Cyngor mewn 2,085 o swyddi wedi manteisio o ddileu 2 bwynt isaf cyflog y Cyngor.

| **Sut fyddwn ni yn mesur effaith ein gwaith?** |
|---|
| Byddwn yn defnyddio'r mesuryddion isod er mwyn mesur cynnydd y prosiectau o safbwynt gwireddu'r canlyniadau a'r blaenoriaethau. Nodir hefyd yr uchelgais ar gyfer pob canlyniad, sef maint y gwahaniaeth rydym eisiau ei gyflawni i drigolion Gwynedd. |

| Mesuryddion Canlyniad | Gwaelodlin | Perfformiad 2013 - 14 | Uchelgais 2014 - 15 | Uchelgais 2017 |
|---|---|---|---|---|
| Canlyniad = ⇧ Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc y tu allan i'r ysgol | | | | |
| • Nifer Ysgolion Cynradd Gwynedd sydd wedi ennill safon Efydd Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd. | 21 (o 24) | 21 (o 24) | 43 - 50 | Gwelliant |
| • Nifer Ysgolion Cynradd Gwynedd sydd wedi ennill safon Arian Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd. | 0 | 0 | 15 | Gwelliant |
| Canlyniad = ⇧ Pobl yn gallu ymdopi yn annibynnol efo'r her ariannol yn deillio o'r drefn Diwygio Lles | | | | |
| • Canran yr unigolion sydd wedi dangos cynnydd tuag at ymdopi yn annibynnol o'r rhai sydd wedi derbyn cyngor a / neu ddarpariaeth sgilio ariannol. | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | Gosod Gwaelodlin | Gwelliant |
| Canlyniad = ⇩ Pobl yn cael eu derbyn yn ddigartref | | | | |
| • Canran yr holl deuluoedd digartref posibl lle ataliwyd digartrefedd am o leiaf 6 mis [Mesurydd Cenedlaethol Statudol]. | 42.20% | 42.20% | 45% | 45% |
| • Cyfartaledd nifer diwrnodau mae pob teulu digartref gyda phlant wedi ei dreulio mewn llety gwely a brecwast. | 40.80 | 22.25 | 28 | 21 |
| • Cyfartaledd nifer diwrnodau mae pob teulu digartref wedi ei dreulio mewn llety gwely a brecwast. | 40.45 | 35.80 | 30 | 28 |

| **Beth arall fyddwn ni yn ei fesur?** |
|---|
| Byddwn hefyd yn mesur y mesuryddion allweddol eraill sydd yn berthnasol i'r maes, sef:<br><br>• Mesuryddion Allweddol y Cyngor<br>• Mesuryddion Strategol Cenedlaethol |

| Mesuryddion Allweddol y Cyngor (Haen 1) | Perfformiad 2012 - 13 | Perfformiad 2013 - 14 | Uchelgais 2014 - 15 | Cyfeiriad Uchelgais |
|---|---|---|---|---|
| • Yr amser (nifer y diwrnodau) a gymerir i brosesu hawliadau newydd am Fudd-daliadau Tai a Budd-daliadau'r Dreth Gyngor. | 21.03 | 24.16 | 21 | Gwelliant |
| • Yr amser (nifer y diwrnodau) a gymrwyd i brosesu digwyddiadau o newid mewn Budd-daliadau Tai a Budd-daliadau'r Dreth Gyngor. | 6.57 | 8.6 | 7 | Gwelliant |

| Mesuryddion Allweddol y Cyngor (Haen 1) | Perfformiad 2012 - 13 | Perfformiad 2013 - 14 | Uchelgais 2014 - 15 | Cyfeiriad Uchelgais |
|---|---|---|---|---|
| • Canran o oedolion sy'n nodi fod y gwasanaeth llyfrgell wedi galluogi iddynt ddarganfod y wybodaeth oedd ei angen arnynt. | Mesurydd Newydd yn 2013 - 14 | 85% | 85% | Cynnal |

| Mesuryddion Strategol Cenedlaethol | Perfformiad 2012 - 13 | Perfformiad 2013 - 14 | Uchelgais 2014 - 15 | Cyfeiriad Uchelgais |
|---|---|---|---|---|
| • Nifer ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth. | 5040 | 5040 | 5060 | Gwelliant |

**Beth fyddwn ni yn ei gynllunio yn ystod 2014 – 15?**

Yn ogystal â gwireddu'r addewidion pendant a nodwyd uchod, byddwn hefyd yn cynllunio ymlaen yn y meysydd isod. Byddwn yn gwneud hyn un ai er mwyn cadarnhau'r addewidion i'w gwireddu neu sicrhau eglurder yn ystod neu erbyn diwedd y flwyddyn ar yr hyn y gellir ei gyflawni i drigolion Gwynedd fel bod modd i ni benderfynu a ydym am gynnig addewidion pendant yn y meysydd hynny o 2015 - 16 ymlaen.

<u>CC1: Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg:</u>

*Pobl Ifanc yn defnyddio'r Gymraeg yn Gymdeithasol*

- Bydd cynlluniau peilot yn weithredol mewn 2 Ysgol Uwchradd fel dull o gynyddu defnydd cymdeithasol pobl ifanc o'r Gymraeg.

*Arolwg Tai ac Iaith*

- Bydd ymyraethau polisi wedi eu hintegreiddio i faes gwaith datblygu cymunedol, cynllunio a thai er mwyn sicrhau fod datblygiadau yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg.

<u>CC2: Mynd i'r Afael â Thlodi ac Amddifadedd:</u>

*Cydymdrechu yn erbyn Tlodi*

- Bydd y Cyngor wedi sefydlu cynllun gweithredu gyda'i bartneriaid fydd yn adnabod: y rhaglenni amrywiol presennol o fewn y maes, y bylchau, a'r prif ymyraethau ataliol priodol i amgylchiadau Gwynedd - fel sail i weithredu prosiectau fydd yn gwneud gwahaniaeth i drigolion y sir yn y cyfnod 2014 - 17.
- Bydd y Cyngor wedi adnabod y cymunedau o angen i'w targedu a'r dull mwyaf effeithiol o'u cefnogi.
- Bydd y Cyngor wedi cydweithio gyda Llywodraeth Cymru a'i bartneriaid ar draws meysydd a rhaglenni cefnogi pobl er mwyn hybu effeithlonrwydd, osgoi dyblygu, a sicrhau bod pawb yn canolbwyntio ar weithredu cynlluniau gaiff y gwahaniaeth mwyaf ar sefyllfa benodol tlodi ac amddifadedd yng Ngwynedd.
- Bydd y Cyngor wedi adnabod y capasiti, ac adnoddau allanol ar gyfer gweithredu at 2017.

<u>CC3: Hybu Cymunedau Gwledig Cynaliadwy:</u>

*Hybu Cymunedau Gwledig Cynaliadwy*

- Bydd enghreifftiau o lobio llwyddiannus am adnoddau mewn meysydd penodol.
- Bydd peilot cynllunio gofodol wedi ei gynnal mewn un ardal er mwyn datblygu dealltwriaeth o'r fframwaith gofodol.

## 11. MAES DIWYLLIANT A THREFNIADAU BUSNES Y CYNGOR

**Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y maes?**

DT1: Hybu Diwylliant drwy'r Cyngor Cyfan o Roi Pobl Gwynedd yn Ganolog i'n Holl Waith a'n Penderfyniadau
DT2: Ymgysylltu'n Effeithiol â Phobl Gwynedd a Sicrhau eu Cyfranogaeth a'u Perchnogaeth o'r Dyfodol
DT3: Gwneud Defnydd Mwy Effeithlon o Adnoddau, Gan Geisio Lleihau Effaith Toriadau ar Bobl Gwynedd
DT4: Lleihau'r Galw ar Wasanaethau Drwy Atal ac Ymyrraeth Gynnar

**Pam fod y rhain yn flaenoriaethau?**

- Mae angen rhoi sylw i drefniadau a chyfundrefnau'r Cyngor, gan nad yw ein trefniadau presennol yn sicrhau fod pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud.
- Gwelwyd fod trefniadau ymgysylltu'r Cyngor ar gyfer y prif brosiectau ar brydiau yn ddarniog, ond yn fwy na hynny mae tystiolaeth gref bod lle i ni wella ein trefniadau ymgysylltu gyda'r cyhoedd.
- Roedd y Cyngor eisoes wedi cynllunio y byddai angen arbed £25m dros y pedair blynedd nesaf (yn cychwyn yn 2014 - 15) ond mae'r ffigwr yma gymaint â £50m erbyn hyn.
- Ni all y Cyngor ddygymod gyda'r galw cynyddol ar wasanaethau oni bai ein bod yn gwneud toriadau i wasanaethau. Mae wedi dod yn amlwg felly fod angen i ni adnabod dulliau newydd ac arloesol o ddarparu gwasanaethau, os am geisio lleihau nifer o wasanaethau sydd yn cael eu torri. Mae hyn yn golygu cynyddu buddsoddiad a ffocws y Cyngor ar waith ataliol ac ymyrraeth gynnar mewn meysydd allweddol.

**Beth yw'r canlyniadau yr ydym yn ceisio'u cyflawni i drigolion Gwynedd?**

Dyma'r gwahaniaeth yr ydym eisiau ei gyflawni i *holl bobl* Gwynedd:

⇧ Pobl yn derbyn gwasanaethau sydd yn cwrdd â'u hanghenion ac yn cynnig gwerth am arian
⇧ Pobl Gwynedd yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau sydd yn effeithio ar eu bywydau a'u hardal
⬄ Cyflawni arbedion o £15m heb wneud toriadau
⇩ Galw am wasanaethau
⇩ Cost darparu gwasanaethau
⇧ Canlyniadau i drigolion Gwynedd

**Beth fyddwn ni yn ei gyflawni yn ystod 2014 - 15?**

Rhestrir isod y prosiectau y byddwn yn eu gweithredu fesul blaenoriaeth er mwyn cyflawni'r canlyniadau uchod. Nodir hefyd yr addewidion y bydd pob un yn eu gwireddu yn ystod 2014 - 15.

<u>DT1: Hybu Diwylliant drwy'r Cyngor Cyfan o Roi Pobl Gwynedd yn Ganolog i'n Holl Waith a'n Penderfyniadau:</u>

*Prosiect Ffordd Gwynedd – Pobl Yn Ganolog*

- Bydd ymyraethau Ffordd Gwynedd wedi eu gweithredu o fewn unedau gwasanaethau er mwyn gwireddu £200,000 o arbedion.
- Bydd pob rheolwr wedi cael y cyfle i fynychu cyflwyniad er mwyn deall egwyddorion Ffordd Gwynedd a'r gyfundrefn perfformiad.
- Bydd 7 Tîm wedi derbyn cefnogaeth er mwyn gweithredu Ffordd Gwynedd o fewn eu gwasanaeth.
- Bydd gan arweinwyr Rhaglen Ddatblygu unigol mewn lle.
- Bydd eglurder yn ei le ynghylch pa gymorth pellach mae rheolwyr eu hangen er mwyn gwireddu eu rôl newydd.
- Bydd gwerthusiad ffurfiol o'r gyfundrefn Cefnogi Newid wedi ei gwblhau er mwyn adnabod unrhyw fylchau a bydd rhaglen waith mewn lle i gwrdd gydag unrhyw fylchau.
- Bydd 2 gwasanaeth yn cael eu darparu drwy hunan wasanaeth.

- Bydd cynlluniau mewn lle er mwyn rhoi'r Strategaeth T.G. ar waith.

DT2: Ymgysylltu'n Effeithiol â Phobl Gwynedd a Sicrhau eu Cyfranogaeth a'u Perchnogaeth o'r Dyfodol:

*Prosiect Strategaeth Ymgysylltu*

- Bydd dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth gyffredin ar draws y Cyngor, gyda 'branding' a safonau ymgysylltu ble mae pawb wedi ymrwymo iddynt.
- Bydd Fforwm Ymgysylltu mewn lle er mwyn rhannu'r ymarfer da, a dysgu o brofiadau ymgysylltu.
- Bydd Porth Ymgysylltu wedi sefydlu ar wefan y Cyngor er mwyn cyd-lynu'r gwaith ymgysylltu ac i sicrhau atebolrwydd i'r cyhoedd.
- Bydd cefnogaeth briodol ar gael i'r rheolwyr, er sicrhau rhoddir y strategaeth ar waith.
- Bydd ymwybyddiaeth rheolwyr o'r maes ymgysylltu wedi codi er sicrhau ansawdd a'u dealltwriaeth o'r safonau corfforaethol.
- Bydd trefniadau mewn lle i ddysgu o brofiadau ymgysylltu'r Cyngor.

DT3: Gwneud Defnydd Mwy Effeithlon o Adnoddau, Gan Geisio Lleihau Effaith Toriadau ar Bobl Gwynedd:

*Prosiect Effeithlonrwydd Strategol y Cyngor*

- Bydd cynlluniau arbedion gwerth £2m wedi eu gweithredu yn 2014 - 15.

*Prosiect Cytundeb Canlyniadau*

- Bydd trefniadau cadarn mewn lle i alluogi'r Cyngor i hawlio'r swm llawn o £1.3m yn flynyddol.

*Prosiect Gwireddu Arbedion*

- Bydd arbedion o £3.5m a gymeradwywyd eisoes ar gyfer 2014 - 15 wedi eu cyflawni.

*Rhaglen Arbedion*

- Bydd rhaglen o arbedion ar gyfer 2015 - 16 ymlaen yn ei le.

**Sut fyddwn ni yn mesur effaith ein gwaith?**

Byddwn yn defnyddio'r mesuryddion isod er mwyn mesur cynnydd y prosiectau o safbwynt gwireddu'r canlyniadau a'r blaenoriaethau. Nodir hefyd yr uchelgais ar gyfer pob canlyniad, sef maint y gwahaniaeth rydym eisiau ei gyflawni i bobl Gwynedd.

| Mesuryddion Canlyniad | Gwaelodlin | Perfformiad 2013 - 14 | Uchelgais 2014 - 15 | Uchelgais 2017 |
|---|---|---|---|---|
| Canlyniad = ⇧ Pobl yn derbyn gwasanaethau sydd yn cwrdd â'u hanghenion ac yn cynnig gwerth am arian | | | | |
| • Canran o drigolion Gwynedd sy'n fodlon gyda'r ffordd y mae Cyngor Gwynedd yn rhedeg pethau. | 57% | 63% | Gwelliant | Gwelliant |
| • Canran o drigolion Gwynedd sydd yn credu bod y Cyngor yn cynnig gwerth am arian. | 49% | 54% | Gwelliant | Gwelliant |
| • Swm arbedion a gyflawnwyd drwy ymyraethau *Ffordd Gwynedd*. | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | £200,000 | I'w Sefydlu |

| Mesuryddion Canlyniad | Gwaelodlin | Perfformiad 2013 - 14 | Uchelgais 2014 - 15 | Uchelgais 2017 |
|---|---|---|---|---|
| Canlyniad = ⇧ Pobl Gwynedd yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau sydd yn effeithio ar eu bywydau a'u hardal | | | | |
| • Canran o drigolion Gwynedd ddatgan eu bod yn bosib iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau sydd yn effeithio eu hardal. | 32% | 32% | Gwelliant | Gwelliant |
| Canlyniad = ⬄ Cyflawni arbedion o £15m heb wneud toriadau | | | | |
| • Arbedion a gyflawnwyd sy'n arbedion effeithlonrwydd. | Ddim yn berthnasol | £3.2m | £4.4m | £15m (cronnus) |

| **Beth arall fyddwn ni yn ei fesur?** |
|---|
| Byddwn hefyd yn mesur y mesuryddion allweddol eraill sydd yn berthnasol i'r maes, sef:<br><br>• Mesuryddion Allweddol y Cyngor<br>• Mesuryddion Strategol Cenedlaethol |

| Mesuryddion Allweddol y Cyngor (Haen 1) | Perfformiad 2012 - 13 | Perfformiad 2013 - 14 | Uchelgais 2014 - 15 | Cyfeiriad Uchelgais |
|---|---|---|---|---|
| • Nifer o ddamweiniau difrifol fel y diffinnir gan Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (AGID). | 2 | 4 | 0 - 4 | Cynnal |
| • Nifer y diwrnodau / shifftiau gwaith wedi eu colli oherwydd salwch, fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth ag amser llawn. | 8.52 | 5.82 | Cynnal | Cynnal |
| • Canran prosiectau'r Cynllun Strategol wedi gwireddu eu haddewidion. | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | Mesurydd Newydd yn 2014 - 15 | 70 | Cynnal |
| • Llwyddiant i gadw o fewn y gyllideb. | 0.4% | I'w Sefydlu | Gwario o fewn y gyllideb neu ddim mwy na 0.4% yn uwch yn y flwyddyn | Cynnal |
| • Canran yr anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod (ar draws y Cyngor). | 94% | 94% | 93% | Cynnal |
| • Cyfradd Casglu Blwyddyn Gyfredol Treth Cyngor. | 97.15% | 85.4% | 96.5 - 97.5% | Cynnal |

Nid oes Mesuryddion Strategol Cenedlaethol ar gyfer y maes.

| **Beth fyddwn ni yn ei gynllunio yn ystod 2014 – 15?** |
|---|
| Yn ogystal â gwireddu'r addewidion pendant a nodwyd uchod, byddwn hefyd yn cynllunio ymlaen yn y meysydd isod. Byddwn yn gwneud hyn un ai er mwyn cadarnhau'r addewidion i'w gwireddu neu sicrhau eglurder yn ystod neu erbyn diwedd y flwyddyn ar yr hyn y gellir ei gyflawni i drigolion Gwynedd fel bod modd i ni benderfynu a ydym am gynnig addewidion pendant yn y meysydd hynny o 2015 - 16 ymlaen.<br><br><u>DT2: Ymgysylltu'n Effeithiol â Phobl Gwynedd a Sicrhau eu Cyfranogaeth a'u Perchnogaeth o'r Dyfodol:</u><br><br>*Y Sgwrs Fawr*<br>• Bydd y Cyngor wedi llunio rhaglen waith gynhwysfawr a chychwyn ei rhoi ar waith er mwyn cynnal y "Sgwrs Fawr" gyda'r cyhoedd a'i bartneriaid.<br><br><u>DT4: Lleihau'r Galw ar Wasanaethau Drwy Atal ac Ymyrraeth Gynnar:</u><br><br>*Rheoli'r Galw*<br>• Bydd eglurder yn ei le ynghylch cyfeiriad ac uchelgais y prosiectau thematig rheoli'r galw (sef; Plant, Pobl Ifanc A Theuluoedd, Pobl Hŷn, Iechyd, Gwasanaethau Cyffredinol a Throsglwyddo Cyfrifoldeb), gyda phrosiectau galluogi mewn lle i gefnogi llwyddiant y prosiectau hynny.<br>• Bydd trigolion Gwynedd yn cael budd ariannol/anariannol o gynlluniau y prosiect Cyngor Ni. |

## 12. ATODIAD 1 – CYD-DESTUN ARIANNOL AR GYFER Y CYNLLUN STRATEGOL

1. Y cyd-destun i'r Cynllun Strategol yma yw'r gostyngiadau digynsail y mae Llywodraeth Cymru wedi ei osod ar Lywodraeth Leol yng Nghymru ar gyfer 2014 - 15 a 2015 - 16. Ar gyfer 2014 - 15 fe welodd Cyngor Gwynedd ostyngiad o 4.4% yn yr arian y mae'n ei dderbyn mewn grant oddi wrth y Llywodraeth ym Mae Caerdydd gyda thafluniad o ostyngiad pellach o 1.5% yn 2015 - 16.

2. Gyda thafluniadau gwariant Llywodraeth San Steffan yn y Datganiad Hydrefol yn dangos bwriad i ostwng gwariant y Llywodraeth dros 2% yn 2016 - 17 a 3.5% yn 2017 - 18 mae hyn yn awgrymu mai dwysau bydd y sefyllfa nid gwella.

3. Beth bynnag fydd y ffigyrau terfynol, nid oes unrhyw amheuaeth y byddwn yn wynebu sefyllfa anodd dros ben am gyfnod estynedig, ond mae'r Cyngor yn benderfynol o beidio â gadael i hynny weithredu fel esgus i beidio â cheisio gwella pethau i bobl Gwynedd.

4. Gan fod tua 80% o wariant y Cyngor yn dod oddi wrth y Llywodraeth drwy'r grant a dderbynnir, a chan fod yn rhaid i'r Cyngor barhau i wynebu effaith chwyddiant a chwrdd â'r pwysau cynyddol sy'n disgyn ar ein gwasanaethau, rhagwelir y byddwn yn wynebu diffyg cyllidebol sylweddol felly dros y pedair blynedd i ddod.

5. 'Rydym wedi ceisio darogan yr hyn y gallasem fod yn ei wynebu o ran diffyg posibl ac ystyried sut y byddwn yn dygymod a sefyllfa o'r fath.

6. Mae'r tabl isod yn nodi maint y diffyg y cynlluniwyd ar ei gyfer –

**Tafluniad cyllidebol at ddibenion cynllunio 2014 - 15 – 2017 - 18**

| £M | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofynion Gwario ychwanegol | 6.4 | 7.7 | 10.2 | 6.7 | 31.0 |
| Colled (cynnydd) grant | 6.7 | 4.4 | 3.5 | 6.1 | 20.7 |
| Treth Gyngor (*) | (2.7) | (1.8) | (1.9) | (2.0) | (8.4) |
| **Diffyg Cynlluniedig** | 10.4 | 10.3 | 11.8 | 10.8 | 43.3 |
| Addasiadau cyllidebol | (3.1) | | | | (3.1) |
| Cynlluniau Rhaglen bresennol | (5.5) | (0.7) | (0.2) | | (6.4) |
| Defnydd balansau a blaen arbedion | (1.8) | 1.8 | | | - |
| **I'w ddarganfod -** | (-) | 11.4 | 11.6 | 10.8 | 33.8 |

7. Daw'r ffigwr ar gyfer y diffyg cyllidol rhagweledig o bron i £34m o dafluniadau a wnaed o sefyllfaoedd posibl o ran y grant yr ydym yn debygol o dderbyn gan Lywodraeth Cymru a'r chwyddiant a ragwelir ynghyd a'r pwysau sy'n debygol o ddisgyn ar wasanaethau. Yn naturiol, cyfrifiad ar gyfer cynllunio yw hwn a bydd y gwir sefyllfa yn sicr o newid fel yr aiff amser yn ei flaen.

8. Mae'r Cyngor wedi cytuno gyda'r Cabinet y dylid ceisio darganfod y rhan fwyaf o'r bwlch yma drwy geisio darganfod hyd yn oed mwy o arbedion effeithlonrwydd a darganfod ffyrdd o leihau'r galwadau sy'n cael eu gosod arnom.

9. Drwy ddilyn y trywydd yma y gobaith yw y byddwn yn gallu cadw'r lefel o doriadau y bydd yn rhaid eu gosod ar wasanaethau i'r isafswm posibl.

10. Dyma yw sail nifer o'r cynlluniau a nodir o dan y Maes Diwylliant a Threfniadau Busnes y Cyngor yn y Cynllun.

11. Yn amlwg, mae'r gwaith o ddarganfod arbedion am fod yn dasg enfawr ac fe gydnabyddir hyn yn y Cynllun Strategol, ond mae'r Cynllun hefyd yn diffinio ein huchelgais ar gyfer trigolion Gwynedd hyd yn oed o fod mewn hinsawdd ariannol anodd.

12. Bydd modd cyflawni nifer o'r cynlluniau a nodir yn y Cynllun Strategol drwy ddefnyddio adnoddau presennol, ond ar gyfer rhai ohonynt bydd angen buddsoddi er mwyn cyflawni'r uchelgais dan sylw.

13. Eisoes mae'r Cyngor wedi gosod cronfa o'r neilltu yn ei reserfau penodol er mwyn medru ariannu'r elfennau hynny.

14. Gyda'i gilydd felly mae'r strategaeth ariannol a luniwyd ar gyfer y cyfnod i ddod yn gwneud dau beth - sef sicrhau fod gennym gyllideb gytbwys gynaliadwy tra ar yr un pryd yn sicrhau fod gennym yr adnoddau angenrheidiol i wireddu uchelgais y Cyngor ar gyfer ei drigolion drwy'r Cynllun Strategol hwn.